

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

### 01/04/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)  
[Questions to the First Minister](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon](#)  
[Questions to the Minister for Culture and Sport](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)  
[Business Statement and Announcement](#)

[Cynnig i Ethol Aelodau i Bwyllgorau](#)  
[Motion to Elect Members to Committees](#)

[Datganiad: Adolygiad Llywodraeth Cymru o Ganlyniadau TGAU Saesneg Mis Ionawr 2014](#)  
[Statement: The Welsh Government's Review into English GCSE January 2014 Results](#)

[Datganiad: Cynnwyd o ran Sicrhau Twf: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru](#)  
[Statement: Progress towards Delivering Growth, an Action Plan for the Food and Drink Industry in Wales](#)

[Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus \(Diddymu'r Pwyllgor ar Brisio Amaethyddol\) 2014](#)  
[The Public Bodies \(Abolition of the Committee on Agricultural Valuation\) Order 2014](#)

[Cynnig i Gytuno ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Tai \(Cymru\)](#)  
[Motion to Agree the General Principles of the Housing \(Wales\) Bill](#)

[Cynnig i Gytuno ar y Penderfyniad Ariannol mewn perthynas â'r Bil Tai \(Cymru\)](#)  
[Motion to Agree the Financial Resolution in respect of the Housing \(Wales\) Bill](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)  
[Voting Time](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:30 **Cwestiynau i'r Prif Weinidog**

**Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Question 1, OAQ(4)1600(FM), is withdrawn, so we move to question 2.

**Questions to the First Minister**

Tynnwyd cwestiwn 1, OAQ(4)1600(FM), yn ôl, felly symudwn at gwestiwn 2.

**Y** Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Canol Trefi**

**Town Centres**

13:30 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi canol trefi yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1589(FM)

2. Will the First Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to support town centres in west Wales? OAQ(4)1589(FM)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:30 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Dyrannwyd cyllid 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' i Abertawe ac i Gastell-nedd Port Talbot. Rhoddwyd cyllid i ddatblygu ardaloedd gwella busnes yn Llanelli ac yn Aberystwyth, ac mae cronfa benthyciadau canol trefi yn cael ei datblygu hefyd.

Swansea and Neath Port Talbot have been allocated 'Vibrant and Viable Places' funding. Llanelli and Aberystwyth have been provided with funding to develop business improvement districts, and a town-centre loan fund is also under development.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:30 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Brif Weinidog, fel rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno, mae marchnadoedd yn chwarae rhan bwysig yn economi canol ein trefi. Cwrddais â chynrychiolwyr o farchnad Hwlfordd yn ddiweddar sydd, ar hyn o bryd, yn wynebu rhywfaint o ansicrwydd ynghylch dyfodol y farchnad, er bod y farchnad yn darparu swyddi ar gyfer bron i 60 o bobl. Brif Weinidog, o dan yr amgylchiadau, a ydych yn cytuno â fi ei bod yn bwysig diogelu ein marchnadoedd lleol? A allwch chi, felly, amlinellu pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru'n ei ddarparu i fasnachwyr marchnadoedd fel hyn?
- First Minister, as I am sure you would agree, markets play a very important part in our town-centre economies. I met representatives from Haverfordwest market recently who are currently facing some uncertainty about the future of the market there, although it does provide jobs for almost 60 people. First Minister, under these circumstances, do you agree with me that it is important to safeguard our local markets? Can you therefore outline what support the Welsh Government provides to market traders in areas such as this?
- 13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Wrth gwrs, bydd yr Aelod yn gwybod am y datganiad a gafodd ei wneud dros y penwythnos ynglŷn â ardrethi busnesau. Yr wyf yn siŵr y bydd llawer o fusnesau'n elwa o'r datganiad hwnnw yn y dyfodol.
- Of course, the Member will know about the statement that was made over the weekend regarding business rates. I am sure that a number of businesses will benefit from that statement in the future.
- 13:31 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Rwyf finnau'n croesawu'r datganiad a wnaed ddydd Llun ynglŷn â'r ardrethi busnes, a'r arian ychwanegol i helpu busnesau o dan £50,000 o werth. Nid yw hynny, wrth gwrs, yn lle datblygu ardrethi busnes wedi eu datganoli yng Nghymru, a system trethi busnes fydd yn ateb gwir anghenion Cymru. Fodd bynnag, yn y cyfamser, a allwch esbonio, Brif Weinidog, sut y gall yr hyn a gyhoeddodd eich Gweinidog ddydd Llun helpu trefi fel Llanelli, sydd yn wirioneddol ddiodef yn awr o ran peidio â denu busnesau annibynnol i mewn i ganol y dref?
- I welcome the statement made on Monday on business rates and the additional funds to assist businesses with a rateable value under £50,000. That does not, of course, replace the devolution of business rates, and a business rates system that will truly address Welsh needs. In the meantime, First Minister, can you explain how your Minister's announcement on Monday will assist towns such as Llanelli, which are truly suffering by failing to bring independent business into the town centre?
- 13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Mae'n amlwg na fydd yn rhywbeth sy'n datrys pob problem. Problem Llanelli, wrth gwrs, yw bod cymaint o siopau y tu fâs i'r dref, yn enwedig ym Mharc Trostre. Mae hynny wedi bod yn broblem, er enghraifft, ym Mhen-y-bont, lle y dechreuodd hyn, fwy neu lai, yn yr 1980au. Fodd bynnag, yn fy marn i, bydd yn rhwyddach i fusnesau gael eu sefydlu yn y trefi—ac rydym wedi gweld, wrth gwrs, bod cynnydd wedi bod yn nifer y busnesau annibynnol bach yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf. Wrth gwrs, bydd hwn yn rhywbeth y bydd busnesau'n gallu ei ddefnyddio er mwyn ystyried symud mewn i ganol Llanelli yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n rhaid gwneud mwy na hynny, a bydd yn bwysig dros ben bod yr awdurdod sir yn ystyried beth arall y dylid ei wneud i ganol Llanelli er mwyn sicrhau nad yw'r llif mâs o'r dref yn parhau.
- Obviously, it is not something that will solve every problem. The problem with Llanelli, of course, is that there are so many out-of-town shops, especially in Parc Trostre. This has also a problem, for example, in Bridgend, where this began, more or less, in the 1980s. However, in my view, it will be easier for businesses to be established in towns—and we have seen, of course, that there has been an increase in the number of independent small businesses in Wales over the last year. Of course, this is something that businesses will be able to use in order to consider moving into the centre of Llanelli in the future. However, we need to do more, and it will be very important that county councils consider what else should be done to the centre of Llanelli to ensure that the flow out of town does not continue.

## Rôl Menywod yn Economi Cymru

## The Role of Women in the Welsh Economy

- 13:33 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 3. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella rôl menywod yn economi Cymru? OAQ(4)1598(FM)*
- 3. What actions is the Welsh Government taking to improve the role of women in the Welsh economy? OAQ(4)1598(FM)*

- 13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
We are working with key organisations such as Chwarae Teg to increase the number of women accessing business support in Wales, and are encouraging women to start up in business through the business start-up service.
- 13:33 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Thank you. I know that the Welsh Government has long maintained its commitment to using targeted infrastructure investment to deliver jobs and economic growth for Wales. Research that has been carried out by Chwarae Teg suggests that women are significantly outweighed by men in the construction sector and take up less than 2% of apprenticeships, which, it suggests, has largely marginalised women from the employment benefits of infrastructure investment. First Minister, I would welcome your thoughts on this and on the possibility of making tackling this gender imbalance a central aspect of the procurement process.
- 13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
I think that there is certainly a great deal of weight to what the Member says. Looking at construction, for example, I know that the construction sector team is working with the Construction Industry Training Board to develop a funded programme, entitled Construction Futures Wales. That programme will embrace the board's fairness, inclusion and respect agenda. It is complementary to the Be Fair framework, which confirms an organisation's level of commitment in embracing the diversity of the workforce, their customers, and the culturally diverse environment in which they work. Officials are currently assessing tenders as part of the procurement process for the programme, and it is expected that it will formally launch later this month. In addition, of course, equality is promoted through procurement through the application of the principles of the Wales procurement policy statement.
- 13:34 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
First Minister, you will know that the Family and Childcare Trust sadly reports that only 11% of local authorities in Wales provide adequate child care. First Minister, would you lend your influence to trying to make sure that local authorities in Wales exceed this within 12 months? It is clearly a barrier to women progressing.
- Rydym yn gweithio gyda sefydliadau allweddol fel Chwarae Teg i gynyddu nifer y menywod sy'n manteisio ar gymorth busnes yng Nghymru, ac yn annog menywod i ddechrau busnes drwy'r gwasanaeth dechrau busnes.
- Diolch. Gwn fod Llywodraeth Cymru ers amser maith wedi cynnal ei hymrwymiad i ddefnyddio buddsoddiad mewn seilwaith wedi ei dargedu er mwyn darparu swyddi a thwf economaidd i Gymru. Mae gwaith ymchwil a wnaed gan Chwarae Teg yn awgrymu bod nifer sylweddol mwy o ddynion na menywod yn y sector adeiladu a bod llai na 2% o brentisiaethau wedi eu llenwi gan fenywod, sydd, mae'n awgrymu, wedi gwrthio menywod i'r cyrion o ran manteision cyflogaeth a geir drwy fuddsoddi mewn seilwaith. Brif Weinidog, byddwn yn croesawu eich barn ar hyn ac ar y posibilrwydd o sicrhau bod mynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn rhwng y rhywiau yn agwedd ganolog o'r broses gaffael.
- Rwy'n credu'n bendant bod llawer iawn o wirionedd yn yr hyn y mae'r Aelod yn ei ddweud. O edrych ar adeiladu, er enghraifft, rwy'n gwybod bod tîm y sector adeiladu yn gweithio gyda Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu i ddatblygu rhaglen a ariennir, o'r enw Dyfodol Adeiladu Cymru. Bydd y rhaglen honno'n cynnwys agenda tegwch, cynhwysiant a pharch y bwrdd. Mae'n ategu'r fframwaith 'Be Fair', sy'n cadarnhau lefel ymrwymiad sefydliad o ran croesawu amrywiaeth y gweithlu, eu cwsmeriaid, a'r amgylchedd diwylliannol amrywiol y maen nhw'n gweithio ynddo. Mae swyddogion wrthi'n asesu tendrau ar hyn o bryd yn rhan o'r broses gaffael ar gyfer y rhaglen, a disgwylir y bydd yn cael ei lansio'n ffurfiol yn ddiweddarach y mis hwn. Hefyd, wrth gwrs, caiff cydraddoldeb ei hyrwyddo trwy gaffael drwy ddefnyddio egwyddorion datganiad polisi caffael Cymru.

13:35

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

First of all, it is a matter for local authorities, but we as a Government have, through schemes such as Flying Start, been able to ensure that many families are now able to access work, and are able to acquire the parenting skills that they need to enable them to move their families forward. We have shown through Flying Start, through childcare and supporting families in a holistic way, that it is possible to make real differences in people's lives. Of course, as far as local authorities are concerned, they will need to assess their financial position and make decisions according to what they can afford.

Yn gyntaf oll, mater i awdurdodau lleol yw hwn, ond rydym ni fel Llywodraeth, trwy gynlluniau fel Dechrau'n Deg, wedi gallu sicrhau bod llawer o deuluoedd bellach yn gallu cael gafael ar waith, ac yn gallu dysgu'r sgiliau rhianta sydd eu hangen arnynt i'w galluogi i symud eu teuluoedd ymlaen. Rydym ni wedi dangos trwy Dechrau'n Deg, trwy ofal plant a thwy gefnogi teuluoedd mewn ffordd gyfannol, ei bod yn bosibl gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Wrth gwrs, cyn belled ag y mae awdurdodau lleol yn y cwestiwn, bydd angen iddynt asesu eu sefyllfa ariannol a gwneud penderfyniadau yn unol â'r hyn y gallant ei fforddio.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:35

**Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, recent reports clearly show the gender segregation of the Welsh workforce, with four out of five being in gender-segregated jobs. So, over 90% of skilled trade jobs are held by men, with the higher wages that that brings. How successful would you say you have been in attracting women into skilled work?

Brif Weinidog, mae adroddiadau diweddar yn dangos yn eglur arwahanu'r ddau ryw yng ngweithlu Cymru, a bod pedwar o bob pump o unigolion mewn swyddi wedi'u harwahanu ar sail rhyw. Felly, dynion sy'n gwneud dros 90% o swyddi crefftiau medrus, ac yn cael y cyflogau uwch sy'n dod yn sgil hynny. Pa mor llwyddiannus fydddech chi'n ei ddweud yr ydych chi wedi bod o ran denu menywod i waith medrus?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:36

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I have mentioned the construction sector. I can say to the Member that the strategic equality plan contains an objective to address the causes of gender, ethnicity and disability pay and employment differences. However, for example, the Welsh Industrial Development Advisory Board, the board that advises the Minister on large investment projects, is an exemplar within Welsh Government public appointments. The board is made up equally of four male and four female members, with the chair being female. I accept that it will be a little time before we get to a position of true gender balance when it comes to certain of the trades that she has mentioned, given the fact that for many, many years they were traditionally seen as the province of men. Overcoming that in order to create better gender balance will take a little time.

Rwyf wedi sôn am y sector adeiladu. Gallaf ddweud wrth yr Aelod bod y cynllun cydraddoldeb strategol yn cynnwys amcan i fynd i'r afael ag achosion wahaniaethau rhwng cyflogau a chyflogaeth yn ôl rhyw, ethnigrwydd ac anabled. Fodd bynnag, er enghraifft, mae Bwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru, y bwrdd sy'n cynghori'r Gweinidog ar brosiectau buddsoddi mawr, yn esiampl o fewn penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Mae'r bwrdd yn cynnwys nifer cyfartal o bedwar o aelodau gwrywaidd a phedwar aelod benywaidd, a menyw yw'r cadeirydd. Rwy'n derbyn y bydd peth amser cyn i ni gyrraedd sefyllfa o gydbwysedd gwirioneddol rhwng y rhywiau pan ddaw i rai o'r crefftiau y mae hi wedi eu crybwyll, o gofio'r ffaith yr ystyriwyd yn draddodiadol am flynyddoedd lawer mai meysydd i ddynion oedd y rhain. Bydd goresgyn hynny er mwyn datblygu gwell cydbwysedd rhwng y rhywiau yn cymryd peth amser.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:36

**Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, in addition to the construction industry, only 2% of apprenticeships in science-based subjects and technical subjects go to women. Will the Welsh Government consider piloting an ambassador programme to encourage young women to go into technical and science-based apprenticeships, to show them that they can be the rule rather than the exception?

Brif Weinidog, yn ogystal â'r diwydiant adeiladu, dim ond 2% o brentisiaethau mewn pynciau sy'n seiliedig ar wyddoniaeth a phynciau technegol sy'n mynd i fenywod. A wnaiff Llywodraeth Cymru ystyried arbrofi rhaglen cennad i annog menywod ifanc i fynd i mewn i brentisiaethau technegol a seiliedig ar wyddoniaeth, i ddangos iddynt y gall hyn fod yn arferol yn hytrach nag eithriad?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:37

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We have an ambassador in the sense that the chief scientific adviser is female—Professor Julie Williams. She is a fantastic role model for young women who want to pursue science. When it comes to engineering, for example, the engineering education scheme for Wales has specifically targeted young women in terms of them seeing engineering as a skill and a job for them in the future, and the scheme has had some success in encouraging young women particularly into engineering subjects in universities.

Mae gennym gennad yn yr ystyr mai menyw yw'r prif gynghorydd gwyddonol—yr Athro Julie Williams. Mae hi'n esiampl wych i ferched ifanc sydd eisiau dilyn gyrfa mewn gwyddoniaeth. Pan ddaw i beirianneg, er enghraifft, mae'r cynllun addysg peirianneg ar gyfer Cymru wedi targedu merched ifanc yn benodol o'r safbwynt eu bod yn ystyried peirianneg fel medr a swydd ar eu cyfer nhw yn y dyfodol, ac mae'r cynllun wedi cael peth llwyddiant o ran annog menywod ifanc yn enwedig i bynciau peirianneg mewn prifysgolion.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau**

**Questions Without Notice from the Party Leaders**

13:37

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to questions from the party leaders. First this afternoon is the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau. Arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies, sydd gyntaf y prynhawn yma.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

First Minister, I note that, in your week up in Llandudno, one of the jewels of the Welsh tourist crown I might add, you said to your party conference:

'we hold up our hands and say, yes we could have done better'

when talking about waiting lists. Two months ago, you said about the western European league table on educational attainment levels 'we took our eye off the ball', when you were responding to our appalling performance in those league tables. You also told your conference that, for too long, the education system in this country has coasted. Do you not recognise that Labour has been in Government for 15 years?

Brif Weinidog, sylwaf, yn ystod eich wythnos i fyny yn Llandudno, un o berlau Twristiaeth Cymru mae'n rhaid i mi ddweud, eich bod wedi dweud wrth gynhadledd eich plaid:

rydym yn rhoi ein dwylo i fyny ac yn dweud y gallem ni fod wedi gwneud yn well

wrth sôn am restrau aros. Ddau fis yn ôl, dywedasoch yng nghyswllt tabl gorllewin Ewrop ar lefelau cyrhaeddiad addysgol eich bod wedi symud eich llygad oddi ar y bêl, pan yr oeddech chi'n ymateb i'n perfformiad sobr yn y tablau hynny. Dywedasoch wrth eich cynhadledd hefyd bod y system addysg yn y wlad hon wedi llaesu dwylo ers gormod o amser. Onid ydych chi'n cydnabod bod Llafur wedi bod mewn Llywodraeth am 15 mlynedd?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, I have to say to the leader of the opposition that I was there for a weekend, not for a week, just to correct him on that, and at least we went there and supported Llandudno, unlike his party, which did not support the jewel in the crown of Welsh tourism. We take a very different view in that regard. I have said many times that I think it is important to be open about the challenges that we face in Wales, and I did exactly that. I also made reference to the fact that we have seen an unconscionable number of taxes on Wales from his party in London, and it is fair to say that we have seen the beginning of a Tory war on Wales.

Wel, mae'n rhaid i mi ddweud wrth arweinydd yr wrthblaid fy mod i yno am benwythnos, nid am wythnos, dim ond i'w gywiro yn hynny o beth, ac aethom ni yno a chefnogi Llandudno o leiaf, yn wahanol i'w blaid ef, na chefnogodd perll twristiaeth Cymru. Mae gennym safbwynt gwahanol iawn yn hynny o beth. Rwyf wedi dweud lawer gwaith fy mod yn credu ei bod yn bwysig bod yn agored am yr heriau sy'n ein hwynebu yng Nghymru, a gwneuthum yn union hynny. Cyfeiriais hefyd at y ffaith ein bod wedi gweld nifer afresymol o drethi ar Gymru gan ei blaid ef yn Llundain, ac mae'n deg dweud ein bod wedi gweld dechrau rhyfel Toriaidd ar Gymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:39 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As usual, the First Minister is trying to detract from genuine scrutiny of his and his party's appalling record in Wales. Ultimately, you did accept that failure at your conference last week, but it seems that time and time again, you fail to accept that responsibility here in the Chamber. However, what was good to see coming out of your conference last week was Ed Miliband acknowledging in his interview with the BBC that Ann Clwyd did have genuine concerns about the Welsh NHS. Do you now accept that her concerns should be taken seriously by your Government?

Yn ôl yr arfer, mae'r Prif Weinidog yn ceisio bychanu craffu dilys ar hanes echrydus ef a'i blaid yng Nghymru. Yn y pen draw, derbyniwyd y methiant hwnnw gennych yn eich cynhadledd yr wythnos diwethaf, ond mae'n ymddangos eich bod yn methu â derbyn y cyfrifoldeb hwnnw dro ar ôl tro yma yn y Siambr. Fodd bynnag, yr hyn yr oedd yn dda ei weld yn dod allan o'ch cynhadledd yr wythnos diwethaf oedd Ed Miliband yn cydnabod yn ei gyfweiliad gyda'r BBC bod gan Ann Clwyd bryderon dilys am y GIG yng Nghymru. A ydych chi'n derbyn bellach y dylai eich Llywodraeth gymryd ei phryderon o ddifrif?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:39 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I am impressed that the leader of the opposition spent so much of his weekend watching the Welsh Labour conference; I hope that he picked up some tips and some sense, indeed, from the conference. He asked a question about Ann Clwyd. Let me say this: Ann's concerns have been taken seriously, and that has been evidenced by the fact that she has met the Minister for Health and Social Services on more than one occasion. She has met me as well. She is perfectly entitled to have her concerns investigated. She is perfectly entitled to have her concerns aired publicly. However, in order for the full picture to be known, the full report regarding her husband's care must be published, because I have been contacted by nurses who work at the University Hospital of Wales who are concerned that they are not able to put their side of the story. I think that in order for there to be fair play for all round—including Ann, including her husband and including those who work there—the full report has to be published.

Mae'n drawiadol bod arweinydd yr wrthblaid wedi treulio cymaint o'i benwythnos yn gwyllo cynhadledd Llafur Cymru; rwy'n gobeithio ei fod wedi cael rhywfaint o arweiniad a rhywfaint o synnwyr, yn wir, o'r gynhadledd. Gofynnodd gwestiwn am Ann Clwyd. Gadewch i mi ddweud hyn: mae pryderon Ann wedi cael eu cymryd o ddifrif, a cheir tystiolaeth o hynny yn y ffaith ei bod wedi cyfarfod â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar fwy nag un achlysur. Mae hi wedi cyfarfod â minnau hefyd. Mae ganddi berffaith hawl i'w phryderon gael ei hymchwilio. Mae ganddi berffaith hawl i gael cyhoedduswydd i'w phryderon. Fodd bynnag, er mwyn cael y darlun llawn, mae'n rhaid i'r adroddiad llawn ar ofal ei gwŵr gael ei gyhoeddi, oherwydd mae nyrsys sy'n gweithio yn Ysbyty Athrofaol Cymru wedi cysylltu â mi sy'n poeni nad ydynt yn cael rhoi eu hochr nhw o'r stori. Rwy'n credu, er mwyn cael chwarae teg i bawb—gan gynnwys Ann, gan gynnwys ei gwŵr a chan gynnwys y rhai sy'n gweithio yno—mae'n rhaid i'r adroddiad llawn gael ei gyhoeddi.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:40 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased to see a more measured response today, but, ultimately, your party last week blocked the ability for Ann Clwyd to come before the Health and Social Care Committee in the Assembly and present whatever evidence she had. Surely this institution is the place for that evidence to come, so that Members can scrutinise it, or is it the case that the reason you admit failure at your party conference is that your MPs and party members know about the failures that your Government has inflicted on Wales, while your Members here are too ashamed to admit it? Why the Jekyll and Hyde, First Minister? A bit of honesty would not go amiss.

Rwy'n falch o weld ymateb mwy pwylllog heddiw, ond, yn y pen draw, rhwystrodd eich plaid Ann Clwyd yr wythnos diwethaf rhag cael dod gerbron y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y Cynulliad a chyflwyno pa bynnag dystiolaeth oedd ganddi. Siawns mai'r sefydliad hwn yw'r lle i'r dystiolaeth honno ddod, fel y gall Aelodau graffu arni, neu a yw'n wir mai'r rheswm yr ydych chi'n cyfaddef methiant yng nghynhadledd eich plaid yw bod eich ASau ac aelodau eich plaid yn gwybod am y methiannau y mae eich Llywodraeth wedi eu gorfodi ar Gymru, tra bod gormod o gywilydd ar eich Aelodau yma i gyfaddef hynny? Pam y Jekyll a Hyde, Brif Weinidog? Mae'n bryd cael rhywfaint o onestrwydd.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:41 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Ann was given a remit to look at the health service in England. Therefore, it is in that direction that responsibility lies. Let us talk about honesty. Let us talk about the utter failure of the Conservative benches to stand up for Wales on electrification. Let us talk about that. Let us talk about the fact that the reason why—as we know on these benches—Conservative central office is briefing against Wales is because it believes that the Conservative benches here are too feeble to actually scrutinise here. That is why it is doing it. If I was in the leader of the opposition's position, I would not be too happy to know that there are those in London who take the view that he is too inept to scrutinise here and, therefore, they must do it for him. I come back to the point about electrification. The Prime Minister said that the UK Government was putting in the money to electrify the line to Swansea and to electrify the Valleys lines. [Interruption.] Of course, the Valleys lines. If we are going to talk about failure, then we need to look no further than the abject failure on the Tory benches. [Interruption.]
- Rhodddwyd cylch gwaith i Ann edrych ar y gwasanaeth iechyd yn Lloegr. Felly, yn y cyfeiriad hwnnw y ceir y cyfrifoldeb. Gadewch i ni siarad am onestrwydd. Gadewch i ni siarad am fethiant llwyr meinciau'r Ceidwadwyr i sefyll dros Gymru ar drydaneiddio. Gadewch i ni siarad am hynny. Gadewch i ni siarad am y ffaith mai'r rheswm pam—fel y gwyddom ar y meinciau hyn—mae swyddfa ganolog y Ceidwadwyr yn briffio yn erbyn Cymru yw oherwydd ei bod yn credu bod y meinciau Ceidwadol yma yn rhy wan i graffu yma. Dyna pam mae'n gwneud hynny. Pe bawn i yn sefyllfa arweinydd yr wrthblaid, ni fyddwn yn rhy hapus o wybod y ceir rhai yn Llundain sydd o'r farn nad yw'n ddigon galluog i graffu yma ac, felly, bod yn rhaid iddyn nhw wneud hynny ar ei ran. Rwy'n dod yn ôl at y pwynt am drydaneiddio. Dywedodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth y DU yn cyfrannu'r arian ar gyfer trydaneiddio'r rheilffordd i Abertawe ac i drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd. [Torri ar draws.] Wrth gwrs, rheilffyrdd y Cymoedd. Os ydym ni'n mynd i siarad am fethiant, yna nid oes angen i ni edrych ymhellach na'r methiant llwyr ar feinciau'r Torriaid. [Torri ar draws.]
- 13:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I think your question time is finished, Andrew R.T. Davies. We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood. Rwy'n meddwl bod eich amser cwestiwn wedi dod i ben, Andrew R.T. Davies. Symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.
- 13:42 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*
- Last week, the First Minister revealed a new way of side-stepping questions. He avoided answering by asking an apparently rhetorical question. Would it not be good if the First Minister could end the term today, this week, by having the courage to face his responsibilities? In that spirit, perhaps the First Minister will, on this occasion, be prepared to give us a straight 'yes' or 'no' answer. Last week, he said that Ann Clwyd had produced no evidence or facts. This week, he appears to be rolling back on that. Does that mean that Ann Clwyd will now have the First Minister's blessing to give evidence to our health committee? Yr wythnos diwethaf, datgelodd y Prif Weinidog ffordd newydd o ochrgamu cwestiynau. Fe wnaeth osgoi ateb trwy ofyn cwestiwn rhethregol yn ôl pob golwg. Oni fyddai'n dda pe gallai'r Prif Weinidog orffen y tymor heddiw, yr wythnos hon, trwy fod yn ddigon dewr i wynebu ei gyfrifoldebau? Yn yr ysbryd hwnnw, efallai y bydd y Prif Weinidog yn barod, ar yr achlysur hwn, i roi ateb cadarnhaol neu negyddol pendant i ni. Dywedodd yr wythnos diwethaf nad oedd Ann Clwyd wedi cyflwyno unrhyw dystiolaeth na ffeithiau. Yr wythnos hon, mae'n ymddangos ei fod wedi newid ei feddwl am hynny. A yw hynny'n golygu y bydd gan Ann Clwyd fendith y Prif Weinidog i roi dystiolaeth i'n pwyllgor iechyd bellach?
- 13:43 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*
- It is not for me to give my view on what the health committee should do. It is an independent committee. I have to say that what I have said about Ann's position is no different from last week. I would like to know, of course, whether the views of the nurses as well are to be taken into account. I believe that they should. I do not want to answer a question with a question, but I would love to know her views on that. Nid fy lle i yw rhoi fy marn ar yr hyn y dylai'r pwyllgor iechyd ei wneud. Mae'n bwyllgor annibynnol. Mae'n rhaid i mi ddweud nad yw'r hyn yr wyf wedi ei ddweud am sefyllfa Ann yn wahanol i'r wythnos diwethaf. Hoffwn wybod, wrth gwrs, a yw barn y nyrsys am gael ei chymryd i ystyriaeth hefyd. Rwy'n credu y dylai. Nid wyf eisiau ateb cwestiwn gyda chwestiwn, ond byddwn wrth fy modd yn cael gwybod ei barn ar hynny.
- 13:43 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- No straight answer yet again this week. Perhaps we were hoping for a bit too much. [Interruption.] Dim ateb pendant unwaith eto yr wythnos hon. Efallai ein bod yn gobeithio am braidd yn ormod. [Torri ar draws.]

- 13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Order. Alun Davies, I am serious about order. It is the First Minister that is answering questions, not you. Trefn. Alun Davies, rwyf o ddirif ynghylch trefn. Y Prif Weinidog sy'n ateb cwestiynau, nid chi.
- 13:43 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The First Minister's flippancy on this question is embarrassing. When is he going to take responsibility? Welsh Government statistics last week showed that Glangwili hospital has a mortality rate over 37% higher than should be expected. The same statistics showed that Neath Port Talbot Hospital's rate was over 28% higher than would be expected. Can the First Minister tell us why the mortality rates in these two hospitals are so high, higher than expected? Mae anystyriaeth y Prif Weinidog ar y cwestiwn hwn yn codi cywilydd. Pryd mae e'n mynd i gymryd cyfrifoldeb? Dangosodd ystadegau Llywodraeth Cymru yr wythnos diwethaf bod gan ysbyty Glangwili gyfradd marwolaethau dros 37% yn uwch nag y dylid ei disgwyl. Dangosodd yr un ystadegau bod cyfradd Ysbyty Castell-nedd Port Talbot dros 28% yn uwch na'r disgwyl. A all y Prif Weinidog ddweud wrthym pam mae'r cyfraddau marwolaethau yn y ddau ysbyty yma mor uchel, yn uwch na'r disgwyl?
- 13:44 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Well, the Minister for health gave an answer on that last week. We do know—the 'The Telegraph' said it three days ago—that, in England, people are not being counted. The figures are being fiddled, that is what 'The Telegraph' said. So, in terms of the comparison, that comparison cannot be made. As far as the leader of Plaid Cymru is concerned, I say this to her: I think it is absolutely crucial, when it comes to the situation regarding Ann and the treatment of her husband, that the full facts are made known. I think it is important that the nurses are able to put their side of the story and that there can be full transparency—full transparency—as far as she and the staff are concerned. I hope that you will be able to agree that that is the fairest way forward. Wel, rhoddodd y Gweinidog iechyd ateb ar hynny yr wythnos diwethaf. Rydym yn gwybod—dywedodd 'The Telegraph' hynny dri diwrnod yn ôl—nad yw pobl yn cael eu cyfrif yn Lloegr. Mae'r ffigurau yn cael eu haddasu, dyna ddywedodd 'The Telegraph'. Felly, o ran y gymhariaeth, ni ellir gwneud y gymhariaeth honno. Cyn belled ag y mae arweinydd Plaid Cymru yn y cwestiwn, rwy'n dweud hyn wrthi: rwy'n credu ei bod yn gwbl hanfodol, pan ddaw i sefyllfa Ann a thriniaeth ei gŵr, bod y ffeithiau llawn yn cael eu gwneud yn hysbys. Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod y nyrsys yn cael rhoi eu hochr nhw o'r stori ac y gellir cael tryloywder llawn—tryloywder llawn—o'i safbwynt hi ac aelodau'r staff. Rwy'n gobeithio y byddwch yn gallu cytuno mai dyna'r ffordd decaf ymlaen.
- 13:45 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, your answer is absolutely astounding. These are your own figures. I am not comparing this with England or anywhere else. One of the crucial questions that came out of the Mid Staffs situation is that figures like this should act as an alarm. When an alarm sounds, there should at least be some sort of investigation. These mortality figures place Glangwili in the same bracket as Mid Staffs. Given this, will he now send Healthcare Inspectorate Wales into Glangwili and Neath Port Talbot this week to investigate and produce an explanation for these alarming statistics, or is he going to bury his head in the sand and continue to deny that there is a problem? Brif Weinidog, mae eich ateb yn gwbl syfrdanol. Eich ffigurau eich hun yw'r rhain. Nid wyf yn cymharu hyn â Lloegr nac unrhyw le arall. Un o'r cwestiynau allweddol a ddaeth allan o sefyllfa Canol Swydd Stafford yw y dylai ffigurau fel hyn weithredu fel rhybudd. Pan fydd rhybudd yn cael ei roi, dylid cael rhyw fath o ymchwiliad o leiaf. Mae'r ffigurau marwolaethau hyn yn rhoi Glangwili yn yr un dosbarth â Chanol Swydd Stafford. O ystyried hyn, a wnaiff ef anfon Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i Langwili a Chastell-nedd Port Talbot yr wythnos hon i ymchwilio a chyflwyno esboniad am yr ystadegau brawychus hyn, neu a yw'n mynd i gladdu ei ben yn y tywod a pharhau i wadu bod yna blem?
- 13:46 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- I do deplore the attack on Glangwili and its staff, I must say. I do deplore that. I also think that it is unbelievable that I have offered the leader of Plaid Cymru the opportunity to support full transparency when it comes to the treatment of Ann's husband and she has failed to do that. The nurses at UHW will note what she has said, as, indeed, will Ann, I am sure—[Interruption.]— Rwy'n gresynu'r ymosodiad ar Langwili a'i aelodau staff, mae'n rhaid i mi ddweud. Rwyf yn gresynu hynny. Rwyf hefyd yn credu ei bod yn anghredadwy fy mod i wedi cynnig cyfle i arweinydd Plaid Cymru gefnogi tryloywder llawn wrth ystyried triniaeth gŵr Ann a'i bod wedi methu â gwneud hynny. Bydd y nyrsys yn Ysbyty Athrofaol Cymru yn nodi'r hyn y mae wedi ei ddweud, fel, yn wir, y bydd Ann, rwy'n siŵr—[Torri ar draws.]—
- 13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Order. Trefn.



- 13:46 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
So, she cannot preach about transparency when she is not prepared to support it in all circumstances. As I said, the Minister for health—[Interruption.] The leader of Plaid Cymru has had her opportunity. I know that she does not like to deviate from the script. She has had her opportunity, but as far as Glangwili is concerned, the Minister for health has given his views with regard to mortality data. It is right to say that, where there are issues, we deal with those issues. It is right to say that, when there are issues of mortality data that need to be investigated, they will be investigated. The Minister for health has said that. So, I do not understand the leader of Plaid Cymru when she says that no answer has been given. There are many allegations that could be made against us by the opposition parties. I do not think that lack of transparency is one of them. We have said many, many times, as has the health Minister, that where there are problems they will be dealt with. We will not seek endlessly to blame another country as she is doing and as the Tories have done.
- Felly, ni all bregethu am dryloywder pan nad yw'n barod i'w gefnogi bob amser. Fel y dywedais, mae'r Gweinidog iechyd —[Torri ar draws.] Mae arweinydd Plaid Cymru wedi cael ei chyfle. Gwn nad yw'n hoffi gwyro oddi wrth y sgript. Mae hi wedi cael ei chyfle, ond cyn belled ag y mae Glangwili yn y cwestiwn, mae'r Gweinidog iechyd wedi rhoi ei farn o ran data marwolaethau. Mae'n iawn i ddweud, lle ceir problemau, ein bod yn ymdrin â'r problemau hynny. Mae'n iawn i ddweud, lle ceir problemau yn ymwneud â data marwolaethau y mae angen ymchwilio iddynt, y byddant yn cael eu hymchwilio. Mae'r Gweinidog iechyd wedi dweud hynny. Felly, nid wyf yn deall arweinydd Plaid Cymru pan ei bod yn dweud nad oes ateb wedi ei roi. Ceir nifer o honiadau y gellid eu gwneud yn ein herbyn gan y gwrthbleidiau. Nid wyf yn credu bod diffyg tryloywder yn un ohonynt. Rydym ni wedi dweud lawer, lawer gwaith, fel y mae'r Gweinidog iechyd, pan fo problemau yn bodoli byddant yn cael ei datrys. Ni fyddwn yn ceisio rhoi bai'n ddiddiwedd ar wlad arall fel y mae hi'n ei wneud ac fel y mae'r Toriaid wedi ei wneud.
- 13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams. Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.
- 13:47 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*  
First Minister, could you tell the Assembly how much public subsidy was afforded to each passenger who used the north-south air link last year? Brif Weinidog, a allech chi ddweud wrth y Cynulliad faint o gymhorthdal cyhoeddus a roddwyd i bob teithiwr a ddefnyddiodd y cyswllt awyr rhwng y gogledd a'r de y flwyddyn diwethaf?
- 13:47 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
It is a considerable amount of subsidy. It is over £100 a year—that much is true—and it is important that we make sure that more people use the service in future. Mae'n swm sylweddol o gymhorthdal. Mae dros £100 y flwyddyn—mae cymaint â hynny'n wir—ac mae'n bwysig ein bod yn gwneud yn siŵr bod mwy o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth yn y dyfodol.
- 13:47 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
First Minister, between 2010 and 2013, the subsidy for the air link has increased by nearly 40%. At the same time, the number of passengers using the service has slumped by almost half. When was the last time your Government carried out a cost-benefit analysis to ensure that the air link is providing value for public money? Brif Weinidog, rhwng 2010 a 2013, mae'r cymhorthdal ar gyfer y cyswllt awyr wedi cynyddu bron i 40%. Ar yr un pryd, mae nifer y teithwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi gostwng bron i hanner. Pryd oedd y tro diwethaf i'ch Llywodraeth gynnal dadansoddiad cost a budd er mwyn sicrhau bod y cyswllt awyr yn cynnig gwerth am arian cyhoeddus?
- 13:48 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
We always look at the services that we subsidise in order to see whether they provide value for money and it is important, of course, that we do what we can to make it as easy as possible for people to travel north-south in our country. That is something that I believe that the north-south air link does. Rydym bob amser yn edrych ar y gwasanaethau yr ydym ni'n rhoi cymhorthdal iddynt er mwyn gweld a ydynt yn cynnig gwerth am arian ac mae'n bwysig, wrth gwrs, ein bod yn gwneud yr hyn a allwn i'w gwneud mor hawdd â phosibl i bobl deithio o'r gogledd i'r de yn ein gwlad. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn credu bod y cyswllt awyr rhwng y gogledd a'r de yn ei wneud.

13:48

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, that is a very interesting definition of 'always', because the last time your Government carried out such a cost-benefit analysis was in 2008, when passenger numbers were twice what they are now. Since 2011, nearly 100 bus routes have been axed across Wales because they needed public subsidy, sometimes by as much as £2 or £3 per person. Could you explain to the Chamber why you are willing to prioritise spending £184 per passenger on a service that carries fewer than 200 people a week, when up and down the country people are facing isolation, often in our poorest communities, because you are cutting the funding for bus services that are subsidised by £2 or £3?

Wel, mae hwnnw'n ddiffiniad diddorol iawn o 'bob amser', gan mai 2008 oedd y tro diwethaf y cynhaliodd eich Llywodraeth ddadansoddiad cost a budd o'r fath, pan roedd nifer y teithwyr ddwywaith yn fwy nag y mae yn awr. Ers 2011, cafwyd gwared ar bron i 100 o lwybrau bysiau ledled Cymru oherwydd bod angen cymhorthdal cyhoeddus arnynt, weithiau o gymaint â £2 neu £3 y pen. A allech chi egluro i'r Siambr pam yr ydych chi'n fodlon blaenoriaethu gwario £184 y teithiwr ar wasanaeth sy'n cludo llai na 200 o bobl yr wythnos, pan fo pobl yn cael eu hynysu ar hyd a lled y wlad, yn aml yn ein cymunedau tlotaf, oherwydd eich bod yn torri'r cyllid i wasanaethau bws sy'n cael cymhorthdal o £2 neu £3?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We believe that the subsidies that have been made available for the bus service operators grant are certainly subsidies that can be justified and that they are enough. We have free bus passes, which do not exist to the same extent in England. However, what the leader of the Lib Dems is saying is that she wants to stop the north-south air route, make redundant those who work at Ynys Môn airport and close down Ynys Môn airport. Now, she should have the courage to say that if that is indeed what she thinks. I do not think that her party has the best record when it comes to transport. We all saw her own party slavishly support the Conservatives on electrification, and her own party leader said to me in London last week, 'Of course, the main line does not run between Bridgend and Cardiff'. That is the level of understanding that we have, not just among the Tories—we expect no favours from the Tories for Wales at all, of course—but there is absolutely no understanding of any transport issues from the Lib Dems either.

Rydym yn credu bod y cymorthdaliadau sydd wedi eu rhoi ar gael ar gyfer y grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau yn sicr yn gymorthdaliadau y gellir eu cyfiawnhau a'u bod yn ddigonol. Mae gennym docynnau bws am ddim, nad ydynt yn bodoli i'r un graddau yn Lloegr. Fodd bynnag, yr hyn y mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn ei ddweud yw ei bod eisiau rhoi terfyn ar y llwybr awyr o'r gogledd i'r de, dileu swyddi'r rhai sy'n gweithio ym maes awyr Ynys Môn a chau maes awyr Ynys Môn. Nawr, dylai fod yn ddigon dewr i ddweud hynny os mai dyna'n wir yw ei barn. Nid wyf yn credu bod yr hanes gorau gan ei phlaid o ran gludiant. Gwelodd pob un ohonom ni ei phlaid ei hun yn cefnogi'r Ceidwadwyr yn slafaidd ar drydaneiddio, a dywedodd arweinydd ei phlaid ei hun wrthyf yn Llundain yr wythnos diwethaf, 'Wrth gwrs, nid yw'r brif reilffordd yn rhedeg rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd'. Dyna lefel y ddealltwriaeth sydd gennym, nid yn unig ymhlith y Toriaid—nid ydym yn disgwyl unrhyw ffafrau gan y Toriaid i Gymru o gwbl, wrth gwrs—ond nid oes gan y Democratiaid Rhyddfrydol unrhyw ddealltwriaeth o gwbl o unrhyw faterion cludiant ychwaith.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:50

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move back to the questions on the paper.

Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur nawr.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Pobl â Dementia**

**Dementia Sufferers**

13:50

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*4. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cymorth Llywodraeth Cymru i bobl â dementia yng Nghymru? OAQ(4)1602(FM)*

*4. Will the First Minister outline Welsh Government support for dementia sufferers in Wales? OAQ(4)1602(FM)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:50

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Dementia is a very distressing condition, not just for those who suffer from it, but for those who live with them, around them and are trying to help them as they deal with their condition. I can say that 'Together for Mental Health' confirms the importance of improved care, information and support for those with dementia. Action has been taken, and will continue to be taken, to drive up standards of care.

Mae dementia yn gyflwr sy'n peri pryder mawr iawn, nid yn unig i'r rhai sy'n dioddef ohono, ond i'r rhai sy'n byw gyda nhw, sydd o'u cwmpas ac yn ceisio eu helpu wrth iddyn nhw ymdopi â'u cyflwr. Gallaf ddweud bod 'Law yn Llaw at lechyd Meddwl' yn cadarnhau pwysigrwydd gwell gofal, gwybodaeth a chefnogaeth i'r rhai sydd â dementia. Mae camau wedi eu cymryd, a byddant yn parhau i gael eu cymryd, i godi safonau gofal.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:50 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Earlier this month, I chaired a session at the annual RESEC Cymru—Research in Specialist Elderly Care—and NEURODEM Cymru—Wales Dementias and Neurodegenerative Diseases Research Network—conference in Bangor. I know that the First Minister has had dealings with both organisations in the past. I think that you spoke at the conference in 2009. Concern was highlighted in discussion over what is going to happen to the research network from 2015. Will you therefore ensure that early attention is given to that so that sustainable plans are in place well ahead of the current funding round coming to an end?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch. Yn gynharach y mis hwn, cadeiriais sesiwn yng nghynhadledd flynyddol RESEC Cymru— Research in Specialist Elderly Care—a NEURODEM Cymru— Rhwydwaith Ymchwil yng Nghymru ar Ddementiaïau a Chlefydau Niwro-ddirywiol—ym Mangor. Gwn fod y Prif Weinidog wedi ymdrin â'r dda sefydliad yn y gorffennol. Rwy'n credu eich bod wedi siarad yn y gynhadledd yn 2009. Amlygwyd pryder mewn trafodaethau am yr hyn sy'n mynd i ddigwydd i'r rhwydwaith ymchwil o 2015. A wnewch chi sicrhau felly y rhoddir sylw cynnar i hynny fel bod cynlluniau cynaliadwy ar waith ymhell cyn i'r cyfnod ariannu presennol ddod i ben?

13:51 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

These are issues that we must, of course, address very seriously in the future. We expect that the number of dementia sufferers will increase in years to come as the population gets older. You will know that the Minister is particularly supportive of the Dementia Friends scheme, he attended the launch of the scheme, he has been seen wearing his Dementia Friends badge on television interviews and, of course, funding of £50,000 has been awarded to the campaign. The campaign reflects our philosophy that involving users and carers in every aspect of their treatment is fundamental to securing the most comfortable outcome for people when dealing with an illness that is so difficult for so many people.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'r rhain yn faterion y mae'n rhaid i ni, wrth gwrs, fynd i'r afael â nhw o ddifrif yn y dyfodol. Rydym yn disgwyl y bydd nifer o bobl sy'n dioddef o ddementia yn cynyddu yn y blynyddoedd i ddod wrth i'r boblogaeth heneiddio. Byddwch yn gwybod bod y Gweinidog yn arbennig o gefnogol i'r cynllun Cyfeillion Dementia, roedd yn bresennol yn lansiad y cynllun, fe'i gwelwyd yn gwisgo ei fathodyn Cyfeillion Dementia mewn cyfweiliadau teledu ac, wrth gwrs, dyfarnwyd cyllid o £50,000 i'r ymgyrch. Mae'r ymgyrch yn adlewyrchu ein hathroniaeth bod cynnwys defnyddwyr a gofalwyr ym mhob agwedd ar eu triniaeth yn hanfodol i sicrhau'r canlyniad mwyaf cyfforddus i bobl wrth ymdrin â salwch sydd mor anodd i gynifer o bobl.

13:52 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, it is possible to live well with dementia, but, of course, that relies on you living in the right place with the right support, and long-term stays in hospitals do not fit that bill. How is the Welsh Government ensuring that there are sufficient numbers of elderly mentally infirm nursing beds right across Wales to ensure that people do not have to endure long, extended stays in hospitals, because it is not in their best interest?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, mae'n bosibl byw'n dda gyda dementia, ond, wrth gwrs, mae hynny'n dibynnu ar y ffaith eich bod chi'n byw yn y lle iawn gyda'r cymorth cywir, ac nid yw arosiadau hirdymor mewn ysbytai yn briodol o ran hynny. Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod niferoedd digonol o welyau nyrsio ar gael i'r henoed eiddil eu meddwl ledled Cymru er mwyn sicrhau nad oes rhaid i bobl ddiodeff arosiadau hir, estynedig mewn ysbytai, oherwydd nid yw hynny er eu lles gorau?

13:52 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We would prefer people with dementia to live in the community, rather than being confined to hospitals. For some people, of course, that is not possible, but, nevertheless, I think that that is the best way. We know that, with dementia, people are less confused when they are in an environment that they have been familiar with for some time. It is important that, where people are able to, they can live at home in an environment that they are familiar with. That certainly helps them as individuals.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Byddai'n well gennym i bobl â dementia fyw yn y gymuned, yn hytrach na chael eu cyfyngu i ysbytai. I rai pobl, wrth gwrs, nid yw hynny'n bosibl, ond, serch hynny, rwy'n meddwl mai dyna'r ffordd orau. Rydym yn gwybod, gyda dementia, bod pobl yn llai dryslyd pan fyddant mewn amgylchedd y maen nhw wedi bod yn gyfarwydd ag ef ers cryn amser. Mae'n bwysig, lle mae pobl yn gallu, eu bod yn cael byw gartref mewn amgylchedd y maen nhw'n gyfarwydd ag ef. Mae hynny'n sicr yn eu helpu nhw fel unigolion.

As for how we want to move forward with this, we have the 1000 Lives Plus methodology. Among the targets in that methodology are, for example, the improvement of care of individuals in the general hospital setting and in in-patient units, reducing lengths of stay and also, importantly, reducing the inappropriate use of antipsychotic medications in accordance with National Institute for Health and Care Excellence guidelines. It is about getting the balance right. We know that, historically, in the health service, there was, for many years, an emphasis on putting people in hospital for treatment. Now, of course, we live in an age where making sure that people are able to live in their homes and in their communities is more of a priority, and we must make sure that we get the balance right.

O ran sut yr ydym ni eisiau bwrw ymlaen â hyn, mae gennym ddull 1000 o Fwydau a Mwy. Ymhlith y targedau yn y dull hwnnw, er enghraifft, ceir gwella gofal i unigolion yn yr amgylchedd ysbwy cyffredinol ac mewn unedau cleifion mewnol, gan leihau hyd arosiadau a hefyd, yn bwysig, lleihau'r defnydd amhriodol o feddyginiaethau gwrthseicotig yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. Cael y cydbwysedd yn iawn yw'r nod. Rydym yn gwybod, yn hanesyddol, yn y gwasanaeth iechyd, y bu pwyslais am flynyddoedd lawer ar roi pobl yn yr ysbwy i gael triniaeth. Nawr, wrth gwrs, rydym ni'n byw mewn oes lle mae gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu byw yn eu cartrefi ac yn eu cymunedau yn fwy o flaenoriaeth, ac mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn cael y cydbwysedd yn iawn.

13:53 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, mae diffyg gwasanaethau ar gyfer pobl ifancach sydd yn dioddef o ddementia, pobl dan 60 oed, ac mae anghenion penodol iawn gan y grŵp hwn o bobl. A wnewch chi fel Llywodraeth roi mwy o arweiniad i fyrdau iechyd ac awdurdodau lleol ynglŷn â sut y gallant gydlynw gwasanaethau yn well i gwrdd ag anghenion y grŵp penodol hwn o bobl?

First Minister, there is a shortage of services for younger people suffering from dementia, those under the age of 60, and that group has very specific needs. Will you as a Government give more guidance to health boards and local authorities as to how they can co-ordinate services better to meet the needs of this specific group of people?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:53 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'n bwysig dros ben ac, wrth gwrs, rwy'n dod yn ôl i '1000 Lives Plus' a hefyd 'intelligent targets' sydd wedi dangos y ffordd ymlaen ynglŷn â phawb sydd yn dioddef o ddementia. Y tueddiad, fel rheol, yw os mae rhywun yn cael dementia yn ifancach, nid ydyn nhw'n byw mor hir. Mae'r rheini sydd yn cael dementia yn hynach yn tueddu i fyw yn hirach ac mae lot mwy o waith wedi cael ei wneud er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cael gofal. Felly, byddwn i'n erfyn i bob bwrdd iechyd ystyried anghenion rhywun â dementia, beth bynnag yw eu hoedran nhw.

It is very important and, of course, I come back to 1000 Lives Plus and also intelligent targets that have shown the way forward in terms of everybody who suffers from dementia. The tendency, as a rule, if people get dementia when they are younger, they do not live as long. Those who get dementia when they are older tend to live longer and a lot more work has been done to ensure that they have care. So, I would expect every health board to consider the needs of someone with dementia, whatever their age.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## Coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf

## First World War Commemorations

13:54 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*5. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddiwyddiadau i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru? OAQ(4)1597(FM)*

*5. Will the First Minister provide an update on First World War commemorations in Wales? OAQ(4)1597(FM)*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:54 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The centenary commemoration in Wales is developing a full and varied programme under the leadership of Sir Deian Hopkin and his board. Full details are available on the Cymru'n Cofio, Wales Remembers website.

Mae coffáu'r canmlwyddiant yng Nghymru yn datblygu rhaglen lawn ac amrywiol dan arweiniad Syr Deian Hopkin a'i fwrdd. Mae manylion llawn ar gael ar wefan Cymru'n Cofio, Wales Remembers.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:54 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, First Minister. In Llantrisant in my constituency, for the last couple of years, they have been carrying out research and now think that they have identified just about everybody who has sacrificed their lives in one war or another, and they intend to establish their own commemoration monument that previously has not existed.

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Yn Llantrisant yn fy etholaeth i, yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, maen nhw wedi bod yn gwneud gwaith ymchwil ac yn credu bellach eu bod fwy neu lai wedi nodi pawb sydd wedi aberthu eu bywydau mewn rhyw ryfel neu'i gilydd, ac maen nhw'n bwriadu sefydlu eu cofeb eu hunain nad oedd yn bodoli gynt.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Would you agree, First Minister, that in these commemorations, engagement with younger generations and schools in education projects is important in terms of that generation understanding about war, but also understanding the importance of the democratic process, and that, also, the willingness to engage in Europe and internationally is the way in which we actually avoid wars in the future?

A fydddech chi'n cytuno, Brif Weinidog, yn y digwyddiadau coffâu hyn, bod ymgysylltu â chenedlaethau iau ac ysgolion mewn prosiectau addysg yn bwysig o ran dealltwriaeth y genhedlaeth honno am ryfel, ond hefyd ei dealltwriaeth o bwysigrwydd y broses ddemocrataidd, a hefyd, mai'r parodrwydd i ymgysylltu yn Ewrop ac yn rhyngwladol yw'r ffordd y byddwn ni'n osgoi rhyfeloedd yn y dyfodol mewn gwirionedd?

13:55

### **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think that we must reflect on the fact that the idea of a war in Europe now is incredible to think of. However, within living memory it was the norm. The first world war was an example of what happens when things go wrong. It was, of course, a war where I suppose if you asked most people, they would not be able to tell you how it started. That, of course, is an issue. Perhaps people should understand the dynamics of what happened in order to avoid that happening in the future. However, the point that I have made—. When I have spoken at events, I have asked young people what it would feel like for them, as teenagers, to be taken half the way across the world—because France and Belgium, in those days, were a long way away in terms of the time to get there than they are now—and to have to be in a trench. I have asked those young people what it would be like to stay at home and worry about those who had gone away. That gives them some idea of what it must have been like. For us, it is impossible to understand it at first hand because we have never had that experience. What is important is that young people—indeed all people—understand that, as a result of the experience of the first world war, we look to make sure that such an event never happens again.

Rwy'n credu bod yn rhaid i ni fyfyrto ar y ffaith bod y syniad o ryfel yn Ewrop nawr yn anhygoel i feddwl amdano. Fodd bynnag, dyna oedd yr arfer o fewn cof byw. Roedd y rhyfel byd cyntaf yn enghraifft o'r hyn sy'n digwydd pan fydd pethau'n mynd o chwith. Roedd, wrth gwrs, yn rhyfel lle mae'n debyg pe bydddech chi'n gofyn i'r rhan fwyaf o bobl, na fyddent yn gallu dweud wrthyhych sut y dechreuodd. Mae honno, wrth gwrs, yn broblem. Efallai y dylai pobl ddeall deinameg yr hyn a ddigwyddodd er mwyn atal hynny rhag digwydd yn y dyfodol. Fodd bynnag, y pwynt rwyf wedi ei wneud—. Pan rwyf wedi siarad mewn digwyddiadau, rwyf wedi gofyn i bobl ifanc sut y byddai'n teimlo iddyn nhw, fel pobl yn eu harddegau, eu bod yn gorfod mynd hanner ffordd ar draws y byd—oherwydd roedd Ffrainc a Gwlad Belg, yn y dyddiau hynny, yn bellach i ffwrdd o ran yr amser a gymerwyd i gyrraedd yno nag y maen nhw heddiw—a gorfod bod mewn ffos. Rwyf wedi gofyn i'r bobl ifanc hynny sut y byddai'n teimlo i aros gartref a phoeni am y rhai a oedd wedi mynd i ffwrdd. Mae hynny'n rhoi rhyw syniad iddynt o sut yr oedd hi bryd hynny. I ni, mae'n amhosibl ei ddeall yn uniongyrchol gan nad ydym ni erioed wedi cael y profiad hwnnw. Yr hyn sy'n bwysig yw bod pobl ifanc—pawb yn wir—yn deall, o ganlyniad i brofiad y rhyfel byd cyntaf, ein bod yn ceisio gwneud yn siŵr nad yw digwyddiad o'r fath byth yn digwydd eto.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:56

### **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'r Prif Weinidog, felly, o ystyried ei sylwadau, yn cytuno mai dyletswydd cofio fel hyn yw canolbwyntio ar y 35,000 o Gymry a gollwyd yn y cyfnod hwnnw, a'r pwysigrwydd o addysgu prosesau heddwch fel rhan o'n cwricwlwm, yn ogystal â dysgu hanes rhyfeloedd.

The First Minister, therefore, given his comments, agrees that the duty of such a commemoration as this is to concentrate on the 35,000 Welsh people lost during that period, and the importance of teaching the processes of peace as part of our curriculum, as well as teaching the history of wars.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:57

### **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Ac i gofio hefyd. Mae'n rhaid imi ddweud, o ran y cyrff sy'n cynrychioli'r rheini sydd wedi bod yn y lluoedd arfog, nid ydynt am weld unrhyw fath o ddathliad o'r rhyfel byd cyntaf. Maent eisiau sicrhau bod pobl yn deall beth oedd profiad milwyr, profiad y rheini a oedd ar y môr a hyd yn oed y rheini a oedd yn hedfan mewn awyrennau a oedd, ar y pryd, yn rhoi rhywbeth fel hanner awr o fywyd iddynt—roeddent mor ysgafn—ac i feddwl am y rhai nad oeddent wedi mynd, yn enwedig y rheini a oedd â thylwyth yn Ffrainc, Gwlad Belg ac ar draws y byd. Hoffwn inni ystyried yr hyn a oedd wedi digwydd, a'r effaith ar gymdeithas ar ôl y rhyfel byd cyntaf, ond nid i weld hynny fel rhywbeth i'w ddathlu. Ni allwch ddathlu colledion o'r fath a'r nifer o bobl ifanc a gafodd eu lladd.

And to remember also. I have to say that, with regard to the bodies that represent those who have been in the armed forces, they do not want to see any sort of celebration of the first world war. They want to ensure that people understand the experience of soldiers, sailors and even those who were flying in aeroplanes that, at the time, gave them around half an hour of life—they were so light—and to consider what happened to those who did not go, particularly those who were concerned about relatives in France, Belgium and all over the world. I would like us to consider what happened, and what the impact was on society after the first world war, but not to see this as something to celebrate. You cannot celebrate such losses and the number of young people who were killed.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

|       |   |   |  |
|-------|---|---|--|
| 13:58 | <p><b>Mike Hedges</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>With the memorial nearing completion, the Welsh memorial in Flanders campaign has organised a service of dedication in Flanders on Saturday, 16 August to pay tribute to those Welsh soldiers that fought and died in the first world war. Should your diary allow, will you attend that service?</p>  | <p>Gan fod y gofeb ar fin cael ei chwblhau, mae ymgyrch cofeb y Cymry yn Fflandrys wedi trefnu gwasanaeth o gysegrriad yn Fflandrys ddydd Sadwrn, 16 Awst i dalu teyrnged i'r milwyr hynny o Gymru a fu'n ymladd ac a fu farw yn y rhyfel byd cyntaf. Os bydd eich dyddiadur yn caniatáu, a fyddwch chi'n bresennol yn y gwasanaeth hwnnw?</p>                                      | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 13:58 | <p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a><br/><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I can confirm to the Member that I will be at that service.</p>   | <p>Gallaf gadarnhau i'r Aelod y byddaf yn bresennol yn y gwasanaeth hwnnw.</p>  | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
|       | <p><b>Uned iaith</b></p>  | <p><b>Language Unit</b></p>   |  |
| 13:58 | <p><b>Alun Ffred Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weithrediad uned iaith Gymraeg y Llywodraeth? OAQ(4)1596(FM)</i></p>   | <p><i>6. Will the First Minister make a statement on the operation of the Government's Welsh language unit? OAQ(4)1596(FM)</i></p>  | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 13:58 | <p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a><br/><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Mae Is-adran y Gymraeg yn gyfrifol am weithredu strategaeth y Gymraeg, 'iaith fyw: iaith byw', a'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg.</p>  | <p>The Welsh Language Division is responsible for the delivery of the Welsh language strategy, 'A living language: a language for living', and the Welsh-medium education strategy.</p>   | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 13:58 | <p><b>Alun Ffred Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Pwrpas dod ag uned strategaeth yr iaith Gymraeg i mewn i Lywodraeth oedd rhoi grym y Llywodraeth y tu ôl i'r gweithredu. Ers tair blynedd, nid oes unrhyw beth ond distawrwydd llethol wedi dod o'r uned. A ydych chi'n bwriadu cynnal yr uned hon a sicrhau ei bod yn cyflawni'n weithredol?</p>   | <p>The purpose of bringing the Welsh language strategy unit within Government was to put the Government's powers behind its enforcement. For three years, we have heard nothing but shocking silence from this unit. Do you intend to maintain this unit and ensure that it actually delivers operationally?</p>  | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 13:58 | <p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a><br/><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Nid wyf yn credu bod hynny'n wir o gwbl. Nid dyna yw barn aelodau eraill o Blaid Cymru. Rwy'n credu bod gennym y gynhadledd fawr a'r gwaith sydd wedi cael ei wneud ar iaith economi ac ar gynnal cymunedau Cymraeg, megis gwaith Rhodri Llwyd Morgan, wrth gwrs. Bydd datganiad cyfun yn cael ei roi i'r Cynulliad cyn diwedd y tymor nesaf.</p> | <p>I do not think that that is true at all. That is not the view of others in Plaid Cymru. I think that we have the 'cynhadledd fawr' and the work that has been done on the economic language and how to support Welsh-language communities, such as the work of Rhodri Llwyd Morgan, of course. A joint statement will be issued to the Assembly before the end of next term.</p> | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 13:59 | <p><b>Suzy Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Fel y dywedoch, Brif Weinidog, mae'r uned yn gyfrifol am gyflawni canlyniadau sydd wedi'u hamlinellu yn y strategaeth iaith Gymraeg. Un o nodau allweddol y strategaeth yw cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Sut fydd toriadau diweddar i gyllideb addysg i oedolion yn effeithio ar yr uned a'r gwaith hwnnw?</p>  | <p>As you said, First Minister, the unit is responsible for delivering outcomes outlined in the Welsh language strategy. One of the key aims of the strategy is to increase the use of Welsh in the workplace. How will recent cuts to the adult education budget impact upon that unit and that work?</p>  | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |

|  |   |   |
|--|---|---|
| 13:59  | <p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a><br/> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Rydym yn gweithio gyda phob menter iaith i sicrhau eu bod yn gweithio yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl, ac rydym am sicrhau bod rôl iddynt o ran hybu'r Gymraeg yn y gweithle, er enghraifft. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud mai'r rheswm pam ein bod yn y sefyllfa ariannol hon yw achos y toriadau sydd wedi dod o'ch plaid chi yn Llundain.</p>   | <p style="text-align: right;">Senedd.tv<br/> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>We are working with every menter iaith to ensure that they are operating in the most efficient way possible, and we want to ensure that there is a role for them in terms of promoting the Welsh language in the workplace, for example. However, I have to say that we are in this financial situation because of the cuts that have come from your party in London.</p>   |
| <p><b>Gwasanaethau Newyddenedigol yn y Gogledd</b></p> |   | <p><b>North Wales Neonatal Services</b></p>   |
| 14:00  | <p><b>Aled Roberts</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a><br/> <i>7. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o wasanaethau newyddenedigol yng ngogledd Cymru? OAQ(4)1591(FM)</i></p>  | <p style="text-align: right;">Senedd.tv<br/> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p><i>7. Will the First Minister provide an update on the North Wales Neonatal Review? OAQ(4)1591(FM)</i></p>  |
| 14:00  | <p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a><br/> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Mae'r panel annibynnol wedi cyflwyno ei adroddiad. Rwy'n cyfarfod â'r panel ar 3 Ebrill, sef dydd Iau, er mwyn imi gael ei argymhellion wedi'u cyflwyno i mi. Wedyn, bydd penderfyniad yn cael ei wneud. Bydd unrhyw ddatganiad yn dod ar ôl y Pasg, pan fydd y Cynulliad yn eistedd.</p>  | <p style="text-align: right;">Senedd.tv<br/> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>The independent panel has submitted its report. I am meeting with the panel on 3 April, which is this Thursday, so that it can present its recommendations to me. A decision will then be taken. Any statement will be brought forward after Easter, when the Assembly will be sitting again.</p>   |
| 14:00  | <p><b>Aled Roberts</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Diolch am y wybodaeth honno. Rwy'n croesawu'r ffaith bod y panel adolygu wedi ymwneud â grwpiau yn y gogledd ac Aelodau'r Cynulliad. Mae hyn yn bellgyrhaeddol o ran wasanaethau yn y gogledd. A fydddech yn ystyried cael trafodaeth o fewn y Cynulliad yn hytrach na datganiad, boed hynny'n ysgrifenedig neu ar lafar?</p>   | <p style="text-align: right;">Senedd.tv<br/> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>Thank you for that information. I welcome the fact that the review panel had been involved with various groups in north Wales and with Assembly Members covering the region? This is a far-reaching issue in terms of services in north Wales. Would you consider having a discussion within the Assembly, rather than a statement, be that an oral or a written statement?</p>   |
| 14:01  | <p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a><br/> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Na, penderfyniad Gweinidog yw hwn, felly datganiad yw'r ffordd ymlaen—datganiad agored. Rwy'n deall y bydd y datganiad hwnnw'n destun gwaith craffu, ond mae'r adroddiad hwn yn bellgyrhaeddol a dyna pam rwyf am ei ystyried yn fanwl iawn dros yr wythnosau nesaf.</p>   | <p style="text-align: right;">Senedd.tv<br/> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>No, this is a ministerial decision, therefore a statement is the way forward—a statement that is open. I understand that there will be scrutiny of that statement. However, this report is far-reaching, and that is why I want to give it detailed consideration over the next few weeks.</p>  |
| 14:01  | <p><b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I am sorry to take issue with the comments that Aled Roberts has just made, but, as regards the panel and the engagement programme, I have to say that, in Aberconwy, there has been very little engagement with relevant stakeholders and with me as an Assembly Member. It is now April; you mentioned in January that this panel would undertake an engagement programme with all relevant stakeholders. Why is it the case that we have been excluded completely from this process?</p> | <p style="text-align: right;">Senedd.tv<br/> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>Mae'n ddrwg gennyf anghytuno â'r sylwadau y mae Aled Roberts newydd eu gwneud, ond, o ran y panel a'r rhaglen ymgysylltu, mae'n rhaid i mi ddweud, yn Aberconwy, mai prin iawn fu'r ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol na chyda minnau fel Aelod Cynulliad. Mae'n fis Ebrill bellach; soniasoch ym mis Ionawr y byddai'r panel hwn yn ymgymryd â rhaglen ymgysylltu â'r holl rhanddeiliaid perthnasol. Pam yr ydym ni wedi cael ein heithrio yn gyfan gwbl o'r broses hon?</p> |

|       |  |  |  |
|-------|--|--|--|
| 14:01 | <p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a><br/><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>That is not what other Members have been saying to me, I must say. The panel is being led by Sonia Mills, who has a breadth of experience in the NHS, including delivery on key service changes, and expert clinical advice has been provided by the Royal College of Paediatrics and Child Health. Therefore, I do not think that attacking the panel itself is the correct way forward.</p>  | <p>Nid dyna mae'r Aelodau eraill wedi bod yn ei ddweud wrthyf i, mae'n rhaid i mi ddweud. Mae'r panel yn cael ei arwain gan Sonia Mills, sydd â phrofiad amrywiol yn y GIG, gan gynnwys cyflawni newidiadau gwasanaeth allweddol, a darparwyd cyngor clinigol arbenigol gan y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant. Felly, nid wyf yn credu mai ymosod ar y panel ei hun yw'r ffordd iawn ymlaen.</p>   | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
|       | <p><b>Costau Byw</b></p>   | <p><b>Cost of Living</b></p>   |  |
| 14:02 | <p><b>Ann Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a><br/><i>8. Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith costau byw ar deuluoedd yng Nghymru? OAQ(4)1590(FM)</i></p>  | <p><i>8. What assessment has the First Minister made of the impact of the cost of living on families in Wales? OAQ(4)1590(FM)</i></p>  | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 14:02 | <p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a><br/><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>The cost of living is determined mainly by UK Government policies, but we closely monitor the position in Wales. We are doing everything possible to get more people into employment—and we are leading the UK in unemployment statistics—because we believe that this is the best way of ensuring that family budgets can cope under the increasing pressures that they face.</p>   | <p>Caiff costau byw eu pennu gan bolisiau Llywodraeth y DU yn bennaf, ond rydym yn monitro'r sefyllfa yn ofalus yng Nghymru. Rydym ni'n gwneud popeth posibl i gael mwy o bobl i mewn i gyflogaeth—ac rydym ni'n arwain y DU o ran ystadegau diweithdra—gan ein bod yn credu mai dyma'r ffordd orau o sicrhau y gall cyllidebau teuluoedd ymdopi dan y pwysau cynyddol y maen nhw'n eu hwynebu.</p>  | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 14:02 | <p><b>Ann Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Last year, over 29,000 people in Wales visited a Trussell Trust food bank. That indicates to me that they are struggling to feed themselves and their families as they fight the ever increasing cost of Cameron for society and the cost of living. The Vale of Glamorgan Member of Parliament, Alun Cairns, suggests that the people who visit these food banks are either drug addicts, pay too much for their Sky TV or, in his opinion, are simply too stupid to manage their own money. We can add to that the crass statement from the Crawley councillor recently that food poverty is a nonsense because they find it difficult to get into a restaurant on a weekend evening. That proves to me that many in my constituency who have to use food banks will find those statements most distressing, as I do. First Minister, will you make sure that your Government continues to keep as a priority those people for whom the cost of living rises, caused by the UK Government, are causing huge problems, and that we will continue to stand up for them?</p> | <p>Y llynedd, ymwelodd dros 29,000 o bobl yng Nghymru â banc bwyd Ymddiriedolaeth Trussell. Mae hynny'n awgrymu i mi eu bod yn ei chael hi'n anodd bwydo eu hunain a'u teuluoedd wrth iddynt frwydro yn erbyn costau cynyddol Cameron i gymdeithas a chostau byw. Mae'r Aelod Seneddol dros Fro Morgannwg, Alun Cairns, yn awgrymu bod y bobl sy'n ymweld â'r banciau bwyd hyn naill ai'n gaeth i gyffuriau, yn talu gormod am eu teledu Sky neu, yn ei farn ef, yn rhy dwp i reoli eu harian eu hunain. Gallwn ychwanegu at hynny y datganiad di-glem gan y cynghorydd yn Crawley yn ddiweddar nad yw tlodi bwyd yn bodoli, oherwydd ei bod hi'n anodd cael lle mewn bwyty ar noson ar y penwythnos. Mae hynny'n profi i mi y bydd y datganiadau hynny yn peri pryder mawr i lawer yn fy etholaeth i sy'n gorfod defnyddio banciau bwyd, fel y maen nhw i minnau. Brif Weinidog, a wnewch chi sicrhau bod eich Llywodraeth yn parhau i gadw fel blaenoriaeth y bobl hynny y mae'r cynnydd i gostau byw, a achoswyd gan Lywodraeth y DU, yn achosi problemau enfawr iddynt, ac y byddwn yn parhau i'w cefnogi?</p> | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |



14:03

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I found those comments incredible, but I think that we underestimate on these benches how much of a bubble the Conservatives live in as regards not understanding what is going on in the world, not understanding the true effect on so many working families and those who do not work, not understanding the true effect on so many working families and those who do not work and not understanding the effect of the bedroom tax. I have constituents, for example, who look after their adult-aged disabled children and who have been caught by the benefit tax. It does not matter to them in the slightest way that there are people who are working hard and being hammered. In England, for example, the idea of a council tax freeze does not apply to the lowest paid—they will see a £120 increase in their council tax. The council tax freeze was a nonsense from start to finish, targeting those who are most at risk. I have to give Alun Cairns some credit: there are some people who are too stupid to manage their own money. We have seen that in the UK Government, which has just sold Royal Mail back to the people who originally owned it for a knock-down price—the biggest scandal since the last time they did it with the railways.

Roeddwn i'n meddwl bod y sylwadau hynny yn anhygoel, ond nid wyf yn credu ein bod ni ar y meinciau hyn yn sylweddoli mewn faint o swigen y mae'r Ceidwadwyr yn byw ynddi o ran diffyg dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd yn y byd, diffyg dealltwriaeth o'r effaith wirioneddol ar gymaint o deuluoedd sy'n gweithio a'r rhai nad ydynt yn gweithio, a diffyg dealltwriaeth o effaith y dreth ystafell wely. Mae gennyf etholwyr, er enghraifft, sy'n gofalu am eu plant anabl sy'n oedolion ac sydd wedi cael eu dal gan y dreth budd-daliadau. Nid yw o unrhyw bwys iddyn nhw bod yna bobl sy'n gweithio'n galed ac yn cael eu taro'n galed. Yn Lloegr, er enghraifft, nid yw'r syniad o rew'r dreth gyngor yn berthnasol i'r rhai sydd ar y cyflogau isaf—byddant yn gweld cynnydd o £120 i'w treth gyngor. Roedd rhew'r dreth gyngor yn nonsens o'r dechrau i'r diwedd, gan dargedu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl. Mae'n rhaid i mi roi rhywfaint o glod i Alun Cairns: ceir rhai pobl sy'n rhy dwp i reoli eu harian eu hunain. Rydym ni wedi gweld hynny yn Llywodraeth y DU, sydd newydd werthu'r Post Brenhinol yn ôl i'r bobl a oedd yn berchen arno yn wreiddiol am bris gostyngedig—y sgandal mwyaf ers y tro diwethaf iddyn nhw wneud hynny gyda'r rheilffyrdd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:05

**Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Further to Ann's question, I would say this: since 2010, 155,000 of the lowest paid workers in Wales have been taken out of tax altogether thanks to the policy of the United Kingdom Government in London. Will you confirm, First Minister, in this Chamber, that this will be taken into account in any assessment that you make of the impact of the cost of living on families in Wales?

Yn dilyn cwestiwn Ann, byddwn yn dweud hyn: ers 2010, mae 155,000 o'r gweithwyr ar y cyflogau isaf yng Nghymru wedi cael eu tynnu allan o dreth yn gyfan gwbl diolch i bolisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn Llundain. A wnewch chi gadarnhau, Brif Weinidog, yn y Siambr hon, y bydd hyn yn cael ei gymryd i ystyriaeth mewn unrhyw asesiad y byddwch chi'n ei wneud o effaith costau byw ar deuluoedd yng Nghymru?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:05

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

They are pinching your policies. It is a Conservative policy now; it was a Lib Dem policy as far as I was aware, but there we are—why not take the credit for the Lib Dems' policies? What the Member has said is factually correct, but what he fails to mention is the fact that people's living standards have gone backwards in the past four years. He fails to mention the fact that the economy was recovering up to 2010, until his party got hold of it and took it backwards. He fails to mention the fact that his own party leader, in 2008, wanted the banks to be left to stew. He did not want them bailed out. He thought they should fail. He thought people should see their savings lost. Now he is trying to say that this is nothing to do with them; that this is something that is all the fault of the previous party. The reality is that they have failed to protect the lowest paid workers, failed on the bedroom tax, failed on making sure that the lowest paid people are protected, and failed on the council tax, where there is no freeze for those who are the lowest paid. That contrasts with what we do here in Wales, where we take tackling poverty seriously and do not decry those people who are in a position where they need food banks. I find it deplorable that those people who are at the bottom of society economically are still being hammered and abused by Tories.

Maen nhw'n dwyn eich polisiau. Polisi'r Ceidwadwyr yw hwn bellach; polisi'r Democratiaid Rhyddfrydol oedd e cyn belled ag yr oeddwn i'n ymwybodol, ond dyna ni—beth am gymryd y clod am bolisiau'r Democratiaid Rhyddfrydol? Mae'r hyn y mae'r Aelod wedi ei ddweud yn ffeithiol gywir, ond yr hyn nad yw'n ei grybwyll yw'r ffaith fod safonau byw pobl wedi dirywio yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Nid yw'n crybwyll y ffaith bod yr economi yn gwella hyd at 2010, tan i'w blaid ef gael gafael arni a gwneud pethau'n waeth. Nid yw'n crybwyll y ffaith nad oedd arweinydd ei blaid ei hun, yn 2008, eisiau gwneud dim i helpu'r banciau. Nid oedd eisiau iddyn nhw gael eu hachub. Roedd yn credu y dylent fethu. Roedd yn credu y dylai pobl golli eu cynilion. Nawr mae'n ceisio dweud nad yw hyn yn unrhyw beth i'w wneud â nhw; bod hyn yn rhywbeth sy'n fai ar y blaid flaenorol yn gyfan gwbl. Y gwir amdani yw eu bod wedi methu ag amddiffyn y gweithwyr sydd ar y cyflogau isaf, wedi methu ar y dreth ystafell wely, wedi methu o ran sicrhau bod y bobl ar y cyflogau isaf yn cael eu diogelu, ac wedi methu ar y dreth gyngor, lle nad oes unrhyw rew'r ar gyfer y rhai sy'n derbyn y tâl isaf. Mae hynny'n cyferbynnu â'r hyn yr ydym ni'n ei wneud yma yng Nghymru, lle'r ydym o ddifrif o ran mynd i'r afael â thlodi a lle nad ydym yn bychanu'r bobl hynny sydd mewn sefyllfa lle mae angen banciau bwyd arnynt. Rwy'n gresynu bod y bobl hynny sydd ar waelod cymdeithas yn economaidd yn dal i ddioddef a chael eu cam-drin gan y Toriaid.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

|                |  |   |  |
|----------------|--|---|--|
| 14:06          | <p><b>Rhun ap Iorwerth</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Mae'r cynnydd yn y biliau ynni wedi ychwanegu at y wasgfa ar gostau byw. Rwy'n croesawu'r ymchwiliad i'r chwe chwmni ynni mawr. Byddai cwmni ynni cyhoeddus, nid am ddifidend, yn gallu ailfuddsoddi elw yn yr ynni ei hunan, naill ai drwy ddod y biliau i lawr neu drwy ailfuddsoddi mewn seilwaith. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno y gallai'r math hwnnw o gam dorri ar fonopoli'r chwe chwmni mawr a bod yn ateb cynaliadwy ar gyfer y broblem hon yng Nghymru?</p>  | <p>The increase in energy bills has put more pressure on the cost of living. I welcome the inquiry into the big six energy companies. A publicly owned, not-for-dividend energy company would be able to reinvest profits in the energy itself, either through reducing bills or by reinvesting in infrastructure. Does the First Minister agree that that kind of step could break up the monopoly of the big six companies and that it could be a sustainable solution to this problem in Wales?</p>  | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 14:07          | <p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a><br/><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Rwy'n meddwl ei fod yn bwysig dros ben fod popeth yn cael ei wneud i ystyried y sefyllfa ynglŷn â'r farchnad ynni. Rwy'n credu mai'r hyn y mae'r Aelod yn ei ddweud yw y dylem gael rhyw fath o gwmni sy'n cael ei redeg gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwneud hynny. Mae hynny'n broblem yng nghyswllt cymorth 'state aid' o achos y ffaith y byddai'n rhaid dangos nad yw hyn yn rhywbeth sy'n ymyrryd yn y farchnad mewn ffordd nad yw'n deg nac yn gystadleuol. Fodd bynnag, yn fy marn i, mae'n bwysig dros ben ein bod yn sicrhau sefyllfa lle mae prisiau ynni yn glir i bobl—nid yw hynny'n wir ar hyn o bryd—a sicrhau bod pobl yn deall ym mha ffordd y gallant weld y 'deal' gorau iddyn nhw. Unwaith eto, nid wyf yn gweld hynny'n digwydd. Rwy'n croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cymryd polisiau'r Blaid Lafur er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd.</p> | <p>I think it is extremely important that everything is done to consider the situation surrounding the energy market. I think that what the Member is saying is that we should have some kind of company that is run by the Welsh Government in order to achieve that. That is a problem in relation to state aids because of the fact that we would have to demonstrate that that would not interfere with the market in an uncompetitive or unfair way. However, in my view, it is extremely important that we ensure that energy prices are well understood by people—that is not the case at present—and ensure that people understand how they can identify the best deal for them. Again, I do not see that happening. I welcome the fact that the United Kingdom Government has adopted Labour Party policies to ensure that that happens.</p> | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| <b>Trident</b> | <b>Trident</b>   | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>  |  |
| 14:08          | <p><b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a><br/><i>9. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch adleoli Trident i Gymru? OAQ(4)1606(FM)</i></p>  | <p><i>9. What discussions has the First Minister had with the UK Government regarding the relocation of Trident to Wales? OAQ(4)1606(FM)</i></p>  | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 14:08          | <p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a><br/><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Dim.</p>   | <p>None.</p>  | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 14:08          | <p><b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Wel, mae hynny'n ddiddorol iawn o ystyried mai'r Prif Weinidog a gododd y mater hwn ryw flwyddyn yn ôl, pan oedd yn awyddus iawn i groesawu, yn ei eiriau ef, Trident i Gymru. Petai pleidlais o blaid annibyniaeth yn yr Alban ar 18 Medi, a bod Llywodraeth yr Alban yn gwireddu ei haddewid i symud Trident o'r Alban, a fydddech yn ailgodi'r sgwrs honno gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig? A fydddech yn rhoi cyfle i bobl Cymru fynegi barn trwy refferendwm ar hynny, petaech chi yn penderfynu croesawu Trident i Gymru?</p>  | <p>Well, that is very interesting, given that it was the First Minister who raised this matter about a year ago, when he was very keen to welcome, in his words, Trident to Wales. If there were to be a vote in favour of independence in Scotland in September and if the Scottish Government were to realise its pledge to move Trident from Scotland, would you revisit that discussion with the UK Government? Would you give the people of Wales an opportunity to express their views via a referendum, should you decide to welcome Trident to Wales?</p>   | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 14:08          | <p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a><br/><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Nid wyf wedi codi'r peth am y tro cyntaf, felly ni allaf ei ailgodi. Felly, yr ateb yw 'na'; ni fyddem yn codi'r pwnc.</p>   | <p>I did not raise it in the first place, so I cannot raise it once again. Therefore, the answer is 'no'; I would not raise the matter.</p>   | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |

|                                   |  |  |  |
|-----------------------------------|--|--|--|
| 14:09                             | <p><b>Andrew R.T. Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>First Minister, the Trident nuclear deterrent has been the very thing it was set out to be—a deterrent and guarantee of the security of the United Kingdom. There are discussions going on at a Westminster level to renew the deterrent but, obviously, there is considerable upgrading of the current fleet. What actions has your Government taken to engage with the Ministry of Defence and departments in London to promote Welsh businesses and what they might be able to do in securing contracts with the renewal of the deterrent or the upgrading that is proposed by other parties?</p> | <p>Brif Weinidog, mae ataliad niwclear Trident wedi bod yr union beth y'i cyflwynwyd i fod—ataliad a sicrwydd i ddiogelwch y Deyrnas Unedig. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar lefel San Steffan i adnewyddu'r ataliad ond, yn amlwg, mae angen uwchraddio'r llynges bresennol yn sylweddol. Pa gamau mae eich Llywodraeth wedi eu cymryd i ymgysylltu â'r Weinyddiaeth Amddiffyn ac adrannau yn Llundain i hyrwyddo busnesau Cymru a'r hyn y gallent ei wneud o ran sicrhau contractau i adnewyddu'r ataliad neu'r uwchraddio a gynigir gan bleidiau eraill?</p>   | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 14:09                             | <p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>The defence industry is an important part of the Welsh economy. We know that. It employs thousands of people, and we always work to encourage the industry to see opportunities when they arise. That is as true of defence as it is of any other sector.</p>   | <p>Mae'r diwydiant amddiffyn yn rhan bwysig o economi Cymru. Rydym yn gwybod hynny. Mae'n cyflogi miloedd o bobl, ac rydym bob amser yn gweithio i annog y diwydiant i weld cyfleoedd pan eu bod yn codi. Mae hynny'r un mor wir am amddiffyn ag y mae am unrhyw sector arall.</p>   | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| <p><b>Gwasanaethau Iechyd</b></p> |  | <p><b>Health Services</b></p>  |  |
| 14:09                             | <p><b>Julie James</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>10. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y trefniadau trawsffiniol ar gyfer gwasanaethau iechyd?</i><br/>OAQ(4)1601(FM)</p>  | <p><i>10. Will the First Minister make a statement on cross border arrangements for health services?</i><br/>OAQ(4)1601(FM)</p>  | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 14:09                             | <p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>A cross-border protocol is in place to ensure that relevant patients have access to appropriate services, and all associated matters are handled in an agreed, consistent manner.</p>   | <p>Mae protocol traws-ffiniol wedi'i sefydlu i sicrhau bod gwasanaethau priodol ar gael i gleifion perthnasol, a chaiff pob mater cysylltiedig ei drin mewn ffordd gyson y cytunwyd arni.</p>  | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 14:10                             | <p><b>Julie James</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you for that answer, First Minister. In the light of the unprecedented problems and scandals in the English NHS, it seems to me that Jeremy Hunt and the Tories and Liberal Democrats who run the Government should endeavour to concentrate on those problems instead of pointing the finger at us in Wales with their war on Wales. First Minister, a recent claim is that it is unprecedented that 10% of Welsh patients use English accident and emergency departments. Could you update the Chamber as to how many English patients use Welsh A&amp;E departments?</p>                           | <p>Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Yng ngoleuni'r problemau a'r sgandalau nas gwelwyd mo'u tebyg yn y GIG yn Lloegr, mae'n ymddangos i mi y dylai Jeremy Hunt a'r Torïaidd a'r Democratiaidd Rhyddfrydol sy'n rhedeg y Llywodraeth ymdrechu i ganolbwyntio ar y problemau hynny yn hytrach na phwyntio bys atom ni yng Nghymru gyda'u rhyfel ar Gymru. Brif Weinidog, un honiad diweddar yw nas gwelwyd o'r blaen 10% o gleifion o Gymru ddefnyddio adrannau damweiniau ac achosion brys yn Lloegr. A allech chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambwr o ran faint o gleifion o Loegr sy'n defnyddio adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru?</p> | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 14:10                             | <p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>In 2013-14, 30,325 English patients attended Welsh A&amp;E departments; 20,758 English patients are registered in Wales. We seek to put no barrier to them, in terms of getting their treatment in Wales.</p>   | <p>Yn 2013-14, mynychodd 30,325 o gleifion o Loegr adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru; mae 20,758 o gleifion o Loegr wedi eu cofrestru yng Nghymru. Nid ydym yn ceisio eu rhwystro mewn unrhyw ffordd, o ran cael eu triniaeth yng Nghymru.</p>  | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |

14:10

**Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

How do you follow that? First Minister, in the light of the continuing funding crisis in the Welsh NHS, part 2 of the Silk commission makes a number of common-sense recommendations relating to cross-border healthcare:

'patients should receive treatment where it is most clinically appropriate',

and both the English and Welsh health services must work more closely together to deliver specialised services.

The Welsh Government has not always got this right in the past. Will you now act to ensure that the border is no longer a barrier to accessing health services?

Sut mae dilyn hynny? Brif Weinidog, yng ngoleuni'r argyfwng cyllido parhaus yn y GIG yng Nghymru, mae rhan 2 comisiwn Silk yn gwneud nifer o argymhellion synnwyr cyffredin yn ymwneud â gofal iechyd trawsffiniol:

'dylai fod gan gleifion yr hawl i gael triniaeth ym mha le bynnag y mae hynny'n fwyaf hwylus iddynt, ac na ddylai'r ffin weinyddol byth arwain at driniaeth israddol i gleifion',

ac mae'n rhaid i wasanaethau iechyd Cymru a Lloegr gydweithio'n agosach i ddarparu gwasanaethau arbenigol.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cael hyn yn iawn bob amser yn y gorffennol. A wneuch chi gymryd camau nawr i sicrhau nad yw'r ffin yn rhwystr i gael mynediad at wasanaethau iechyd mwyach?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:11

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I do not accept that the Welsh Government has got it wrong; what about the UK Government? The reality is that people will cross the border both ways for treatment. There are many people who come from England for cancer treatment in Wrexham. As I have said, there are people from England registered with general practitioners in Wales; there are many thousands of people from England who attend Welsh A&E departments.

The reality is that many Welsh people will go the other way, particularly for very specialised treatment; that is something that we welcome, because it is part of what knits us together as part of the UK. We have the Welsh NHS, of course, but that does not mean that it should be entirely self-contained. I would have thought that the Member would welcome the fact that there is close working between the English NHS and the Welsh NHS to deliver services for both Wales and England.

Nid wyf yn derbyn bod Llywodraeth Cymru wedi cael hyn yn anghywir, beth am Lywodraeth y DU? Y gwir amdani yw y bydd pobl yn croesi'r ffin y ddwy ffordd i gael triniaeth. Mae llawer o bobl sy'n dod o Loegr i gael triniaeth cancer yn Wrecsam. Fel rwyf wedi dweud, mae pobl o Loegr sydd wedi eu cofrestru gyda meddygon teulu yng Nghymru; mae miloedd lawer o bobl o Loegr sy'n mynychu adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru.

Y gwir amdani yw y bydd llawer o bobl Cymru yn mynd y ffordd arall, yn enwedig ar gyfer triniaeth arbenigol iawn; mae hynny'n rhywbeth yr ydym ni'n ei groesawu, gan ei fod yn rhan o'r hyn sy'n ein cyfuno yn rhan o'r DU. Mae gennym y GIG yng Nghymru, wrth gwrs, ond nid yw hynny'n golygu y dylai fod yn gwbl hunangynhwysol. Byddwn wedi meddwl y byddai'r Aelod yn croesawu'r ffaith y ceir cydweithio agos rhwng y GIG yn Lloegr a'r GIG yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau i Gymru ac i Loegr.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:11

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, mae'ch Llywodraeth yn awr yn gorfod prynu gwasanaethau cardiaidd ar gyfer cleifion de Cymru o'r sector breifat yn Lloegr. A allwch chi amlinellu inni, felly, y camau yr ydych yn eu cymryd i adeiladu capasiti cardiaidd yn Nhreforys ac yn yr Heath? O fewn 18 mis, a ydych chi'n hyderus y bydd y capasiti hwnnw'n ddigonol i gwrdd ag anghenion cleifion Cymru yn ne Cymru, neu a ydym yn mynd i orfod dibynnu ar y gwasanaeth preifat yn Lloegr yn hirach na hynny?

First Minister, your Government now has to buy cardiac services for south Wales patients from the private sector in England. Can you outline for us, therefore, the steps you are taking to increase cardiac capacity in Morriston and in the Heath? Are you confident that that capacity will be sufficient to meet the needs of Welsh patients in south Wales within 18 months, or will we have to rely on the private service in England for longer than that?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:12

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Y nod yw sicrhau bod mwy o gapasiti ar gael yn ne Cymru, ond, lle mae pobl yn gorfod cael triniaeth, beth sy'n bwysig yw sicrhau eu bod yn cael y driniaeth honno ac nid dadlau ynglŷn ag i le y dylen nhw fynd. Wrth ddweud hynny, mae'n bwysig dros ben sicrhau, fel y mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dweud, ein bod yn adeiladu'r capasiti yma yng Nghymru, a dyna'n gwmws beth yr ydym mo'n ei wneud.

The aim is to ensure that there is greater capacity in south Wales, but, where people require treatment, what is important is to ensure that they get that treatment and not to nit-pick about where that treatment should be given. Having said that, it is extremely important to ensure that, as the Minister for Health and Social Services has said, we build that capacity here in Wales, and that is exactly what we are seeking to do.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:12

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, many of my constituents receive cancer and oncology services across the border, as that is where their nearest centre is located. One such constituent, Mr Christopher Boundford, attended my surgery on Friday. He lives in Llandrindod Wells and is suffering from metastatic bowel cancer. His oncologist, based at Hereford hospital, wants to prescribe Avastin to him—something that he can prescribe to his English patients. Mr Boundford, because he is Welsh, cannot get Avastin, yet he sits next to people in the waiting room who can. What advice could you give Mr Boundford?

Brif Weinidog, mae llawer o fy etholwyr yn derbyn gwasanaethau cancer ac oncoleg ar draws y ffin, gan mai dyna ble mae eu canolfan agosaf wedi ei lleoli. Daeth un etholwr o'r fath, Mr Christopher Boundford, i fy nghymhorthfa ddydd Gwener. Mae'n byw yn Llandrindod ac yn dioddef o ganser y coluddyn metastatig. Mae ei oncolegydd, yn ysbyty Henffordd, eisiau rhoi Avastin iddo ar bresgripsiwn—rhywbeth y gall ei roi ar bresgripsiwn i'w gleifion yn Lloegr. Oherwydd ei fod yn Gymro, ni all Mr Boundford gael Avastin, ac eto mae'n eistedd wrth ochr pobl yn yr ystafell aros sy'n gallu. Pa gyngor allech chi ei roi i Mr Boundford?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:13

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I do not think that that is entirely correct. However, I think that it is important that, with something like this, it is looked at very carefully. I ask the Member to provide the details to the Minister for health, who will, of course, investigate his case, as somebody who is a Welsh resident.

Nid wyf yn meddwl bod hynny'n gwbl gywir. Fodd bynnag, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig, gyda rhywbeth fel hyn, ei fod yn cael ei ystyried yn ofalus iawn. Gofynnaf i'r Aelod roi'r manylion i'r Gweinidog iechyd, a fydd, wrth gwrs, yn ymchwilio i'w achos, fel rhywun sy'n breswlydd yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus**

**Public Service Delivery**

14:13

**Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*11. Beth yw'r amserlen ar gyfer datblygu map newydd yng nghyswllt darparu gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer llywodraeth leol? OAQ(4)1605(FM)*

*11. What is the timeline for developing a new map of public service delivery for local government? OAQ(4)1605(FM)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:13

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I will be setting out the Welsh Government's position before the summer. However, I have said on many occasions that it is important that the map is agreed before the summer in order for those authorities who wish to merge sooner rather than later—and they are there—to be able to do so without fear of it being unpicked further down the line.

Byddaf yn cyflwyno safbwynt Llywodraeth Cymru cyn yr haf. Fodd bynnag, rwyf wedi dweud ar sawl achlysur ei bod yn bwysig cytuno ar y map cyn yr haf er mwyn i'r awdurdodau hynny sy'n dymuno uno cyn gynted â phosibl—ac maen nhw'n bodoli—allu gwneud hynny heb ofni y bydd hynny'n cael ei ddadwneud yn ddiweddarach.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

**Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Cardiff capital region is an absolutely crucial part of the landscape in helping to distribute the wealth of our capital city, which was built on the wealth of the Valleys, to generate more jobs and improve our industries. The Williams commission has said that it would be a shame if the city region initiatives were to increase the overall complexity, or weaken the governance, of local government. I wonder what account will be taken of that in developing your new map.

Mae rhanbarth prifddinas Caerdydd yn rhan gwbl hanfodol o'r dirwedd o ran helpu i ddosbarthu cyfoeth ein prifddinas, a adeiladwyd ar sail cyfoeth y Cymoedd, er mwyn creu mwy o swyddi a gwella ein diwydiannau. Mae comisiwn Williams wedi dweud y byddai'n drueni pe byddai mentrau'r dinas-ranbarthau yn cynyddu'r cymhlethdod cyffredinol, neu'n gwanhau llywodraethiad llywodraeth leol. Tybed pa ystyriaeth fydd yn cael ei rhoi i hynny wrth ddatblygu eich map newydd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The city regions would remain in place. One thing that I need to make absolutely clear is that, as we move towards local government mergers, it does not mean an end to collaboration—it cannot. The reality is that, if you look at the economic region of Cardiff, it always will be far bigger than the political boundaries of the city. It will be important in the future that all local authorities that are part of the Cardiff economic region—or indeed the Swansea region, or other parts of Wales—work together and recognise that. We know full well that many thousands of people commute into Cardiff Central railway station every day; they will come from all over the Valleys and they will have their own local authorities—it will continue that way beyond any merger. In order for them to have the most effective service, when it comes to developing the city region economically, all those local authorities will still need to collaborate, regardless of what they look like.

Byddai'r dinas-ranbarthau yn parhau. Un peth y mae angen i mi ei wneud yn gwbl eglur yw, wrth i ni symud tuag at uno llywodraeth leol, nad yw hynny'n golygu diwedd cydweithio—ni all olygu hynny. Y gwir amdani yw, os edrychwch chi ar ranbarth economaidd Caerdydd, bydd bob amser yn fwy o lawer na ffiniau gwleidyddol y ddinas. Bydd yn bwysig yn y dyfodol bod pob awdurdod lleol sy'n rhan o ranbarth economaidd Caerdydd—neu ranbarth Abertawe, neu rannau eraill o Gymru yn wir—yn gweithio gyda'i gilydd ac yn cydnabod hynny. Rydym yn gwybod yn iawn bod miloedd lawer o bobl yn cymudo i mewn i orsaf reilffordd Caerdydd Canolog bob dydd; byddant yn dod o bob cwr o'r Cymoedd a bydd ganddynt eu hawdurdodau lleol eu hunain—bydd yn parhau felly y tu hwnt i unrhyw uno. Er mwyn iddyn nhw gael y gwasanaeth mwyaf effeithiol, pan ddaw'n fater o ddatblygu rhanbarth y ddinas yn economaidd, bydd angen i'r holl awdurdodau lleol hynny barhau i gydweithio, waeth sut maen nhw wedi eu trefnu.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:15

**Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, when the Williams commission report was published such was the negative response by many councillors and local authority leaders across Wales they simply stated that they would not merge with the neighbouring authority, as was proposed. Many have met formally and resolved not to do this. You said that you would take a position once you had spoken to your party members. Have you done this? How do you intend to move forward with local authorities that simply refuse to merge? Will you force these mergers?

Brif Weinidog, pan gyhoeddwyd adroddiad comisiwn Williams, cafwyd ymateb mor negyddol gan lawer o gynghorwyr ac arweinwyr awdurdodau lleol ledled Cymru gan iddynt ddatgan yn syml na fyddent yn uno â'r awdurdod cyfagos, fel y cynigiwyd. Mae llawer wedi cyfarfod yn ffurfiol a phenderfynu peidio â gwneud hyn. Dywedasoch y byddech yn cymryd safbwynt ar ôl i chi siarad ag aelodau eich plaid. A ydych chi wedi gwneud hyn? Sut ydych chi'n bwriadu symud ymlaen gyda'r awdurdodau lleol sy'n gwrthod uno? A wnewch chi orfodi'r trefniadau uno hyn?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I was most impressed by her party leader and his knowledge of my party's conference. What she seems not to have noticed is that we did exactly that at our conference and got the agreement of both the wider party and the local authority leaders to the principle of mergers. I will, of course, give my support to all that can be done in order to improve services. We cannot carry on with a structure where one local authority could collapse so completely that it had to be taken over by the Government in Cardiff, and we cannot tolerate a situation where six local authorities are in special measures on education.

Gwnaeth arweinydd ei phlaid a'i wybodaeth am gynhadledd fy mhlaidd gryn argraff arnaf i. Yr hyn y mae'n ymddangos nad yw wedi sylwi arno yw ein bod wedi gwneud yn union hynny yn ein cynhadledd ac wedi sicrhau cytundeb y blaid ehangach ac arweinwyr yr awdurdodau lleol i'r egwyddor o uno. Byddaf, wrth gwrs, yn rhoi fy nghefnogaeth i bopeth y gellir ei wneud er mwyn gwella gwasanaethau. Ni allwn barhau â strwythur lle gallai un awdurdod lleol chwalu mor llwyr fel y bod yn rhaid i'r Llywodraeth yng Nghaerdydd ei gymryd drosodd, ac ni allwn oddef sefyllfa lle mae chwe awdurdod lleol yn destun mesurau arbennig o ran addysg.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

**Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, fel ran o'r system fapio hon, a fyddwch yn edrych ar y gwasanaethau sydd wedi eu hallanoli neu eu preifateiddio yn barod gan nifer o awdurdodau lleol? Rydym yn deall bod llawer o'r cwmnïau hyn wedi codi eu prisiau ar gyfer rhai o'r gwasanaethau. A fyddwch chi'n edrych mewn i hyn i sicrhau bod y gwasanaethau yn gynaliadwy i'r dyfodol?

First Minister, as part of this mapping system, will you look at the services that have already been outsourced or privatised by a number of local authorities? We understand that many of these companies have raised their prices for some of the services. Will you look into this, to ensure that the services are sustainable for the future?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:17 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae hynny'n bwysig dros ben, wrth gwrs. Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol benderfynu sut y maent am symud ymlaen â gwasanaethau. Un peth sydd wedi ei godi gyda fi yw dau awdurdod yn uno lle mae un wedi allanoli gwasanaethau a'r llall heb wneud hynny: beth fydd y sefyllfa? Byddai'n rhaid cael sefyllfa lle y byddai un yn rhedeg gyda'r llall, yn hytrach na phopeth yn cael ei allanoli, neu bopeth yn dod yn ôl mewn—neu ddim ar y dechrau.

I do not normally do this, but I have to. Janet Finch-Saunders asked 'who runs education?' It is the local authorities. One of the local authorities that is in special measures is the only authority in Wales that is run by the Tories, namely Monmouthshire.

That is very important, of course. All local authorities must decide how they want to move forward with services. One thing that has been raised with me is two authorities that merge where one has outsourced services while the other has not: what would the situation be? You would have to find a situation where they ran concurrently, rather than everything being outsourced or everything coming back in—or not at the outset.

Nid wyf yn gwneud hyn fel rheol, ond mae'n rhaid i mi. Gofynnodd Janet Finch-Saunders 'pwys sy'n rhedeg addysg?' Yr awdurdodau lleol sy'n gwneud hynny. Un o'r awdurdodau lleol sy'n destun mesurau arbennig yw'r unig awdurdod yng Nghymru sy'n cael ei redeg gan y Torïaid, sef Sir Fynwy.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:17 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

When Paul Williams gave evidence to the Communities, Equality and Local Government Committee last week, he was very keen to stress the recommendations in his report on changing the culture of local authorities in terms of the delivery of services. We have talked a lot about merger here, but what is the Government doing to take forward those recommendations on delivery of services?

Pan roddodd Paul Williams dystiolaeth i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yr wythnos diwethaf, roedd yn awyddus iawn i bwysleisio'r argymhellion yn ei adroddiad ar newid diwylliant awdurdodau lleol o ran darparu gwasanaethau. Rydym ni wedi sôn llawer am uno yma, ond beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i fwrw ymlaen â'r argymhellion hynny ar ddarparu gwasanaethau?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:18 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I could not agree more. It is right to say that most of the debate around Williams has been around mergers. They are an important part of Williams, but it is about more than that. One of the most striking pieces of evidence that Williams found was that there are many public authorities that see audit and scrutiny as an imposition—even an impertinence. That has to change; there is no question about that. Simply merging authorities on its own will not do that; it has to go hand in hand with ensuring that there are cultural changes.

There have been discussions with the parties on what happens next. It is right to say that it would be impossible to present a substantial Bill to the Assembly before the election in 2016. That would not work. I am hopeful that there can be an emerging consensus in terms of moving forward at least with that part of the report.

Ni allwn gytuno mwy. Mae'n iawn i ddweud bod y rhan fwyaf o'r ddadl o amgylch Williams wedi ymwneud ag uno. Mae hyn yn rhan bwysig o Williams, ond mae'n ymwneud â mwy na hynny. Un o'r darnau mwyaf trawiadol o dystiolaeth a ganfuwyd gan Williams oedd bod llawer o awdurdodau cyhoeddus sy'n ystyried archwilio a chraffu yn fwrn arnynt—neu'n hyfdra hyd yn oed. Mae'n rhaid i hynny newid; nid oes amheuaeth am hynny. Ni fydd uno awdurdodau yn gwneud hynny ar ei ben ei hun; mae'n rhaid iddo fynd law yn llaw â sicrhau y ceir newidiadau diwylliannol.

Bu trafodaethau gyda'r pleidiau ar yr hyn sy'n digwydd nesaf. Mae'n iawn i ddweud y byddai'n amhosibl cyflwyno Bil sylweddol i'r Cynulliad cyn yr etholiad yn 2016. Ni fyddai hynny'n gweithio. Rwy'n obeithiol y gellir cael consensws o ran symud ymlaen gyda'r rhan honno o'r adroddiad o leiaf.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

**Cwestiynau i'r Gweinidog**  
**Diwylliant a Chwaraeon**

**Gweithgarwch Corfforol**

**Questions to the Minister for**  
**Culture and Sport**

**Physical Activity**

|       |  |   |  |
|-------|--|---|--|
| 14:19 | <p><b>Christine Chapman</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>1. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn annog mwy o bobl yng Nghymru i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol? OAQ(4)0139(CS)</i></p>   | <p><i>1. How is the Welsh Government encouraging more people in Wales to take part in physical activity? OAQ(4)0139(CS)</i></p>   | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 14:19 | <p><b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport</i></p> <p>The Welsh Government and its partners have a range of programmes that encourage people to take part in sport and physical activity. This is co-ordinated by our physical activity executive group.</p>   | <p>Mae gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid amrywiaeth o raglenni sy'n annog pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Cydgyssylltir hyn gan ein grŵp gweithgarwch corfforol gweithredol.</p>  | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 14:19 | <p><b>Christine Chapman</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>We know that children from poorer backgrounds can face barriers in accessing sporting activity. This was something that we discussed with you when you attended the Communities, Equality and Local Government Committee recently. I welcomed the report that you commissioned recently from Kay Andrews on how culture and the arts can be used to tackle poverty. Do you have any plans to do a similar report for sport and poverty?</p>   | <p>Rydym yn gwybod y gall plant o gefndiroedd tlotach wynebu rhwystrau o ran cael mynediad at weithgareddau chwaraeon. Roedd hyn yn rhywbeth i ni ei drafod gyda chi pan ddaethoch i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn ddiweddar. Croesewais yr adroddiad a gomisiynwyd gennych yn ddiweddar gan Kay Andrews ar sut y gellir defnyddio diwylliant a'r celfyddydau i drechu tlodi. A oes gennych chi unrhyw gynlluniau i wneud adroddiad tebyg ar gyfer chwaraeon a thlodi?</p>   | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 14:20 | <p><b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>It is a great priority for the Welsh Government to tackle poverty and to use all available levers across departments in order to do so. The physical activity executive group is very much about making the links between physical activity, ill health and inequality. Therefore, I very much expect that physical activity executive group to deal with these matters. We intend to publish an action plan this spring. That will detail the important work that we are carrying out, and plan to carry out, on these matters.</p>                         | <p>Mae trechu tlodi yn flaenoriaeth bwysig i Lywodraeth Cymru, fel y mae defnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael ar draws adrannau er mwyn gwneud hynny. Nod pendant y grŵp gweithgarwch corfforol gweithredol yw gwneud y cysylltiadau rhwng gweithgarwch corfforol, iechyd gwael ac anghydraddoldeb. Felly, rwy'n bendant yn disgwyl i'r grŵp gweithgarwch corfforol gweithredol hwnnw ymdrin â'r materion hyn. Rydym yn bwriadu cyhoeddi cynllun gweithredu y gwanwyn hwn. Bydd hwnnw'n cynnwys manylion y gwaith pwysig yr ydym ni'n ei wneud, ac yn bwriadu ei wneud, ar y materion hyn.</p>                  | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 14:20 | <p><b>Andrew R.T. Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>The issue about obesity in young people is well documented. There have been various Government initiatives to get more young people involved in sport, generally, to try to increase fitness level, and that transcends the boundaries of Government. However, would you say that many previous attempts to do this have, regrettably, failed, given the rising amount of obesity in young people? What have you learned in your experience as Minister that you need to do differently so that you can change that track record of failure to date?</p> | <p>Mae gordewdra ymhlith pobl ifanc yn fater sydd wedi cael llawer o gyhoeddusrwydd. Bu mentrau Llywodraeth amrywiol i gael mwy o bobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon, yn gyffredinol, i geisio cynyddu lefel ffïtrwydd, ac mae hynny'n mynd y tu hwnt i ffiniau Llywodraeth. Fodd bynnag, a fydddech chi'n dweud bod llawer o ymdrechion i wneud hyn yn y gorffennol, yn anffodus, wedi methu, o ystyried y gordewdra cynyddol ymhlith pobl ifanc? Beth ydych chi wedi ei ddysgu yn eich profiad fel Gweinidog y mae angen i chi ei wneud yn wahanol fel y gallwch newid yr hanes o fethiant hyd yn hyn?</p> | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 14:21 | <p><b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I would not describe it as a track record of failure. For example, the Sport Wales survey, in terms of activity in sport among schoolchildren, is positive indeed, and has shown a marked increase. Therefore, we have made substantial progress, but we would like to make more. Again, the physical activity executive group is looking at these issues, in terms of health and obesity, as an important part of that.</p>   | <p>Ni fyddwn yn ei ddisgrifio fel hanes o fethiant. Er enghraifft, mae arolwg Chwaraeon Cymru, o ran plant ysgol yn cymryd rhan mewn chwaraeon, yn gadarnhaol iawn, ac wedi dangos cynnydd sylweddol. Felly, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol, ond byddem yn hoffi gwneud mwy. Unwaith eto, mae'r grŵp gweithgarwch corfforol gweithredol yn ystyried y materion hyn, o ran iechyd a gordewdra, fel rhan bwysig o hynny.</p>   | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |



One important lesson to be learned has been made clear by Tanni Grey-Thompson in her report, which is that, in the captive audience we have in our schools, it is very important that we get good habits embedded as early as possible in people's lives so that those good habits stay with them throughout their lives. Huw Lewis, the Minister for Education and Skills, and I have partly responded to Tanni Grey's report, and we will be doing so further in the near future.

Gwnaed un wers bwysig i'w dysgu yn eglur gan Tanni Grey-Thompson yn ei hadroddiad, sef, yn y gynulleidfa gaeth sydd gennym yn ein hysgolion, ei bod yn bwysig iawn ein bod yn ymsefydlu arferion da ym mywydau pobl cyn gynted â phosibl fel bod yr arferion da hynny yn aros gyda nhw trwy gydol eu bywydau. Mae Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, a minnau wedi ymateb yn rhannol i adroddiad Tanni Grey, a byddwn yn gwneud hynny ymhellach yn y dyfodol agos.

14:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Plaid Cymru spokesperson, Bethan Jenkins.

Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Bethan Jenkins.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:22 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, mae'n hawdd i'r Llywodraeth ddweud ei bod yn dda i bobl ifanc ymwneud â chwaraeon, ond mewn llawer o ardaloedd, fel Castell-nedd Port Talbot a sir Gaerfyrddin, mae pobl ifanc wedi eu priso allan o chwaraeon, oherwydd y prisiau mawr ar gyfleusterau penodol. A wnech chi, felly, siarad ag awdurdodau lleol i sicrhau na fydd y prisiau hynny yn mynd mor uchel na fyddant yn gallu cymryd rhan mewn chwaraeon yn eu hardaloedd lleol?

Minister, it is easy for the Government to say that it is good for young people to be involved in sports, but in many areas, such as Neath Port Talbot and Carmarthenshire, young people have been priced out of sports, because of the high prices charged for specific facilities. Will you, therefore, talk to local authorities to ensure that those prices do not go so high that they will not be able to participate in sports in their local areas?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:22 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have written to local authorities, making pertinent points with regard to their current financial difficulties, which we all face together, but they need, nonetheless, to understand the importance of sport and physical activity for health and much else.

Rwyf wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol, gan wneud pwyntiau perthnasol o ran eu trafferthion ariannol presennol, yr ydym i gyd yn eu hwynebu gyda'n gilydd, ond mae angen, serch hynny, iddyn nhw ddeall pwysigrwydd chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar gyfer iechyd a llawer mwy.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I have also met with local authority leaders, executive members and lead officers to reinforce these points, but local authorities face difficult decisions. In terms of charges for sports facilities, we have said, as a Government, that there should be a proper process of consultation and impact assessment before radical changes are made, and there are alternative models that are in existence in Wales that show how it is possible to achieve more with less. Therefore, the difficulties are considerable, but they are certainly not insurmountable.

Rwyf hefyd wedi cyfarfod ag arweinwyr, aelodau gweithredol a swyddogion arweiniol awdurdodau lleol i atgyfnerthu'r pwyntiau hyn, ond mae awdurdodau lleol yn wynebu penderfyniadau anodd. O ran costau ar gyfer cyfleusterau chwaraeon, rydym ni wedi dweud, fel Llywodraeth, y dylai fod proses briodol o ymgynghori ac asesu effaith cyn gwneud newidiadau sylfaenol, a cheir modelau eraill sy'n bodoli yng Nghymru sy'n dangos sut mae'n bosibl cyflawni mwy gyda llai. Felly, mae'r anawsterau'n sylweddol, ond yn sicr nid ydynt yn anorchfygol.

14:23 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer. I just wanted to go on to the role of women in sport. Nicole Cooke recently said that there is not enough sport that includes women on our television screens. What discussions have you had with broadcasters about, potentially, putting on more rugby and football matches, or even individual sports, so that people can have that inspiration from female sport stars in Wales? They are currently not seeing enough of those women on their televisions, or even hearing them on the radio.

Diolch i chi am yr ateb yna. Hoffwn i fynd ymlaen i swyddogaeth menywod mewn chwaraeon. Dywedodd Nicole Cooke yn ddiweddar nad oes digon o chwaraeon sy'n cynnwys menywod ar ein sgriniau teledu. Pa drafodaethau ydych chi wedi eu cael gyda darlledwyr am, o bosibl, rhoi mwy o gemau rygbi a phêl-droed ymlaen, neu hyd yn oed chwaraeon unigol, fel y gall pobl gael yr ysbrydoliaeth honno gan sêr chwaraeon benywaidd yng Nghymru? Nid ydynt yn gweld digon o'r menywod hynny ar eu setiau teledu ar hyn o bryd, nac yn eu clywed ar y radio hyd yn oed.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:24 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Nicole Cooke is a great role model for girls and women in Wales, as an ex-Olympic champion and great cyclist. We have to take very seriously the points that Nicole Cooke makes, because she is such a significant figure, but also because of the underlying strength of those viewpoints. I am happy to raise these matters with broadcasters and the media in general.

Mae Nicole Cooke yn esiampl wych i ferched a menywod yng Nghymru, fel cyn-bencampwr Olympaidd a beiciwr gwych. Mae'n rhaid i ni roi ystyriaeth ddifrifol iawn i'r pwyntiau mae Nicole Cooke yn eu gwneud, gan ei bod yn ffigwr mor bwysig, ond hefyd oherwydd cryfder sylfaenol y safbwyntiau hynny. Rwy'n hapus i godi'r materion hyn gyda darlledwyr a'r cyfryngau yn gyffredinol.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:24 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brecon boxing club has been hugely successful in getting young people physically active, and you have been previously very supportive of the efforts the club has made in that regard. Unfortunately, the club is under threat of disciplinary action from the Welsh Amateur Boxing Association because of the association of one of the leading lights of that club as a whistleblower in highlighting some of the problems that were brought to light as a result of an audit into that investigation. Minister, would you agree that such whistleblowing activities should not be used as an excuse to damage the ability of that club to provide recreational opportunities for young people in Brecon? What action have you taken as a result of that damning audit report into the WABA?

Mae clwb bocsiio Aberhonddu wedi bod yn hynod lwyddiannus o ran cael pobl ifanc i ymarfer corff, ac rydych chi wedi bod yn gefnogol iawn yn y gorffennol o'r ymdrechion y mae'r clwb wedi eu gwneud yn hynny o beth. Yn anffodus, mae'r clwb dan fygythiad o gamau disgyblu gan Gymdeithas Bocsiio Amatur Cymru oherwydd cysylltiad un o unigolion blaenllaw'r clwb hwnnw fel chwythwr chwiban o ran amlygu rhai o'r problemau a ddaeth i'r amlwg o ganlyniad i archwiliad o'r ymchwiliad hwnnw. Weinidog, a fydddech chi'n cytuno na ddylai gweithgareddau chwythu'r chwiban o'r fath gael eu defnyddio fel esgus i niweidio gallu'r clwb hwnnw i gynnig cyfleoedd hamdden i bobl ifanc yn Aberhonddu? Pa gamau ydych chi wedi eu cymryd o ganlyniad i'r adroddiad archwilio beirniadol hwnnw o Gymdeithas Bocsiio Amatur Cymru?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:25 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First of all, these matters are ongoing, so I am limited in what I can say. However, in general terms, it is very important that all organisations in Wales have the best possible arrangements in place to protect whistleblowers, because the issues involved are well known and apply across a range of organisations, including those in sport. There has been correspondence between my officials, Sport Wales and the boxing world. So, these matters are being addressed. I do understand the issues that the Member raises, and I hope that the ongoing process will effectively address those.

Yn gyntaf oll, mae'r materion hyn yn parhau, felly rwyf wedi fy nghyfyngu o ran yr hyn y gallaf ei ddweud. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'n bwysig iawn bod gan bob sefydliad yng Nghymru y trefniadau gorau posibl ar waith i ddiogelu chwythwyr chwiban, gan fod y materion dan sylw yn adnabyddus ac yn berthnasol ar draws amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys y rhai mewn chwaraeon. Bu gohebiaeth rhwng fy swyddogion, Chwaraeon Cymru a'r byd bocsiio. Felly mae'r materion hyn yn cael sylw. Rwy'n deall y materion y mae'r Aelod yn eu codi, ac rwy'n gobeithio y bydd y broses barhaus yn mynd i'r afael â'r rheini'n effeithiol.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

## Merched mewn Chwaraeon

## Girls in Sport

14:26 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*2. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog mwy o ferched i gymryd rhan mewn chwaraeon yn Llanelli? OAQ(4)0149(CS)*

*2. Will the Minister give an update on what the Welsh Government is doing to encourage more girls to take part in sport in Llanelli? OAQ(4)0149(CS)*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:26 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod mwy o ferched yn cymryd rhan mewn chwaraeon. Mae Chwaraeon Cymru yn parhau i weithio gyda'i bartneriaid i hyrwyddo'r agenda hon.

The Welsh Government is committed to ensuring that more girls take up sport. Sport Wales continues to work with partners in driving forward this agenda.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:26

**Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Roeddwn yn sylwi'n ddiweddar bod Undeb Rygbi Cymru yn awr yn cefnogi rygbi bach—'touch rugby' roeddwn i'n arfer ei alw—a chael merched a bechgyn i chwarae gyda'i gilydd. Yn ddiweddar, cefais 20 o beli pêl-droed gan gwmni MacDonald's a gofynnwyd i mi eu dosbarthu yn yr etholaeth. Penderfynais y byddwn yn eu dosbarthu i dimau merched, ond cefais fy synnu mai dim ond un tîm pêl-droed merched oedd yn etholaeth Llanelli. Weinidog, a ydych yn credu y dylai Ymddiriedolaeth Pêl-droed Cymru a'r ysgolion wneud mwy gyda'i gilydd, fel mae Undeb Rygbi Cymru yn ei wneud yn awr, i gael mwy o ferched i chwarae pêl-droed?

I noticed recently that the Welsh Rugby Union is now supporting touch rugby, and getting girls and boys to play together. Recently, MacDonald's gave me 20 football balls to be distributed in the constituency. I decided that I would distribute them to women's teams, but I was surprised that there is only one women's football team in the Llanelli constituency. Minister, do you think that the Welsh Football Trust and schools should do more together, as the Welsh Rugby Union is doing now, to get more girls to play football?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:27

**John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I very much agree with the Member that we need to continually strive to get more girls and women involved in sport and physical activity, including football. Touch rugby is developing, and I recently spoke with those involved in taking that element of women's and girls' activity forward in Wrexham at the end of last week. However, I understand that there are something like 30 teams and just under 300 players in the girls and women's west Wales league, so it has developed quite considerably in recent times. The Welsh Football Trust has development officers tasked with increasing that participation across Wales. So, I think that we have made progress, but there is obviously more to do.

Rwy'n cytuno'n llwyr gyda'r Aelod bod angen i ni ymdrechu'n barhaus i gael mwy o ferched a menywod i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, gan gynnwys pêl-droed. Mae rygbi cyffwrdd yn datblygu, a siaradais yn ddiweddar â'r rhai sy'n ymwneud â datblygu'r elfen honno o weithgarwch menywod a merched yn Wrecsam ddiwedd wythnos diwethaf. Fodd bynnag, rwy'n deall bod tua 30 o dimau ac ychydig yn llai na 300 o chwaraewyr yng nghynghrair merched a menywod gorllewin Cymru, felly mae wedi datblygu yn dra sylweddol yn ddiweddar. Mae gan Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru swyddogion sydd â'r dasg o gynyddu'r cyfranogiad hwnnw ledled Cymru. Felly, rwy'n meddwl ein bod wedi gwneud cynnydd, ond mae mwy i'w wneud yn amlwg.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:28

**Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, one of the most successful international women's sport teams is the national women's cricket team, which unlike the men did retain the Ashes this year. The captain of the team recently visited Wales to inspire the next generation of young female cricketers, many of whom are training at the Cricket Wales hub at Llangennech, Hendy. WRU gets about £400,000 to help support grass-roots rugby, including rugby for women. What direct support do you give to Cricket Wales for it to do the same?

Weinidog, un o'r tîmau chwaraeon menywod rhyngwladol mwyaf llwyddiannus yw'r tîm criced menywod cenedlaethol, a lwyddodd i gadw'r Llundw eleni, yn wahanol i'r dynion. Ymwelodd capten y tîm â Chymru yn ddiweddar i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o gricedwyr benywaidd ifanc, y mae llawer ohonynt yn cael eu hyfforddi yng nghanolfan Criced Cymru yn Llangennech, Hendy. Mae Undeb Rygbi Cymru yn cael tua £400,000 i helpu i gefnogi rygbi ar lawr gwlad, gan gynnwys rygbi i fenywod. Pa gymorth uniongyrchol ydych chi'n ei roi i Griced Cymru er mwyn iddo wneud yr un fath?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:29

**John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We fund sport in Wales through Sport Wales, which funds the national governing bodies. It is important again to recognise the progress that we have made in terms of women and girls playing cricket in Wales. In my constituency of Newport East, Newport Cricket Club has a very good story to tell. I play cricket in an evening league at the same venue as Newport women's and girls cricket clubs, and they have made substantial progress in recent times. We need to spread this progress across Wales.

Rydym yn ariannu chwaraeon yng Nghymru drwy Chwaraeon Cymru, sy'n ariannu cyrff llywodraethu cenedlaethol. Unwaith eto, mae'n bwysig cydnabod y cynnydd rydym ni wedi ei wneud o ran menywod a merched yn chwarae criced yng Nghymru. Yn fy etholaeth i yn Nwyrain Casnewydd, mae gan Glwb Criced Casnewydd stori dda iawn i'w hadrodd. Rwy'n chwarae criced mewn cynghrair fin nos yn yr un lleoliad â chlybiau criced menywod a merched Casnewydd, ac maen nhw wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ddiweddar. Mae angen i ni ledaenu'r cynnydd hwn ar draws Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:29

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, rwyf eisiau gofyn cwestiwn am bêl-droed, felly dechreuaf drwy longyfarch y Sgarlets ar ennill dydd Sadwrn. Cawsoch lythyr gan yr FAW tua tair wythnos yn ôl, wedi ei gopio i Aelodau Cynulliad, a oedd yn gofyn yn gryf iawn i chi ystyried gwerth caeau chwarae 3G artiffisial. Os edrychych chi'n arbennig ar resymau pam nad yw merched yn licio cymryd rhan mewn rhai chwaraeon, mae'n amlwg bod gan y caeau artiffisial hyn rôl i'w chwarae i agor chwaraeon fyny i bawb, ond i ferched yn arbennig. Gan fod cynlluniau gan dîm pêl-droed tref Llanelli i gael cae o'r fath, ym mha ffordd allwch chi fel Llywodraeth, a Chwaraeon Cymru, gydweithio â thimau pêl-droed i gael y cyfleusterau hyn yn Llanelli hefyd?

Minister, I want to ask a question about football, so I start by congratulating the Scarlets for winning on Saturday. You received a letter from the FAW about three weeks ago, copied to Assembly Members, that was asking you strongly to consider the value of 3G artificial pitches. If you look in particular at the reasons why girls do not enjoy participating in some sports, it is obvious that these artificial pitches have a role to play in opening up sports to everyone, but particularly to girls. As there are plans by Llanelli town football club to have such a pitch, how can you as a Government, and Sport Wales, collaborate with football teams to ensure that these facilities are in place in Llanelli as well?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:30

**John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that it is very important that, as we roll out 3G pitches across Wales, we do so in a strategic way. Therefore, there is Sport Wales funding available, there is football league of Wales funding available, as well as other sources. So, it is very important that we look strategically to make sure that all of Wales has adequate coverage. However, I very much agree that it is a great opportunity, in terms of having these quality pitches, to get greater sport and physical activity in Wales. I know that hockey is a big part, for example, of the use of those pitches as far as girls and women are concerned. I was recently in Ystrad Mynach, where they are developing a sports centre, including 3G. They were very keen to tell me that, in working with local grass-roots sport, and knowing that there will be great demand for the use of those 3G pitches, they will say to local sports clubs, 'If you show us that you're delivering in terms of involving girls and women, as well as young people, in addressing deprivation factors, then we will be much more likely to make these facilities available to you'. I think that that is a very constructive and effective approach.

Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn, wrth i ni gyflwyno lleiniau 3G ledled Cymru, ein bod yn gwneud hynny mewn modd strategol. Felly, mae cyllid Chwaraeon Cymru ar gael, mae cyllid cynghrair pêl-droed Cymru ar gael, yn ogystal â ffynonellau eraill. Felly, mae'n bwysig iawn ein bod yn edrych yn strategol i sicrhau bod gan Gymru gyfan ddarpariaeth ddigonol. Fodd bynnag, rwy'n cytuno'n llwyr ei fod yn gyfle gwych, o ran cael y lleiniau hyn o ansawdd da, i gael mwy o chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru. Gwn fod hoci yn rhan fawr, er enghraifft, o'r defnydd o'r lleiniau hynny cyn belled ag y mae merched a menywod yn y cwestiwn. Roeddwn yn Ystrad Mynach yn ddiweddar, lle maen nhw'n datblygu canolfan chwaraeon, gan gynnwys 3G. Roedden nhw'n awyddus iawn i ddweud wrthyf, wrth weithio gyda chwaraeon llawr gwlad lleol, a chan wybod y bydd galw mawr am y defnydd o'r lleiniau 3G hynny, y byddant yn dweud wrth glybiau chwaraeon lleol, 'Os dangoswch chi i ni eich bod yn cyflawni o ran cynnwys merched a menywod, yn ogystal â phobl ifanc, wrth fynd i'r afael â ffactorau amddifadedd, yna byddwn yn llawer mwy tebygol o sicrhau bod y cyfleusterau hyn ar gael i chi'. Rwy'n meddwl bod hwnnw'n ddull adeiladol ac effeithiol iawn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Chwaraeon Merched

## Women's Sport

14:31

**Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*3. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei gynlluniau ar gyfer datblygu chwaraeon merched yng Nghymru yn 2014? OAQ(4)0140(CS)*

*3. Will the Minister outline his plans for developing women's sport in Wales in 2014? OAQ(4)0140(CS)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:31

**John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Government is focusing on encouraging more women to take part in sport, as exemplified by the Sport Wales campaign, 'What Moves You?'

Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar annog mwy o fenywod i gymryd rhan mewn chwaraeon, fel y dengys gan ymgyrch Chwaraeon Cymru, 'Sut Mae'ch Symud Chi?'

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:32 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much for the reply, Minister. You have already answered part of my question in your answer to Bethan Jenkins, but I would like to ask you about one different area. When you put the big, iconic sports personalities on big posters around Wales and the United Kingdom, attracting people to come and create sporting events in Wales, it is very unlikely that there are any iconic sportswomen on those posters. Therefore, in the media and all this stuff we are sadly lagging behind. You just mentioned Nicole Cooke, who has said that the biggest problem with the media is that only 5% of coverage for women's sports is shown in the media. So, what are you going to do about that, Minister?

Diolch yn fawr iawn am yr ateb, Weinidog. Rydych chi eisoes wedi ateb rhan o fy nghwestiwn yn eich ateb i Bethan Jenkins, ond hoffwn eich holi am un maes gwahanol. Pan fyddwch chi'n rhoi'r personoliaethau chwaraeon mawr, eiconig ar bosteri mawr o gwmpas Cymru a'r Deyrnas Unedig, gan ddenu pobl i ddod a chreu digwyddiadau chwaraeon yng Nghymru, mae'n annhebygol iawn bod unrhyw athletwyr benywaidd eiconig ar y posteri hynny. Felly, yn y cyfryngau a'r holl bethau hyn, rydym ni ar ei hôl hi'n anffodus. Rydych chi newydd grybwyll Nicole Cooke, sydd wedi dweud mai'r broblem fwyaf gyda'r cyfryngau yw mai dim ond 5% o'r sylw i chwaraeon menywod sy'n cael ei ddangos yn y cyfryngau. Felly, beth ydych chi'n mynd i'w wneud am hynny, Weinidog?

14:32 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

As I mentioned in answering an earlier question, I will have the necessary discussions with broadcasters. However, in terms of posters and general promotional activity, I think that women do feature quite strongly, and, certainly, I have seen a number of very good examples of that. However, if the Member was to write to me perhaps with a little more detail of his concerns, I would be very happy to look at that.

Fel y soniais wrth ateb cwestiwn cynharach, byddaf yn cael y trafodaethau angenrheidiol gyda darlledwyr. Fodd bynnag, o ran poster i a gweithgarwch hyrwyddo cyffredinol, rwy'n meddwl bod menywod yn cael eu cynnwys yn weddol amlwg, ac, yn sicr, rwyf wedi gweld nifer o enghreifftiau da iawn o hynny. Fodd bynnag, pe byddai'r Aelod yn ysgrifennu ataf gydag ychydig mwy o fanylion am ei bryderon efallai, byddwn yn hapus iawn i edrych ar hynny.

14:33 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Minister, I hope you would encourage positive images of female athletes, so that they are valued for their sporting achievements, rather than for their looks and their body type. I heard your answer to Suzy Davies earlier. I wonder about the distribution of Welsh Government money via Sport Wales. I wonder whether you would publish what money the Welsh Government spends on sport, by sport and by gender.

Weinidog, rwy'n gobeithio y byddech chi'n annog delweddu cadarnhaol o athletwyr benywaidd, fel eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu llwyddiannau ym myd chwaraeon yn hytrach na'r ffordd maen nhw'n edrych a'r math o gorff sydd ganddynt. Clywais eich ateb i Suzy Davies yn gynharach. Rwy'n meddwl am y dosbarthiad o arian Llywodraeth Cymru drwy Chwaraeon Cymru. Tybed a fydddech chi'n cyhoeddi pa arian y mae Llywodraeth Cymru yn ei wario ar chwaraeon, fesul camp ac yn ôl rhyw.

14:33 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

As I say, most of our funding is channelled through Sport Wales. I would be very happy to break down that expenditure for Members' attention.

Fel rwy'n dweud, mae'r rhan fwyaf o'n cyllid yn cael ei sianelu trwy Chwaraeon Cymru. Byddwn yn hapus iawn i ddadansoddi'r gwariant hwnnw at sylw'r Aelodau.

## Celfyddydau

## Arts

14:33 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

*4. Pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ennyn diddordeb yn y celfyddydau ymhlith pobl ifanc?*  
OAQ(4)0151(CS)

*4. What work is the Welsh Government doing to generate interest in the arts among young people?*  
OAQ(4)0151(CS)

14:34 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Mae Llywodraeth Cymru, a Chyngor Celfyddydau Cymru, yn gweithio gyda phartneriaid ymrwymiol i hybu diddordeb pobl ifanc yn y celfyddydau.

The Welsh Government, and the Arts Council of Wales, works with various partners to promote young people's interest in the arts.

14:34 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Weinidog, am y datganiad hwnnw. Mae'r Athro Dai Smith wedi cynhyrchu adroddiad sy'n galw am roi gweithgarwch celfyddydol yng nghalon ein haddysg a'n hysgolion. Beth ydy barn y Llywodraeth, a phryd fyddwch chi'n gwneud datganiad ar hyn?

Thank you, Minister, for that statement. Professor Dai Smith has produced a report that calls for art to be put at the heart of our education and schools. What is the Government's view and when will you be making a statement on this?

14:34 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Dai Smith's 'An independent report for the Welsh Government into Arts in Education in the Schools of Wales' is very significant indeed. We plan to publish a national plan for creative learning this summer, setting out how the Government intends to take the report forward. I very much look forward to discussing that action plan and, indeed, our implementation of the report in general with Members, as we move forward.

Mae 'Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru' Dai Smith yn arwyddocaol iawn yn wir. Rydym yn bwriadu cyhoeddi cynllun cenedlaethol ar gyfer dysgu creadigol yr haf hwn, yn nodi sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu mynd â'r adroddiad yn ei flaen. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at drafod y cynllun gweithredu hwnnw ac, yn wir, ein gweithreidiad o'r adroddiad yn gyffredinol gydag Aelodau, wrth i ni symud ymlaen.

14:35 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, recommendation 5 of the arts in education report talks about developing a framework for continuous professional development for the provision of arts in education. I wondered how that might be progressing, given how difficult it is to put CPD through our schools at present in the general sense, let alone in one particular specialist subject like this, and given that there is no authority or organisation with overall responsibility for ensuring that teachers take up CPD.

Weinidog, mae argymhelliad 5 yr adroddiad celfyddydau mewn addysg yn sôn am ddatblygu fframwaith ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer darparu'r celfyddydau mewn addysg. Roeddwn i'n meddwl tybed sut mae hynny'n dod yn ei flaen, o ystyried pa mor anodd yw hi i roi DPP drwy ein hysgolion ar hyn o bryd yn yr ystyr cyffredinol, heb sôn am un pwnc arbenigol penodol fel hwn, ac o ystyried nad oes unrhyw awdurdod neu sefydliad sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod athrawon yn manteisio ar DPP.

14:35 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I have worked very closely, and will continue to do so, with my colleague the Minister for Education and Skills in responding to Dai Smith's report and accepting all the recommendations. All those recommendations will be addressed in the plan, which will be published in the summer.

Rwyf wedi gweithio'n agos iawn, a byddaf yn parhau i wneud hynny, gyda fy nghydweithiwr, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, wrth ymateb i adroddiad Dai Smith a derbyn yr holl argymhellion. Bydd yr holl argymhellion hynny'n cael sylw yn y cynllun, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn yr haf.

## Chwaraeon Lleiafrifol

14:35 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo chwaraeon lleiafrifol yng Nghymru? OAQ(4)0141(CS)*

*5. Will the Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to promote minority sports in Wales? OAQ(4)0141(CS)*

14:35 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Through Sport Wales, the Welsh Government invests in a wide range of sports to promote and encourage participation and to develop and support our most talented athletes and teams.

Trwy Chwaraeon Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn amrywiaeth eang o gampau i hybu ac annog cyfranogiad ac i ddatblygu a chefnogi ein hathletwyr a'n timau mwyaf talentog.

- 14:36 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for your response, Minister. As you know, getting people into sport and exercise at a young age can have a massive impact on their health and fitness, as well as good habits to take into adulthood. For many people, it is about finding the sport or exercise that they enjoy. What is therefore being done to support sports that are growing in popularity, such as weightlifting, fencing, basketball, netball and curling, as well as exercise classes like high-intensity interval training?
- Diolch i chi am eich ymateb, Weinidog. Fel y gwyddoch, gall ennyn diddordeb pobl mewn chwaraeon ac ymarfer corff yn ifanc gael effaith enfawr ar eu hiechyd a'u ffitrwydd, yn ogystal ag arferion da i'w cadw yn eu bywydau fel oedolion. I lawer o bobl, mae'n golygu dod o hyd i gamp neu ymarfer corff maen nhw'n ei fwynhau. Beth sy'n cael ei wneud felly i gefnogi chwaraeon sy'n tyfu mewn poblogrwydd, fel codi pwysau, ffensio, pêl-fasged, pêl-rwyd a chyrlio, yn ogystal â dosbarthiadau ymarfer corff fel hyfforddiant egwyl dwysedd uchel?
- 14:36 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Sport Wales supports a range of sports—some 46 different sports—through its funding programmes. I think that it is really important that we understand the demand that is in place in terms of sport, and respond to it. One example of doing that is our young ambassadors, who are very effective in terms of being in our schools and colleges of further education. I met with ColegauCymru this morning to discuss these matters. The young ambassadors understand what young people want to have provided for them and then encourage response to that involving outside bodies, as well as the schools and colleges themselves.
- Mae Chwaraeon Cymru yn cefnogi amrywiaeth o gampau—tua 46 o wahanol gampau—trwy ei raglenni ariannu. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn deall y galw sy'n bodoli o ran chwaraeon, ac yn ymateb iddo. Un enghraifft o wneud hynny yw ein cenhadon ifanc, sy'n effeithiol iawn o ran bod yn ein hysgolion a'n colegau addysg bellach. Cefais gyfarfod gyda ColegauCymru y bore yma i drafod y materion hyn. Mae'r cenhadon ifanc yn deall yr hyn yr hoffai pobl ifanc ei weld yn cael ei ddarparu ar eu cyfer ac wedyn yn annog ymateb i hynny gan gynnwys cyrff allanol, yn ogystal â'r ysgolion a'r colegau eu hunain.
- 14:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I call opposition spokesperson, Suzy Davies. Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Suzy Davies.
- 14:37 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, the number of young people with a disability or sensory impairment who are hooked on sport is about a quarter lower than those without a disability, according to the recent Sport Wales school sport survey. We have seen from the recent Winter Paralympics that UK athletes have done particularly well in less well known sports. Is there an opportunity here for us to look at non-traditional sports in order to engage young people, not only in grass-roots activity, but perhaps in national excellence, whether they have a disability or not?
- Weinidog, mae nifer y bobl ifanc sydd ag anabledd neu nam ar y synhwyrau sydd wedi gwirioni ar chwaraeon tua chwarter yn is na'r rhai heb anabledd, yn ôl arolwg ar chwaraeon ysgol diweddar Chwaraeon Cymru. Rydym ni wedi gweld o Gemau Paralympaidd y Gaef yn ddiweddar bod athletwyr o'r DU wedi gwneud yn arbennig o dda mewn campau llai adnabyddus. A oes cyfle yma i ni edrych ar chwaraeon nad ydynt yn draddodiadol er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc, nid yn unig mewn gweithgarwch ar lawr gwlad, ond efallai mewn rhagoriaeth genedlaethol, pa un a oes ganddynt anabledd ai peidio?
- 14:37 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Very much so. Again, I think young ambassadors are key in enabling us to understand what all young people would like to see provided and then to work to make that provision. Disability Sport Wales has a great track record in recent times. It has exponentially increased the number of sports opportunities for our disabled youngsters and disabled people in Wales in general, and many more sports clubs catering for people with disabilities now exist. So, we have made considerable progress, but obviously we need to strengthen and further develop that.
- Oes, yn sicr. Unwaith eto, rwy'n credu bod cenhadon ifanc yn allweddol o ran ein galluogi i ddeall yr hyn y byddai pob unigolyn ifanc yn hoffi ei weld yn cael ei ddarparu ac yna i weithio i greu'r ddarpariaeth honno. Mae gan Chwaraeon Anabledd Cymru hanes gwych yn ddiweddar. Mae wedi cynyddu'n gyflym nifer y cyfleoedd chwaraeon ar gyfer ein pobl ifanc anabl a phobl anabl yng Nghymru yn gyffredinol, ac mae llawer mwy o glybiau chwaraeon sy'n darparu ar gyfer pobl ag anableddau yn bodoli bellach. Felly, rydym ni wedi gwneud cynnydd sylweddol, ond yn amlwg mae angen i ni gryfhau a datblygu hynny ymhellach.

14:38 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much for that answer. Of course, Disability Sport Wales is at the heart of the work behind the International Paralympic Committee Athletics European Championships, which, I am very pleased to say, are coming to Swansea later this year. This is great encouragement for people with disabilities to participate, but what is the Welsh Government doing to promote and equip Wales to become the go-to location for national and international events for elite disabled sportspeople, perhaps in more unusual disciplines?

Diolch yn fawr iawn am yr ateb yna. Wrth gwrs, mae Chwaraeon Anabledd Cymru yn ganolog i'r gwaith y tu ôl i Bencampwriaethau Athletau Ewropeaidd y Pwyllgor Paralympaidd Rhyngwladol, sydd, rwy'n falch iawn o ddweud, yn dod i Abertawe yn ddiweddarach eleni. Mae hyn yn anogaeth wych i bobl ag anableddau gymryd rhan, ond beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo a pharatoi Cymru er mwyn iddi fod yn lleoliad blaenllaw ar gyfer digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol i athletwyr anabl elfit, mewn disgyblaethau mwy anarferol efallai?

14:38 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

When it comes to major events, of course, the major events strategy of the Welsh Government sits with my colleague Edwina Hart as the Minister for economic development. However, I work with her very closely in looking at a range of events that we might consider funding here in Wales. That is a constant effort to make sure that we are aware of the possibilities and that we are strategic in our approach.

Pan ddaw i ddigwyddiadau mawr, wrth gwrs, fy nghydweithiwr Edwina Hart fel y Gweinidog datblygu economaidd sy'n gyfrifol am strategaeth digwyddiadau mawr Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rwy'n gweithio'n agos iawn gyda hi i ystyried amrywiaeth o ddigwyddiadau y gallem ystyried eu hariannu yma yng Nghymru. Mae honno'n ymdrech barhaus i wneud yn siŵr ein bod yn ymwybodol o'r posibilïadau a bod ein dull yn un strategol.

## Chwaraeon, Gweithgarwch Corfforol a Hamdden Egniol

## Sport, Physical Activity and Active Recreation

14:39 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*6. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei drafodaethau gydag arweinwyr awdurdodau lleol ynglŷn â strategaeth a pholisi cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon, gweithgarwch corfforol a hamdden egniol yng Nghymru? OAQ(4)0148(CS)*

*6. Will the Minister provide an update on his discussions with local authority leaders regarding the Welsh Government's national strategy and policy for sport, physical activity and active recreation in Wales? OAQ(4)0148(CS)*

14:39 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n cwrrd yn rheolaidd â chynrychiolwyr awdurdodau lleol ledled Cymru i drafod pob math o faterion sydd yn fy mhorthfolio.

I meet regularly with local authority representatives across Wales to discuss a range of cultural issues that are in my portfolio.

14:40 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, roeddwn wedi casglu hynny o'ch ateb blaenorol i Bethan Jenkins—eich bod wedi cael y trafodaethau. Pan ofynnais am y wybodaeth, roedd gen i fwy o ddiddordeb mewn unrhyw ymateb yr oeddech wedi ei gael oddi wrth y cynrychiolwyr hynny. Tra bod gennych strategaeth a pholisi cenedlaethol, yr hyn yr ydym yn ei weld, fel yr oedd Bethan yn ei amlinellu, yw bod y ffioedd ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon yn codi yn gyson a bod bygythiad y bydd adnoddau yn cael eu cau a'r ffioedd yn codi i'r dyfodol. Sut ydych chi'n mynd i wynebu'r her honno a beth y mae arweinwyr awdurdodau lleol yn dweud wrthyfch am y dyfodol?

Minister, I gathered that from your previous answer to Bethan Jenkins's question, that you had had the discussions. When I asked for information, I was more interested in any response that you might have received from those representatives. While you do have a strategy and a national policy, what we see, as Bethan highlighted, is that the fees for participation in sport are rising consistently and that there is a threat that facilities will be closed and that these fees will be even higher in future. How are you going to face that challenge and what are local authority leaders telling you about the future?



- 14:40 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, as I say, we all know that local authorities face very difficult budgetary decisions because of the cuts imposed by the UK Government. So, it is a very difficult situation that they face. However, there are new, alternative models for delivery. We see outsourcing to not-for-profit trusts, for example, which have delivered quite effectively in parts of Wales. We see some good co-location policies. So, there are new ways of doing things that need to be considered, and I know that local authorities are doing so because they have told me that at these meetings. We also know, of course, that, where some local authorities have announced significant increases in charges, some of those are being revisited and reviewed.
- 14:41 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- What discussions have you had with Welsh local authority leaders regarding the implementation of their play action plans in response to their play sufficiency assessments, noting, as I am sure you are aware, that play is nature's training for life—that it is unstructured, not organised and does not have predetermined outcomes? However, the Welsh Government's consultation document on play sufficiency referred to play being classed as any recreational activity.
- 14:42 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that play crosses a number of Welsh Government portfolios and departments, so I work very closely with colleagues on these matters. I mentioned the physical activity executive group earlier. We are very conscious of the need to address physical activity issues at the earliest ages, and a range of work is going on in our partner bodies—Sport Wales and others. So, we work with local authorities through a variety of partners to address these matters.
- 14:42 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, rydych yn dweud bod penderfyniadau anodd gan gynghorau lleol i'w cymryd ac nid wyf yn dweud nad yw hynny'n wir, ond mae'r modd yr ydych yn cymryd y penderfyniadau hynny yn bwysig. Yn bendant yn achos cyngor Wrecsam, yr oedd penderfyniad i gau canolfan hamdden Plas Madoc o fewn chwech i wyth wythnos o'r adeg y daeth y cyhoedd yn ymwybodol o'r cynllun. Ar ôl hynny, nid oedd y cyngor yn barod i roi'r amser sy'n ofynnol i'r bobl leol er mwyn iddynt greu ymddiriedolaeth. A ydych yn barod i roi canllawiau i lywodraeth leol fel ei fod yn ofynnol arnynt i fynd drwy broses a fydd yn galluogi pobl leol i gael cyfle i roi ffyrdd eraill ymlaen?
- 14:43 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- As I mentioned earlier, I have written to all local authorities in Wales setting out my priorities and views with regard to these matters, and I have made clear at the meetings and in other ways what we consider to be due process, and that very much includes consultation and, of course, impact assessment.

Wel, fel rwy'n dweud, rydym ni i gyd yn gwybod bod awdurdodau lleol yn wynebu penderfyniadau cyllidebol anodd iawn oherwydd y toriadau a orfordwyd gan Lywodraeth y DU. Felly, mae'r sefyllfa maen nhw'n ei hwynebu'n un anodd iawn. Fodd bynnag, ceir modelau newydd, amgen ar gyfer darparu. Rydym yn gweld contractau allanol i ymddiriedolaethau dielw, er enghraifft, sydd wedi darparu'n dra effeithiol mewn rhannau o Gymru. Rydym yn gweld rhai polisiau cyd-leoli da. Felly, ceir ffyrdd newydd o wneud pethau y mae angen eu hystyried, a gwn fod awdurdodau lleol yn gwneud hynny gan eu bod wedi dweud wrthyf yn y cyfarfodydd hyn. Rydym ni hefyd yn gwybod, wrth gwrs, lle mae rhai awdurdodau lleol wedi cyhoeddi cynnydd sylweddol mewn costau, bod rhai o'r rheini yn cael eu hailystyried a'u hadolygu.

Pa drafodaethau ydych chi wedi eu cael gydag arweinwyr awdurdodau lleol Cymru ynglŷn â rhoi eu cynlluniau gweithredu chwarae ar waith, mewn ymateb i'w hasesiadau o ddigonolrwydd chwarae, gan nodi, fel rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol, mai chwarae yw hyfforddiant natur ar gyfer bywyd—ei fod yn ddistrwythur, heb ei drefnu a heb ganlyniadau y penderfynwyd arnynt ymlaen llaw? Fodd bynnag, cyfeiriodd dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru ar ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae at chwarae'n cael ei dosbarthu fel unrhyw weithgaredd hamdden.

Rwy'n credu bod chwarae yn croesi nifer o bortffolios ac adrannau Llywodraeth Cymru, felly rwy'n gweithio'n agos iawn gyda chydweithwyr ar y materion hyn. Soniais am y grŵp gweithredol gweithgarwch corfforol yn gynharach. Rydym yn ymwybodol iawn o'r angen i fynd i'r afael â materion gweithgarwch corfforol ar yr oeddrannau cynharaf, ac mae amrywiaeth o waith yn cael ei wneud yn ein cyrff partner—Chwaraeon Cymru ac eraill. Felly, rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol trwy amrywiaeth o bartneriaid i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Minister, you say that local councils have difficult decisions to take and I am not saying that that is not true, but the way in which you take those decisions is important. Certainly in the case of Wrexham council, there was a decision to close Plas Madoc leisure centre within six to eight weeks of the public becoming aware of the plan. After that, the council was not ready to give the time required to the local people for them to be able to establish a trust. Are you ready to give local authorities guidance so that it is a requirement on them to go through a process that will enable local people to have an opportunity to put other means forward?

Fel y soniais yn gynharach, rwyf wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol yng Nghymru yn nodi fy mlaenoriaethau a'm safbwyntiau o ran y materion hyn, ac rwyf wedi ei gwneud yn eglur yn y cyfarfodydd ac mewn ffyrdd eraill yr hyn yr ydym ni'n eu hystyried fel bod y drefn briodol, ac mae hynny'n sicr yn cynnwys ymgynghori ac, wrth gwrs, asesu effaith.

## Safleoedd Treftadaeth

## Heritage Sites

- 14:43 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo safleoedd treftadaeth ledled Cymru? OAQ(4)0142(CS)*
- 14:43 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Cadw leads a rich and diverse historic environment sector in promoting heritage sites across Wales.
- 14:44 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Thank you, Minister. If you access the interactive map of historic sites on the Cadw website, it lists sites managed by Cadw directly but not those managed by other organisations, such as the National Trust, local authorities or community groups. If Cadw is the Welsh Government body responsible for leading the promotion of Wales's unique and very rich historical environment, why is it not working in better partnership with those other organisations to give a more rounded picture of everything that Wales has to offer?
- 14:44 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
May I say that, increasingly, Cadw is working in ever closer partnership with other heritage organisations in Wales, including very much the National Trust? I have been at a number of meetings with the National Trust and Cadw to discuss how we take that partnership forward. It is clear, I think, through strategies such as the heritage tourism project and, indeed, the pan-Wales interpretation project that we are increasingly linking up our heritage organisations to good effect.
- 14:45 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Minister, there are three important heritage sites in my constituency of the smaller type, similar to many others around Wales: the Natgarw pottery, the Taff's Well springs and the Hetty pit, which is being restored. They are all very much dependent on volunteers for their existence and maintenance. What consideration is the Welsh Government giving to how the volunteers themselves can be better supported, because if they disappear, potentially, the sites may well disappear and fall into ruin as well?
7. Will the Minister make a statement on the promotion of heritage sites across Wales? OAQ(4)0142(CS)
- Mae Cadw yn arwain sector amgylchedd hanesyddol cyfoethog ac amrywiol wrth hyrwyddo safleoedd treftadaeth ledled Cymru.
- Diolch i chi, Weinidog. Os edrychwch chi ar y map rhyngweithiol o safleoedd hanesyddol ar wefan Cadw, mae'n rhestru safleoedd a reolir gan Cadw yn uniongyrchol, ond nid y rhai a reolir gan sefydliadau eraill, fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, awdurdodau lleol neu grwpiau cymunedol. Os mai Cadw yw'r corff Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am arwain y gwaith o hyrwyddo amgylchedd hanesyddol unigryw a hynod gyfoethog Cymru, pam nad yw'n gweithio mewn partneriaeth well â'r sefydliadau eraill hynny er mwyn rhoi darlun mwy cyflawn o bopeth sydd gan Gymru i'w gynnig?
- A gaf i ddweud, bod Cadw yn gynyddol, yn gweithio mewn partneriaeth fwyfwy agos â sefydliadau treftadaeth eraill yng Nghymru, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn sicr? Rwyf wedi bod mewn nifer o gyfarfodydd gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Cadw i drafod sut y gallwn fwrw ymlaen â'r bartneriaeth honno. Mae'n amlwg, rwy'n credu, trwy strategaethau fel y prosiect twristiaeth treftadaeth ac, yn wir, y prosiect dehongli Cymru gyfan, ein bod yn cyd-gysylltu ein sefydliadau treftadaeth yn gynyddol ac yn effeithiol.
- Weinidog, ceir tri safle treftadaeth pwysig o'r math llai yn fy etholaeth i, yn debyg i lawer o rai eraill o gwmpas Cymru: crochendy Nantgarw, tarddellau Ffynnon Taf a phwll Hetty, sy'n cael ei adfer. Maen nhw i gyd yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar wirfoddolwyr am eu bodolaeth a'r gwaith o'u cynnal a'u cadw. Pa ystyriaeth mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i sut y gellir cefnogi'r gwirfoddolwyr eu hunain yn well, oherwydd os byddant hwy yn diflannu, mae'n bosibl iawn y gallai'r safleoedd ddiflannu ac adfeilio hefyd?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:45 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I very much agree with Mick Antoniw that volunteers are a priceless asset for our heritage; indeed, they are a priceless asset across all Welsh Government responsibilities and activities. I know that Cadw very much values volunteers and has a range of advice and guidance in place to support volunteer activity. It also, of course, funds third sector bodies that themselves provide advice and support for smaller community groups. We have good examples of organisations, such as the architectural heritage fund and the Welsh archaeological trusts, which work with volunteers in Wales.
- Rwy'n cytuno'n llwyr â Mick Antoniw bod gwirfoddolwyr yn ased amhrisiadwy ar gyfer ein treftadaeth; yn wir, maen nhw'n ased amhrisiadwy ar draws holl gyfrifoldebau a gweithgareddau Llywodraeth Cymru. Gwn fod Cadw yn gwerthfawrogi gwirfoddolwyr yn fawr iawn ac mae ganddo amrywiaeth o gyngor a chanllawiau i gefnogi gweithgarwch gwirfoddolwyr. Mae hefyd, wrth gwrs, yn ariannu cyrff trydydd sector sy'n darparu cyngor a chymorth eu hunain i grwpiau cymunedol llai. Mae gennym enghreifftiau da o sefydliadau, fel y gronfa treftadaeth bensaernïol ac ymddiriedolaethau archeolegol Cymru, sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr yng Nghymru.
- 14:46 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am sure that Members are expecting me to ask the Minister about the need for an overhaul of the very tired brown tourist signs in Wales, but I have bent the Minister's ear on that at every occasion, I think, in questions recently, so I will change tack today. In February this year, we had a debate on 'The future of our past' consultation, which looked at ways forward for the heritage sector in Wales. You have already mentioned Cadw. In my constituency, Cadw is criticised for its failure to protect the ancient Monmouth shipbuilding site discovered a couple of years ago, which now, sadly, lies under a housing estate. What guarantees can you give us that Cadw can be made more accountable and transparent if it receives extra power in the near future to make sure that we are not missing out on future heritage sites that will be well worthy of promotion?
- Rwy'n siŵr bod yr Aelodau yn disgwyl i mi ofyn i'r Gweinidog am yr angen i ailwampio'r arwyddion twristiaeth brown blinedig iawn yng Nghymru, ond rwyf wedi poeni'r Gweinidog ynghylch hynny ar bob achlysur, rwy'n meddwl, mewn cwestiynau yn ddiweddar, felly byddaf yn newid cyfeiriad heddiw. Ym mis Chwefror eleni, cawsom ddaol ar ymgynghoriad 'Dyfodol ein gorffennol', a edrychodd ar ffyrdd ymlaen i'r sector treftadaeth yng Nghymru. Rydych chi eisoes wedi sôn am Cadw. Yn fy etholaeth i, mae Cadw yn cael ei feirniadu am ei fethiant i ddiogelu safle adeiladu llongau hynafol Trefynwy a ddarganfuwyd flwyddyn neu ddwy yn ôl, sydd bellach, yn anffodus, yn gorwedd o dan ystad o dai. Pa sicrwydd allwch chi ei roi i ni y gellir gwneud yn siŵr y bydd Cadw yn fwy atebol a thryloyw os yw'n derbyn pŵer ychwanegol yn y dyfodol agos i sicrhau nad ydym yn colli cyfleoedd o ran safleoedd treftadaeth yn y dyfodol a fydd yn deilwng iawn o gael eu hyrwyddo?
- 14:47 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The Member will be aware that I am taking forward a heritage Bill, which will be very much about striking the best balance between protection and conservation and the range of socioeconomic interests that are in play in these matters. So, I think that there will be ample opportunity for Members to state their views throughout that process.
- Bydd yr Aelod yn gwybod fy mod yn bwrw ymlaen â Bil treftadaeth, a fydd â'r nod pendant o daro'r cydbwysedd gorau rhwng diogelu a chadwraeth a'r amrywiaeth o fuddiannau economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r materion hyn. Felly, rwy'n meddwl y bydd digon o gyfle i Aelodau fynegi eu barn trwy gydol y broses honno.
- 14:47 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, mewn ychydig fisoedd, fe fydd yna safle treftadaeth ychwanegol newydd ar y map yng Nghymru pan fydd castell Aberteifi yn agor ei ddrysau yn dilyn adferiad llawn. A wnewch chi sicrhau bod eich swyddogion chi, a Cadw yn benodol, yn gweithio gyda'r ymddiriedolaeth leol a'r awdurdod lleol i sicrhau bod Cymru gyfan yn dod i wybod am gastell Aberteifi unwaith y bydd y castell ar agor i'r cyhoedd?
- Minister, in a few months' time, there will be a new heritage site added to the map in Wales when Cardigan castle will open its doors following a full renovation. Will you ensure that your officials, and Cadw specifically, will work with the local trust and the local authority to ensure that the whole of Wales comes to know about Cardigan castle once it is open to the public?
- 14:48 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am very pleased to give Elin Jones an assurance that I will do just that. This is a very promising development for the whole of Wales, as well as the local area, and I pay tribute to the tremendous work, over a number of years, carried out by local people and a number of organisations.
- Rwy'n falch iawn o sicrhau Elin Jones y byddaf yn gwneud yn union hynny. Mae hwn yn ddatblygiad addawol iawn i Gymru gyfan, yn ogystal â'r ardal leol, ac rwy'n talu teyrnged i'r gwaith ardderchog a wnaed gan bobl leol a nifer o sefydliadau dros nifer o flynyddoedd.

## Pobl Ifanc a Chwaraeon

## Young People and Sport

|       |  |   |  |
|-------|--|---|--|
| 14:48 | <p><b>Paul Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>8. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon yn Sir Benfro? OAQ(4)0137(CS)</i></p>  | <p><i>8. What is the Welsh Government doing to encourage young people to take up sport in Pembrokeshire? OAQ(4)0137(CS)</i></p>   | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 14:48 | <p><b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â Chwaraeon Cymru i sicrhau bod pobl ifanc sy'n byw yn sir Benfro yn cael cyfle i gymryd rhan mewn chwaraeon yn eu cymunedau.</p>   | <p>The Welsh Government works closely with Sport Wales to ensure that young people living in Pembrokeshire have opportunities to take part in sport within their communities.</p>   | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 14:48 | <p><b>Paul Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, I am sure that you will agree that it is essential that all schools have adequate facilities for sports, and that children and young people are encouraged to take up sporting activities. Unfortunately, there are schools, such as Ysgol y Preseli in my constituency, without proper and adequate sports facilities; its playing fields are prone to flooding. Can you therefore tell us, Minister, what support the Welsh Government can offer local education authorities so that schools like Ysgol y Preseli can ensure that they have access to the facilities that they so desperately need, and what discussions have you had with your colleague the Minister for education on this particular matter?</p>   | <p>Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno ei bod yn hanfodol bod gan bob ysgol gyfleusterau digonol ar gyfer chwaraeon, a bod plant a phobl ifanc yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon. Yn anffodus, ceir ysgolion, fel Ysgol y Preseli yn fy etholaeth i, nad oes ganddynt gyfleusterau chwaraeon priodol a digonol; mae ei chaeau chwarae yn dueddol o ddioddef llifogydd. Felly, a allwch chi ddweud wrthym, Weinidog, pa gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei gynnig i awdurdodau addysg lleol fel y gall ysgolion fel Ysgol y Preseli sicrhau eu bod yn cael mynediad at y cyfleusterau y mae wir eu hangen arnynt, a pha drafodaethau yr ydych chi wedi eu cael gyda'ch cydweithiwr, y Gweinidog addysg ar y mater penodol hwn?</p>   | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 14:49 | <p><b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I work very closely with the Minister for education in terms of sport and physical activities in our schools. One of the strongest aspects of Tanni Grey-Thompson's report is to link the schools with the wider sports and physical activity community to a much greater degree. I think that that is very important to ensure that facilities, in general, are available to our pupils, but I am sure that the Minister for education will have heard what the Member said, and will also consider the best way forward.</p>   | <p>Rwy'n gweithio'n agos iawn gyda'r Gweinidog addysg o ran chwaraeon a gweithgareddau corfforol yn ein hysgolion. Un o agweddau cryfaf adroddiad Tanni Grey-Thompson yw cysylltu'r ysgolion gyda'r gymuned chwaraeon a gweithgarwch corfforol ehangach i raddau llawer mwy. Rwy'n meddwl bod hynny'n bwysig iawn i sicrhau bod cyfleusterau, yn gyffredinol, ar gael i'n disgyblion, ond rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog addysg wedi clywed yr hyn a ddywedodd yr Aelod, ac y bydd hefyd yn ystyried y ffordd orau ymlaen.</p>   | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 14:50 | <p><b>Simon Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, in discussion with teachers in Pembrokeshire who are responsible for teaching physical education, they have raised with me several concerns about the lack of very simple physical skills that young people and children need in order to access the PE curriculum, in the same way as you need reading skills to access the academic curriculum. Their skills relating to movement simply are not there because young people these days have a much more sedentary lifestyle and are not, in effect, playing out in the fields. There is a different kind of lifestyle going on. So, what are you doing, working with the Minister for education, to build those essential skills, because otherwise young people will simply be put off from taking part in sports because they feel embarrassed and that it is not for them because they do not have some very elementary skills in relation to running, catching and kicking a ball?</p> | <p>Weinidog, mewn trafodaeth gydag athrawon yn Sir Benfro sy'n gyfrifol am addysgu addysg gorfforol, maen nhw wedi codi gyda mi nifer o bryderon am y diffyg sgiliau corfforol syml iawn sydd eu hangen ar bobl ifanc a phlant er mwyn cael mynediad at y cwricwlwm Addysg Gorfforol, yn yr un modd ag y mae angen sgiliau darllen arnoch i gael mynediad at y cwricwlwm academiaidd. Yn syml, nid oes gan bobl ifanc y sgiliau symud oherwydd bod ganddynt ffordd lawer mwy eisteddog o fyw y dyddiau hyn ac nid ydynt, mewn gwirionedd, yn chwarae allan yn y caeau. Ceir gwahanol fath o ffordd o fyw heddiw. Felly, beth ydych chi'n ei wneud, gan weithio gyda'r Gweinidog addysg, i ddatblygu'r sgiliau hanfodol hynny, neu fel arall, ni fydd pobl ifanc yn fodlon cymryd rhan mewn chwaraeon oherwydd eu bod yn teimlo cywilydd ac nad yw'n rhywbeth sy'n addas iddynt hwy gan nad oes ganddynt rai o'r sgiliau elfennol iawn o ran rhedeg, dal a chicio pêl?</p> | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |

|       |  |   |
|-------|--|---|
| 14:50 | <b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  | <a href="#">Senedd.tv</a><br><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>  |
|       | <p>I very much agree with the Member that we need to make sure that our children are increasingly physically literate, as it is put. Together with the Minister for education, I recently announced £1.78 million for physical literacy in Wales, partly in response to Tanni Grey-Thompson's report. It is very important that we get those skills embedded at as early an age as possible. So, we also look at pre-school, Flying Start, and other schemes, to make appropriate links. I know that gymnastics clubs will accept babies, as it were, from eight weeks of age to give them the very early motor skills that will stand them in good stead for the rest of their lives.</p> | <p>Rwy'n cytuno'n llwyr gyda'r Aelod bod angen i ni wneud yn siŵr bod ein plant yn fwyfwy llythrennog yn gorfforol, fel y dywedir. Ynghyd â'r Gweinidog addysg, cyhoeddais £1.78 miliwn yn ddiweddar ar gyfer llythrennedd corfforol yng Nghymru, yn rhannol mewn ymateb i adroddiad Tanni Grey-Thompson. Mae'n bwysig iawn bod y sgiliau hynny'n cael eu hymsefydlu ar oedran mor gynnar â phosibl. Felly, rydym ni hefyd yn edrych ar gynlluniau cyn oed ysgol, Dechrau'n Deg, a chynlluniau eraill, er mwyn gwneud cysylltiadau priodol. Gwn fod clybiau gymnasteg yn fodlon derbyn babanod, fel petai, o wyth wythnos oed ymlaen, i roi'r sgiliau echddygol cynnar iawn iddynt a fydd yn eu paratoi'n dda ar gyfer gweddill eu bywydau.</p> |
|       | <b>Beicio</b>  | <b>Cycling</b>  |
| 14:51 | <b>Rhun ap Iorwerth</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  | <a href="#">Senedd.tv</a><br><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>  |
|       | <p>9. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo'r defnydd o feicio ymhlith disgyblion Cymru? OAQ(4)0145(CS)</p>  | <p>9. What is the Welsh Government doing to promote the use of cycling amongst Welsh pupils? OAQ(4)0145(CS)</p>   |
| 14:51 | <b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  | <a href="#">Senedd.tv</a><br><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>  |
|       | <p>Mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen ag amrywiaeth o brosiectau sy'n annog disgyblion ledled Cymru i ddechrau beicio.</p>   | <p>The Welsh Government is going ahead with a range of projects that promote uptake of cycling among pupils across Wales.</p>   |
| 14:52 | <b>Rhun ap Iorwerth</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  | <a href="#">Senedd.tv</a><br><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>  |
|       | <p>Rwyf i, yn sicr, yn croesawu'r cyllid ychwanegol sydd ar gael ar gyfer ffyrdd diogel i ysgolion, a'r buddsoddiad fydd yn cael ei wneud yn Llandegfan, Llansadwrn ac yn y Fali yn fy etholaeth i. Fodd bynnag, a gaf sôn am rywbeth yr wyf yn ei gefnogi mewn egwyddor, sef y cynllun llythrennedd corfforol mewn ysgolion? Mae ffocws ar chwaraeon mewn ysgolion, wrth gwrs, ac mae pryder bod hynny'n eithrio pethau fel gweithgaredd corfforol dyddiol, a hynny'n eithrio seiclo. Felly, beth a allwch ei wneud o dan y rhaglen honno i annog disgyblion i ddefnyddio eu beiciau fel bod y ffyrdd diogel i ysgolion yn gallu cael eu defnyddio?</p>                                   | <p>I, certainly, welcome the additional funding available for safe routes to school and the investment that there will be in Llandegfan, Llansadwrn and Valley in my constituency. However, may I mention something that I support in principle, namely the physical literacy in schools plan? There is a focus on sport in schools, of course, and there is a concern that that excludes such things as daily physical activities, and therefore cycling. Therefore, what can you do under that particular programme to encourage pupils to use their bicycles so that the safe routes to schools can be used?</p>   |
| 14:52 | <b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  | <a href="#">Senedd.tv</a><br><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>  |
|       | <p>I am very pleased that the Minister for transport recently announced £5 million to improve walking and cycling routes across Wales, because that is an investment that will very much deliver on this agenda. The Active Travel (Wales) Act 2013 gives us a very important opportunity to drive home these messages and ensure that we increase walking and cycling to school to provide that physical activity as part of pupils' everyday school experience. We have an active travel board in place now, which will address these issues as we take forward an appropriate action plan.</p>  | <p>Rwy'n falch iawn bod y Gweinidog trafnidiaeth wedi cyhoeddi £5 miliwn i wella llwybrau cerdded a beicio ledled Cymru yn ddiweddar, gan fod hwnnw'n fuddsoddiad a fydd yn sicr yn cyflawni o ran yr agenda hon. Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn rhoi cyfle pwysig iawn i ni bwysleisio'r negeseuon hyn a sicrhau ein bod yn cynyddu cerdded a beicio i'r ysgol i ddarparu'r gweithgarwch corfforol hwnnw yn rhan o brofiad beunyddiol disgyblion yn yr ysgol. Mae gennym fwrdd teithio llesol wedi ei sefydlu bellach, a fydd yn mynd i'r afael â'r materion hyn wrth i ni frwr ymlaen â chynllun gweithredu priodol.</p>  |
|       | <b>Gweithgarwch Chwaraeon a Merched</b>  | <b>Sporting Activities and Girls</b>  |

|       |  |  |
|-------|--|--|
| 14:53 | <p><b>David Rees</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>10. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo mwy o weithgarwch chwaraeon gan ferched? OAQ(4)0150(CS)</i></p>  | <p><i>10. What actions is the Welsh Government taking to promote a greater uptake of sporting activities by girls? OAQ(4)0150(CS)</i></p> <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>   |
| 14:53 | <p><b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>The Welsh Government has a particular focus to ensure that women and girls engage in sport. Sport Wales is working with all governing bodies to increase uptake by girls.</p>  | <p>Mae gan Lywodraeth Cymru bwyslais penodol i sicrhau bod menywod a merched yn cymryd rhan mewn chwaraeon. Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio gyda'r holl gyrrff llywodraethol i gynyddu nifer y merched sy'n cymryd rhan.</p> <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>  |
| 14:53 | <p><b>David Rees</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you for that answer, Minister, and thank you for the many answers that you have given this afternoon on sport for young people and both genders. It shows the importance that we all place on increasing participation in sport across Wales. In your answer to Simon Thomas you mentioned the importance of developing skills outside the environment of education as well, in the community, and the outreach sport activities that exist in our communities. I think that you recently visited the Neath-Afan Gymnastics club, which is an example of that. Therefore, what discussions are you having with Cabinet colleagues, other than perhaps the Minister for education, about encouraging outreach activities in our communities to develop those skills at an early age, and also in an environment outside the school environment?</p> | <p>Diolch i chi am yr ateb yna, Weinidog, a diolch i chi am yr atebion lawer yr ydych chi wedi eu rhoi y prynhawn yma ar chwaraeon ar gyfer pobl ifanc ac ar gyfer y ddau ryw. Mae'n dangos y pwysigrwydd yr ydym ni i gyd yn ei roi ar gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon ledled Cymru. Soniasoch yn eich ateb i Simon Thomas bwysigrwydd datblygu sgiliau y tu allan i'r amgylchedd addysg hefyd, yn y gymuned, a'r gweithgareddau chwaraeon allgymorth sy'n bodoli yn ein cymunedau. Rwy'n credu eich bod wedi ymweld â chlwb Gymnasteg Castell-nedd-Afan yn ddiweddar, sy'n enghraifft o hynny. Felly, pa drafodaethau ydych chi'n eu cael gyda chydweithwyr yn y Cabinet, heblaw am y Gweinidog addysg efallai, ar annog gweithgareddau allgymorth yn ein cymunedau i ddatblygu'r sgiliau hynny yn gynnar, a hefyd mewn amgylchedd y tu allan i amgylchedd yr ysgol?</p> <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 14:54 | <p><b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Neath-Afan Gymnastics club is a very good example of an organisation that is very forward-thinking in its policy and activities. It engages with the wider community very effectively. I must say that it was a very good visit. I work with all of our Welsh Government Ministers, of course, in taking these policies forward. I mentioned the physical activity executive group, which Mark Drakeford sits on and which also involves other Ministers periodically at meetings and otherwise in general. So, we do work across Government. However, in terms of the deprivation factors, I work very closely with colleagues such as Jeff Cuthbert and Vaughan Gething and we meet and discuss these matters to make the appropriate links.</p>   | <p>Mae clwb Gymnasteg Castell-nedd-Afan yn enghraifft dda iawn o sefydliad sy'n arloesol iawn o ran ei bolisi a'i weithgareddau. Mae'n ymgysylltu â'r gymuned ehangach yn effeithiol iawn. Mae'n rhaid i mi ddweud ei fod yn ymweliad da iawn. Rwy'n gweithio gyda phob un o Weinidogion Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, wrth fwrw ymlaen â'r polisiau hyn. Soniais am y grŵp gweithredol gweithgarwch corfforol, y mae Mark Drakeford yn aelod ohono ac sydd hefyd yn cynnwys Gweinidogion eraill o bryd i'w gilydd mewn cyfarfodydd ac fel arall yn gyffredinol. Felly, rydym yn gweithio ar draws y Llywodraeth. Fodd bynnag, o ran y ffactorau amddifadedd, rwy'n gweithio'n agos iawn gyda chydweithwyr fel Jeff Cuthbert a Vaughan Gething ac rydym ni'n cyfarfod ac yn trafod y materion hyn i wneud y cysylltiadau priodol.</p> <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>   |
| 14:55 | <p><b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>During our evidence-taking sessions, and in the Sport Wales report, it was suggested that, sadly, participation levels for girls are decreasing. Some reasons being given were a lack of confidence in body image, sportswear requirements and, in particular, as regards girls within minority cultures, many feeling it better not to participate. How do you intend to address this, Minister, and how have you applied the equality impact assessment as part of any forward and future policy making in this regard?</p>  | <p>Yn ystod ein sesiynau casglu tystiolaeth, ac yn adroddiad Chwaraeon Cymru, awgrymwyd, yn anffodus, bod lefelau cyfranogiad ymhlith merched yn gostwng. Rhai rhesymau a roddwyd oedd diffyg hyder yn nelwedd y corff, gofynion dillad chwaraeon ac, yn arbennig, o ran merched mewn diwylliannau lleiafrifol, bod llawer yn teimlo ei bod yn well peidio â chymryd rhan. Sut ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â hyn, Weinidog, a sut ydych chi wedi defnyddio'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn rhan o unrhyw waith llunio polisi yn y dyfodol yn hyn o beth?</p> <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>  |

|       |   |  |
|-------|---|--|
| 14:55 | <b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>   | <a href="#">Senedd.tv</a><br><a href="#">Fideo Video</a>   |
|       | <p>We very carefully assess our policies and strategies in terms of equalities and the likely impact. We have seen an increase in physical activity, as measured by the Sport Wales schools survey, which is very encouraging for us. It is a significant increase. I have also met with black and minority ethnic groups and Sport Wales to discuss how we address some of the gaps that are particularly difficult for us. We will address those particular inequalities in terms of participation together as we move forward.</p>   | <p>Rydym yn asesu ein polisiau a'n strategaethau o ran cydraddoldeb a'r effaith debygol yn ofalus iawn. Rydym ni wedi gweld cynnydd mewn gweithgarwch corfforol, fel y'i mesurir gan arolwg ysgolion Chwaraeon Cymru, sy'n galonogol iawn i ni. Mae'n gynnydd sylweddol. Rwyf hefyd wedi cyfarfod â grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a Chwaraeon Cymru i drafod sut y gallwn ni fynd i'r afael â rhai o'r bylchau sy'n arbennig o anodd i ni. Byddwn yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau penodol hynny o ran cyfranogiad gyda'n gilydd wrth i ni symud ymlaen.</p>  |
| 14:56 | <b>Jocelyn Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>   | <a href="#">Senedd.tv</a><br><a href="#">Fideo Video</a>   |
|       | <p>Minister, research by the Women's Sport and Fitness Foundation found that, for many girls, school sport and physical education lessons are a barrier to participation. A quarter of women say that school PE lessons put them off for life—probably those dreadful PE skirts that haunt us. We know that women's sport gets about 0.25% of all sponsorship, so it is badly funded and generally poorly encouraged in schools, but we know that active mothers make active children and that would improve the nation's health. Minister, do you think that you are doing enough on this front?</p> | <p>Weinidog, canfu gwaith ymchwil gan Sefydliad Chwaraeon a Ffithrydd Menywod bod chwaraeon ysgol a gwersi addysg gorfforol yn rhwystr i gyfranogiad i lawer o ferched. Mae chwarter menywod yn dweud bod gwersi AG yn yr ysgol wedi golygu nad oeddent yn dymuno cymryd rhan am oes—y sgerbiau Addysg Gorfforol echrydus hynny sy'n rhoi hunllefau i ni, yn ôl pob tebyg. Rydym yn gwybod bod chwaraeon menywod yn cael tua 0.25% o'r holl nawdd, felly mae'n cael ei ariannu'n wael ac yn cael ei annog yn wael yn gyffredinol mewn ysgolion, ond rydym yn gwybod bod mamau egniol yn golygu plant egniol ac y byddai hynny'n gwella iechyd y genedl. Weinidog, a ydych chi'n meddwl eich bod yn gwneud digon yn hyn o beth?</p> |
| 14:57 | <b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>   | <a href="#">Senedd.tv</a><br><a href="#">Fideo Video</a>   |
|       | <p>I am sure that we can do more and I am sure that Sport Wales and other bodies can do more. We are very much working towards that. Part of the work is about working with whole families, which very much addresses that mother-daughter relationship. If we get things right in terms of Tanni Grey-Thompson's report, we are going to have a consistently high-quality offer in all our schools across Wales for all our pupils. I think that that is very much the way forward for us.</p>   | <p>Rwy'n siŵr y gallwn ni wneud mwy ac rwy'n siŵr y gall Chwaraeon Cymru a chyrff eraill wneud mwy. Rydym ni'n gweithio'n bendant tuag at hynny. Mae rhan o'r gwaith yn ymwneud â gweithio gyda theuluoedd cyfan, sy'n mynd i'r afael yn bendant â'r berthynas mam-merch honno. Os byddwn yn cael pethau'n iawn o ran adroddiad Tanni Grey-Thompson, rydym ni'n mynd i gael cynnig o ansawdd uchel cyson yn ein holl ysgolion ledled Cymru i'n holl ddisgyblion. Rwy'n credu mai dyna'r ffordd ymlaen i ni yn sicr.</p>  |
| 14:57 | <b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  | <a href="#">Senedd.tv</a><br><a href="#">Fideo Video</a>   |
|       | <p>Question 11 is from the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.</p>  | <p>Daw Cwestiwn 11 gan lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.</p>   |
|       | <b>Yr Amgylchedd Hanesyddol</b>   | <b>The Historic Environment</b>  |
| 14:57 | <b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  | <a href="#">Senedd.tv</a><br><a href="#">Fideo Video</a>   |
|       | <p><i>11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r amgylchedd hanesyddol? OAQ(4)0143(CS)</i></p>  | <p><i>11. Will the Minister make a statement on how the Welsh Government is promoting the historic environment? OAQ(4)0143(CS)</i></p>   |
| 14:57 | <b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>   | <a href="#">Senedd.tv</a><br><a href="#">Fideo Video</a>   |
|       | <p>Cadw leads a rich and diverse historic environment sector, which shares my ambition to promote Wales's historic assets as community resources and tourism destinations.</p>  | <p>Mae Cadw yn arwain sector amgylchedd hanesyddol cyfoethog ac amrywiol, sy'n rhannu fy uchelgais i hyrwyddo asedau hanesyddol Cymru fel adnoddau cymunedol a chyrchfannau twristiaeth.</p>   |

|       |   |  |   |  |
|-------|---|--|---|--|
| 14:58 | <b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>                    | Thank you for that answer, Minister. In your historic environment strategy action plan, published in May 2013, you committed to establishing an all-Wales condition review of heritage assets, identifying those at risk. What progress has been made on that? | Diolch i chi am yr ateb yna, Weinidog. Yng nghynllun gweithredu eich strategaeth amgylchedd hanesyddol, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2013, gwnaethoch ymrwymo i sefydlu adolygiad cyflwr Cymru gyfan o asedau treftadaeth, gan nodi'r rhai sydd mewn perygl. Pa gynnydd sydd wedi ei wneud ar hynny? | Senedd.tv<br><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a> |
| 14:58 | <b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>                 | These are matters that we very much intend to address as we take forward work on the heritage Bill. I would be very pleased to ensure that Members are kept up to date with that work and I will write to Peter Black with current details.                    | Mae'r rhain yn faterion yr ydym yn sicr yn bwriadu mynd i'r afael â nhw wrth i ni fwrw ymlaen â gwaith ar y Bil treftadaeth. Byddwn yn falch iawn o sicrhau bod yr Aelodau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwnnw a byddaf yn ysgrifennu at Peter Black gyda'r manylion cyfredol.    | Senedd.tv<br><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a> |
| 14:58 | <b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>                    | Thank you for that answer, Minister. Do I take it, therefore, that this is dependent on the Bill or is the Bill dependent on the action strategy?  | Diolch i chi am yr ateb yna, Weinidog. A allaf i gymryd, felly, bod hyn yn dibynnu ar y Bil neu a yw'r Bil yn dibynnu ar y strategaeth weithredu?   | Senedd.tv<br><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a> |
| 14:58 | <b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>                 | They very much go together, but we are not going to wait for the legislation and the legislative process to take forward work that can be done in advance of that. I will write to the Member with details of where we currently stand.                        | Maen nhw'n sicr yn mynd gyda'i gilydd, ond nid ydym ni'n mynd i aros am y ddeddfwriaeth a'r broses ddeddfwriaethol i fwrw ymlaen â gwaith y gellir ei wneud cyn hynny. Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod gyda manylion o ble rydym ni'n sefyll ar hyn o bryd.                                    | Senedd.tv<br><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a> |
| 14:59 | <b>William Graham</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>                 | South-east Wales has a wide-ranging and unique historic heritage and environment. Will the Minister outline how the experiences gained from the Ryder Cup will be applied to the NATO conference?  | Mae gan dde-ddwyrain Cymru dreftadaeth ac amgylchedd hanesyddol eang ac unigryw. A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y bydd y profiadau a gafwyd yn ystod Cwpan Ryder yn cael eu defnyddio ar gyfer cynhadledd NATO?   | Senedd.tv<br><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a> |
| 14:59 | <b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>                 | The NATO summit is not a matter for me, as Minister for Culture and Sport, but, where there are aspects of the conference that are relevant to my portfolio, I will work with other Government Ministers to ensure that they are addressed.                    | Nid yw uwchgynhadledd NATO yn fater i mi, fel y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, ond, lle ceir agweddau ar y gynhadledd sy'n berthnasol i fy mhorthfolio, byddaf yn gweithio gyda Gweinidogion eraill y Llywodraeth er mwyn sicrhau eu bod yn cael sylw.                                       | Senedd.tv<br><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a> |
| 14:59 | <b>Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> | Fel mae'n digwydd, Weinidog, rwy'n gwisgo tei fy mhrifysgol, sy'n cynnwys arfbais y Tywysog Llywelyn. A yw'r Gweinidog yn cytuno ei bod yn hen bryd i fathodyn brenhinol Cymru hedfan ar bob castell yng Nghymru, yn hytrach na'r Ddraig Goch?                 | As it happens, Minister, I am wearing my university tie, which includes the coat of arms of Prince Llywelyn. Does the Minister not agree that it is about time for the royal badge of Wales to fly on every castle in Wales, rather than the Red Dragon?  | Senedd.tv<br><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a> |
| 14:59 | <b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>                 | Those are very interesting points and I am sure that Members here will have a variety of views.  | Mae'r rhain yn bwyntiau diddorol iawn ac rwy'n siŵr y bydd gan yr Aelodau yma amrywiaeth o safbwyntiau.   | Senedd.tv<br><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a> |

## Archifau

## Archives



|       |  |   |  |
|-------|--|---|--|
| 15:00 | <p><b>Christine Chapman</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer archifau yng Nghymru? OAQ(4)0138(CS)</i></p>   | <p><i>12. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's vision for archives in Wales? OAQ(4)0138(CS)</i></p>   | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 15:00 | <p><b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>A network of archive services collects and preserves the rich documentary heritage of Wales. 'Archives for the 21st Century' sets out our vision for archives.</p>   | <p>Mae rhwydwaith o wasanaethau archifau yn casglu ac yn cadw treftadaeth ddogfennol gyfoethog Cymru. Mae 'Archifau ar gyfer y 21ain Ganrif' yn nodi ein gwledigaeth ar gyfer archifau.</p>   | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 15:00 | <p><b>Christine Chapman</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, I hosted an event at the Senedd a few weeks ago to celebrate the work of the Women's Archive of Wales and to hear about its exciting plans for the future. I will say that the archive does excellent work in protecting and promoting the past of Welsh women. How do you think we can work with groups like the archive to make sure full consideration is given to women's history among all the important historical events that we are commemorating over this and coming years?</p>   | <p>Weinidog, cynhaliais ddigwyddiad yn y Senedd ychydig wythnosau yn ôl i ddathlu gwaith Archif Menywod Cymru ac i glywed am ei gynlluniau cyffrous ar gyfer y dyfodol. Hoffwn ddweud bod yr archif yn gwneud gwaith rhagorol i ddiogelu a hyrwyddo gorfennol menywod Cymru. Sut ydych chi'n meddwl y gallwn ni weithio gyda grwpiau fel yr archif i wneud yn siŵr y rhoddir ystyriaeth lawn i hanes menywod ymhlith yr holl ddigwyddiadau hanesyddol pwysig yr ydym ni'n eu coffáu yn ystod y flwyddyn hon a'r blynyddoedd sydd i ddod?</p>  | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 15:00 | <p><b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>It is very important that we co-ordinate those events effectively within the Welsh Government and with a range of partner organisations. CyMAL provides grant funding to recognised museums, archives and libraries, and is very much about supporting projects that widen access to our cultural heritage in Wales and make clear the contributions that have been made. I think People's Collection Wales is a very productive partnership. It also involves the Women's Archive of Wales. Perhaps that is the most obvious means of taking forward the work that the Member is rightly interested in.</p> | <p>Mae'n bwysig iawn ein bod yn cydgyssylltu'r digwyddiadau hynny'n effeithiol o fewn Llywodraeth Cymru a chydag amrywiaeth o sefydliadau partner. Mae CyMAL yn darparu cyllid grant i amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd cydnabyddedig, ac mae hynny'n sicr yn golygu cefnogi prosiectau sy'n ehangu mynediad at ein treftadaeth ddiwylliannol yng Nghymru a gwneud y cyfraniadau sydd wedi cael eu gwneud yn eglur. Rwy'n meddwl bod Casgliad y Werin Cymru yn bartneriaeth gynhyrchiol iawn. Mae hefyd yn cynnwys Archif Menywod Cymru. Efallai mai dyna'r ffordd fwyaf amlwg o fwrw ymlaen â'r gwaith y mae gan yr Aelod ddiddordeb ynddo, a hynny'n gywir.</p> | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 15:01 | <p><b>Suzy Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, you will know my enthusiasm for repatriating material of particular interest to Wales either permanently or on long loan. Have you had any discussions with the UK Government about any such material that might be held at the National Archives at Kew?</p>   | <p>Weinidog, byddwch yn ymwybodol o fy mrawdfrwydedd am ail-wladoli deunydd o ddiddordeb penodol i Gymru naill ai'n barhaol neu ar fenthyciad tymor hir. A ydych chi wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU am unrhyw ddeunydd o'r fath a allai fod yn yr Archifau Cenedlaethol yn Kew?</p>  | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 15:01 | <p><b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>We have regular discussions with the UK Government on a range of matters, and I do so in terms of all aspects of my portfolio, but we have not specifically discussed that issue.</p>  | <p>Rydym ni'n cael trafodaethau rheolaidd gyda Llywodraeth y DU ar amrywiaeth o faterion, ac rwy'n gwneud hynny ar gyfer pob agwedd ar fy mhortffolio, ond nid ydym wedi trafod y mater hwnnw yn benodol.</p>   | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |

15:02

**Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Local historians in Cardiff are somewhat concerned at the possible break-up of the Cardiff local archives. I know that CyMAL is looking into this, but there is a risk that they will be divided up between the Glamorgan Archives and some university, and the rest put in a stack just off Newport Road—a not-very-accessible part of Newport Road. There is a lot of concern that, first, if you use the Glamorgan Archives you have to pay, and, secondly, if you are trying to trace your family history, there may be all sorts of different documents that you wish to consult, and you will not even be able to browse them—you will have to ask about specific documents. I wonder whether you could say how this local archive, which is much valued by local and international visitors, could be retained as one.

Mae haneswyr lleol yng Nghaerdydd braidd yn bryderus am chwalu posibl archifau lleol Caerdydd. Gwn fod CyMAL yn ymchwilio i hyn, ond mae perygl y byddant yn cael eu rhannu rhwng Archifau Morgannwg a rhyw brifysgol, a'r gweddill yn cael eu rhoi mewn pentwr ychydig oddi ar Heol Casnewydd—rhan o Heol Casnewydd nad yw'n hygyrch iawn. Ceir llawer o bryder, yn gyntaf, os ydych yn defnyddio Archifdy Morgannwg, mae'n rhaid i chi dalu, ac, yn ail, os ydych chi'n ceisio olrhain hanes eich teulu, efallai y bydd pob math o wahanol ddogfennau yr hoffech chi edrych arnynt, ac ni fyddwch hyd yn oed yn gallu pori drwyddynt—bydd yn rhaid i chi ofyn am ddogfennau penodol. Tybed a allech chi ddweud sut y gellid cadw'r archif lleol hwn, sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan ymwelwyr lleol a rhyngwladol, mewn un uned.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:03

**John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My officials in CyMAL do work closely with local authorities across Wales, including, of course, Cardiff Council. That is about ensuring that the future of local studies collections is properly safeguarded, and there are standards involved that have to be met. In terms of Glamorgan Archives, the new Glamorgan Archives provide state-of-the-art facilities, including high-quality storage accommodation that enables the sort of standards that we would like to see achieved, and to the highest professional standards. Any collections transferred there can be assured of that quality of service.

Mae fy swyddogion yn CyMAL yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol ledled Cymru, gan gynnwys, wrth gwrs, Cyngor Caerdydd. Diben hynny yw sicrhau bod dyfodol casgliadau astudiaethau lleol yn cael ei ddiogelu'n briodol, a cheir safonau y mae'n rhaid eu bodloni. O ran Archifau Morgannwg, mae Archifau newydd Morgannwg newydd yn darparu'r cyfleusterau diweddaraf, gan gynnwys manau storio o ansawdd uchel sy'n galluogi'r math o safonau yr hoffem eu gweld yn cael eu cyrraedd, ac i'r safonau proffesiynol uchaf. Gall unrhyw gasgliadau a drosglwyddir yno fod yn sicr o'r ansawdd hwnnw o wasanaeth.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:03

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Business Statement and Announcement**

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have no changes to report to this week's business. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

Nid oes gennyf unrhyw newidiadau i hysbysu yn eu cylch i fusnes yr wythnos hon. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau yn electronig.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:04

**William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I wrote to you about the incidence of arson, notably the number of deliberately started fires, some weeks ago. All Members will be aware of the dangers these pose to our fire and rescue services and the drain on scarce resources. These instances of deliberately set fires include two large fires, one near Cwmbran and one near Abergavenny, just this last weekend. Minister, will you outline what you intend to do to publicise how dangerous these fires are and the risk that they pose to our personnel?

Weinidog, ysgrifennais atoch ynglŷn â nifer yr achosion o losgi bwriadol, yn enwedig nifer y tanau a gychwynwyd yn fwriadol, rai wythnosau yn ôl. Bydd pob Aelod yn ymwybodol o'r peryglon y mae'r rhain yn eu peri i'n gwasanaethau tân ac achub a'r modd y maent yn defnyddio adnoddau prin. Mae'r achosion hyn o danu bwriadol yn cynnwys dau dân mawr, un ger Cwmbrân ac un ger y Fenni, dim ond y penwythnos diwethaf. Weinidog, a wnech chi amlinellu beth yr ydych yn bwriadu ei wneud i roi cyhoeddusrwydd i ba mor beryglus yw'r tanau hyn a'r risg y maent yn ei pheri i'n personél?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

|       |  |  |  |
|-------|--|--|--|
| 15:04 | <p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Obviously, we had a debate last week in the Chamber regarding the work that our fire and rescue authorities do on our behalf. It is something that I will discuss again when I meet with the chief fire officers and their chairs, which I do regularly. I have noticed that all the fire and rescue authorities have been tweeting about this as well to raise public awareness. I think that we all need to do more to raise that awareness.</p>                               | <p>Yn amlwg, cawsom ddadl yr wythnos diwethaf yn y Siambur ynglŷn â'r gwaith y mae ein hawdurdodau tân ac achub yn ei wneud ar ein rhan. Mae'n rhywbeth y byddaf yn ei drafod eto pan fyddaf yn cwrdd â phrif swyddogion tân a'u cadeiryddion. Rwyf yn gwneud hynny'n rheolaidd. Rwyf wedi sylwi bod yr holl awdurdodau tân ac achub wedi bod yn trydar am hyn hefyd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Credaf fod angen i ni i gyd wneud mwy i godi ymwybyddiaeth.</p>                                       | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 15:05 | <p><b>Sandy Mewies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, can I ask that a statement is made on the potential closure of Creative Foods in Flint, in my constituency, with the possible loss of 149 jobs?</p>  | <p>Weinidog, a gaf fi ofyn bod datganiad yn cael ei wneud ar y posibilrwydd y bydd Creative Foods yn y Fflint, yn fy etholaeth i, yn cau gyda'r posibilrwydd o golli 149 o swyddi?</p>   | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 15:05 | <p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>The company has entered into a period of consultation, and the Minister for Economy, Science and Transport's officials are in contact with the company. She will update Assembly Members in due course.</p>  | <p>Mae'r cwmni wedi dechrau cyfnod o ymgynghori, ac mae swyddogion Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth mewn cysylltiad â'r cwmni. Bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad maes o law.</p>  | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 15:05 | <p><b>Elin Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Weinidog, roeddwn yn disgwyl datganiad gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ynglŷn â deddfwriaeth bosibl ar fynediad agored i dir ac afonydd, ac roeddwn yn disgwyl hwnnw cyn y Pasg. Nid yw hynny yn y flaenraglen. A allwch chi amlinellu inni, felly, pryd y gallwn ddisgwyl datganiad o'r fath gan y Gweinidog, gan fod nifer o'n hetholwyr yn arbennig o awyddus i wybod beth fydd cynnwys y datganiad hwn, yn enwedig y pysgotwyr, wrth gwrs?</p>                              | <p>Minister, I was expecting a statement from the Minister for Culture and Sport about possible legislation on open access to land and rivers, and I was expecting that before Easter. It is not in the forward programme. Can you outline to us, therefore, when we can expect such a statement from the Minister, given that a number of my constituents are very keen to know what the content of this statement will be, especially the anglers, of course?</p>  | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 15:06 | <p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>The Minister for Culture and Sport will make a statement within the first two weeks after our return from Easter recess.</p>   | <p>Bydd y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon yn gwneud datganiad o fewn y pythefnos cyntaf ar ôl inni ddychwelyd wedi'r toriad y Pasg.</p>   | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 15:06 | <p><b>Angela Burns</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Leader of the house, may I ask for a written statement by the Minister for Health and Social Services? As I am sure that you will be aware, the chief executive of Hywel Dda Local Health Board has resigned. The chair of Hywel Dda health board also resigned some months ago. Both will be gone by the summer, and yet Hywel Dda is going through a period of immense and frenetic change. Services are being centralised and hospitals are being changed beyond recognition.</p> | <p>Arweinydd y tŷ, a gaf fi ofyn am ddatganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol? Fel yr wyf yn siŵr y byddwch yn ymwybodol, mae prif weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi ymddiswyddo. Mae cadeirydd bwrdd iechyd Hywel Dda hefyd wedi ymddiswyddo rai misoedd yn ôl. Bydd y ddau wedi mynd erbyn yr haf, ac eto mae Hywel Dda yn mynd trwy gyfnod o newid mawr a gwyllt. Mae gwasanaethau'n cael eu canoli ac ysbytai'n cael eu newid tu hwnt i adnabyddiaeth.</p> | <p>Senedd.tv<br/><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
|       | <p>Some of these changes—not all—are very popular but have been poorly communicated. The Minister for health has promised safety nets and no changes until the alternatives are up and running. Glangwili has very high mortality rates, and this is a time when we have absolutely no consistent and coherent leadership from the people who put the plans in place to the people who are going to deliver those outcomes.</p>  | <p>Mae rhai o'r newidiadau hyn—nid pob un—yn boblogaidd iawn, ond wedi cael eu cyfathrebu'n wael. Mae'r Gweinidog Iechyd wedi addo mesurau diogelwch a dim newidiadau nes bod y trefniadau amgen wedi'u sefydlu ac ar waith. Mae cyfraddau marwolaeth uchel iawn yn ysbyty Glangwili, ac mae hwn yn gyfnod pan nad oes gennym unrhyw fath o arweinyddiaeth gyson a chydlynol gan y bobl sy'n rhoi cynlluniau ar waith i'r bobl sy'n mynd i gyflawni'r canlyniadau hynny.</p>                               |  |

I wonder whether the Minister for Health and Social Services would produce a written statement outlining what steps he is taking to employ a new chair, what guidance he will be giving to the governing body in terms of getting on board a permanent chief executive officer and how he will be handling this significant transition at a time of enormous change.

Tybed a fyddai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn llunio datganiad ysgrifenedig yn amlinellu pa gamau y mae'n eu cymryd i gyflogi cadeirydd newydd, pa ganllawiau y bydd yn eu rhoi i'r corff llywodraethu o ran cael prif swyddog gweithredol parhaol a sut y bydd yn trin y pontio sylweddol hwn mewn cyfnod o newid enfawr.

15:07 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do not agree that there will not be leadership at Hywel Dda health board over the coming months. Clearly, the role of chair is a ministerial appointment, and I am sure that the Minister—as you said, it is well known that the chair is leaving in the summer—has plans in place. In relation to the chief executive, it is obviously not a matter for the Minister to make that appointment. However, there is guidance to all of our health boards regarding the appointment of chief executives.

Nid wyf yn cytuno na fydd arweinyddiaeth ar lefel bwrdd iechyd Hywel Dda yn ystod y misoedd nesaf. Yn amlwg, y Gweinidog sy'n penodi i swydd y cadeirydd, ac rwy'n siŵr bod cynlluniau ar waith gan y Gweinidog—fel y dywedwch, mae'n hysbys bod y cadeirydd yn gadael yn yr haf. O safbwynt y prif weithredwr, mae'n amlwg nad mater i'r Gweinidog yw gwneud y penodiad hwnnw. Fodd bynnag, mae canllawiau i bob un o'n byrddau iechyd ynghylch penodi prif weithredwr.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:08 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Leader of the house, is it possible to have a statement—or maybe you are able to update me—on what actions the Government has taken around the All Wales Ethnic Minority Association reports that were brought out some time ago? We were told that there would be a Government statement—indeed, a Government debate—around what actions you would be undertaking from the Wales Audit Office report and other reports that the Government had commissioned. To date, I have to say, I do not recall seeing any of those coming forward into the public domain.

Arweinydd y tŷ, a yw'n bosibl cael datganiad—neu efallai eich bod yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi—ar ba gamau y mae'r Llywodraeth wedi'u cymryd ynglŷn â'r adroddiadau ar Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan a gyhoeddwyd beth amser yn ôl? Dywedwyd wrthym y byddai datganiad gan y Llywodraeth—yn wir, dadl y Llywodraeth—ar ba gamau y byddech yn eu cymryd yn sgil adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ac adroddiadau eraill y mae'r Llywodraeth wedi'u comisiynu. Hyd yn hyn, rhaid i mi ddweud, nid wyf yn cofio gweld unrhyw un o'r rhain yn ymddangos yn gyhoeddus.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

There has been ample time for the Government to consider its response. The various observations that were put forward are worthy of consideration and action, considering the significant sums of public money that were put at risk and, indeed, lost by previous Welsh Assembly Governments. So, are you in a position to update us, or can you make sure that a statement is forthcoming from the relevant Minister?

Bu digon o amser i'r Llywodraeth ystyried ei hymateb. Mae'r gwahanol sylwadau a gyflwynwyd yn werth eu hystyried a'u gweithredu, o ystyried y symiau sylweddol o arian cyhoeddus a gafodd eu mentro ac, yn wir, a gollwyd gan Lywodraethau blaenorol Cynulliad Cymru. Felly, a ydych mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni, neu a allwch wneud yn siŵr bod datganiad ar ddod gan y Gweinidog perthnasol?

15:08 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will ensure that my colleague Jeff Cuthbert, the Minister for Communities and Tackling Poverty, writes to the Member with an update.

Byddaf yn sicrhau bod fy nghydweithiwr Jeff Cuthbert, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, yn ysgrifennu at yr Aelod gyda'r wybodaeth ddiweddaraf.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:09 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I wonder whether we can have a statement on where we are with the Gwent Clinical Futures programme of renewing hospitals in south-east Wales. I know that the Minister has given indications that this is on course, but we have not had a discussion in the Chamber about it recently. It is, clearly, vital that we get that new critical care centre in Llanfrecfha in Cwmbran as soon as possible. Facilities at the Royal Gwent Hospital and other hospitals are not up to scratch, and constituents are now saying to me that they are having increasing problems with parking at those facilities.

Tybed a allwn gael datganiad ar y sefyllfa o ran rhaglen Dyfodol Clinigol Gwent i adnewyddu ysbytai yn neddwyrain Cymru. Gwn fod y Gweinidog wedi rhoi arwyddion bod y rhaglen ar y trywydd iawn, ond nid ydym wedi cael trafodaeth yn y Siambr am y mater yn ddiweddar. Mae'n hanfodol, yn amlwg, ein bod yn cael y ganolfan gofal critigol newydd yn Llanfrecfha yng Nghwmbrân cyn gynted ag y bo modd. Nid yw'r cyfleusterau yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac ysbytai eraill yn ddigon da, ac yn awr mae etholwyr yn dweud wrthyf eu bod yn cael problemau cynyddol i barcio yn y cyfleusterau hynny.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

|       |   |   |
|-------|---|---|
| 15:09 | <b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>   | Senedd.tv<br><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>  |
|       | <p>I recall that the proposals around the specialist care centre have been discussed in the Chamber; I imagine that it was during questions to the Minister for Health and Social Services, which will be held again in the not-too-distant future. Perhaps it would be good if you could ask a question in that session.</p>   | <p>Rwy'n cofio bod y cynigion ynglŷn â'r ganolfan gofal arbenigol wedi cael eu trafod yn y Siambr; rwy'n tybio y gwnaed hynny yn ystod cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a fydd yn cael eu cynnal eto yn y dyfodol agos. Efallai y byddai'n dda pe gallech ofyn cwestiwn yn y sesiwn honno.</p>  |
| 15:09 | <b>Mark Isherwood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>   | Senedd.tv<br><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>  |
|       | <p>I call for two statements; first, a statement on communications support for the approximately 45,000 people in Wales who are severely or profoundly deaf, most of whom access either English, Welsh or another spoken or written language. Concern has been raised about a lack of awareness of the needs of a large number of people who need speech to text reporting, electronic note takers, deaf education through listening and talking and lip speaking. There is also concern about the text relay service, where it appears that many professionals in the public sector cannot call profoundly deaf people because of the configuration of some telephone systems within the public sector in Wales.</p> | <p>Galwaf am ddau ddatganiad: yn gyntaf, datganiad am gefnogaeth cyfathrebu ar gyfer tua 45,000 o bobl yng Nghymru sy'n ddirifol neu'n hollol fyddar. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio naill ai'r Saesneg, y Gymraeg neu iaith lafar neu ysgrifenedig arall. Mae pryder wedi'i godi ynghylch diffyg ymwybyddiaeth o anghenion nifer fawr o bobl sydd angen gwasanaeth adroddwr llais i destun, cymerwyr nodiadau electronig, addysg fyddar trwy wrando a siarad a siarad gwefusau. Ceir pryder hefyd ynglŷn â'r gwasanaeth cyfnewid testun, lle mae'n ymddangos na all llawer o weithwyr proffesiynol yn y sector cyhoeddus ffonio pobl hollol fyddar oherwydd cyfluniad rhai systemau ffôn o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru.</p> |
|       | <p>Secondly, may I call for a statement on adolescent suicide? I understand that the national suicide prevention strategy advisory group for England's leader, Professor Louis Appleby, will be launching a new study to examine the role of abuse, bullying, mental illness and the internet. The Northern Ireland Commissioner for Children and Young People has published a report on the impact of early childhood experiences on adolescent suicide and accidental death. Will the Welsh Government be working as a partner with England, Northern Ireland or both on these matters? If not, how will it take forward its own research in these areas?</p>   | <p>Yn ail, a gaf fi alw am ddatganiad am hunanladdiad ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau? Deallaf y bydd arweinydd grŵp ymgynghorol y strategaeth atal hunanladdiad genedlaethol ar gyfer Lloegr, yr Athro Louis Appleby, yn lansio astudiaeth newydd i edrych ar gyfraniad camdriniaeth, bwlio, salwch meddwl a'r rhyngrywyd. Mae Comisiynydd Gogledd Iwerddon ar gyfer Plant a Phobl Ifanc wedi cyhoeddi adroddiad ar effaith profiadau plentyndod cynnar ar hunanladdiad a marwolaeth ddamweiniol ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau. A fydd Llywodraeth Cymru yn gweithio fel partner gyda Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r ddwy wlad ar y materion hyn? Os na, sut y bydd yn datblygu ei hymchwil ei hun yn y meysydd hyn?</p>           |
| 15:11 | <b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>   | Senedd.tv<br><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>  |
|       | <p>In relation to your first question on communications support for deaf and hard of hearing people, that is not a specific issue for the Welsh Government. Those services are provided by health boards and some local authorities.</p>  | <p>O ran eich cwestiwn cyntaf ar gymorth cyfathrebu ar gyfer pobl fyddar a thrwm eu clyw, nid yw hwnnw'n fater penodol i Lywodraeth Cymru. Mae'r gwasanaethau hynny'n cael eu darparu gan fyrddau iechyd a rhai awdurdodau lleol.</p>   |
|       | <p>We have a debate tomorrow afternoon in the Chamber on child and adolescent mental health services and the Minister for Health and Social Services will be responding to that debate. If he does not address the issues that you have raised, I will ask him to update you directly.</p>  | <p>Rydym am gael dadl brynhawn yfory yn y Siambr ar wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed a bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymateb i'r dadl honno. Os nad yw'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd gennych, byddaf yn gofyn iddo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi yn uniongyrchol.</p>   |
| 15:11 | <b>Cynnig i Ethol Aelodau i Bwyllgorau</b>  | <b>Motion to Elect Members to Committees</b>  |
|       | <b>Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  | <b>Y</b> Senedd.tv<br><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>   |
|       | <p>I call on a member of the Business Committee to move formally—Lesley Griffiths.</p>  | <p>Rwy'n galw ar aelod o'r Pwyllgor Busnes i gynnig yn ffurfiol—Lesley Griffiths.</p>   |
|       | Cynnig NDM5486 Rosemary Butler  | Motion NDM5486 Rosemary Butler  |

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol William Graham (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn lle Mohammad Asghar (Ceidwadwyr Cymreig).

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects William Graham (Welsh Conservatives) as a member of the Public Accounts Committee in place of Mohammad Asghar (Welsh Conservatives).

15:12 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*  
I move the motion. Cynigiau y cynnig.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

15:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*The motion was agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Daeth Peter Black i'r Gadair am 15:12.*

*Peter Black took the Chair at 15:12.*

15:12 **Datganiad: Adolygiad Llywodraeth Cymru o Ganlyniadau TGAU Saesneg Mis Ionawr 2014** **Statement: The Welsh Government's Review into English GCSE January 2014 Results**

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

I am here today to update Members on the outcomes of my rapid fact-finding exercise into the January unit outcomes for GCSE English language.

Yr wyf yma heddiw i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ganlyniadau fy ymarfer cyflym i ganfod ffeithiau am ganlyniadau uned Ionawr ar gyfer TGAU iaith Saesneg.

I have always been clear that, rather than jumping to conclusions, it was essential that I had sound evidence on which to base those conclusions, to identify what had happened, to put in place actions to address the issues identified, and to ensure that no learner will be unfairly disadvantaged through no fault of their own.

Rwyf bob amser wedi dweud yn eglur ei bod yn hanfodol imi feddu ar dystiolaeth gadarn i seilio casgliadau arni, yn hytrach na neidio i gasgliadau cyflym, i ganfod beth oedd wedi digwydd, i roi camau ar waith i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd, ac i sicrhau nad fydd unrhyw ddysgwyr dan anfantais annheg heb fod unrhyw fai arnynt hwy.

I am now in a position to announce a decisive series of actions that will make a real and positive difference for learners, both this year and in future years, but before I begin I want to say upfront that there will be no re-grading of these units. These results will stand, but lessons will be learned from them.

Rwyf bellach mewn sefyllfa i gyhoeddi cyfres bendant o gamau gweithredu a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a chadarnhaol i ddysgwyr, yn y flwyddyn hon ac yn y blynyddoedd i ddod, ond cyn i mi ddechrau rwyf am ddweud ymlaen llaw na fydd yr unedau hyn yn cael eu hail-raddio'r. Bydd y canlyniadau hyn yn sefyll, ond byddwn yn dysgu gwersi oddi wrthynt.

The report is clear that no one single factor has solely contributed to the lower than expected outcomes in January 2014. Rather, a number of themes have emerged and each is likely to have had an impact. The report confirms our initial concerns that unit outcomes, and the significant changes compared with the previous year's results, were not reported to the Welsh Government early enough. We will, therefore, put in place arrangements with WJEC and other exam boards to ensure that outcomes are reported to the Welsh Government promptly.

Mae'r adroddiad yn glir nad oes unrhyw un ffactor unigol wedi cyfrannu ar ei ben ei hun at y canlyniadau is na'r disgwyl ym mis Ionawr 2014. Yn hytrach, mae nifer o themâu wedi dod i'r amlwg ac mae pob un yn debygol o fod wedi cael effaith. Mae'r adroddiad yn cadarnhau ein pryderon cychwynnol na roddwyd gwybod yn ddigon cynnal i Lywodraeth Cymru am ganlyniadau'r uned, a'r newidiadau sylweddol o gymharu â chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol. Byddwn, felly, yn rhoi trefniadau ar waith gyda CBAC a byrddau arholi eraill i sicrhau y rhoddir gwybod i Lywodraeth Cymru yn ddi-oed am ganlyniadau.

My next concern—and I know that this concern is widely shared—is the trend towards higher numbers of early entry of learners for these exams. The report notes the substantial increase of 26% in entries to units in January 2014 compared with last year. Given this increase, one has to question whether all of those entered this January were fully prepared, particularly those who were year 10 learners. While early entry is a decision for schools, I call on them, in the light of these results, to carefully consider the impact on learners when deciding which of them take these critical examinations and when they take them.

Similarly, I would urge schools to exercise increased caution when predicting grades for learners. Data in the report show that only in a minority of cases do teacher estimates match actual outcomes. Being overly positive on predictions only leads to disappointment among learners and their parents when actual results do not match up to predicted grades.

It is also important to note that the schools my officials spoke to did not feel that the timing of the change of specification in autumn 2012 contributed to these results. The changes were made for good reasons after serious weaknesses in the previous specification were identified. The increased emphasis on sentence structure, punctuation and spelling only reflects what we know parents, universities and employers all value. I make no apology for that. I am determined that our qualifications must be relevant, valued and fit for purpose.

I know that schools have worked hard, and will continue to work hard with their learners, to improve these vital literacy skills, and our literacy and numeracy framework will support teachers in this.

I have spoken about the importance of increasing rigour in our qualifications and I remain steadfast in that commitment. External experts brought in as part of this review have noticed that there are indications that the WJEC examiners may have marked papers severely and, while the process for setting grade boundaries was correct, the interpretation of the marking scheme was also severe.

As the regulator, I want to reassure parents and learners that we will continue to apply the established comparable-outcomes approach in the summer to deliver a level playing field and ensure that this year's candidates are not disadvantaged as we move towards more rigorous qualifications. This is my commitment to all the parents and learners who I know have found the last few weeks extremely difficult.

There is evidence, too, from the centres interviewed that the training events and support materials provided by WJEC—face-to-face and online—need to be strengthened. We are already working urgently on this with the WJEC, regional consortia and others, and I am pleased to confirm that initial additional training will take place before the Easter holidays.

Fy mhryder nesaf—ac rwy'n gwybod bod y pryder hwn yn cael ei rannu'n eang—yw'r tuedd i fwy o ddysgwyr sefyll yr arholiadau hyn yn gynnar. Mae'r adroddiad yn nodi'r cynnydd sylweddol o 26% yn y dysgwyr sy'n cwblhau unedau ym mis Ionawr 2014 o'i gymharu â'r llynedd. O ystyried y cynnydd hwn, rhaid i rywun gwestiynu a oedd pob un o'r rhai a gofrestrwyd ar gyfer y mis Ionawr hwn yn hollol barod, yn enwedig y rhai a oedd yn ddysgwyr blwyddyn 10. Er mai'r ysgolion sy'n penderfynu ynghylch cofrestru cynnar, rwy'n galw arnynt, yng ngoleuni'r canlyniadau hyn, i ystyried yr effaith yn ofalus ar ddysgwyr wrth benderfynu pa un ohonynt sy'n sefyll yr arholiadau hollbwysig hyn, a phryd y byddant yn eu sefyll.

Yn yr un modd, byddwn yn annog ysgolion i fod yn fwy gofalus wrth ragfynegi graddau ar gyfer dysgwyr. Mae data yn yr adroddiad yn dangos mai dim ond mewn lleiafrif o achosion y mae amcangyfrifon athrawon yn cyfateb i ganlyniadau go iawn. Nid yw rhagfynegiadau rhy gadarnhaol ond yn arwain at siom ymhlith dysgwyr a'u rhieni pan nad yw canlyniadau go iawn yn cyfateb i raddau a ragfynegwyd.

Mae hefyd yn bwysig nodi nad oedd yr ysgolion y siaradodd fy swyddogion â nhw yn teimlo bod amseriad newid y fanyleb yn yr hydref 2012 wedi cyfrannu at y canlyniadau hyn. Cafodd y newidiadau eu gwneud am resymau da ar ôl i wendidau difrifol yn y fanyleb flaenorol gael eu nodi. Nid yw'r pwyslais cynyddol ar strwythur brawddegau, atalnodi a sillafu ond yn adlewyrchu'r hyn y gwyddom sy'n bwysig i rieni, prifysgolion a chyflogwyr. Nid wyf yn ymddiheuro am hynny. Rwy'n benderfynol bod yn rhaid i'n cymwysterau fod yn berthnasol ac yn addas at y diben, a chael eu gwerthfawrogi.

Gwn fod ysgolion wedi gweithio'n galed, ac y byddant yn parhau i weithio'n galed gyda'u dysgwyr, er mwyn gwella'r sgiliau llythrennedd hanfodol hyn, a bydd ein fframwaith llythrennedd a rhifedd yn cefnogi athrawon yn hyn o beth.

Rwyf wedi sôn pa mor bwysig yw gwneud ein cymwysterau'n fwy trylwyr ac rwy'n dal yn gadarn yn yr ymrwymiad hwnnw. Mae arbenigwyr allanol y daethpwyd â nhw i mewn fel rhan o'r adolygiad hwn wedi sylwi bod arwyddion y gallai arholwyr CBAC fod wedi marcio papurau'n llym, a bod y dehongliad o'r cynllun marcio hefyd yn llym, er bod y broses ar gyfer pennu ffiniau graddau yn gywir.

Fel y rheoleiddiwr, rwyf am roi sicrwydd i rieni a dysgwyr y byddwn yn parhau i ddefnyddio'r dull canlyniadau cymaradwy a sefydlwyd yn yr haf i ddarparu amgylchiadau teg a sicrhau nad yw ymgeiswyr eleni o dan anfantais wrth i ni symud tuag at gymwysterau mwy trylwyr. Dyma fy ymrwymiad i'r holl rieni a dysgwyr y gwn y bu'r ychydig wythnosau diwethaf yn eithriadol o anodd iddynt.

Ceir tystiolaeth, hefyd, o'r canolfannau a gafodd eu cyfweld bod angen cryfhau'r digwyddiadau hyfforddiant a deunyddiau cymorth a ddarperir gan CBAC—wyneb yn wyneb ac ar-lein. Rydym eisoes yn gweithio ar frys ar hyn gyda CBAC, consortia rhanbarthol ac eraill, ac rwy'n falch o gadarnhau y cynhelir hyfforddiant ychwanegol cychwynnol cyn gwyliau'r Pasg.

The report's recommendations contain immediate and longer term actions. Some have already been completed. For instance, the WJEC has sent copies of learners' papers to their schools for teachers to scrutinise and learn the necessary lessons. Others, such as the recommendations aimed at the WJEC to improve their communications with schools and teachers, cannot be achieved overnight. However, they are essential as we move towards our wider reform of qualifications from September 2015 and our proposed changes become reality.

One change that is particularly relevant to this issue is the move from modular to linear assessment for English and Welsh language GCSEs from September 2015. We recognise that some subjects lend themselves more readily to modular assessment than others, and we have been speaking to teachers over the last few months about their views on this. Their response to assessing English and Welsh language in a linear way, with all assessments taking place at the end of the course, has been overwhelmingly positive. The current situation with the January English language GCSE outcomes only confirms to me that this is the right decision.

All these recommendations, and the actions that I have outlined to you this afternoon, represent a comprehensive package that addresses all the issues identified in the rapid fact-finding exercise, and I am confident that they will make a real difference.

We are building a qualifications system for Wales that is characterised by rigour and fairness. The recommendations made in the report published today will help in this journey. Crucially, they will help to build and maintain confidence in our qualifications, and I am resolute that schools and learners will get the support they need to get the results they deserve this summer and in future years.

Mae argymhellion yr adroddiad yn cynnwys camau gweithredu ar unwaith ac yn y tymor hwy. Mae rhai eisoes wedi eu cwblhau. Er enghraifft, mae CBAC wedi anfon copïau o bapurau dysgwyr i'w hysgolion i athrawon graffu arnynt a dysgu'r gwersi angenrheidiol. Mae eraill, megis yr argymhellion sydd wedi'u hanelu at CBAC i gyfathrebu'n well ag ysgolion ac athrawon, na ellir eu cyflawni dros nos. Fodd bynnag, maent yn hanfodol wrth i ni symud i ddiwygio cymwysterau ar raddfa ehangach o fis Medi 2015 ac wrth i'n newidiadau arfaethedig ddod yn realiti.

Un newid sy'n arbennig o berthnasol i'r mater hwn yw'r symud o asesu modiwlaidd i asesu llinellol ar gyfer TGAU iaith Saesneg a Chymraeg o fis Medi 2015. Rydym yn cydnabod bod rhai pynciau yn fwy addas ar gyfer asesiad modiwlaidd nag eraill, ac rydym wedi bod yn siarad ag athrawon yn ystod y misoedd diwethaf am eu barn am hyn. Mae eu hymateb i'r syniad o asesu iaith Saesneg a Chymraeg mewn ffordd linellol, gyda'r holl asesiadau yn digwydd ar ddiwedd y cwrs, wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol. Mae'r sefyllfa bresennol o ran canlyniadau TGAU iaith Saesneg ym mis Ionawr yn cadarnhau i mi mai dyma'r penderfyniad cywir.

Mae'r holl argymhellion hyn, a'r camau yr wyf wedi'u hamlinellu i chi'r prynhawn yma, yn becyn cynhwysfawr sy'n mynd i'r afael â'r holl faterion a nodwyd yn yr ymarfer cyflym i ganfod ffeithiau, ac rwyf yn hyderus y byddant yn gwneud gwahaniaeth go iawn.

Rydym yn datblygu system cymwysterau drylwyr a theg ar gyfer Cymru. Bydd yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad a gyhoeddwyd heddiw yn helpu yn y daith hon. Yn hanfodol, byddant yn helpu i feithrin a chynnal hyder yn ein cymwysterau, ac rwy'n benderfynol y bydd ysgolion a dysgwyr yn cael y cymorth angenrheidiol i gael y canlyniadau y maent yn ei haeddu yr haf hwn ac yn y dyfodol.

15:19 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Welsh Conservatives spokesperson, Angela Burns.

Galwaf ar lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Angela Burns.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:19 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Minister, first, I would like to thank you for your statement today, and for the alacrity in which your officials conducted this review. I have a number of questions that I would like to pose to you, though. I will start with rigour, which is a subject that you have mentioned quite a few times during the course of this statement.

Diolch yn fawr. Weinidog, yn gyntaf, hoffwn ddiolch i chi am eich datganiad heddiw, ac am barodrwydd eich swyddogion wrth gynnal yr adolygiad hwn. Mae gennyf nifer o gwestiynau yr hoffwn eu gofyn i chi. Rwyf am ddechrau gyda thrylwyrredd, sy'n bwnc yr ydych wedi'i grybwyll sawl gwaith yn ystod y datganiad hwn.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



Reading the report, there seems to be a definite gap between what was expected by the examining body and the coursework that the students had undertaken. You mentioned sentence structure, punctuation and spelling, and you are absolutely right, because that is exactly what parents, universities and employers value. What I fail to understand, Minister—and I wonder if you can answer this for me—is that, in February 2011, the then Minister for education, Leighton Andrews, very clearly laid out the framework for literacy as a five-year plan going forward. To be frank, anyone in the education sector would have to have been on Mars to have not understood that literacy and numeracy are the two key drivers of our education system at present and what we are trying to improve. I appreciate that implementation takes time and that this cohort may not have picked up on all of it, but I still fail to understand—and I wonder if you can answer this—why you feel that some of those students and teachers were unable to learn and teach to the required new standard, given that that is one of the key drivers of the Welsh Government.

The second point that I would like to pick up on is training. The WJEC takes quite a pasting in this report for its lack of training, and rightly so—if the training was not adequate, then that is absolutely right. What I am concerned about is the number of teachers in schools that appear to have failed or to have not received adequate training and adequate support materials. Do you think that this is in any way a reflection on our teachers and our schools, or do you think that it is entirely down to the WJEC? You mentioned that additional training will be undertaken before Easter. What impact do you believe that that additional training will have upon the work programmes of teachers, of schools and of students, because, of course, they are all now cramming like fury for the exams coming up in June?

This neatly brings me on to the third topic, namely June. How will students get the fair marks? This I do not understand. You talk about comparable outcomes, but, for a number of reasons, how will this work? First of all, a great many schools simply do not have the money to put rafts of students back in for re-sits. I also want to understand what effect the comparable-outcomes driver will have on the June marks. Will they not have to be overly generous in order to enable that comparability within 1% to 2%? I would value your opinion on that.

Wrth ddarllen yr adroddiad, mae'n ymddangos fod bwlch pendant rhwng yr hyn a ddisgwylir gan y corff arholi a'r gwaith cwrs yr oedd y myfyrwyr wedi ei wneud. Fe wnaethoch sôn am strwythur brawddegau, atalnodi a sillafu, ac rydych yn llygad eich lle, oherwydd dyna'n union sy'n bwysig i rieni, prifysgolion a chyflogwyr. Yr hyn nad wyf yn ei ddeall, Weinidog—a tybed a allwch chi ateb y cwestiwn hwn i mi—yw bod y Gweinidog addysg ar y pryd, ym mis Chwefror 2011, Leighton Andrews wedi nodi'n glir iawn y fframwaith ar gyfer llythrennedd fel cynllun pum mlynedd ar gyfer y dyfodol. I fod yn onest, byddai'n rhaid i unrhyw un yn y sector addysg fod ar y blaned Mawrth i beidio â deall mai llythrennedd a rhifedd yw dau sbardun allweddol ein system addysg ar hyn o bryd a'r hyn yr ydym yn ceisio ei wella. Rwy'n sylweddoli ei bod yn cymryd amser i roi'r fframwaith ar waith ac efallai na fydd y garfan hon wedi ystyried hyn i gyd, ond rwy'n dal yn methu â deall—a tybed a allwch chi ateb hyn—pam yr ydych yn teimlo nad oedd rhai o'r myfyrwyr a'r athrawon hynny yn gallu dysgu ac addysgu i'r safon newydd ofynnol, o ystyried ei bod yn un o sbardunau allweddol Llywodraeth Cymru.

Yr ail bwynt yr hoffwn ei ystyried yw hyfforddiant. Mae CBAC yn cael eithaf crasfa yn yr adroddiad hwn am ei ddifffyg hyfforddiant, a hynny'n briodol—os nad yw'r hyfforddiant yn ddigonol, yna mae hynny'n gwbl gywir. Yr hyn yr wyf yn pryderu yn ei gylich yw nifer yr athrawon mewn ysgolion y mae'n ymddangos eu bod wedi methu neu nad ydynt wedi derbyn hyfforddiant digonol a deunyddiau cymorth digonol. A ydych chi'n credu bod hyn mewn unrhyw ffordd yn adlewyrchu ar ein hathrawon a'n hysgolion, neu a ydych yn credu mai CBAC sy'n gyfan gwbl gyfrifol? Roeddech yn sôn y bydd hyfforddiant ychwanegol yn cael ei gynnal cyn y Pasg. Pa effaith ydych chi'n credu y bydd yr hyfforddiant ychwanegol yn ei gael ar raglenni gwaith athrawon, ysgolion a myfyrwyr, oherwydd, wrth gwrs, maent i gyd yn awr yn paratoi'n wyllt ar gyfer yr arholiadau ym mis Mehefin?

Mae hyn dod â mi'n daclus at y trydydd pwnc, sef mis Mehefin. Sut y bydd myfyrwyr yn cael y marciau teg? Dyma beth nad wyf yn ei ddeall. Rydych yn sôn am ganlyniadau cymaradwy, ond, am nifer o resymau, sut y bydd hyn yn gweithio? Yn gyntaf oll, nïr yw'r arian gan lawer iawn o ysgolion i gofrestru nifer fawr o fyfyrwyr i ailsefyll. Rwyf hefyd am ddeall pa effaith y bydd y canlyniadau cymaradwy yn ei chael ar farciau mis Mehefin. Oni fydd yn rhaid iddynt fod yn rhy hael er mwyn gallu cymharu o fewn 1% i 2%? Byddwn yn gwerthfawrogi eich barn ar hynny.

Finally, I feel that the report is exceptionally silent on governance. In fact, when you read the first bit in the context of lower expected results, it talks about the teaching of the revised specification, the supporting guidance and the WJEC's role in standardisation. Minister, I would like to ask about the role of the regulator, because I was staggered when I read the comment about greater vigilance by the WJEC and that the Welsh Government was not aware of what was going on and was not aware of the standards that these students were going to be achieving. I also note that recommendation 12 talks about the fact that, in future, Qualifications Wales will be responsible for a host of things, including design, development and awarding, and for promoting public confidence and quality assurance. What I would like to understand, Minister, is the role that the regulator played in the setting of the current exams. Are you able to confirm whether the regulator was observing the standardisation meetings for these two English language units? In particular, was the regulator at or involved in the final meetings that dictated how the grades should be awarded? I would be deeply concerned if the regulator was not involved, because that surely is a key part of the role of regulation. I have had a look at some of the other, admittedly larger, regulators such as the Office of Gas and Electricity Markets, and how involved it is in the process while the process is going on. It seems that they are involved at that level; they do not just appear on the horizon once everything has happened and throw up their arms and go, 'Oh, this isn't right, I want to change it'. So, what I would really like to understand is: has the current regulator been involved in all of this process properly? Has it been at the meetings, made comments and been involved? If not, why not? Will you assure us that, in future, the regulator will do just that?

I thank you for this report. I would just like to end with the one comment that I think is very sad. Chris Tweedale promised that no students would be disadvantaged. I still fail to see how these young people who have gone through this experience in January will not be disadvantaged in the long term, because they need good results to go forward into the next stage of their career development.

Yn olaf, rwy'n teimlo bod yr adroddiad yn eithriadol o dawel ynglŷn â llywodraethu. Yn wir, pan fyddwch yn darllen y darn cyntaf yng nghyd-destun canlyniadau disgwylledig is, mae'n sôn am addysgu'r fanyleb ddiwygiedig, y canllawiau ategol a rôl CBAC o ran safoni. Weinidog, hoffwn ofyn am rôl y rheoleiddiwr, oherwydd fy mod wedi fy syfrdanu pan ddarllenais y sylw am fwy o wyladwriaeth gan CBAC ac nad oedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r hyn oedd yn digwydd ac nad oedd yn ymwybodol o'r safonau yr oedd y myfyrwyr hyn yn mynd i'w cyflawni. Nodaf hefyd fod argymhelliad 12 yn sôn am y ffaith y bydd Cymwysterau Cymru, yn y dyfodol, yn gyfrifol am lu o bethau, gan gynnwys cynllunio, datblygu a dyfarnu, ac am hybu hyder y cyhoedd a sicrhau ansawdd. Yr hyn yr hoffwn ei ddeall, Weinidog, yw swyddogaeth y rheoleiddiwr o ran pennu'r arholiadau cyfredol. A ydych gallu cadarnhau a oedd y rheoleiddiwr yn arsylwi'r cyfarfodydd safoni ar gyfer y ddwy uned iaith Saesneg? Yn benodol, a oedd y rheoleiddiwr yn bresennol neu'n cymryd rhan yn y cyfarfodydd terfynol a oedd yn pennu sut y dylai'r graddau gael eu dyfarnu? Byddwn yn bryderus iawn pe nad oedd y rheoleiddiwr yn cymryd rhan, gan fod hynny'n sicr yn rhan allweddol o rôl rheoleiddio. Rwyf wedi edrych ar rai o'r rheoleiddwyr eraill, rhai mwy o faint rhaid cyfaddef, fel y Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan, a'i ymwneud â'r broses tra bod y broses ar y gweill. Mae'n ymddangos eu bod yn cymryd rhan ar y lefel honno; nid ydynt yn ymddangos ar y gorwel ar ôl i bopeth ddigwydd ac yn codi eu breichiau a dweud, 'O, nid yw hyn yn iawn, rwyf am ei newid'. Felly, beth fyddwn wir yn hoffi ei ddeall yw: a yw'r rheoleiddiwr presennol wedi cymryd rhan yn y broses gyfan yn briodol? A yw wedi bod yn y cyfarfodydd, wedi gwneud sylwadau ac wedi cymryd rhan? Os nad yw, pam ddim? A wnewch chi ein sicrhau y bydd y rheoleiddiwr, yn y dyfodol, yn gwneud hynny?

Diolch i chi am yr adroddiad hwn. Hoffwn i orffen gyda'r un sylw sy'n drist iawn, yn fy marn i. Addawodd Chris Tweedale na fyddai unrhyw fyfyrwr o dan anfantais. Rwy'n dal yn methu â gweld sut na fydd y bobl ifanc sydd wedi mynd drwy'r profiad hwn ym mis Ionawr o dan anfantais yn y tymor hir, oherwydd bod angen canlyniadau da i fynd ymlaen i'r cam nesaf yn natblygiad eu gyrfa.

Could I deal, perhaps, with Angela Burns's last point first? It is the most important and is the one at the forefront of all our minds, and that is the impact upon students and the learner. I believe that it is consistent and coherent, given the statement that I made this afternoon, to say that we will absolutely ensure that no student is disadvantaged in terms of the GCSE result that they will obtain. It will be rigorous and it will be fair. I will remind Members—because there are those voices around this debate, particularly in the media, that seem to confuse this issue—that no student in Wales has yet had a GCSE result. These are not GCSE results. The GCSE results will come in the summer. As I have mentioned, in terms of many of the issues around comparable results and so on, there are long-established means in place to deal with things like, for a particular year, an issue of severe marking, or, in the next year, perhaps, a particular issue of lenient marking. All those measures have been in place for many years in terms of making sure that there is fairness and consistency within an exams system. So, I would refer the Member to the mention of these issues within the review.

She is right to point out that the question at the heart of this matter is the gap between the expectations that many students entered these unit exams with and the actual results that they came out with. She is also right to say that, since February 2011, no part of the education system in Wales—no school, no examiner, or any other professional within the system—should have been unaware of the framework in literacy and the emphasis that we place upon lifting standards in literacy and numeracy in particular.

So, why did some students in this particular unit exam not hit the required standards? I think that the review takes us pretty much to the heart of the matter, and I would refer Angela Burns to that. I think that there are important issues here around early entry and important issues around grade predictions, which are echoed by PISA, actually. Within Wales in particular, we seem to have an issue with being overly positive in terms of the message that is conveyed to students about how they stand in relation to their GCSE results as they might turn out to be. This is not just a small issue. This is a gross over-prediction that has gone on year upon year upon year. Disappointment can be the only result for parents and for pupils in that regard. I would say that perhaps it is this set of unit results that have thrown a spotlight upon that long-running problem within the Welsh schools system.

A gaf fi ddelio, efallai, â phwynt olaf Angela Burns yn gyntaf? Dyma'r mwyaf pwysig a'r un sy'n flaenllaw yn ein meddyliau i gyd, sef yr effaith ar fyfyrwyr a'r dysgwyr. Rwy'n credu ei bod yn gyson ac yn gydlynol, o ystyried y datganiad yr wyf wedi'i wneud brynhawn heddiw, i ddweud y byddwn yn sicrhau'n bendant na fydd unrhyw fyfyrwr dan anfantais o ran y canlyniad TGAU y byddant yn ei gael. Bydd yn drylwyr a bydd yn deg. Atgoffaf yr Aelodau—oherwydd bod rhai lleisiau yn y ddaedl hon, yn enwedig yn y cyfryngau, y mae'n ymddangos eu bod yn drysu'r mater hwn—nad oes unrhyw fyfyrwr yng Nghymru eto wedi cael canlyniad TGAU. Nid canlyniadau TGAU yw'r rhain. Bydd y canlyniadau TGAU yn dod yn yr haf. Fel yr wyf wedi crybwyll, o ran llawer o'r materion sy'n ymwneud â chanlyniadau cymaradwy ac yn y blaen, mae dulliau wedi'u hen sefydlu i ymdrin â phethau fel marcio llym, ar gyfer blwyddyn benodol, neu, efallai, farcio arbennig o drugarog yn y flwyddyn nesaf. Mae'r holl fesurau hynny wedi bod ar waith ers blynnyddoedd lawer er mwyn gwneud yn siŵr bod y system arholiadau'n gyson ac yn deg. Felly, byddwn yn cyfeirio'r Aelod at y cyfeiriadau at y materion hyn yn yr adolygiad.

Mae hi'n iawn i nodi mai'r cwestiwn wrth wraidd y mater hwn yw'r bwlch rhwng disgwyliadau llawer o fyfyrwyr wrth fynd i'r arholiadau uned hyn, a'r canlyniadau gwirioneddol a gawsant. Mae hi hefyd yn iawn i ddweud na ddylai unrhyw ran o'r system addysg yng Nghymru, ers mis Chwefror 2011—dim ysgol, dim arholwr nac unrhyw weithiwr proffesiynol arall o fewn y system—fod wedi bod yn anymwybodol o'r fframwaith llythrennedd a'r pwyslais a roddwn ar godi safonau mewn llythrennedd a rhifedd yn benodol.

Felly, pam na wnaeth rhai myfyrwyr yn yr uned arholiad benodol gyrraedd y safonau gofynnol? Rwy'n meddwl bod yr adolygiad yn mynd â ni'n agos at galon y mater, a byddwn yn cyfeirio Angela Burns at hynny. Rwy'n meddwl fod materion pwysig yma ynghylch cofrestru cynnar a materion pwysig sy'n gysylltiedig â rhagfynegi graddau, a chaiff y rhain cael eu hadleisio gan PISA, mewn gwirionedd. Yng Nghymru yn arbennig, ymddengys fod gennym broblem y caiff neges rhy gadarnhaol ei chyfleu i fyfyrwyr ynghylch eu sefyllfa o ran eu canlyniadau TGAU posibl. Nid mater bach mo hyn. Cafwyd gor-ragfynegi enfawr flwyddyn ar ôl blwyddyn ar ôl blwyddyn. Siom fydd yr unig ganlyniad ar gyfer rhieni ac ar gyfer disgyblion yn hynny o beth. Byddwn yn dweud efallai bod y gyfres hon o ganlyniadau uned wedi bwrw goleuni ar y hen broblem honno o fewn system ysgolion Cymru.

Of course, I make no apology for raising standards within the issues of sentence structure, punctuation and spelling. I would also say—to expand upon my answer, if I may, because I think this might be helpful to the Member in terms of the very relevant question that she asked—that it is curious to note, within the report that teachers and schools made no complaint, really, around the original training sessions that were conducted by the WJEC back in January and in November 2013. In fact, the feedback was reasonably good. On this occasion, when schools were interviewed by my officials for the sake of this rapid review, almost universally, schools reported that the training and support from WJEC was very much below par. Now, these two things cannot, on the face of it, be reconciled. However, the way that I have found my way through to a logical conclusion, from those two seemingly incompatible points, is to suppose this: that there was within that original training—within that original passing on of training as regards to the new specifications for the new GCSE—a talking down of the actual extent of the step change that was required from schools, and the level to which they were expected to raise their game over the next two years, to lead us through to the summer time. That is the only way that I can reconcile those two sets of comments from teachers, which seem, on the face of it, to be irreconcilable.

I am very worried that the original commitment—which was very clear, from the regulator, from Government—that we were setting about a serious piece of work here, in terms of raising standards, was not always, everywhere and consistently transmitted to every school. We know that some schools took on board that message wholeheartedly, and there is a group of schools that raised their game over and above the 2013 results, even with these tougher specifications. We know that the largest proportion of schools—almost half of them—have pretty much performed the way that they performed last year. So, again, you could say that they have raised their game in an atmosphere of raised expectations and raised specifications. However, there is also a group of schools that have not managed to raise their game, and the results speak for themselves.

I will repeat what I said in my very first comments in relation to these results: it is very clear that this is not an all-Wales issue, and that this is not universal across all schools, or all parts of Wales; there are parts of the system that seem not to have transmitted exactly what the learner needed to those learners. Whether it is at WJEC level, or at school level, matters not much at the moment; what matters is that we get that right in short order, to deliver for those learners, before the summer exams.

Wrth gwrs, nid wyf yn ymddiheuro am godi safonau o ran cysrawen, atalnodi a sillafu. Byddwn hefyd yn dweud—i ymhelaethu ar fy ateb, os caf, oherwydd fy mod yn meddwl y gallai hyn fod o gymorth i'r Aelod o ran y cwestiwn perthnasol iawn a ofynnodd—ei bod yn rhyfedd nodi, yn yr adroddiad, na wnaeth athrawon nac ysgolion unrhyw gŵyn, mewn gwirionedd, ynglŷn â'r sesiynau hyfforddi gwreiddiol a gynhaliwyd gan CBAC yn ôl ym mis Ionawr ac ym mis Tachwedd 2013. Yn wir, roedd yr adborth yn eithaf da. Ar yr achlysur hwn, pan gafodd ysgolion eu cyfweld gan fy swyddogion ar gyfer yr adolygiad cyflym, dywedodd pob ysgol bron fod yr hyfforddiant a chymorth a gafwyd gan CBAC lawer iawn is na'r safon. Nawr, ar yr wyneb, mae'r ddau beth hyn yn gwbl anghyson. Fodd bynnag, y ffordd yr wyf wedi llwyddo i ddod i gasgliad rhesymegol, o'r ddau bwynt hyn sy'n ymddangos yn anghydawns, yw tybio bod yr hyfforddiant gwreiddiol—y cyflwyno gwreiddiol ar hyfforddiant o ran y manylebau newydd ar gyfer y TGAU newydd—yn tanbwysleisio graddfa wirioneddol y newid sylweddol yr oedd ei angen gan ysgolion, a'r lefel yr oedd disgwyl iddynt wella eu safonau dros y ddwy flynedd ganlynlol, i'n harwain at yr haf. Dyna'r unig ffordd y gallaf gysoni'r ddwy gyfres o sylwadau gan athrawon, sy'n ymddangos, ar yr wyneb, yn anghydawns â'i gilydd.

Rwy'n bryderus iawn nad oedd yr ymrwymiad gwreiddiol—a oedd yn eglur iawn, gan y rheoleiddiwr, gan y Llywodraeth—ein bod yn cychwyn ar ddarn difrifol o waith yma, o ran codi safonau, wedi ei drosglwyddo'n gyson i bob ysgol bob amser, ym mhob man. Rydym yn gwybod bod rhai ysgolion wedi derbyn y neges honno'n llwyr, ac mae grŵp o ysgolion wedi cynyddu eu safonau yn uwch na chanlyniadau 2013, hyd yn oed gyda'r manylebau llymach hyn. Rydym yn gwybod bod perfformiad y gyfran fwyaf o ysgolion—bron i hanner ohonynt—fwy neu lai yr un fath â pherfformiad y llynedd. Felly, unwaith eto, gallech ddweud eu bod wedi gwella mewn awyrgylch o ddisgwyliadau uwch a manylebau uwch. Fodd bynnag, mae hefyd grŵp o ysgolion nad ydynt wedi llwyddo i wella, ac mae'r canlyniadau yn siarad drostynt eu hunain.

Rwyf am ailadrodd yr hyn a ddywedais yn fy sylwadau cyntaf mewn cysylltiad â'r canlyniadau hyn: mae'n amlwg iawn nad yw hwn yn fater i Gymru gyfan, ac nad yw yn gyffredin i bob ysgol, neu bob rhan o Gymru; mae'n ymddangos nad yw rhannau o'r system wedi trosglwyddo'n union beth sydd ei angen ar y dysgwyr i'r dysgwyr hynny. Nid yw'n bwysig iawn ar hyn o bryd a yw hynny wedi digwydd ar lefel CBAC, neu ar lefel ysgol; yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn sicrhau bod hynny'n cael ei wneud yn iawn yn gyflym, er mwyn cyflawni ar gyfer y dysgwyr hynny, cyn arholiadau'r haf.

Weinidog, diolch i chi am wneud y dadansoddiad manwl o'r hyn a allai fod wedi mynd o'i le. Rwy'n credu bod hwn yn ddadansoddiad calonogol iawn; gellir tawelu meddyliau ynghylch rhai o'r pryderon sydd wedi'u codi ymhlith y cyhoedd gyda'r adroddiad hwn.

15:32

## Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, thank you for doing this detailed analysis of what might have gone wrong. I think that this is a very reassuring analysis; some of the concerns that have been raised among the public can be laid to rest with this report.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I have two questions. First, I know that Estyn has had an increased emphasis on extended writing, at primary and secondary level. I wonder whether it is too soon to say what impact that had on improving pupils' accuracy in expressing themselves in writing.

Secondly, there is a comment that I think is very important in the report about effective teacher feedback, together with high-quality pupil self-evaluation of their own work, which leads to improvement, especially for those young people who are subject to socioeconomic deprivation. I am aware, from my former life with the London Challenge, that marking pupils' work with simply a tick, or a number out of 10, does not provide any sort of proper learning for the pupil. What is required is detailed comments about whether this is the right answer, or how it could have been improved, rather than just a tick-box exercise; that is absolutely crucial. I wonder whether you could comment on that.

15:34 **Huw Lewis** [Bywgraffiad Biography](#)

I thank Jenny Rathbone for those points. I take heart from her interpretation of the review, which I think is a cool-headed one; that is precisely what we need if we are to serve the learner as best we can in the current situation. She is right, of course, on extended writing; I have every confidence that that will contribute to a rise in standards across the board.

She is also quite correct to come back to two key issues that are echoed year upon year—through Estyn, PISA and others—that effective feedback to the learner, and the ability of the learner then, with confidence, to have a proper self-evaluation of where they stand, as well as a self-evaluation of a school department, or a school as a whole, needing to be accurate, are things that are returned to over and over again by inspectors, and through the OECD in PISA. I have to say that no politician of any party—by any previous Minister for education whether in a devolved context or prior to that through the old Welsh Office—has ever stood up and barred a school from undertaking effective feedback to its pupils or high-quality self-evaluation. Never. It has always been referred to as a critical factor by inspectors. Although this is not of direct relevance to the review that is being undertaken here of the January results, I would say that Jenny Rathbone has put her finger on a key issue for the entire profession in terms of the improvement agenda that we are all engaged in. GCSE results as well as other forms of achievement would only be lifted if we could crack this—one of the key elements of the Estyn annual report once again this year, as it has been in times past.

15:36 **Peter Black** [Bywgraffiad Biography](#)

I call the Plaid Cymru education spokesperson, Simon Thomas.

Mae gennyf ddau gwestiwn. Yn gyntaf, rwy'n gwybod bod Estyn wedi rhoi mwy o bwyslais ar ysgrifennu estynedig, ar lefel gynradd ac uwchradd. Tybed a yw'n rhy gynnar i ddweud pa effaith a gafodd hynny ar wella cywirdeb disgyblion wrth fynegi eu hunain yn ysgrifenedig.

Yn ail, ceir sylw yn yr adroddiad sy'n bwysig iawn yn fy marn i am adborth effeithiol gan athrawon, ynghyd â hunanwerthusiad o ansawdd uchel gan ddisgyblion o'u gwaith eu hunain, sy'n arwain at welliant, yn enwedig ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n destun amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Rwy'n ymwybodol, o'm bywyd blaenorol gyda'r London Challenge, nad yw marcio gwaith disgyblion gyda thiciau, neu rif allan o 10, yn galluogi'r disgybl i ddysgu'n briodol. Beth sydd ei angen yw sylwadau manwl ynghylch ai hwn yw'r ateb cywir, neu sut y gallai fod wedi ei wella, yn hytrach na dim ond ymarfer ticio blychau; mae hynny'n gwbl hanfodol. Tybed a allech chi roi sylwadau ar hynny.

Diolch i Jenny Rathbone am y pwyntiau hynny. Rwy'n cael fy nghalonogi gan ei dehongliad o'r adolygiad, ac rwy'n meddwl ei fod yn un pwylllog; dyna'n union y mae arnom ei angen os ydym am wasanaethu'r dysgwyr hyd eithaf ein gallu yn y sefyllfa bresennol. Mae hi'n iawn, wrth gwrs, ynglŷn ag ysgrifennu estynedig; rwy'n ffyddiog y bydd hynny'n cyfrannu at wella safonau yn gyffredinol.

Mae hi hefyd yn eithaf cywir i ddod yn ôl at ddau fater allweddol sy'n cael eu hadleisio flwyddyn ar ôl blwyddyn—drwy Estyn, PISA ac eraill—bod angen i adborth effeithiol i'r dysgwyr fod yn gywir, er mwyn i'r dysgwyr wedyn allu hunanwerthuso'n briodol, gyda hyder, ble mae'n sefyll, a bod angen i hunanwerthusiad adran ysgol, neu ysgol yn gyffredinol hefyd fod yn gywir. Mae'r rhain yn bethau y dychwelir atynt dro ar ôl tro gan yr arolygwyr, a thrwy'r OECD yn PISA. Mae'n rhaid imi ddweud nad oes unrhyw wleidydd o unrhyw blaid—unrhyw Weinidog addysg blaenorol boed mewn cyd-destun datganoledig neu cyn hynny drwy'r hen Swyddfa Gymreig—erioed wedi sefyll i fyny a gwahardd ysgol rhag rhoi adborth effeithiol i'w disgyblion na gwahardd hunanwerthusiad o ansawdd uchel. Erioed. Cyfeiriwyd ato bob amser fel ffactor hollbwysig gan arolygwyr. Er nad yw hyn yn uniongyrchol berthnasol i'r adolygiad a gynhelir yma o ganlyniadau mis Ionawr, byddwn yn dweud bod Jenny Rathbone wedi rhoi ei bys ar fater allweddol ar gyfer y proffesiwn cyfan o ran yr agenda ar gyfer gwella yr ydym i gyd yn rhan ohoni. Ni ellir ond gwella canlyniadau TGAU yn ogystal â ffurfiau eraill o gyflawniad trwy ddatrys hwn—un o elfennau allweddol adroddiad blynyddol Estyn unwaith eto eleni, fel y bu yn y gorffennol.

Galwaf ar lefarydd addysg Plaid Cymru, Simon Thomas.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog. Dywedaf ar y cychwyn y byddaf yn cytuno ag ef ar un peth, sef ei benderfyniad i beidio ag ailraddio'r papurau hyn. Rwy'n meddwl y byddai ailraddio wedi bod yn gam peryglus yn rhy bell a byddai wedi peryglu'r system gyfan. Felly, rwy'n cytuno ag ef yn hynny o beth.

Fodd bynnag, rhaid imi ddweud wrth y Gweinidog fy mod i'n gweld hyn yn llanastr o wneuthuriad y Llywodraeth ei hun. Flwyddyn yn ôl, gofynnodd CBAC i'ch rhagflaenydd i arholiadau mis Ionawr gael eu gollwng yn llwyr i bawb. Heddiw, rydych wedi sôn ac wedi cwyno am fynediad cynnar. Gofynnodd CBAC ichi ollwng arholiadau mis Ionawr yn llwyr a gwrthododd y Gweinidog blaenorol hynny. Ar y pryd, wrth gwrs, roedd rhyfel cartref rhwng y Gweinidog a CBAC, sydd efallai yn esbonio pam nad oeddent yn cydweithio i fod yn glir ar y materion hyn.

Yn ail, mae'r datganiad yn nodi nad oedd y wybodaeth am y cwmp mewn graddau wedi'i mynegi i'r Llywodraeth gan CBAC. Ond chi yw'r rheoleiddwr. Beth oeddech chi yn ei wneud o ran gwybod bod y cwmp hwn ar y ffordd? Mae gennych chi a'ch swyddogion yr hawl a'r gallu i fod yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd lle penderfynir ar y ffiniau—yn wir, gallwch oruchwylio'r marcio os ydych yn dymuno gwneud hynny. Mae'n amlwg nad oedd eich swyddogion yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn. Ni wnaethoch ymateb i gwestiwn Angela Burns, felly a wnewch ateb yn awr? Pam nad oedd eich swyddogion yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn? Yn hyn o beth, mae'r sefyllfa rydym ynnddi heddiw yn debyg iawn i'r hyn a ddigwyddodd yn ystod haf 2012. Roedd hwn yn arholiad newydd. Mae'n un o bum arholiadau newydd sy'n arwain y ffordd, yn ôl eich datganiadau chi, tuag at safonau uwch yng Nghymru. Dylech chi a'ch swyddogion fod fel chwain ar ddraenog dros yr arholiadau hyn. Dylech fod yno yn gwylio popeth sy'n digwydd. Chi, fel Gweinidog ac fel rheoleiddwr, a gyhoeddodd fod modd cyhoeddi graddau yn ym mis Ionawr eleni. Rydych newydd ddweud wrth y Siambr nad canlyniadau TGAU oedd y rhain—'Peidiwch â beco, nid canlyniadau yw'r rhain'. Pwy a ysgrifennodd at CBAC i ddweud y gallai gyhoeddi graddau yn hytrach na marciau? Dim ond y marciau roedd y Gweinidog blaenorol yn eu cyhoeddi. Chi a benderfynodd gyhoeddi graddau, a chi sy'n rhannol gyfrifol bod pobl wedi bod mor bryderus eu bod yn edrych ar raddau TGAU yn hytrach na marciau amlinellol cychwynnol.

Un peth sy'n wir—rydym i gyd yn cytuno yn y lle hwn—yw bod angen i Cymwysterau Cymru fod yn annibynnol ar Lywodraeth. Mae'n rhaid iddo weithio yn hollol wahanol i'r ffordd rydych chi a'ch swyddogion wedi bod yn gweithio fel rheoleiddwr, oherwydd nid ydych wedi bod yn rheoleiddwr rhagweithiol o gwbl ar y mater hwn.

I thank the Minister. I will say at the outset that I agree with him on one thing, namely his decision not to re-grade these papers. I think that a re-grading would have been a dangerous step too far and would have put the whole system at risk. So, I agree with him in that regard.

However, I have to tell the Minister that I see this as a mess of the Government's own making. A year ago, WJEC asked your predecessor for the January exams to be dropped entirely for everyone. You have, today, mentioned and complained about early entry. WJEC asked you to drop the January exams entirely and the former Minister rejected that demand. At the time, of course, there was a civil war between the Minister and WJEC, which perhaps explains why they were not co-operating to be clear on these issues.

Secondly, the statement notes that the information about the declining grades was not expressed to the Government by WJEC, but you are the regulator. What were you doing to find out that this was on the way? You and your officials have the right and ability to be present in each and every one of the meetings where the boundaries are decided upon—indeed, you can oversee the marking if you so choose. It is clear that your officials were not in attendance at these meetings. You did not respond to Angela Burns's question, so will you tell us now? Why were your officials not attending these meetings? In this regard, the situation we find ourselves in today is very similar to what happened in the summer of 2012. This was a new examination. It is one of five new examinations that are leading the way, according to your statement, towards higher standards in Wales. You and your officials should be all over these exams. You should be there watching everything that is happening. It was you, as Minister and regulator, who announced that grades could be announced this January. You have just told the Chamber that these were not GCSE results—'Don't worry, they're not results'. Who wrote to tell WJEC that it could announce grades rather than marks? The former Minister only published the marks. It was you who decided to publish the grades, and you are partially responsible for people having been so concerned that they are looking at GCSE grades rather than initial outline marks.

One thing that is true—and we are all agreed in this place—is that Qualifications Wales needs to be independent of Government and has to work entirely differently to the way in which you and your officials have been working, because you have not been a proactive regulator at all on this issue.

Y pwynt olaf mae'n rhaid i mi fynegi siom arno o ran yr hyn a oedd gennych i'w ddweud yw'r negeseuon cymysg rydych yn eu rhoi ar safonau. Rydych wedi sôn heddiw yn eich datganiad am frawddeg, atalnodi a sillafu fel tri pheth lle bu newid pwyslais yn yr arholiadau hyn. Mae'r Prif Weinidog yntau wedi sôn am safonau uwch yn cael eu cyflawni yn yr arholiadau hyn. Fodd bynnag, yn y datganiad ysgrifenedig i'r Senedd dair wythnos yn ôl, dywedasoch yn glir iawn nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i addasu safonau TGAU Saesneg iaith. Ni allwn fod mewn sefyllfa lle rydych yn dweud nad ydych chi, fel rheoleiddiwr, wedi ymrwymo i newid y safonau ac yna bod safonau uwch yn rhannol gyfrifol am y sefyllfa rydym ynddi heddiw. Rwyf i wedi drysu, felly nid oes syndod fod pobl eraill wedi drysu, rwy'n awgrymu i chi.

Mae'n amlwg, wrth fynd ymlaen, bod yn rhaid i chi ateb cwpwl o gwestiynau yma heddiw. Rydych chi'n dibynnu, rwy'n meddwl, ar i lawer o'r disgyblion hyn sydd yn siomedig gyda'r canlyniadau ailsefyll yr unedau. Wrth gwrs, mae hawl ganddynt i ailsefyll ac mae modd iddynt wneud hynny; mae argymhellion yn yr adroddiad ynglŷn â sut i fynd o gwmpas hynny. Fodd bynnag, y cwestiwn sy'n codi yw: pwy sy'n mynd i dalu am yr ailsefyll hwn? Os nad yw ysgol yn fodlon talu neu, yn wir, yn meddu ar yr arian i dalu, am ailsefyll yr unedau hyn, pwy fydd yn gyfrifol?

I want to ask you today, Minister, to give a guarantee that no pupil in Wales who needs to re-sit to improve their grades will be stopped from doing so by the fact that there is no resource in their school. I do not care, really, how you guarantee that or how you deliver it—it may need some money from Welsh Government—but we must ensure that no pupils are disadvantaged in that way.

The second question that I must ask you is around comparable outcomes. You have said very clearly that they remain and you have committed to that in your statement today. I have to ask how you intend to achieve this. Without widespread re-sitting, which is one way of doing it, the only other way that you can do it is by massaging the summer figures so that comparable outcomes look similar to the whole-year figures. That would completely undermine claims of more rigorous marking and standards. You would go from a situation of severe marking to lenient marking, hoping that, if you put the two together, you would end up with moderate marking. That is no way to run an exam system.

The third question that I am asking you is: will you now stop giving January grades? You said that you do not want to have early entry and you have said that they are not GCSE results, but you allow January grades to be given. Are you going to change your mind on that now?

The final point on which I have to express disappointment about what you have had to say relates to the mixed messages you are giving on standards. You mentioned today in your statement sentence structure, punctuation and spelling as three areas where there has been a change of emphasis in these examinations. The First Minister himself has mentioned higher standards being achieved through these examinations. However, in the written statement to the Senedd three weeks ago you said quite clearly that the Welsh Government has not committed to adapting the English language GCSE standards. We cannot be in a position where you are saying, as regulator, that you have not committed to changing the standards and then that higher standards are partially responsible for the situation in which we find ourselves today. I am confused, so I suggest that it is no surprise that others are confused.

It is clear now, as we move forward, that you have to answer a couple of questions here today. I think that you are depending on many of the pupils who were disappointed with their results to re-sit these units. Of course, they have a right to do so and it is possible for them to do so; there are recommendations in the report on how they could do so. However, the question is: who is going to pay for these re-sits? If a school is not willing or, indeed, does not have the funding to pay for re-sits of these units, who will cover the costs?

Rwyf am ofyn i chi heddiw, Weinidog, roi sicrwydd na fydd unrhyw ddisgybl yng Nghymru sydd angen ailsefyll i wella eu graddau yn cael eu hatal rhag gwneud hynny oherwydd nad oes adnoddau yn eu hysgol. Nid oes gwahaniaeth gennyf, mewn gwirionedd, sut yr ydych yn gwarantu hynny neu sut yr ydych yn ei gyflawni—efallai y bydd angen rhywfaint o arian gan Lywodraeth Cymru—ond rhaid inni sicrhau nad oes unrhyw ddisgybl o dan anfantais yn y ffordd honno.

Mae'r ail gwestiwn y mae'n rhaid i mi ofyn i chi yn ymwneud â chanlyniadau cymaradwy. Rydych wedi dweud yn glir iawn eu bod yn aros ac rydych wedi ymrwymo i hynny yn eich datganiad heddiw. Rhaid i mi ofyn sut yr ydych yn bwriadu cyflawni hyn. Heb i lawer iawn o ddysgwyr ailsefyll yr arholiad, sef un ffordd o wneud hynny, yr unig ffordd arall y gallwch chi ei wneud yw trwy ystumio ffigurau'r haf fel bod canlyniadau cymaradwy yn edrych yn debyg i ffigurau'r flwyddyn gyfan. Byddai hynny'n llwyr danseilio honiadau o farcio a safonau mwy trwyadl. Byddech yn mynd o sefyllfa o farcio llym i farcio trugarog, gan obeithio y byddech, trwy roi'r ddau at ei gilydd, yn cael marcio cymedrol. Nid dyna'r ffordd i redeg system arholiadau.

Y trydydd cwestiwn yr wyf yn ei ofyn i chi yw: a fyddwch yn awr yn rhoi'r gorau i roi graddau mis Ionawr? Dywedoch nad ydych am gael cofrestru cynnar ac rydych wedi dweud nad ydynt yn ganlyniadau TGAU, ond rydych yn caniatáu rhoi graddau mis Ionawr. A ydych yn mynd i newid eich meddwl ar hynny'n awr?

I put it to you, Minister, that your Government is sending out very mixed messages on standards. You talked today about more rigour, but about no recalibration in your earlier statement. You said, however, that we are going to have more rigorous exam marking, but it is going to be comparable to previous years. These do not all add up. It is no wonder that people are confused about what is being delivered by our exam system today. That results in confusion, a state of flux and a Minister who is not leading the system, but is being led by events and responding to them, which I believe is detrimental to the good name of education and the validity of the exam system in Wales.

Rwy'n awgrymu wrthyhych, Weinidog, bod eich Llywodraeth yn anfon negeseuon cymysg iawn ynglŷn â safonau. Fe wnaethoch sôn heddiw am fod yn fwy trylwyr, ond dim am unrhyw ailraddio yn eich datganiad yn gynharach. Dywedwch, fodd bynnag, bod arholiadau'n mynd i gael eu marcio'n fwy trwyadl, ond y gellir ei gymharu â blynyddoedd blaenorol. Nid yw'r pethau hyn i gyd yn gwneud synnwyr. Nid yw'n syndod nad yw pobl yn deall beth mae ein system arholiadau heddiw'n ei ddarparu. Mae hynny'n arwain at ddryswch, ansicrwydd a Gweinidog sy'n cael ei arwain gan ddigwyddiadau ac yn ymateb iddynt, yn hytrach nag yn arwain y system. Credaf fod hynny'n niweidiol i enw da addysg a dilysrwydd y system arholiadau yng Nghymru.

15:42

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Simon Thomas, as he predicted, and I agree on only one thing in terms of his points and questions this afternoon, namely that there should be no re-grading. I am glad that, at least, he sees the logic behind my stance on that issue. Any attempt now to delve back into a retreat on the standards issue and in terms of the specifications that were laid down in October 2012 would be not just firing the starting gun on an anarchic period, which is the opposite of what we need at the moment, but profoundly unfair on learners, teachers and everyone else involved in the system. We are working towards new specifications. They are rigorous when it comes to issues around spelling, punctuation and grammar. We have done all that for very good reason and there will be no retreat from it.

In terms of his comments around WJEC, January exams and the actions of my predecessor, I, for one, have to say that I am very glad of the decisions surrounding this issue that were made by my predecessor, because, in essence, these January results at least have acted as a canary in the mine when it comes to us recognising that there are issues in the system as regards centres' ability to deal with the new specifications in English language. That has enabled us to grasp a full, comprehensive snapshot of exactly what needs to be done this point. Therefore, at least at this point in time, before we move on to the full commitment to linear-style examination from 2015 onwards, I am very glad that Leighton Andrews made the decision that he did make.

However, Simon Thomas does ask an important question here in terms of how the regulator should have acted throughout this process. Of course, that is the nub of the issue, and he is quite right to hold me to account on that. I will answer him by referring him to recommendation 13 within the review, which talks about the way in which the regulator, that is, myself in this instance, should conduct themselves in future.

So, it is an explicit recommendation, accepted by me, within the review that things as they stand are not sufficient. I would say that the way in which these changes have been overseen by me and my officials as regulator over the last year or so has fulfilled and ticked the box of every single regulatory requirement that there is. No suggestion has come from any quarter that my officials and I, acting as regulator, have stepped outside or forgotten about one of our responsibilities. That is not the case.

Mae Simon Thomas, fel a ragwelodd, a minnau'n cytuno ar un peth o ran ei bwyntiau a'i gwestiynau'r prynhawn yma, sef na ddylai fod unrhyw ailraddio. Rwy'n falch, o leiaf, ei fod yn gweld y rhesymeg tu ôl i fy safbwynt ar y mater hwnnw. Byddai unrhyw ymgais nawr i encilio o safbwynt safonau ac o ran y manylebau a bennwyd ym mis Hydref 2012, yn sbarduno cyfnod anarchaidd, sef y gwrthwyneb i'r hyn sydd ei angen ar hyn o bryd, ond yn gwbl annheg i ddysgwyr, athrawon a phawb arall sy'n rhan o'r system. Rydym yn gweithio tuag at fanylebau newydd. Maent yn drwyadl o ran materion yn ymwneud â sillafu, atalnodi a gramadeg. Rydym wedi gwneud hynny i gyd am reswm da iawn ac ni fydd unrhyw gilio oddi wrtho.

O ran ei sylwadau ynglŷn â CBAC, arholiadau mis Ionawr a gweithredoedd fy rhagflaenydd, rhaid i mi, yn un, ddweud fy mod yn falch iawn o'r penderfyniadau a wnaed ynglŷn â'r mater hwn gan fy rhagflaenydd, oherwydd bod canlyniadau mis Ionawr, yn eu hanfod, o leiaf wedi gweithredu fel caneri yn y pwll glo gan beri inni gydnabod bod problemau yn y system o ran gallu'r canolfannau i ymdopi â'r manylebau newydd mewn iaith Saesneg. Mae hynny wedi'n galluogi i gael darlun llawn, cynhwysfawr o'r union beth y mae angen ei wneud ar yr adeg hon. Felly, o leiaf ar hyn o bryd, cyn i ni symud ymlaen at yr ymrwymiad llawn i arholiadau dull llinellol o 2015 ymlaen, rwy'n falch iawn bod Leighton Andrews wedi gwneud y penderfyniad a wnaeth.

Fodd bynnag, mae Simon Thomas yn gofyn cwestiwn pwysig yma o ran sut y dylai'r rheoleiddiwr fod wedi gweithredu drwy gydol y broses hon. Wrth gwrs, dyna hanfod y mater, ac mae'n hollol iawn i'm dwyn i gyfrif am hynny. Atebaf iddo gan ei gyfeirio at argymhelliad 13 yn yr adolygiad, sy'n sôn am y ffordd y dylai'r rheoleiddiwr, hynny yw, fi fy hun yn yr achos hwn, ymddwyn yn y dyfodol.

Felly, mae'n argymhelliad penodol, a dderbyniwyd gennyf fi, o fewn yr adolygiad nad yw pethau'n ddigonol fel y maent ar hyn o bryd. Byddwn yn dweud bod y ffordd y mae'r newidiadau hyn wedi cael eu goruchwylio gan fy swyddogion a minnau fel rheoleiddiwr dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf wedi cyflawni a rhoi tic ym mlwch pob gofyniad rheoliadol unigol. Nid oes unrhyw awgrym wedi dod o unrhyw gyfeiriad bod fy swyddogion a minnau, yn gweithredu fel rheoleiddiwr, wedi camu y tu allan i unrhyw un o'n cyfrifoldebau neu wedi anghofio amdanynt. Nid yw hynny'n wir.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



However, it is true to say—and Simon Thomas does have a point here—that a lesson that needs to be learned from this series of events is that perhaps, in future, we need to be more proactive in terms of our relationship with awarding bodies. I would remind Simon Thomas that there are upwards of 100 awarding bodies, and many hundreds of examinations and awards. So, there are things that can be done and things that cannot be done within that system. We must be careful to make sure that the regulations that surround all of these activities are robust and are fulfilled. However, in this instance, we have accepted within the review that a more proactive conversation prior to the release of the results of January 2014 would have been helpful. However, I do not think that it would have changed the results. We would still have been in the situation of having to deal with the issues that are in front of us, and such a review would have been necessary, and the actions and recommendations within it would have just been down one item, because we would have had that earlier notice of what was happening.

I will say this: even though I fully accept and take on the chin the issue around proactive regulation in that regard, it bewilders me that the WJEC should ring us as regulator at 6.30 p.m. on the evening before the results are released to let us know that it thinks that there may be a problem. I will just leave that with Members to ponder. That is the situation that I was presented with, as regulator, with less than 24 hours to go—or even less than 12 hours to go—before the release of the results. It was at that time that the communication came from the awarding body, which must have held and crunched these data some time before that point. It must have done. So, there was clearly a breakdown there in terms of the way that we would expect things to occur, although there was no breach of any regulation at any point on the part of the WJEC either. I must make that point.

In terms of Simon Thomas's remarks around re-sits and so on, there is no confusion here for me. All examination systems, particularly those that are undergoing change, must, in order to ensure fairness, manage that change. It would be deeply and profoundly unfair to allow young people's life chances to lurch suddenly from one end of the compass to the other even though we are going through necessary change. So, there are a couple of things that I would say to this. First of all, this is the first iteration of the new regime, if you like, around spelling, punctuation and grammar, and those other issues around literacy. It is also only fair, I think, to continue the comparable outcomes regime, which is commonplace across the world in terms of how consistency is managed from year to year, and that there is no inconsistency in that regard between raising standards and making sure that no child, through no fault of their own, suffers because of the change. I would remind Simon Thomas that nearly 30 of our schools, and almost half of our schools, either kept their results pretty much on a par with last year or actually raised their game in a regime that involved tougher specifications within their exams. So, we are actually seeing, within the system, that it does not necessarily follow that if you raise the specifications, the results fall. It is entirely possible that you raise the specifications and the results and achievement actually rise alongside.

Fodd bynnag, mae'n wir dweud—ac mae gan Simon Thomas bwynt yma—mai un wers y mae angen inni ei dysgu o'r gyfres hon o ddiwyddiadau efallai, yw bod angen i ni fod yn fwy rhagweithiol, yn y dyfodol, o ran ein perthynas â chyrff dyfarnu. Hoffwn atgoffa Simon Thomas bod mwy na 100 o gyrff dyfarnu, a channoedd o arholiadau a dyfarniadau. Felly, mae pethau y gellir eu gwneud a phethau na ellir eu gwneud o fewn y system honno. Mae'n rhaid i ni fod yn ofalus i wneud yn siŵr bod y rheoliadau sy'n amgylchynu pob un o'r gweithgareddau hyn yn gadarn ac yn cael eu cyflawni. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, rydym wedi derbyn o fewn yr adolygiad y byddai sgwrs fwy rhagweithiol cyn rhyddhau canlyniadau mis Ionawr 2014 wedi bod yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, nid wyf yn credu y byddai wedi newid y canlyniadau. Byddem yn dal i fod yn y sefyllfa o orfod ymdrin â'r materion sydd ger ein bron, a byddai adolygiad o'r fath wedi bod yn angenrheidiol, a byddai'r camau a'r argymhellion sydd ynddo wedi cynnwys un eitem yn llai, oherwydd y byddem wedi cael gwybod yn gynharach yr hyn oedd yn digwydd.

Byddaf yn dweud hyn: er fy mod yn derbyn yn llawn y mater sy'n ymwneud â rheoleiddio rhagweithiol yn hynny o beth, mae'n fy syfrdanu bod CBAC wedi ein ffonio ni fel rheoleiddiwr am 6.30 pm ar y noson cyn i'r canlyniadau gael eu rhyddhau i roi gwybod i ni ei fod yn credu y gall fod problem. Rwyf am adael yr Aelodau i gnoi cil ar hynny. Dyna'r sefyllfa a gyflwynwyd i mi, fel rheoleiddiwr, gyda llai na 24 awr i fynd—neu hyd yn oed lai na 12 awr i fynd—cyn rhyddhau'r canlyniadau. Dyna pryd y daeth y neges gan y corff dyfarnu, er bod y data hwn ganddo, a'i fod wedi'i ystyried, beth amser cyn yr adeg honno, mae'n rhaid. Rhaid iddo fod wedi gwneud hynny. Felly, mae'n amlwg fod methiant yno o ran y ffordd y byddem yn disgwyl i bethau ddigwydd, er na thorwyd unrhyw reoliad ar unrhyw bwynt gan CBAC. Mae'n rhaid i mi wneud y pwynt hwnnw.

O ran sylwadau Simon Thomas ynghylch ailsefyll ac yn y blaen, nid oes dryswch yma i mi. Mae'n rhaid i bob system arholi, yn enwedig y rhai sy'n cael eu newid, reoli'r newid hwnnw er mwyn sicrhau tegwch. Byddai'n gyfan gwbl ac yn hollol annheg caniatáu i gyfleoedd bywyd pobl ifanc i lamu'n sydyn o un pen y cwrpawd i'r llall er ein bod yn mynd drwy newid angenrheidiol. Felly, mae un neu ddau o bethau y byddwn yn ei ddweud am hyn. Yn gyntaf oll, dyma'r tro cyntaf i'r drefn newydd gael ei rhoi ar waith, os dymunwch, ynghylch sillafu, atalnodi a gramadeg, a'r materion eraill hynny o amgylch llythrennedd. Nid yw ond yn deg hefyd, rwy'n credu, i barhau â'r gyfundrefn canlyniadau cymaradwy, sy'n gyffredin ar draws y byd o ran sut y rheolir cysondeb o flwyddyn i flwyddyn, ac nid oes unrhyw anghysondeb yn hynny o beth rhwng codi safonau a sicrhau nad oes unrhyw blentyn, heb fod unrhyw fai arnynt hwy, yn dioddef oherwydd y newid. Hoffwn atgoffa Simon Thomas bod bron i 30 o'n hysgolion, a bron hanner ein hysgolion, naill ai wedi cadw eu canlyniadau fwy neu lai'r un fath â'r flwyddyn ddiwethaf neu mewn gwirionedd wedi gwella eu safonau mewn trefn a oedd yn cynnwys manylebau llymach yn eu harholiadau. Felly, rydym yn gweld mewn gwirionedd, o fewn y system, nad yw'n dilyn o reidrydd bod y canlyniadau'n disgyn os ydych yn pennu manylebau mwy heriol. Mae'n gwbl bosibl eich bod yn codi'r manylebau a bod y canlyniadau a'r cyflawniad mewn gwirionedd yn codi ochr yn ochr â hynny.

In terms of the very important point around re-sits, I would not expect any child who would obtain educational benefit from having a re-sit in the summer to have any barrier placed in their way. However, I do not think that it is the role of Government to step in at this point with promises of subsidy for the payment for re-sits. Every school that entered a candidate for these modules in January would have known that that was an early entry and should have—and I am sure would have—anticipated that a re-sit may have been a necessary consequence of entering early. I rely on the professional judgment of our teachers in order to be able to get that right. As regards the consequences of the costs around re-sits, I would expect schools to be supporting their learners.

O ran y pwynt pwysig iawn o amgylch ailsefyll, ni fyddwn yn disgwyl i unrhyw rwystr gael ei osod yn ffordd unrhyw blentyn a fyddai'n cael budd addysgol o ailsefyll arholiad yn yr haf. Fodd bynnag, nid wyf yn credu mai rôl y Llywodraeth yw camu i mewn ar yr adeg hon gydag addewidion o gymhorthdal i dalu am ailsefyll. Dylai pob ysgol a gofrestrodd ymgeisydd ar gyfer y modiwlau hyn ym mis Ionawr fod wedi gwybod bod hynny'n gofrestrriad cynnar ac wedi rhagweld—ac rwy'n siŵr y byddent—y gallai fod angen ailsefyll o ganlyniad i gofrestru'n gynnar. Rwy'n dibynnu ar farn broffesiynol ein hathrawon i wneud y penderfyniad cywir. O ran y canlyniadau o safbwynt costau ailsefyll, byddwn yn disgwyl i ysgolion fod yn cefnogi eu dysgwyr.

15:51 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Aled Roberts.

Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Aled Roberts.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

15:51 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, may I just say that I am not reassured to the extent that Jenny Rathbone suggested that she was reassured? That is because your statement deals with a number of concerns and I do not think that all of those concerns have been answered yet. It is quite clear that the first concern that is raised in the report is the issue that Angela Burns and Simon Thomas have already alluded to—namely that outcomes were not reported early enough by WJEC to the Welsh Government.

Weinidog, a gaf fi ddweud nad wyf wedi cael sicrwydd i'r graddau yr awgrymodd Jenny Rathbone ei bod hi wedi cael sicrwydd? Mae hynny oherwydd bod eich datganiad yn ymdrin â nifer o bryderon ac nad wyf yn credu bod yr holl bryderon hynny wedi cael eu hateb eto. Mae'n eithaf amlwg mai'r pryder cyntaf a godir yn yr adroddiad hwn yw'r mater y mae Angela Burns a Simon Thomas eisoes wedi cyfeirio ato—sef na roddodd CBAC wybod am y canlyniadau'n ddigon cynnar i Lywodraeth Cymru.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I think that there is an issue here that was also alluded to during the earlier GCSE re-grading in 2012, and that is the relationship between the Welsh Government as regulator and the awarding body, and whether the regulator availed itself of all opportunities in meetings to have a watching brief on measures and messages that were already coming through the system. Therefore, on the basis that this report—albeit that it is comprehensive and has been dealt with in a very short period of time—has been prepared by officials who are the very regulators that we were asking questions about this morning, I would ask that you seriously consider whether we should have an independent look at the role of the regulator throughout this period. If nothing else, going forward, we, as a body, must have a reassurance that Qualifications Wales will act in such a way that we can have assurance as legislators of the robustness of our education system. Clearly, this is the first iteration, as you mentioned, of subjects that will be replicated from September 2015 onwards. I would ask that you consider very carefully whether we need an independent look at that situation.

Rwy'n meddwl bod problem yma y cyfeiriwyd ati hefyd yn ystod ailraddio arholiadau TGAU yn gynharach yn 2012, sef y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru fel rheoleiddwr a'r corff dyfarnu, ac a yw'r rheoleiddwr wedi manteisio ar yr holl gyfleoedd mewn cyfarfodydd i gael golwg ar y mesurau a'r negeseuon a oedd eisoes yn dod drwy'r system. Felly, ar y sail mai'r swyddogion a wnaeth baratoir adroddiad hwn—er ei fod yn gynhwysfawr ac yr ymdriniwyd ag ef mewn cyfnod byr iawn o amser—yw'r union reoleiddwyr yr oeddem yn gofyn cwestiynau amdanynt y bore yma, byddwn yn gofyn i chi ystyried o ddirif a ddylem gael golwg annibynnol ar rôl y rheoleiddwr drwy gydol y cyfnod hwn. Os na cheir dim byd arall, wrth symud ymlaen, rhaid i ni, fel corff, gael sicrwydd y bydd Cymwysterau Cymru'n gweithredu yn y fath fodd fel y gallwn gael sicrwydd, fel deddfwyr, o gadernid ein system addysg. Yn amlwg, dyma'r tro cyntaf, fel yr ydych wedi sôn, inni weld pynciau a fydd yn cael eu gweld eto o fis Medi 2015 ymlaen. Byddwn yn gofyn i chi ystyried yn ofalus iawn a oes arnom angen edrych yn annibynnol ar y sefyllfa honno.

There are other initiatives that the Welsh Government has instigated, which we all support in order to raise standards, namely Schools Challenge Wales. We also need to have a careful look at whether some of the messages from the London Challenge go against some of the concerns raised in today's statement. The London Challenge encourages early entry and it encourages multiple entries. If you are saying that that is a concern within the system, we need to know what advice the Welsh Government is giving to schools as far as entry is concerned. I would ask that you have regard—not today—to whether we need to look at that.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn mentrau eraill, yr ydym i gyd yn eu cefnogi er mwyn codi safonau, sef Her Ysgolion Cymru. Mae angen hefyd inni ystyried yn ofalus a yw rhai o negeseuon Her Llundain yn mynd yn groes i rai o'r pryderon a godwyd yn y datganiad heddiw. Mae Her Llundain yn annog cofrestru cynnar ac mae'n annog cofrestru sawl gwaith. Os ydych yn dweud bod hwnnw'n bryder o fewn y system, mae angen inni wybod pa gyngor y mae Llywodraeth Cymru'n ei roi i ysgolion o ran cofrestru. Byddwn yn gofyn i chi ystyried—dim heddiw—a oes angen inni edrych ar hynny.

I also think that we need to get away from the idea that all our problems appear when these children are 15 or 16 at GCSE level. One message that comes out of this is that if you are telling us that we need to exercise caution as far as predicted grades are concerned, we also need to exercise caution as politicians, because both our key stage 2 and our key stage 3 measures are based, to all intents and purposes, on the same teacher assessments that we are saying today may be inflated. We may have created some of this, as politicians, in the pressure to show that our outcomes are improving. Are we in the situation where those outcomes at key stages 2 and 3 are as good as we would believe?

However, I think that the real issue is comparable outcomes, because you mentioned that we need to be careful that people who are in the first cohort do not actually lose out because of this more robust move. However, we also, as Simon Thomas said, have to be clear as regards what our messages are, because you mentioned that schools did not fully appreciate the level at which they were expected to raise their game. If they were not able to raise their game within these two units in January, are we seriously suggesting that they would be expected to raise their game for the June units, when in fact the materials will have to be prepared next week to be with the schools before Easter, as is outlined in the recommendations that you have accepted, and given that, in many instances, those schools will only be in school for two weeks for these pupils after the Easter break? To my mind, if we are to be honest, and if we are saying that we will ensure, as this report states, that outcomes will be comparable, then the only way that we will achieve that is if we have a less robust marking system that is agreed between the regulator and the WJEC for the summer units, or if there is some movement as far as grade boundaries are concerned during the summer term.

That might be a difficult message for us to accept today. It might be a difficult message for the Welsh Government to accept, but we have to be very careful, if that is the road that we are going to go down, because there are people who we refer to quite often who would be more than willing to criticise the WJEC and the Welsh Government, if that is the road that we go down. It may be that the one message from this report is that the regulator and, yes, politicians in Wales, were not perhaps as straight with people with regard to the implications of our more robust examination system.

I would also want some reassurance that you feel that the WJEC is able to deliver on recommendations that are contained within the report, and recommendations 3 and 4 in particular, which suggest that it will be required to produce further materials before the Easter break, and that it will actually provide and supply training and exemplar materials, again before the Easter break, to our schools. I think that it is tight anyway, and if there is any slippage in that three-week period, then we are really in difficulties.

Rwyf hefyd yn credu bod angen inni symud i ffwrdd o'r syniad bod ein problemau i gyd yn ymddangos pan fydd y plant hyn yn 15 neu 16 ar lefel TGAU. Un neges a ddaw o hyn, os ydych yn dweud wrthym bod angen inni fod yn ofalus o ran graddau a ragfynegwyd, yw bod angen i ni hefyd fod yn ofalus fel gwleidyddion, gan fod ein mesurau cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 yn seiliedig, i bob pwrpas, ar yr un asesiadau gan athrawon a allai fod yn uwch nag y dylent fod, yn ôl yr hyn a ddywedwn heddiw. Efallai ein bod wedi creu hyn i ryw raddau, fel gwleidyddion, trwy roi pwysau i ddangos bod ein canlyniadau'n gwella. A ydym yn y sefyllfa lle mae canlyniadau cyfnodau allweddol 2 a 3 gystal ag y byddem yn ei gredu?

Fodd bynnag, rwy'n credu mai'r broblem go iawn yw canlyniadau cymaradwy, oherwydd yr oeddech yn sôn bod angen inni fod yn ofalus nad yw pobl sydd yn y garfan gyntaf mewn gwirionedd ar eu colled oherwydd y cam rwy cadarn hwn. Fodd bynnag, rhaid i'n negeseuon fod yn eglur hefyd, fel y dywedodd Simon Thomas, oherwydd eich bod yn crybwyll nad oedd ysgolion yn gwerthfawrogi'n llawn i ba raddau y disgwyliid iddynt wella eu safonau. Os nad oeddent yn gallu gwella eu safonau o fewn y ddwy uned ym mis Ionawr, a ydym yn awgrymu o ddifrif y byddai disgwyl iddynt wella eu safonau ar gyfer unedau mis Mehefin, er y bydd yn rhaid i'r deunyddiau mewn gwirionedd fod yn barod yr wythnos nesaf i fod gyda'r ysgolion cyn y Pasg, fel yr amlinellir yn yr argymhellion yr ydych wedi'u derbyn, ac o ystyried, mewn llawer o achosion, na fydd yr ysgolion hynny ond yn yr ysgol am bythefnos ar gyfer y disgyblion hyn ar ôl triad y Pasg? Yn fy marn i, os ydym i fod yn onest, ac os ydym yn dweud y byddwn yn sicrhau, fel y mae'r adroddiad hwn yn nodi, y bydd y canlyniadau'n gymaradwy, yna'r unig ffordd y byddwn yn cyflawni hynny yw trwy i'r rheoleiddwr a CBAC gytuno ar system farcio lai cadarn ar gyfer unedau'r haf, neu trwy newid rhywfaint ar ffiniau'r graddau dan sylw yn ystod tymor yr haf.

Gallai honno fod yn neges anodd inni ei derbyn heddiw. Gallai fod yn neges anodd i Lywodraeth Cymru ei derbyn, ond mae'n rhaid inni fod yn ofalus iawn, os mai dyna'r llwybr yr ydym yn mynd i'w ddilyn, oherwydd bod pobl yr ydym yn cyfeirio atynt yn eithaf aml, a fyddai'n fwy na pharod i feirniadu'r CBAC a Llywodraeth Cymru, os mai dyna'r llwybr yr ydym yn ei ddilyn. Efallai mai un neges o'r adroddiad hwn yw nad oedd y rheoleiddwr ac, ie, gwleidyddion yng Nghymru, efallai mor onest â phobl ag y gallen fod o ran goblygiadau ein system arholi fwy cadarn.

Byddwn hefyd am gael rhywfaint o sicrwydd eich bod yn teimlo y gall CBAC gyflawni'r argymhellion sydd yn yr adroddiad, ac argymhellion 3 a 4 yn benodol, sy'n awgrymu y bydd angen paratoi rhagor o ddeunyddiau cyn gwyliau'r Pasg, ac y bydd mewn gwirionedd yn darparu a chyflenwi hyfforddiant a deunyddiau enghreifftiol, eto cyn gwyliau'r Pasg, i'n hysgolion. Rwy'n meddwl ei bod yn dynn beth bynnag, ac os oes unrhyw lithro yn y cyfnod hwnnw o dair wythnos, yna rydym wirioneddol mewn trafferthion.

I also think that we need to realise the practical difficulties in which some schools find themselves. I was in a school last Friday that was having to agree a deficit funding budget with its LEA—a secondary school. It was not actually able to afford essential repairs and maintenance to the school premises. We need to consider whether the statement that you made that those schools will have to meet the cost will actually be what happens in practice, because if we also create a situation where some of these children who have underachieved on the predicted grades are blocked from re-sits, while others are allowed to re-sit, and comparable outcomes are actually applied to those re-sits, then we could have a very inequitable position going forward.

15:58

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In terms of Aled Roberts's comments around regulation in general, may I draw his attention to the fact that this report itself is an act of regulation? I hope that he will accept that it has been comprehensively done, rapidly done, and that it is a surgical job, in my view, in terms of getting to the heart of the matter as to what happened in January. In that regard, I would submit that that act of regulation has certainly been effective and has given us a clear picture of what needs to be done.

I would agree, as I have said before, that the outcomes were not reported early enough, although I would remind Members that, even if that had been got right—and I will move to ensure that that sort of situation will never happen again—the results would not have changed. Essentially, we would have had a little more grace in terms of time, but we would have been handed the same kind of issue to deal with.

Aled Roberts is quite right to talk about the need to move towards an independent regulator, and that, of course, is what we are moving towards in terms of the establishment of Qualifications Wales. In terms of the very valid points that he raised as regards the run-up to that process, I would refer him to recommendation 12, which talks about the handover between myself as regulator and the advisory board of Qualifications Wales, undertaking a review of lessons to be learned from recent events—by which I mean those since January—in order to make sure that Qualifications Wales comes with all of the kit and understanding that it needs in order to make sure that this sort of situation never happens under the new Qualifications Wales regime, and that the lessons are learned.

Aled is quite right to talk about the fact that early entry and multiple entry are not necessarily evils in themselves. He is right to point to the London Challenge as having made some use of that, although I do have a suspicion that some of the issues around the London Challenge and early entry were aimed more at gaming the system at first than at real change, in terms of a real raising of standards and children being able to cope with greater rigour. That rigour did come through the London Challenge, but I would not necessarily be convinced that early entry delivered any of it, really.

Rwyf hefyd yn meddwl bod angen inni sylweddoli'r anawsterau ymarferol sydd gan rai ysgolion. Roeddwn mewn ysgol ddydd Gwener diwethaf a oedd yn gorfod cytuno ar gyllideb diffyg gyda'i AALL—ysgol uwchradd. Nid oedd mewn gwirionedd yn gallu fforddio gwaith atgyweirio a chynnal a chadw hanfodol i adeilad yr ysgol. Mae angen inni ystyried ai'r hyn a ddywedoch yn eich datganiad, sef y bydd yn rhaid i'r ysgolion hynny dalu'r gost, yw'r hyn a fydd yn digwydd yn ymarferol, oherwydd os ydym hefyd yn creu sefyllfa lle mae rhai o'r plant hyn sydd wedi tangyflawni o'i gymharu â'r graddau a ragfynegwyd yn cael eu rhwystro rhag ailsefyll, tra bod eraill yn cael ailsefyll, ac y defnyddir canlyniadau cymaradwy ar gyfer yr arholiadau hynny sy'n cael eu hailsefyll, yna gallem gael sefyllfa annheg iawn yn y dyfodol.

O ran sylwadau Aled Roberts ynglŷn â rheoleiddio yn gyffredinol, a gaf fi dynnu ei sylw at y ffaith fod yr adroddiad hwn ei hun yn weithred o reoleiddio? Rwy'n gobeithio y bydd yn derbyn ei fod wedi cael ei wneud yn gynhwysfawr ac yn gyflym, a'i fod yn waith trylwyr dros ben, yn fy marn i, o ran cael at wraidd yr hyn a ddigwyddodd ym mis Ionawr. Yn hynny o beth, byddwn yn dadlau bod y weithred o reoleiddio yn sicr wedi bod yn effeithiol ac wedi rhoi darlun clir o'r hyn y mae angen ei wneud.

Byddwn yn cytuno, fel yr wyf wedi dweud o'r blaen, na hysbyswyd am y canlyniadau yn ddigon cynnar, er y byddwn yn atgoffa'r Aelodau na fyddai'r canlyniadau wedi newid, hyd yn oed pe byddai hyn wedi'i wneud yn iawn—a byddaf yn gweithredu i sicrhau na fydd y math hwn o sefyllfa byth yn digwydd eto. Yn y bôn, byddem wedi cael ychydig mwy o ran amser, ond byddem wedi cael yr un math o broblem i ymdrin â hi.

Mae Aled Roberts yn hollol iawn i siarad am yr angen i symud tuag at reoleidiwr annibynnol, a dyna, wrth gwrs, yw'r hyn yr ydym yn symud tuag ato o ran sefydlu Cymwysterau Cymru. O ran y pwyntiau dilys iawn y mae wedi'u codi o ran y cyfnod yn arwain at y broses honno, byddwn yn ei gyfeirio at argymhelliaid 12, sy'n sôn am y trosglwyddo rhyngof i fel rheoleidiwr a bwrdd cyngori Cymwysterau Cymru, a chynnal adolygiad o wersi i'w dysgu o ddigwyddiadau diweddar—sef y rhai ers mis Ionawr—er mwyn gwneud yn siŵr bod gan Gymwysterau Cymru yr holl gyfarpar a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt er mwyn gwneud yn siŵr na fydd y math hwn o sefyllfa fyth yn digwydd o dan gyfundrefn newydd Cymwysterau Cymru, a bod y gwersi'n cael eu dysgu.

Mae Aled yn hollol iawn i siarad am y ffaith nad yw cofrestru cynnar a chofrestru sawl gwaith yn ddrwg ynddynt eu hunain o anghenraid. Mae'n iawn i dynnu sylw at y ffaith bod y London Challenge wedi gwneud peth defnydd o hynny, er fy mod yn amau bod rhai o'r materion yn ymwneud â'r London Challenge a chofrestru cynnar wedi'u hanelu fwy at chwarae'r system ar y dechrau nag at newid go iawn, yn nhermau codi safonau go iawn a sicrhau bod plant yn gallu ymdopi â safonau mwy trylwyr. Daeth y trylwyredd hwnnw drwy'r London Challenge, ond ni fyddwn o reidrwydd yn argyhoeddedig bod cofrestru cynnar wedi cyflawni unrhyw ran o hynny, mewn gwirionedd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

That is not to say that I would rule out early entry as something that might be beneficial to some children in some circumstances—of course, it might be. It is the educational benefit to the young person that matters most of all. However, to have a 26% increase, as we saw, in the January module entries, to me smacks of a situation that cannot be explained in terms of a sudden shift in what is educationally necessary for the school population in Wales. I cannot see how that case could be sustained.

I am confident that, through managing this shift toward a regime of greater rigour, we will be able to balance those twin needs of being fair to the learner and demanding a raising of the game throughout the system; I am confident that we can do that. We will have an unquestioned rigour within the Welsh qualifications system, and I will not retreat from that necessity. Every successful GCSE candidate in Wales this summer will have a qualification in their hands the quality of which cannot be gainsaid by anyone. Those days will never return, and my sole focus will be the prospects of the learner. I will not throw the system into reverse for the sake of any kind of expediency around the politics of the situation.

This is a difficult situation—of course it is. However, we are not in the business of compromising in terms of rigour. Working with our partners WJEC, and schools, of course, I am absolutely confident that, through those further materials and the training, which, incidentally, started yesterday—the training that was promised and demanded through the recommendations in the rapid review is already being undertaken—through the support being delivered through WJEC that schools need, and through the urgent application of some concentrated effort, we will be able to ensure that there is no candidate in Wales entering those exams in the summer without all of the tools that they need having been presented to them between now and then.

Nid yw hynny'n golygu y byddwn yn diystyru cofrestru cynnar fel rhywbeth a allai fod yn fuddiol i rai plant mewn rhai amgylchiadau—wrth gwrs, gallai fod. Y budd addysgol i'r person ifanc sydd bwysicaf oll. Fodd bynnag, mae cynnydd o 26%, fel y gwelom, yn y nifer a gofrestrwyd ar gyfer modiwl mis Ionawr, yn ymddangos imi fel sefyllfa na ellir ei hesbonio yn nhermau newid sydyn yn yr hyn sydd yn addysgol angenrheidiol ar gyfer y boblogaeth ysgol yng Nghymru. Ni allaf weld sut y gellid dadlau'r achos hwnnw.

Rwy'n ffyddiog y byddwn, drwy reoli'r newid hwn tuag at gyfundrefn fwy trylwyr, yn gallu cydbwysu'r ddau angen i fod yn deg i'r dysgwyr ac i alw am wella safonau drwy'r system; rwy'n hyderus y gallwn wneud hynny. Bydd system gymwysterau Cymru heb os yn drylwyr, ac ni fyddaf yn cilio o'r rheidwydd hwnnw. Bydd bob ymgeisydd TGAU llwyddiannus yng Nghymru yr haf hwn yn meddu ar gymhwyster na all neb wadu ei ansawdd. Ni ddaw'r dyddiau hynny fyth yn ôl, a byddaf yn canolbwyntio'n llwyr ar ragolygon y dysgwyr. Nid wyf am daflu'r system yn ei hôl tua'r gorffennol er hwylustod mewn rhyw ffordd, oherwydd gwleidyddiaeth y sefyllfa.

Mae hon yn sefyllfa anodd—wrth gwrs ei bod. Fodd bynnag, ni fyddwn yn cyfaddawdu o ran trylwyredd. Gan weithio gyda'n partneriaid CBAC, ac ysgolion, wrth gwrs, rwy'n hollol ffyddiog y byddwn yn gallu sicrhau nad oes yr un ymgeisydd yng Nghymru yn sefyll yr arholiadau hynny yn yr haf heb i'r holl offer sydd eu hangen arnynt fod wedi'i gyflwyno iddynt rhwng nawr a'r adeg honno, drwy'r deunyddiau ychwanegol hynny a'r hyfforddiant, a ddechreuodd ddoe, gyda llaw—mae'r hyfforddiant a addawyd ac a fynnyd drwy'r argymhellion yn yr adolygiad cyflym eisoes yn cael ei gynnal—trwy'r gefnogaeth sydd ei hangen ar ysgolion ac sy'n cael ei darparu drwy CBAC, a thrwy ymdrech dwys ar frys.

16:03 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. We have run out of time for this statement, but, because it is so important, I am going to allow the three remaining speakers to speak, but I ask them to keep their contributions short and sharp, please. I call on Leighton Andrews.

Diolch ichi, Weinidog. Mae'r amser ar gyfer y datganiad hwn wedi dod i ben, ond, gan ei fod mor bwysig, rwy'n mynd i ganiatáu i'r tri siaradwr sy'n weddill siarad, ond gofynnaf iddynt gadw eu cyfraniadau'n fyr a chryno, os gwelwch yn dda. Galwaf ar Leighton Andrews.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:03 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, acting Deputy Presiding Officer. To start with, may I say that I think that the most significant thing this afternoon is that none of the opposition spokespeople have disagreed with you, Minister, on the issue of whether or not there should be a re-grading? May I also say that I think that it is highly significant that the report says that schools advised that they were well aware of the increased emphasis being placed on sentence structure, punctuation, grammar and spelling? I may be suffering from amnesia but, contrary to what the Plaid Cymru spokesperson said, I do not think that I had an argument with WJEC over January assessments for GCSEs; I certainly had to take action with regard to January assessments for A-levels and AS-levels.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. I ddechrau, a gaf fi ddweud mai'r peth mwyaf arwyddocaol brynawn heddiw, yn fy marn i, yw nad oes yr un o lefarwyr y gwrthbleidiau wedi anghytuno â chi, Weinidog, ar y mater a ddylai fod ailraddio ai peidio? A gaf fi hefyd ddweud ei bod yn arwyddocaol iawn, yn fy marn i, fod yr adroddiad yn dweud bod ysgolion yn dweud eu bod yn ymwybodol iawn o'r pwyslais cynyddol sy'n cael ei roi ar strwythur brawddegau, atalnodi, gramadeg a sillafu? Efallai fy mod yn dioddef o amnesia, ond, yn groes i'r hyn a ddywedodd llefarydd Plaid Cymru, nid wyf yn meddwl fy mod wedi cael dadl gyda CBAC dros asesiadau mis Ionawr ar gyfer TGAU; yn sicr bu raid imi gymryd camau o ran asesiadau mis Ionawr ar gyfer Safon Uwch a Safon UG.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

However, the really difficult questions, I think, in this report are, in fact, for WJEC, both in terms of the preparation of candidates and, indeed, in terms of the engagement with the regulator and its failure to inform the regulator at an appropriate moment of the difficulties. May I ask the Minister, therefore, whether he has had the opportunity yet to discuss this report with the chair of WJEC? May I urge him to move with alacrity, as recommendation 12 suggests, to the creation of Qualifications Wales as a body that will be responsible for design, development and awarding of general qualifications?

Fodd bynnag, ar gyfer CBAC, rwy'n meddwl, y mae'r cwestiynau anodd iawn yn yr adroddiad hwn, mewn gwirionedd, o ran paratoi ymgeiswyr ac, yn wir, o ran ymgysylltu â'r rheoleiddiwr a'i fethiant i hysbysu'r rheoleiddiwr ar adeg briodol am yr anawsterau. A gaf i ofyn i'r Gweinidog, felly, a yw wedi cael y cyfle eto i drafod yr adroddiad hwn gyda chadeirydd CBAC? A gaf ei annog i symud yn ddiymdroi, fel y mae argymhellid 12 yn awgrymu, at greu Cymwysterau Cymru fel corff a fydd yn gyfrifol am gynllunio, datblygu a dyfarnu cymwysterau cyffredinol?

16:05

## **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the Rhondda. I am heartened by the fact that in this Chamber this afternoon—in contrast to some of the comments that have been thrown around for the benefit of our friends in the press, incidentally—we have had a level-headed discussion and I thank Members for it. I think that any issue around re-grading really would deliver us into the ultimate dishonesty when it comes to our relationship with Wales's young people and what we have promised them in terms of their prospects. We have promised them a passport to success and to life chances through their qualifications system that cannot be gainsaid, as I said, by anyone. We will deliver those passports to them. Never again will people talk down their educational achievement, and we will work towards that relentlessly. Any attempt to re-grade or step back from that commitment now would expose us to accusations—quite rightly—of dishonesty in terms of the conversation we have had with them.

There are difficult questions for WJEC within this document. I expect it to rise to the challenge and answer them. I will be listening very carefully to the response of WJEC over the next couple of days. I have spoken with the chair on the telephone. We did not have an opportunity, given the time constraints, to meet face to face. I am confident that the chair of WJEC has accepted the word and the spirit of the rapid review and the recommendations that flow from it and will be working as a partner with us to ensure that these things are set right as soon as possible.

The Member for the Rhondda is quite right. There is a national requirement, a national need, within Wales to move towards an independent regulator and to move towards Qualifications Wales, and I will be introducing legislation to enable that as soon as the legislative timetable permits.

Diolch i'r Aelod dros y Rhondda. Rwyf wedi fy nghalonogi gan y ffaith ein bod yn y Siambr hon brynhawn heddiw—yn wahanol i rai o'r sylwadau sydd wedi cael eu taflu o gwmpas er budd ein cyfeillion yn y wasg, gyda llaw—wedi cael trafodaeth synhwyrol ac rwy'n diolch i'r Aelodau am hynny. Rwy'n credu y byddai unrhyw fater ynghylch ailraddio wir yn mynd â ni i'r anonestrwydd eithaf o ran ein perthynas â phobl ifanc Cymru a'r hyn yr ydym wedi addo iddynt o ran eu rhagolygon. Rydym wedi addo pasbort iddynt i lwyddiant ac i gyfleoedd bywyd, trwy system gymwysterau na all neb ei hamau, fel y dywedais. Byddwn yn darparu'r pasbortau hynny iddynt. Ni fydd neb o hyn ymlaen yn dibrisio eu cyflawniad addysgol, a byddwn yn gweithio tuag at hynny'n ddiflino. Byddai unrhyw ymgais i ailraddio neu gamu'n ôl oddi wrth yr ymrwymiad hwnnw yn awr yn golygu ein bod yn agored i gyhuddiadau—yn ddigon teg—o anonestrwydd o ran y drafodaeth a gawsom gyda hwy.

Mae cwestiynau anodd i CBAC yn y ddogfen hon. Rwy'n disgwyl iddo ymateb i'r her a'u hateb. Byddaf yn gwrandao'n astud iawn ar ateb CBAC dros yr ychydig ddyddiau nesaf. Rwyf wedi siarad â'r cadeirydd ar y ffôn. Nid oedd gennym gyfle, o ystyried y cyfyngiadau amser, i gyfarfod wyneb yn wyneb. Rwy'n hyderus bod cadeirydd CBAC wedi derbyn gair ac ysbryd yr adolygiad cyflym a'r argymhellion sy'n deillio ohonynt, ac y bydd yn gweithio fel partner gyda ni i sicrhau bod y pethau hyn yn cael eu hunioni cyn gynted ag y bo modd.

Mae'r Aelod dros y Rhondda yn llygad ei le. Mae gofyniad cenedlaethol, angen cenedlaethol, yng Nghymru i symud tuag at reoleiddiwr annibynnol ac i symud tuag at Gymwysterau Cymru, a byddaf yn cyflwyno deddfwriaeth i alluogi hynny cyn gynted ag y mae'r amserlen ddeddfwriaethol yn caniatáu.

16:07

## **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have a single question. How do you respond to the north Wales constituent who e-mailed me, after the announcement through the media at lunch time that the Welsh Government has said 'no' to a re-marking for English language GCSE examination papers, to say that:

Mae gennyf un cwestiwn. Sut yr ydych yn ymateb i'r etholwr o ogledd Cymru a anfonodd e-bost ataf, ar ôl y cyhoeddiad drwy'r cyfryngau yn ystod amser cinio bod Llywodraeth Cymru wedi dweud 'na' i ailfarcio papurau arholiad TGAU Saesneg, i ddweud:

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

'The change in emphasis to attribute more marks to accurate punctuation in the final year leading up to the exam, when pupils had been taught that punctuation is not critical to exam results, is unacceptable. Change should have been introduced over a longer time frame for the Welsh Government promise that this would not affect pupils' results to be honoured. I am not going to accept my son's future being used as a political pawn. I want this test paper re-marked using the old marking system.'

None of those are my words, but I am sure that there are many parents out there who are feeling similar sentiments. Could you answer them more than me, probably?

Mae'n annerbyniol newid y pwyslais i briodoli mwy o farciau i atalnodi cywir yn y flwyddyn olaf cyn yr arholiad, pan oedd disgyblion wedi cael eu haddysgu nad oedd atalnodi'n hanfodol i ganlyniadau arholiadau. Dylai newid fod wedi cael ei gyflwyno dros gyfnod amser hwy er mwyn anrhydeddu addewid Llywodraeth Cymru na fyddai hyn yn effeithio ar ganlyniadau disgyblion. Nid wyf yn mynd i dderbyn y ffaith fod dyfodol fy mab yn cael ei ddefnyddio fel gwystl gwleidyddol. Rwyf am i'r papur prawf hwn gael ei ailfarcio gan ddefnyddio'r hen system farcio.

Nid fy ngeiriau i yw unrhyw un o'r rhain, ond rwy'n siŵr bod llawer o rieni sy'n teimlo'n debyg. A allech chi eu hateb yn fwy na fi, mwy na thebyg?

16:08

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very happy to answer anonymous people through the proxy of Mark Isherwood as best I can.

There will be no re-grading. There will be no re-marking. That would be a betrayal, in my view, of our commitment—as I have said repeatedly this afternoon—to deliver the best in terms of quality and rigour to our young people and to reinforce their prospects in later life as much as we can through doing so.

Anyone that has the remotest connection to Welsh education since at least 2011 who is under the impression that somehow punctuation, for instance, was not critical to young people's prospects as regards their English language GCSE, I really do not know where they have got that impression from. I do hope and pray for the sake of that parent and for the young person who is involved in the situation that you mention that certainly no one within their school was delivering a message that was anything other than the opposite of that every day. Ever since the literacy and numeracy framework, which is now statutory, was up and running in schools—at least since 2011, and right throughout the development of this particular GCSE, which is encompassed in that timescale, since October 2012—every day the head of the English department in that young person's school should have been ensuring that that agenda around sentence structure, punctuation and grammar was delivered to that young person. If it was not, then it is a matter that we really need to despair at, in terms of what may have happened in that particular instance. If you can remove the veil of anonymity from those comments, Mark, if you feel you are able to do so, I would be more than happy to personally get to the bottom of the matter.

Rwyf yn hapus iawn i ateb pobl ddiennw drwy Mark Isherwood fel dirprwy, gystal ag y gallaf.

Ni fydd unrhyw ailraddio. Ni fydd unrhyw ailfarcio. Byddai hynny, yn fy marn i, yn bradychu ein hymrwymiad—fel yr wyf wedi dweud dro ar ôl tro brynhawn heddiw—i ddarparu'r gorau o ran ansawdd a thrylwyrdd i'n pobl ifanc ac i atgyfnerthu eu rhagolygon yn ddiweddarach mewn bywyd gymaint ag y gallwn trwy wneud hynny.

O ran unrhyw un sydd â'r cysylltiad mwyaf prin ag addysg yng Nghymru ers o leiaf 2011 ac sydd dan yr argraff rywsut nad oedd atalnodi, er enghraifft, yn allweddol i ragolygon pobl ifanc o ran eu TGAU Saesneg, nid wyf wir yn gwybod o ble maent wedi cael yr argraff honno. Rwy'n gobeithio ac yn gweddio er mwyn y rhiant hwnnw ac er mwyn y person ifanc sydd yn y sefyllfa yr ydych yn sôn amdani, nad oedd neb yn sicr o fewn eu hysgol yn cyflwyno dim ond neges cwbl groes i hynny bob dydd. Ers cyflwyno'r fframwaith llythrennedd a rhifedd, sydd bellach yn statudol, mewn ysgolion—o leiaf ers 2011, a thrwy gydol datblygiad y TGAU penodol hwn, sy'n cael ei gynnwys yn yr amserlen honno, ers mis Hydref 2012—dylai pennaeth yr adran Saesneg yn ysgol y person ifanc fod wedi bod yn sicrhau, bob dydd, bod yr agenda honno ynghylch strwythur brawddegau, atalnodi a gramadeg yn cael ei chyflwyno i'r person ifanc. Os nad oedd, yna mae'n fater y mae gwir angen i ni anobeithio yn ei gylch, o ran yr hyn a allai fod wedi digwydd yn yr achos penodol hwnnw. Os gallwch chi gael gwared ar y llen ddiennw oddi ar y sylwadau hynny, Mark, os ydych yn teimlo eich bod yn gallu gwneud hynny, rwy'n fwy na pharod i fynd at waidd y broblem yn bersonol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The fact is, Minister, you cannot turn that around in the space of 12 months, if that has not been done in the previous years of a child's education. Given your comments regarding the accuracy of teacher assessments, and given that those assessments and those predictions are pretty much all that a parent and a student has to go on in specific subjects, above and beyond the national literacy test, what steps are you taking to ensure more robust teacher assessment across all subjects? Are you carrying out any mapping work whatsoever at key stage 3 and key stage 4 to look at the accuracy of the national literacy and numeracy test against predicted teacher assessment grades? At the moment, what many teachers are telling parents—it is certainly the experience in my constituency—is, 'Ah, that is just the performance on the day, and, actually, it is my work over the space of the year that is a true predictor of what your child is going to get.' There will be many parents hearing your statements today on the accuracy of teacher predictions and teacher assessments who will be frightened about what is going to happen to their children.

Y ffaith yw, Weinidog, ni allwch newid y sefyllfa honno mewn 12 mis, os nad yw wedi ei wneud ym mlynnyddoedd blaenorol addysg plentyn. O ystyried eich sylwadau ynghylch cywirdeb asesiadau athrawon, ac o ystyried mai'r asesiadau hynny a'r rhagfynegiadau hynny i raddau helaeth yw'r unig sail sydd gan riant a myfyriwr o ran pynciau penodol, ar wahân i'r prawf llythrennedd cenedlaethol, pa gamau ydych chi'n eu cymryd i sicrhau bod asesiadau athrawon yn fwy cadarn ar draws yr holl bynciau? A ydych chi'n gwneud unrhyw waith mapio o gwbl yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 i edrych ar gywirdeb y prawf llythrennedd a rhifedd cenedlaethol o'i gymharu â graddau asesiadau athrawon? Ar hyn o bryd, yr hyn y mae llawer o athrawon yn ei ddweud wrth rieni—yn sicr, dyna'r profiad yn fy etholaeth i—yw, 'A, dim ond y perfformiad ar y diwrnod yw hynny, ac mewn gwirionedd, fy ngwaith i dros gyfnod o flyyddyn sy'n rhagfynegi'n gywir yr hyn y mae eich plentyn yn mynd i'w gael.' Bydd llawer o rieni yn clywed eich datganiadau heddiw ar gywirdeb rhagfynegiadau athrawon ac asesiadau athrawon, ac a fydd yn ofnus ynglŷn â'r hyn sy'n mynd i ddigwydd i'w plant.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, there is nothing new in what I have been saying here today. This is not for this afternoon, because it is an involved conversation—but we will have it—around that inflation of predictions around key stage 2 and key stage 3 and the implications, in particular, that that has in terms of teacher assessment for what actually happens at the end of key stage 4, when public examinations come into the frame. We need to get that absolutely right.

Wel, nid oes dim byd newydd yn yr hyn yr wyf wedi bod yn ei ddweud yma heddiw. Nid yw hyn yn fater ar gyfer y prynhawn yma, gan ei bod yn sgwrs gymhleth—ond byddwn yn ei chael—ynglŷn â rhagfynegiadau rhy uchel yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 a'r goblygiadau, yn arbennig, a gaiff hynny o ran asesiad athrawon ar gyfer yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, pan ddaw'n adeg arholiadau cyhoeddus. Mae angen i ni gael hynny'n hollol iawn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

However, the feature around predicted grades at GCSE is as old as GCSEs themselves. This disconnect between teacher prediction and actual outcome has been a big issue for a very long time, and it has been thrown into sharp relief by these January modules in this particular year as we shift to new specifications, and I am glad that we have had these January modules, because the alternative would have been that we would have found out about these particular issues after the actual GCSE results in the summer. That would have been the alternative situation we would have been thrown into and we would have been in a situation then analogous to what happened in 2012, when there really was a proper dysfunction across the system as a whole.

Fodd bynnag, mae'r nodwedd ynglŷn â'r graddau a ragwelir ar TGAU mor hen â TGAU eu hunain. Mae'r diffyg cysylltiad rhwng rhagfynegiadau athrawon a chanlyniadau gwirioneddol wedi bod yn fater o bwys ers amser hir iawn, ac mae wedi cael ei amlygu gan fodiwlau mis Ionawr yn y flyyddyn benodol hon wrth i ni symud tuag at fanylebau newydd. Rwy'n falch ein bod wedi cael modiwlau mis Ionawr, gan mai'r dewis arall fyddai dod i wybod am y materion penodol hyn ar ôl y gwir ganlyniadau TGAU yn yr haf. Dyna'r sefyllfa arall y gallem fod wedi cael ein taflu i mewn iddi a byddem wedi bod mewn sefyllfa debyg wedyn i'r hyn a ddigwyddodd yn 2012, pan nad oedd y system yn ei chyfanrwydd yn gweithio mewn gwirionedd.

I am not dismissing Kirsty's points at all here. There is a big conversation that needs to be had between ourselves, as Government and as regulator, WJEC and others, and the teaching profession in Wales, about making sure that Welsh school pupils are able to access a true and accurate picture of where they actually stand in terms of achievement at every point in their school career.

Nid wyf yn diystyru pwyntiau Kirsty yma o gwbl. Ceir sgwrs fawr y mae angen inni ein hunain ei chael, fel Llywodraeth ac fel rheoleiddiwr, CBAC ac eraill, a'r proffesiwn addysgu yng Nghymru, ynglŷn â sicrhau bod darlun gwir a chywir ar gael i ddisgyblion ysgolion yng Nghymru o ble maent mewn gwirionedd o ran cyrhaeddiad ar bob pwynt yn eu gyrfa ysgol.

*Daeth Rhodri Glyn Thomas i'r Gadair am 16:13.*

*Rhodri Glyn Thomas took the Chair at 16:13.*



## Datganiad: Cynnydd o ran Sicrhau Twf: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru

**Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

In the autumn I outlined my aspirations for the food and drink industry in Wales, and my proposals to support the industry now and in the future. I launched a consultation, 'Delivering Growth: an Action Plan for the Food and Drinks Industry in Wales 2014-20' in the winter fair last December in Builth Wells. I am now updating Members on the outcome of that consultation and the way ahead.

The draft action plan focuses mainly on post-farm-gate actions, although the success of this part of the supply chain is interdependent with the excellent quality products from our primary producers and the need for a profitable and sustainable farming sector. I have made significant progress and announcements on the common agricultural policy in Wales recently and on the shape of the future rural development plan, which must, and will, deliver the best possible support for our rural economy. This aligns with our marine and fisheries strategies and the European maritime and fisheries fund.

The food sector needs to be more market-orientated and market-led, and I welcome engagement with people from all parts of the supply chain. I indicated from the outset my intention to listen to the industry and respond accordingly. The 77 written contributions, and the many more at our events and presentations to interested parties across Wales, highlight the active engagement by the industry in this exercise.

Our stakeholders have welcomed the federation-type lead body I proposed in the consultation. The federation should have a wide-reaching remit and membership. It must be industry-led and flexible to change as priorities change. The federation, or lead body, must take ownership of the action plan and implement changes and add more actions as necessary.

There is broad support for our development work on the new identity for Wales's food and drink. I note the importance of ensuring that it works for all businesses from the micro producers to the major players. Early feedback on the success of the identity is very encouraging and most recently at the food and drink expo, the Wales stand was rated by many stakeholders as the most striking exhibit with an obvious Welsh identity.

## Statement: Progress towards Delivering Growth, an Action Plan for the Food and Drink Industry in Wales

Yn yr hydref amlinellais fy nyheadau ar gyfer y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru, a'm cynigion i gefnogi'r diwydiant yn awr ac yn y dyfodol. Lansiais ymgynghoriad, 'Sicrhau Twf: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru 2014-20' yn y ffair aeaf fis Rhagfyr diwethaf yn Llanfair-ym-Muallt. Rwyf yn awr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw a'r ffordd ymlaen.

Mae'r cynllun gweithredu drafft yn canolbwyntio'n bennaf ar gamau ôl-gât-y-fferm, er bod llwyddiant y rhan hon o'r gadwyn gyflenwi yn rhyngddibynnol â'r cynnyrch o ansawdd rhagorol gan ein prif gynhyrchwyr a'r angen am sector ffermio proffidiol a chynaliadwy. Rwyf wedi gwneud cynnydd sylweddol a chyhoeddiadau ar y polisi amaethyddol cyffredin yng Nghymru yn ddiweddar, ac ar ffurf y cynllun datblygu gwledig yn y dyfodol, y mae'n rhaid iddo ddarparu'r cymorth gorau posibl ar gyfer ein heconomi wledig, ac a fydd yn gwneud hynny. Mae hyn yn cyd-fynd â'n strategaethau môr a physgodfeydd a chronfa môr a physgodfeydd Ewrop.

Mae angen i'r sector bwyd ymateb yn well i ofnion y farchnad a chael ei arwain gan y farchnad, ac rwyf yn croesawu ymgysylltiad â phobl o bob rhan o'r gadwyn gyflenwi. Nodais o'r cychwyn cyntaf fy mwriad i wrando ar y diwydiant ac i ymateb yn unol â hynny. Mae'r 77 cyfraniad ysgrifenedig, a'r llawer mwy yn ein digwyddiadau a'n cyflwyniadau i bartion â diddordeb ledled Cymru, yn pwysleisio ymgysylltiad gweithredol y diwydiant yn y broses hon.

Mae ein rhanddeiliaid wedi croesawu'r corff arweiniol ar batrwm ffederasiwn a gynigiais yn yr ymgynghoriad. Dylai cylch gwaith ac aelodaeth y ffederasiwn fod yn eang. Rhaid iddo gael ei arwain gan y diwydiant a bod yn hyblyg i newid wrth i flaenoriaethau newid. Rhaid i'r ffederasiwn, neu'r corff arweiniol, berchnogi'r cynllun gweithredu a rhoi ar waith newidiadau ac ychwanegu mwy o gamau gweithredu yn ôl yr angen.

Mae cefnogaeth eang i'n gwaith datblygu ar yr hunaniaeth newydd i fwyd a diod Cymru. Nodaf bwysigrwydd sicrhau ei fod yn gweithio i bob busnes o'r micro gynhyrchwyr i'r prif chwaraewyr. Mae adborth cynnar ar lwyddiant yr hunaniaeth yn galonogol iawn ac yn fwyaf diweddar yn yr expo bwyd a diod, dywedodd llawer o rhanddeiliaid mai stondin Cymru oedd yr arddangosfa fwyaf trawiadol, â hunaniaeth Gymreig amlwg.

Strong views were expressed on the issues of food education, training and skills. Food must feature in education and training at all levels—from very young children through to school leavers making career choices. Consumers too have to fully engage with a food culture that encourages growing food, cooking skills and healthy eating. There are skills gaps in the industry at many levels, including in manufacturing and engineering; we need to raise our game across the board. Training must be easily accessed and deliver real qualifications and continuous professional development. Joining up across the whole of Government is needed, and externally with organisations such as the sector skills councils. We need a culture that fosters new thinking, entrepreneurship, innovation and skills—all watchwords for the industry and all key features of the consultation responses.

I have already discussed joined-up working, and the need to significantly improve integration in the supply chain was highlighted in many responses. To make leaps forward in efficiency improvements, we need much greater integration. Integration will help to secure commitment to supplying food, enhance quality, enable fairer prices and to build lasting trust.

We need to produce what we sell and not sell what we produce. Market intelligence needs to be readily available and effectively communicated, which could be a role for the new federation or its networks. There are increasing opportunities for us to export our excellent Welsh produce, and I am increasing resources in the food export team to make this happen. Many food businesses have emphasised the importance of the domestic market and the need to support local supply chain development. I am working to encourage more opportunities for producers to supply the public sector as a whole, and we need to ensure that food safety, healthy eating and Welsh provenance are rated alongside price when making purchasing decisions.

Wales has a rapidly developing food culture and the links with tourism will be strengthened through closer working with Visit Wales and with regional tourism interests. The wider economic benefits from food cultural events, such as food festivals, are proving to extend well beyond the participating businesses. Local retail and hospitality businesses can benefit considerably from such events. We need to evolve our support for food events to reflect the degree of local economic enterprise that many festivals are demonstrating.

In terms of business support, there will be no one-size-fits-all approach, and we must get better at identifying specific producer needs and supporting their development and business growth. We must demystify the range of support and intervention available, and the access to it. We must forge efficient ways of working internally in the provision of financial support to businesses. There are good exemplars of bespoke services, including the knowledge innovation technology exchange programme, which I will look to build on.

Mynegwyd barn gref am addysg, hyfforddiant a sgiliau bwyd. Rhaid i fwyd fod yn rhan o addysg a hyfforddiant ar bob lefel—o blant ifanc iawn hyd at y rhai sy'n gadael yr ysgol ac yn gwneud dewisiadau gyrfa. Mae'n rhaid i ddefnyddwyr hefyd ymgysylltu'n llawn â diwylliant bwyd sy'n annog tyfu bwyd, sgiliau coginio a bwyta'n iach. Mae bylchau yn y diwydiant o ran sgiliau ar sawl lefel, gan gynnwys mewn gweithgynhyrchu a pheirianneg; mae angen i ni gynyddu'n hymdrechion yn gyffredinol. Rhaid i hyfforddiant fod yn hawdd cael gafael arno a darparu cymwysterau go iawn a datblygiad proffesiynol parhaus. Mae angen cydgysylltu ar draws y Llywodraeth gyfan, ac yn allanol â sefydliadau megis y cynghorau sgiliau sector. Mae arnom angen diwylliant sy'n meithrin syniadau newydd, mentergarwch, arloesi a sgiliau—pob un yn arwyddair ar gyfer y diwydiant a phob un yn nodwedd allweddol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Rwyf eisoes wedi trafod gweithio cydgysylltiedig, a thynnwyd sylw at yr angen i wella integreiddio'n sylweddol yn y gadwyn gyflenwi mewn nifer o ymatebion. Er mwyn cymryd camau breision ymlaen o ran gwelliannau effeithlonrwydd, mae angen llawer mwy o integreiddio. Bydd integreiddio yn helpu i sicrhau ymrwymiad i gyflenwi bwyd, bydd yn gwella ansawdd, yn galluogi prisiau tecach ac yn meithrin ymddiriedaeth barhaol.

Mae angen inni gynhyrchu'r hyn yr ydym yn ei werthu ac nid gwerthu'r hyn yr ydym yn ei gynhyrchu. Mae angen i wybodaeth am y farchnad fod ar gael yn rhwydd ac mae angen ei chyfleu'n effeithiol, a gallai hynny fod yn rôl i'r ffederasiwn newydd neu ei rwydweithiau. Mae mwy a mwy o gyfleoedd inni i allforio ein cynnyrch Cymreig ardderchog, ac rwyf yn rhoi mwy o adnoddau i'r tîm allforio bwyd i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae llawer o fusnesau bwyd wedi pwysleisio pwysigrwydd y farchnad ddomestig a'r angen i gefnogi datblygu cadwyni cyflenwi lleol. Rwyf yn gweithio i annog mwy o gyfleoedd i gynhyrchwyr i gyflenwi'r sector cyhoeddus cyfan, ac mae angen inni sicrhau bod diogelwch bwyd, bwyta'n iach a tharddiad Cymreig yn cael eu hystyried ochr yn ochr â phris wrth wneud penderfyniadau prynu.

Mae gan Gymru ddiwylliant bwyd sy'n datblygu'n gyflym a bydd y cysylltiadau â thwristiaeth yn cryfhau trwy gydweithio agosach â Croeso Cymru a buddiannau twristiaeth rhanbarthol. Mae manteision economaidd ehangach digwyddiadau'r diwylliant bwyd, megis gwyliau bwyd, yn estyn ymhell y tu hwnt i'r busnesau sy'n cymryd rhan. Gall busnesau manwerthu a lletygarwch lleol elwa'n sylweddol o ddigwyddiadau o'r fath. Mae angen inni ddatblygu ein cefnogaeth i ddigwyddiadau bwyd i adlewyrchu graddfa'r mentro economaidd lleol a welir mewn llawer o wyliau.

O ran cymorth busnes, ni fydd agwedd un-maint-i-bawb, a rhaid inni ddysgu adnabod anghenion penodol cynhyrchwyr a chefnogi eu datblygiad a thwf eu busnesau yn well. Mae'n rhaid inni godi'r llen ar yr ystod o gymorth ac ymyrraeth sydd ar gael, a ffyrdd o gael gafael arnynt. Rhaid inni greu ffyrdd effeithlon o weithio'n fewnol wrth ddarparu cymorth ariannol i fusnesau. Mae enghreifftiau da o wasanaethau pwrpasol, gan gynnwys y rhaglen cyfnewid technoleg arloesi gwybodaeth, y byddaf yn ceisio adeiladu arnynt.

I joined my officials last week for an event to engage with industry to test our initial analyses and conclusions. Members of the food division were also at the food and drink expo in Birmingham this week, where there was significant support for the direction that I am taking.

I am confident that there is a long-term, viable and sustainable future for the whole of the food and drinks industry in Wales. It is time now to set out a clear direction and actions to support the food industry. The final action plan will be clear and unambiguous, and will contain certain actions for the short and medium term. We are on course to confirming those actions needed to deliver for the industry.

I am publishing a summary of responses on the Welsh Government website today. I will continue to examine all contributions and will finalise the action plan in June.

16:20 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Galwaf ar lefarydd y Blaid Geidwadol, Russell George.

16:20 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
I thank the Minister for his statement, which is welcome. The action plan is, I think, vital, given the billions of pounds that the food and drink sector and its associated supply chain generate for the Welsh economy, as well as the many thousands of jobs that are associated as well. I think that there is an underlying picture of exports increasing in food and drink in other parts of the UK, continuing to outperform Wales. So, I think that it is important to look at the past initiatives and learn from that.

The action plan seems to have a number of competing priorities and it would be good to understand what the Welsh Government's main priority is here. Is it business growth, climate change or addressing the health and social impacts of poor diets? I understand and agree that all are important, but it would be good to understand the main priority.

You propose to grow the food and drinks industry by 30%, which is welcome again. It would be good if you could break down how you want to achieve that, by breaking that figure down into percentages across the different sectors.

The Wales the True Taste promotional campaign managed by the Government was scrapped in 2013 after running for 10 years. Industry leaders felt that this scheme was not effective at trade events or at promoting Welsh produce, because it was poorly focused and unclear in what it represented to export markets. So, given that the Government is now placing greater emphasis on Wales as a trade identity in the marketing of Welsh products, what lessons has the Government learnt from the failure of True Taste and what makes this action plan radically different?

Ymunais â'm swyddogion yr wythnos diwethaf mewn digwyddiad i ymgysylltu â'r diwydiant er mwyn rhoi prawf ar ein dadansoddiadau a'n casgliadau cychwynnol. Roedd aelodau o'r isadran bwyd hefyd yn yr expo bwyd a diod yn Birmingham yr wythnos hon, lle'r oedd cryn dipyn o gefnogaeth i'r cyfeiriad yr wyf yn ei gymryd.

Rwyf yn hyderus bod dyfodol hirdymor, hyfw a chynaliadwy i'r holl ddiwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Mae'n bryd yn awr gosod cyfeiriad a chamau gweithredu clir i gefnogi'r diwydiant bwyd. Bydd y cynllun gweithredu terfynol yn glir ac yn ddiamwys, a bydd yn cynnwys camau gweithredu penodol ar gyfer y tymor byr a chanolig. Rydym ar y trywydd iawn i gadarnhau'r camau gweithredu hynny sydd eu hangen i gyflawni ar gyfer y diwydiant.

Rwyf yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ar wefan Llywodraeth Cymru heddiw. Byddaf yn parhau i edrych ar yr holl gyfraniadau ac yn cwblhau'r cynllun gweithredu ym mis Mehefin.

I call on the Conservative spokesperson, Russell George.

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad, sydd i'w groesawu. Mae'r cynllun gweithredu hwn, yn fy marn i, yn hanfodol, o ystyried y biliynau o bunnoedd y mae'r sector bwyd a diod a'i gadwyn gyflenwi gysylltiedig yn eu cynhyrchu i economi Cymru, yn ogystal â'r miloedd lawer o swyddi cysylltiedig. Credaf fod allforion bwyd a diod yn cynyddu mewn rhannau eraill o'r DU, sy'n parhau i berfformio'n well na Chymru. Felly, rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig edrych ar fentrau'r gorffennol a dysgu o hynny.

Mae'n ymddangos bod yn y cynllun gweithredu nifer o flaenoriaethau sy'n cystadlu a byddai'n dda cael deall beth yw prif flaenoriaeth Llywodraeth Cymru yma. Ai twf busnes, newid yn yr hinsawdd neu fynd i'r afael ag effeithiau iechyd a chymdeithasol diet gwael? Rwyf yn deall ac yn cytuno bod pob un yn bwysig, ond byddai'n dda cael deall y brif flaenoriaeth.

Rydych yn bwriadu tyfu'r diwydiant bwyd a diod 30%, sydd i'w groesawu eto. Byddai'n dda pe gallech ddadansoddi sut yr ydych am gyflawni hynny, drwy rannu'r ffigur hwnnw'n ganrannau ar draws y gwahanol sectorau.

Cafodd yr ymgyrch hyrwyddo Cymru: Y Gwir Flas dan reolaeth y Llywodraeth ei ddiddymu yn 2013 ar ôl bod ar waith am 10 mlynedd. Teimlai arweinwyr y diwydiant nad oedd y cynllun hwn yn effeithiol mewn digwyddiadau masnach nac wrth hyrwyddo cynnyrch o Gymru, oherwydd nad oedd pwyslais penodol iddo ac nad oedd yn glir o ran yr hyn yr oedd yn ei gynrychioli i farchnadoedd allforio. Felly, ac ystyried bod y Llywodraeth yn awr yn rhoi mwy o bwyslais ar Gymru fel hunaniaeth fasnachol wrth farchnata cynnyrch o Gymru, pa wersi y mae'r Llywodraeth wedi'u dysgu o fethiant Gwir Flas a beth sy'n gwneud y cynllun gweithredu hwn yn gwbl wahanol?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

You also mention that the Government will create an independent Welsh food and drink federation comprised of industry leaders and led by them. I think that that is right and welcome. I understand that there will be Welsh Government representatives on that body. So, if that is correct, how independent will this federation be? What was the sector's response to that proposal during the consultation? How much financial support are you proposing to provide to that group?

I believe that the Government should be targeting key sectors, like has been done in Scotland. Its food and drink strategy is considerably more advanced than in other parts of the UK. The Government there has set out an outlining framework and 15 key export markets, but the rest is, of course, driven by the industry. It has had considerable success in that. Have you identified your key export markets and the headline products that you want to position in those marketplaces? I also recognise that it is also not solely about exports; we need to develop produce for strong domestic markets here in the UK and ensure that our excellent produce is offered to tourists coming into Wales.

I am pleased to hear your comments that you are working to encourage more opportunities for producers to supply the public sector. I think that that is very welcome as well. I agree with your comments that one size does not fit all. I know that Taste Montgomery in my constituency is a great example of a project that aims to promote local produce and I would like to extend an invitation to you, Minister, to visit it with me; I think that there could be some good examples learnt there, which could be replicated in other parts of Wales. I hope that you will accept that invitation to do that.

Dywedwch hefyd y bydd y Llywodraeth yn creu ffederasiwn bwyd a diod annibynnol i Gymru yn cynnwys arweinwyr y diwydiant ac yn cael ei arwain ganddynt. Credaf fod hynny'n briodol ac i'w groesawu. Rwyf ar ddeall y bydd cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru ar y corff hwnnw. Felly, os yw hynny'n wir, pa mor annibynnol fydd y ffederasiwn hwn? Beth oedd ymateb y sector i'r cynnig hwnnw yn ystod yr ymgynghoriad? Faint o gymorth ariannol ydych chi'n bwriadu ei ddarparu i'r grŵp hwnnw?

Credaf y dylai'r Llywodraeth fod yn targedu sectorau allweddol, fel sydd wedi digwydd yn yr Alban. Mae strategaeth bwyd a diod yr Alban yn fwy datblygedig o lawer nag mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'r Llywodraeth yno wedi nodi fframwaith amlinellol a 15 marchnad allforio allweddol, ond mae'r gweddill, wrth gwrs, yn cael ei yrru gan y diwydiant. Mae wedi cael cryn lwyddiant yn hynny o beth. Ydych chi wedi nodi eich marchnadoedd allforio allweddol a'r prif gynnyrch yr ydych am ei osod yn y marchnadoedd hynny? Rwyf hefyd yn cydnabod nad mater o allforion yn unig yw hyn; mae angen inni ddatblygu cynnyrch ar gyfer marchnadoedd domestig cryf yma yn y DU a sicrhau bod ein cynnyrch rhagorol yn cael ei gynnig i dwristiaid sy'n dod i mewn i Gymru.

Rwyf yn falch o glywed eich sylwadau eich bod yn gweithio i annog mwy o gyfleoedd i gynhyrchwyr i gyflenwi'r sector cyhoeddus. Credaf fod hynny i'w groesawu'n fawr hefyd. Rwyf yn cytuno â'ch sylwadau nad yw un maint yn addas i bawb. Gwn fod Blas Trefaldwyn yn fy etholaeth i yn enghraifft wych o brosiect sy'n ceisio hyrwyddo cynnyrch lleol a hoffwn estyn gwahoddiad ichi, Weinidog, i ymweld â hwy gyda mi; credaf y gallai fod rhai esiamplau da i'w dysgu yno, y gellid eu hailadrodd mewn rhannau eraill o Gymru. Rwyf yn gobeithio y byddwch yn derbyn y gwahoddiad i wneud hynny.

16:24

**Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

I call on the Minister to respond.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I always look forward to my visits to Montgomeryshire and I look forward to further visits in the future. I am very happy to accept such invitations. I thank the Conservative spokesperson for his general welcome and warm comments on the plan. I am very grateful to him for the work that he has done since taking over this brief in providing support to Welsh exporters and to Welsh food businesses. He raises an issue about competing priorities, which I think is a very fair issue. When we were writing the consultation, we ended up, I think, with seven different priority areas. While I think that we need to focus work on those different themes, it is clear that, at the same time, we have to set out a very clear vision for where we wish the industry to go with the support that we are providing. That needs to be a very focused vision as well. So, I think that the point he makes about competing priorities is a very real one, and I think that we will be focusing on that before we finalise the action plan for its launch in June. I will say to him that I regard growing the industry as the key priority—increasing turnover and increasing the contribution to GDP, to GVA, are the key priorities for me. The way that we do that will then be expressed through the cross-cutting nature of sustainability and other priorities. So, we will be doing that and, through doing that, I hope that we will be able to ensure that tackling poverty and healthy eating remain absolutely key parts of that agenda.

In terms of growing the industry, the Conservatives asked us for a breakdown into sectors. I think that, again, that is a very fair comment, and we will seek to do that to demonstrate where the emphasis of Welsh Government intervention and support will be. However, I would say to him that his questions on the federation—we have used the term 'federation' in our debate today, although that might change in future—also raise very similar issues. I will give him an undertaking that it will be completely independent. When he has the opportunity to read through the responses to the consultation, he will see that there were a number that said that either I should lead it as Minister or that it should be Government-led. I am very uncomfortable with that. I think that the role of Government has to be to support industry, not to second-guess industry, and that we should seek to listen to what industry has to say and respond to it, not tell the industry what we intend doing. So, my point of view is that this federation should not only be independent but very clearly industry-led and not Government-led.

Rwyf bob amser yn edrych ymlaen at fy ymweliadau â Sir Drefaldwyn ac edrychaf ymlaen at ymweliadau pellach yn y dyfodol. Rwyf yn hapus iawn i dderbyn gwahoddiadau o'r fath. Diolch i lefarydd y Ceidwadwyr am ei groeso cyffredinol a'i sylwadau cynnes am y cynllun. Rwyf yn ddiolchgar iawn iddo am y gwaith y mae wedi'i wneud ers cymryd y briff hwn o ran cynnig cefnogaeth i allforwyr o Gymru ac i fusnesau bwyd Cymru. Mae'n sôn am flaenoriaethau sy'n cystadlu, ac mae'n bwynt teg iawn yn fy marn i. Pan oeddem yn ysgrifennu'r ymgynghoriad, roedd gennym yn y diwedd, rwyf yn credu, saith maes blaenoriaeth gwahanol. Er fy mod yn credu bod angen inni ganolbwyntio ar y themâu gwahanol hynny, mae'n amlwg, ar yr un pryd, fod yn rhaid inni nodi gweledigaeth glir iawn ar gyfer lle'r ydym yn dymuno i'r diwydiant fynd â'r cymorth yr ydym yn ei ddarparu. Mae angen gweledigaeth fanwl iawn hefyd. Felly, credaf fod y pwynt y mae'n ei wneud am flaenoriaethau sy'n cystadlu yn real iawn, ac rwyf yn meddwl y byddwn yn canolbwyntio ar hynny cyn inni gwblhau'r cynllun gweithredu er mwyn ei lansio ym mis Mehefin. Dywedaf wrtho fy mod yn ystyried bod tyfu'r diwydiant yn flaenoriaeth allweddol—cynyddu trosiant a chynyddu'r cyfraniad i CMC, i GYC, yw'r blaenoriaethau allweddol i mi. Bydd y ffordd y gwnawn hynny yn cael ei fynegi trwy natur drawsbynciol cynaliadwyedd a blaenoriaethau eraill. Felly, byddwn yn gwneud hynny a, thrwy wneud hynny, rwyf yn gobeithio y byddwn yn gallu sicrhau bod trechu tlodi a bwyta'n iach yn parhau i fod yn elfennau cwbl allweddol o'r agenda honno.

O ran tyfu'r diwydiant, gofynnodd y Ceidwadwyr inni am ddadansoddiad fesul sector. Credaf unwaith eto fod hynny'n sylw teg iawn, a byddwn yn ceisio gwneud hynny er mwyn dangos ymhle y bydd pwyslais ymyrraeth a chymorth Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, byddwn yn dweud wrtho fod ei gwestiynau am y ffederasiwn—rydym wedi defnyddio'r term 'ffederasiwn' yn ein dadl heddiw, er y gallai hynny newid yn y dyfodol—hefyd yn codi materion tebyg iawn. Rhoddaf addewid iddo y bydd yn gwbl annibynnol. Pan gaiff gyfle i ddarllen yr ymatebion i'r ymgynghoriad, bydd yn gweld bod sawl un wedi dweud naill ai y dylwn i arwain fel Gweinidog neu y dylai fod dan arweiniad y Llywodraeth. Rwyf yn anghyfforddus iawn â hynny. Credaf mai cefnogi diwydiant y dylai'r Llywodraeth ei wneud, yn hytrach na rhagweld amcanion diwydiant, ac y dylem geisio gwrandao ar yr hyn sydd gan ddiwydiant i'w ddweud ac ymateb iddo, yn hytrach na dweud wrth y diwydiant beth yr ydym yn bwriadu ei wneud. Felly, yn fy marn i dylai'r ffederasiwn hwn nid yn unig fod yn annibynnol ond yn amlwg iawn o dan arweiniad y diwydiant, ac nid o dan arweiniad y Llywodraeth.

In terms of the marketing, the response to the new identity for food and drink from Wales has been very, very positive. I have seen that for myself at the many food exhibitions that I have attended with the food producers I have spoken to at those different exhibitions. I think that we have tried to be very clear, very direct and very simple in our approach. We have used our flag. We have used our identity as a country in order to sell our products. That has been very successful, I think. Certainly, the feedback from producers is also that it has been very successful. We have attempted to listen to what those producers and exporters say. There was a very good question about identifying export markets. Of course, different products will have different export markets. I know that the Conservative spokesman has recently been in touch with Hybu Cig Cymru to assure it of your support for the work that it does in this area. You will be aware that we have spent some considerable time on those key export markets. We will continue to do so, and I am grateful to the Conservatives for their support on that. However, other food products will, of course, have other export markets. I have responded to producers who have sought to extend our work in the United States, which we will be doing. That comes from requests from producers, not from us as a Government. However, clearly, the domestic market remains a priority for us, and I agree very much with the Conservatives' points on that.

O ran y marchnata, mae'r ymateb i hunaniaeth newydd bwyd a diod o Gymru wedi bod yn gadarnhaol iawn, iawn. Rwyf wedi gweld hynny drosof fy hun yn yr arddangosfeydd bwyd niferus y bûm ynddynt gyda'r cynhyrchwyr bwyd yr wyf wedi siarad â hwy yn y gwahanol arddangosfeydd hynny. Credaf ein bod wedi ceisio bod yn glir iawn, yn uniongyrchol iawn ac yn syml iawn yn ein dull gweithredu. Rydym wedi defnyddio ein baner. Rydym wedi defnyddio ein hunaniaeth fel gwlad er mwyn gwerthu ein cynnyrch. Mae hynny wedi bod yn llwyddiannus iawn, yn fy marn i. Yn sicr, clywsom gan gynhyrchwyr hefyd ei fod wedi bod yn llwyddiannus iawn. Rydym wedi ceisio gwrandao ar yr hyn y mae'r cynhyrchwyr a'r allforwyr hynny yn ei ddweud. Roedd cwestiwn da iawn am adnabod marchnadoedd allforio. Wrth gwrs, bydd gan wahanol gynhyrchion wahanol farchnadoedd allforio. Gwn fod llefarydd y Ceidwadwyr wedi bod mewn cysylltiad yn ddiweddar â Hybu Cig Cymru i'w sicrhau o'ch cefnogaeth i'r gwaith y mae'n ei wneud yn y maes hwn. Byddwch yn ymwybodol ein bod wedi treulio cryn dipyn o amser ar y marchnadoedd allforio allweddol hynny. Byddwn yn parhau i wneud hynny, ac rwyf yn ddiolchgar i'r Ceidwadwyr am eu cefnogaeth yn hynny o beth. Fodd bynnag, bydd gan gynhyrchion bwyd eraill, wrth gwrs, farchnadoedd allforio eraill. Rwyf wedi ymateb i gynhyrchwyr sydd wedi ceisio estyn ein gwaith yn yr Unol Daleithiau, a byddwn yn gwneud hynny. Mae hynny'n deillio o geisiadau gan gynhyrchwyr, nid gennym ni fel Llywodraeth. Fodd bynnag, yn amlwg, mae'r farchnad ddomestig yn parhau i fod yn flaenoriaeth inni, ac rwyf yn cytuno'n gryf â phwyntiau'r Ceidwadwyr ar hynny.

16:28

## **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch i'r Gweinidog am y datganiad hwn ar y maes eithriadol o bwysig hwn. Mae bob amser yn werth edrych ar ddiwedd datganiad i weld beth yn union sy'n cael ei argymhell. Ar ddiwedd y datganiad hwn, dywedwch ei bod yn bryd gosod cyfeiriad clir a champau gweithredu ar gyfer y diwydiant bwyd. Wel, ie, rwy'n siŵr y byddem oll yn cytuno, ond, hyd y gwelaf, nid oes dim yn y datganiad hwn sy'n gosod cyfeiriad clir neu unrhyw gamau gweithredu pendant ac rydym dair blynedd i mewn i oes y Llywodraeth hon.

Yn eich ymateb i Russell George, cyfeiriodd at yr angen i ddatgan gweledigaeth ar gyfer y diwydiant bwyd a diod, ac fe fyddem yn cytuno â chi. Felly, beth mewn gwirionedd sy'n eich atal rhag dweud beth yw'r weledigaeth honno o flaen eich camau gweithredu pendant a fydd yn dilyn rywdro yn nes ymlaen yn y flwyddyn?

O ran y cwestiynau sy'n deillio o'r datganiad, a allwch chi ddweud wrthym beth fydd ffurf y ffederasiwn hwn a pa bwerau fydd ganddo neu pa bwerau yr ydych chi'n rhagweld y bydd y ffederasiwn hwn yn eu cael?

I thank the Minister for this statement on this exceptionally important field. It is always worth looking at the conclusion of a statement to see exactly what is being recommended. At the conclusion of this statement, you say that it is time that we set a clear direction and actions for the food industry. Well, yes, I am sure that we would all agree, but, as far as I can see, there is nothing in this statement that sets a clear direction or any definite action points and we are three years into the life of this Government.

In your response to Russell George, you alluded to the need to declare a vision for the food and drink industry, and I would agree with you. So, what is actually stopping you from stating that vision before your definite actions that will follow some time later on in the year?

As regards the questions arising from the statement, can you tell us what the form of this federation will be and what powers it will have or what powers you anticipate this federation will be accorded?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Hefyd, rydych chi'n sôn am wella integreiddio yn y gadwyn gyflenwi. Wrth gwrs, mae a wnelo hyn yn agos iawn â'r broses gaffael, ond yr hyn yr ydym ni'n ei wybod ydy bod gwahaniaethau mawr ar hyd a lled Cymru yn arferion a chanlyniadau'r broses gaffael, er enghraifft mewn tendrau bwyd yn y sector gyhoeddus, ymhlith cynghorau sir a'r byrddau iechyd hefyd. Felly, beth yn union yr ydych chi'n credu y gellir ei wneud i wella'r sefyllfa hon a sicrhau ein bod yn cyrraedd y pwynt lle rydych chi a ni'n cytuno, lle bydd mwy o'r bwyd yr ydym ni'n ei gynhyrchu yn cael ei werthu yma yng Nghymru, heb sôn am y tu hwnt i Gymru?

Rydych chi hefyd yn cyfeirio yn eich datganiad at gydweithio mwy clos gyda Chroeso Cymru, a byddwn i'n cytuno 100% efo chi. Felly, sut ydych chi'n rhagweld y bydd hyn yn digwydd, beth yn union fydd yn digwydd ar lawr gwlad ac a oes unrhyw drafodaeth wedi bod rhwng eich swyddogion chi â Chroeso Cymru yn y cyfeiriad hwn?

Yn olaf, fel y gwyddoch, rwy'n byw yn nyffryn Nantlle ac rydym ni'n cynhyrchu ŵyn a gwartheg ac mae pysgota da yn llyn Nantlle. Erbyn hyn, mae gennym winllan a pherllan Pant Du, sydd yn cynhyrchu gwin, sudd afal, seidr a dŵr o graig sydd 50 miliwn o flynyddoedd oed, yn ôl pob sôn. Felly, a gaf i eich gwahodd chi i ddod draw i weld y fenter deuluol hon yn nyffryn Nantlle pan fydd hi'n gyfleus i chi wneud hynny?

Also, you talk about improving integration in the supply chain. Of course, this closely aligned to the procurement process, but what we know is that there are great variations throughout Wales in both the practices and the outcomes of the procurement process, for example, in food tenders in the public sector, among county councils and the health boards also. So, what exactly do you believe can be done to improve this situation and to ensure that we arrive at the point where you and we agree, where more of the food that we produce is sold here in Wales, not to mention beyond Wales?

You also refer in your statement to closer collaboration with Visit Wales, and I would agree with you 100%. So, how do you anticipate that that will happen, what exactly will happen on the ground and have any discussions taken place between your officials and Visit Wales in this direction?

Finally, as you know, I live in the Nantlle valley and we produce lambs and cattle and there is good fishing at Lake Nantlle. By now, we have a vineyard and orchard at Pant Du, which produces wine, apple juice, cider and mineral water from rocks that are 50 million years old, apparently. Therefore, may I invite you to come over to visit this family initiative in the Nantlle valley, when it is convenient for you to do so?

16:32

## Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf wastad yn falch iawn o dderbyn gwahoddiad i ymweld â gwinllan, lle bynnag y mae, ac rwy'n siŵr bod y winllan yng nghyffiniau Eryri mor hapus ag y byddwn i'n credu ei bod. Rwy'n hapus iawn i dderbyn y fath wahoddiad.

Rwy'n diolch i'r Aelod, y llefarydd ar ran Plaid Cymru, am ei groeso cyffredinol i'r cynllun hwn. Mae'n hollol iawn yn ei sylwadau mai prawf unrhyw gynllun yw'r hyn y mae'n ei gyflawni, ac rwy'n credu bod hynny'n bwysig. Rwy'n gallu dweud wrth Aelodau, pan fydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin, y bydd amserlen a 'deadlines' ynddo. Bydd gweithrediadau pendant yn ei ganol a bydd sicrwydd eich bod chi ac eraill yn gallu ein dal at ein gair a sicrhau atebolrwydd am yr hyn yr ydym ni'n ei gyhoeddi ac yn ei drafod heddiw. Felly, rwy'n cytuno yn llwyr â'r sylwadau sydd wedi cael eu gwneud ac rwy'n gobeithio, pan fydd Aelod yn gweld y cynllun ei hun, y bydd hynny'n ateb ei gwestiynau.

Gofynnodd yr Aelod am bwerau'r ffederasiwn. Mae 'pwerau' yn air diddorol. Nid yw'r ffederasiwn yn cael ei weld fel corff gweithredol, ond bydd yn arwain y Llywodraeth ac yn arwain penderfyniadau a gweithgareddau'r Llywodraeth a hefyd yn arwain meddwl y Llywodraeth ac eraill yn y sector. Bydd bwerau'r ffederasiwn felly yn rymoedd dylanwad ac arweinyddiaeth, ac rwy'n credu bod y rhain yn bethau pwysig. Rwy'n gobeithio y bydd y ffederasiwn yn gweithredu yn gwbl annibynnol, fel rwyf wedi dweud o'r blaen, ac yn gallu arwain polisi a gweithgareddau'r Llywodraeth.

I am always happy to accept invitations to visit vineyards, wherever they may be, and I am sure that the vineyard in the vicinity of Snowdonia is as happy as I would believe it to be. I am very happy to accept such an invitation.

I thank the Member, the spokesperson on behalf of Plaid Cymru, for his general welcome for these proposals. He is entirely right in his comments that the test of any plan is what it actually achieves, and I think that that is important. I can inform Members that when the plan will be published in June, there will be a timetable and deadlines set in it. There will be specific actions at the very heart of the plan and there will be a certainty that you and others will be able to hold me to my word and ensure accountability for what we are publishing and discussing today. Therefore, I agree entirely with the comments that have been made and I hope that, when the Member sees the plan itself, it will answer his questions.

The Member asked about the powers of the federation. 'Powers' is an interesting word. The federation is not seen as an executive body, but it will lead the Government and steer the decisions and activities of the Government and also steer the thinking of Government and others in the sector. The powers of the federation will therefore be powers of influence and leadership, and I think that these are important factors. I hope that the federation will work entirely independently, as I have said in the past, and will be able to lead on policy and Government activities.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Rydym ni'n sôn am gaffael yn aml iawn yn y Siambr hon, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig bod y sector cyhoeddus yn arwain y gad pan mae'n dod i gaffael. Dylai'r sector cyhoeddus sicrhau bod gan bob un rhan ohono bolisi a fydd yn cynyddu'r cynnyrch yr ydym i gyd yn disgwyl ei weld o Gymru, lle bynnag y bo hynny. Rydym ni'n deall bod y Gweinidog Cyllid, sy'n arwain ar y polisi hwn, yn barod wedi gwneud datganiadau am hyn a byddaf yn cydweithio â hi ac yn cefnogi ei gwaith er mwyn sicrhau bod caffael yn chwarae ei rôl wrth sicrhau bod bwydydd o Gymru yn cael eu prynu a'i defnyddio gennym ni yma yng Nghymru.

Yn olaf, fe wnaethoch chi sôn am y diwylliant bwyd, sydd yn bwysig. Mae'r berthynas rhwng diwylliant bwyd a thwristiaeth yn bwysig ar gyfer y dyfodol. Rwy'n credu bod y gwyliau bwyd sydd gennym, lle bynnag y maent o gwmpas Cymru, yn chwarae rôl bwysig wrth ein haddysgu ni am y bwydydd yr ydym yn eu creu ac yn cynhyrchu yn lleol, ond maent hefyd yn sôn am ein hunaniaeth fel cenedl. Mae'n bwysig ein bod ni'n hyrwyddo nid yn unig y gwyliau bwyd eu hunain, ond y rhwydwaith bwyd sy'n bodoli o'u cwrpas, pa un a ydym yn sôn am westai, tai bwyta neu sut yr ydym yn cynhyrchu'r bwyd yr ydym yn ei fwynhau. Rwy'n credu bod hynny'n bwysig ac rwy'n gobeithio y bydd yn rhywbeth y gallwn ni ei ddatblygu fel canolbwynt i'r diwylliant bwyd yr ydym ni i gyd am ei weld yn datblygu yng Nghymru yn y dyfodol.

We often talk about procurement in this Chamber, and I think that it is important that the public sector is in the vanguard when it comes to procurement. The public sector should ensure that every part of the sector has a policy that will increase the produce that we all expect to see from Wales, wherever the produce may be. We understand that the Minister for Finance, who is leading on this policy, has already made statements on this issue, and I will be collaborating with her and supporting her work to ensure that procurement plays its full role in ensuring that Welsh foods are sourced and used by us here in Wales.

Finally, you mentioned food culture, which is important. The relationship between food culture and tourism is important for the future. I believe that the food festivals that we have, wherever they may be around Wales, play an important role in educating us about the foods that we create and produce locally, but they also talk of our identity as a nation. It is important that we promote not just the festivals themselves but the food networks that exist around them, whether we are talking about hotels, restaurants, or how we produce the foods that we enjoy. I think that that is important and I hope that it is something that we can develop as a centre point for the food culture that we all want to see developed in Wales in future.

16:36

### **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I begin by thanking the Minister for his statement this afternoon. The action plan consultation highlights the work of the supply chain efficiency scheme and what it has achieved during the last rural development plan. It notes that it is being reviewed to determine its successes and whether it remains appropriate or needs to be included in the next rural development plan. Could you give an update to the Chamber on the progress of the review of that scheme and outline what obvious improvements could be made should you decide to put it into the RDP?

Of course, the key aspect of improving supply chain efficiency is making those chains shorter and more local. Often, smaller abattoirs that are vitally important for processing meat locally can come under severe pressure and challenge from larger operations further away. The food and drink consultation mentions abattoirs only once, and then only in the context of fluctuations around the price of red meat. Could you tell the Chamber where small abattoirs will fit into the action plan, and what additional commitments are you willing to make to secure the future of small abattoirs, which shorten the food chain, help local and smaller producers produce their product, and, for those that are perhaps more interested in the issue of animal health and animal rights, actually shorten the journeys that livestock have to make to the abattoir?

Dechreuaf drwy ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma. Mae'r ymgynghoriad ar y cynllun gweithredu yn tynnu sylw at waith cynllun effeithlonrwydd y gadwyn gyflenwi a'r hyn y mae wedi'i gyflawni yn ystod y cynllun datblygu gwledig diwethaf. Mae'n nodi ei fod yn cael ei adolygu i bennu ei lwyddiannau ac a yw'n dal i fod yn briodol neu a oes angen ei gynnwys yn y cynllun datblygu gwledig nesaf. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr am hynt yr adolygiad o'r cynllun hwnnw ac amlinellu pa welliannau amlwg y gellid eu gwneud pe byddech yn penderfynu ei gynnwys yn y cynllun datblygu gwledig?

Wrth gwrs, yr hyn sy'n allweddol wrth wella effeithlonrwydd y gadwyn gyflenwi yw gwneud y cadwyni hynny'n fyrrach ac yn fwy lleol. Yn aml, gall lladd-dai llai o faint sy'n hanfodol bwysig ar gyfer prosesu cig yn lleol ddod o dan bwysau difrifol a heriau gan gwmnïau mwy ymhellach i ffwrdd. Unwaith yn unig y mae'r ymgynghoriad ar fwyd a diod yn sôn am ladd-dai, a dim ond yng nghydestun amrywiadau ym mhrys cig coch y mae hynny. A allwch chi ddweud wrth y Siambr lle y bydd lladd-dai bach yn rhan o'r cynllun gweithredu, a pha ymrwymadau ychwanegol yr ydych yn fodlon eu gwneud i sicrhau dyfodol lladd-dai bach, sy'n byrhau'r gadwyn fwyd, yn helpu cynhyrchwyr lleol a chynhyrchwyr llai i gynhyrchu eu cynnyrch, ac, i'r rhai sydd efallai â mwy o ddi-ddordeb mewn iechyd anifeiliaid a hawliau anifeiliaid, mewn gwirionedd yn byrhau'r siwrneiau y mae'n rhaid i dda byw eu gwneud i'r lladd-dy?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



In your statement this afternoon, you have made great play of public education and the need for the public to understand the role that it has and the benefits that it can bring to its own local economy by purchasing local food. Public education on the food supply chain is fundamental. As such, I am disappointed that educational visits are no longer recognised in terms of agri-environment points for farmers who were previously in those schemes and actually enjoyed very much going to local primary and secondary schools to talk to our younger citizens about their work in farming and the importance of local food production. Do you not agree that that decision was a backward step from the goal of improving healthy eating—and indeed drinking—and instilling in our younger citizens a lifelong appreciation of purchasing local food?

One of the issues regularly raised by the owners of the Welsh breweries is the high cost of bottling and the potential to create a bottling collective to share costs from single sites, or perhaps a few sites across Wales. Could the Minister say to what extent his officials have been involved in such discussions, and what steps would the Welsh Government be willing to take to support a scheme, should breweries be able to agree terms? On the subject of drink, it is very positive to see the consultation document recognising the growing success and the international reputation of Welsh wines. Will the Minister update the Chamber on the Welsh wine trails and on progress that has been made with regard to that initiative? Also, what steps are being planned to support Welsh Wine Week, which will commence on 26 May?

Finally, it is not so long ago that the Deputy Minister, I and the acting Presiding Officer, I believe, found ourselves in the rural affairs committee scrutinising the last food and drink strategy—‘Food for Wales, Food from Wales’. It was published only in 2010 and it was a 10-year document. It never got to the implementation phase. An implementation plan was never published or written up as a result of that strategy. It is four years since then, when we get your implementation plan for your strategy—that is four years of missed opportunity for Welsh Government of whatever colour to have been promoting Welsh food and drink in the hiatus that has occurred since the publication of ‘Food for Wales, Food from Wales’. What assurances can you give us that your strategy and implementation and action plan will indeed be one of longevity and will make up for the lost opportunities of the last four years and the failure of this Government to take forward the previous plan?

Yn eich datganiad y prynhawn yma, rydych wedi rhoi sylw mawr i addysgu'r cyhoedd a'r angen i'r cyhoedd ddeall ei rôl yntau a'r manteision y gall eu dwyn i'w economi leol ei hun drwy brynu bwyd lleol. Mae addysgu'r cyhoedd am y gadwyn gyflenwi bwyd yn hollbwysig. Felly, mae'n destun siom imi nad yw ymweliadau addysgol bellach yn cael eu cydnabod o ran pwyntiau amaeth-amgylcheddol i ffermwyr a oedd yn y cynlluniau hynny o'r blaen ac oedd yn wirioneddol yn mwynhau mynd i ysgolion cynradd ac uwchradd lleol i siarad â'n dinasyddion iau am eu gwaith ffermio a phwysigrwydd cynhyrchu bwyd yn lleol. Onid ydych yn cytuno bod y penderfyniad yn gam yn ôl oddi wrth y nod o wella bwyta'n iach—ac yn wir yfed—a meithrin yn ein dinasyddion iau werthfawrogiad gydol oes o brynu bwyd lleol?

Un o'r materion a godir yn gyson gan berchnogion bragdai Cymru yw cost uchel potelu a'r potensial i greu cydweithrediaeth botelu i rannu costau o safleoedd unigol, neu efallai ychydig o safleoedd ar draws Cymru. A allai'r Gweinidog ddweud i ba raddau y mae ei swyddogion wedi bod yn rhan o drafodaethau o'r fath, a pha gamau y byddai Llywodraeth Cymru yn barod i'w cymryd i gefnogi cynllun, pe byddai bragdai'n gallu cytuno ar delerau? O ran diodydd, mae'n gadarnhaol iawn gweld y ddogfen ymgynghori'n cydnabod llwyddiant cynyddol ac enw da rhyngwladol gwinoedd Cymru. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr am lwybrau gwinoedd Cymru ac am y cynnydd a wnaed o ran y fenter honno? Hefyd, pa gamau sydd ar y gweill i gefnogi Wythnos Gwin Cymru, a fydd yn dechrau ar 26 Mai?

Yn olaf, nid oes fawr o dro ers pan oedd y Dirprwy Weinidog, minnau a'r Llywydd Dros Dro, rwyf yn credu, yn y pwyllgor materion gwledig yn craffu ar y strategaeth bwyd a diod ddiwethaf—‘Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru’. Dim ond yn 2010 y'i cyhoeddwyd ac roedd yn ddogfen 10 mlynedd. Ni chyrhaeddodd y cyfnod gweithredu. Ni chafodd cynllun gweithredu ei gyhoeddi na'i ysgrifennu o ganlyniad i'r strategaeth honno. Mae pedair blynedd ers hynny, pan gawn eich cynllun gweithredu ar gyfer eich strategaeth—mae hynny'n bedair blynedd o golli cyfle i Lywodraeth Cymru o ba bynnag liw i fod wedi bod yn hyrwyddo bwyd a diod o Gymru yn y bwch sydd wedi bod ers cyhoeddi ‘Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru’. Pa sicrwydd y gallwch ei roi inni y bydd eich strategaeth a'ch cynllun gweithredu a chyflawni yn un hirhoedlog ac y bydd yn gwneud iawn am y cyfleoedd a gollwyd yn y pedair blynedd diwethaf a methiant y Llywodraeth hon i fwrw ymlaen â'r cynllun blaenorol?

I thought that there would not be general welcome on all sides of the Chamber for the work that has been done. I would say to the leader of the Welsh Liberal Democrats that perhaps she demonstrated a little distance from the food industry in her contribution this afternoon and in the questions that she asked. Had she been more closely involved in the four years that she has just described, perhaps she would understand that the Welsh food and drink sector is growing by 6% at the moment and is outperforming the rest of the economy, and that Welsh food and drink is growing at a rate that is faster than that of any other country in Europe. The food sector is successful and we are building on success with this action plan, not simply trying to fill a vacuum, as was perhaps suggested.

On some of the more positive points that the Welsh Liberal Democrat leader tried to make, our supply chain efficiency project—which she will know—has been enormously successful over the past few years. It is constantly oversubscribed and we are looking at how we can ensure that it continues to provide support for producers and processors, while at the same time providing excellent value for money for the taxpayer. She was in the Chamber for the business statement earlier today and will have heard the Minister for business announce that there will be a debate on the rural development plan at the end of this month. Perhaps that would be an opportunity for her to raise some of those wider questions on the rural development plan and the progress that is currently being made on that.

She is right in many of the points that she made about the place of small abattoirs in the processing of meat products in Wales. She will be aware that, in the nearly three years that I have been in office, I have constantly raised this matter with the Food Standards Agency and others. You will also be aware that we were able to stop the FSA imposing punitive costs around 18 months ago, which would have prevented many small abattoirs from remaining in business. Not only have we been doing that, but we have succeeded in protecting the place of small abattoirs. We have done that over three years and we were able to ensure that the FSA recognised that some 18 months ago.

In terms of other matters, I agree with the points that were made about public education and the need to ensure that people understand where food comes from and the process of bringing food to our tables. If she reads the section in the consultation document that describes that part of our work, she will see that there are a number of proposals. They are not all dependent on grants and agri-environment schemes, as it happens. They are dependent on other things as well. They are certainly dependent on us being able to take a cross-governmental approach to these matters, and that is inherent in this action plan. I invite the leader of the Welsh Liberal Democrats to read through that and perhaps she would revisit her comments in the light of that reading.

Roeddwn yn meddwl na fyddai croeso cyffredinol ar bob ochr i'r Siambr i'r gwaith sydd wedi ei wneud. Byddwn yn dweud wrth arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ei bod efallai'n dangos ychydig o bellter oddi wrth y diwydiant bwyd yn ei chyfraniad y prynhawn yma ac yn y cwestiynau a ofynnwyd ganddi. Petai wedi ymwneud yn agosach yn y pedair blynedd y mae newydd eu disgrifio, efallai y byddai'n deall bod sector bwyd a diod Cymru'n tyfu 6% ar hyn o bryd ac yn perfformio'n well na gweddill yr economi, a bod bwyd a diod o Gymru'n tyfu ar gyfradd sy'n gynt nag unrhyw wlad arall yn Ewrop. Mae'r sector bwyd yn llwyddiannus ac rydym yn adeiladu ar lwyddiant gyda'r cynllun gweithredu hwn, ac nid dim ond yn ceisio llenwi gwagle, fel yr awgrymwyd efallai.

Ar rai o'r pwyntiau mwy cadarnhaol yr oedd arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n ceisio eu gwneud, mae ein prosiect ar effeithlonrwydd y gadwyn gyflenwi—y bydd hi'n gwybod amdano—wedi bod yn hynod lwyddiannus dros y blynyddoedd diwethaf. Mae gormod o geisiadau iddo o hyd ac rydym yn edrych ar sut y gallwn sicrhau ei fod yn parhau i roi cymorth i gynhyrchwyr a phroseswyr, ac ar yr un pryd yn cynnig gwerth rhagorol am arian i'r trethdalwr. Roedd hi yn y Siambr ar gyfer y datganiad busnes yn gynharach heddiw, a bydd wedi clywed y Gweinidog busnes yn cyhoeddi y bydd dadl ar y cynllun datblygu gwledig ddiwedd y mis hwn. Efallai y byddai hynny'n gyfle iddi godi rhai o'r cwestiynau ehangach hynny am y cynllun datblygu gwledig a'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn hynny o beth ar hyn o bryd.

Mae'n iawn ynglŷn â llawer o'r pwyntiau a wnaeth am le'r lladd-dai bach o ran prosesu cynnyrch cig yng Nghymru. Bydd yn ymwybodol, yn y tair blynedd bron yr wyf wedi bod yn y swydd, fy mod wedi codi'r mater hwn yn gyson â'r Asiantaeth Safonau Bwyd ac eraill. Byddwch hefyd yn ymwybodol ein bod wedi gallu atal yr Asiantaeth Safonau Bwyd rhag gosod costau cosbol tua 18 mis yn ôl, a fyddai wedi atal llawer o ladd-dai bach rhag aros mewn busnes. Rydym nid yn unig wedi bod yn gwneud hynny, ond rydym hefyd wedi llwyddo i ddiogelu lle lladd-dai bach. Rydym wedi gwneud hynny dros dair blynedd a llwyddasom i sicrhau bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cydnabod hynny ryw 18 mis yn ôl.

O ran materion eraill, cytunaf â'r pwyntiau a wnaethpwyd am addysg gyhoeddus a'r angen i sicrhau bod pobl yn deall o ble y daw bwyd a'r broses o ddod â bwyd i'n byrddau. Os bydd yn darllen yr adran yn y ddogfen ymgynghori sy'n disgrifio'r rhan honno o'n gwaith, bydd yn gweld bod nifer o gynigion. Nid dynt i gyd yn dibynnu ar grantiau a chynlluniau amaeth-amgylcheddol, fel y mae'n digwydd. Maent yn dibynnu ar bethau eraill hefyd. Maent yn sicr yn dibynnu ar ein gallu i gymryd agwedd drawslywodraethol at y materion hyn, ac mae hynny'n rhan annatod o'r cynllun gweithredu. Rwyf yn gwahoddi arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i ddarllen drwy hynny ac efallai y bydd yn ailystyried ei sylwadau yng ngoleuni'r darllen hwnnw.

The final point that she made was on breweries and Welsh wines. I produced a strategy for supporting Welsh wines and beers some two years ago, which led to the establishment of those trails, and Welsh Wine Week, as you described in your question. That was industry-led. I asked the industry what sort of support it needed, and what it wanted from Welsh Government. It helped us to draw up that action plan, and we have delivered it.

Roedd y pwynt olaf a wnaeth yn ymwneud â bragdai a gwinoedd Cymru. Cynhyrchais strategaeth ar gyfer cefnogi gwinoedd a chwrw Cymru tua dwy flynedd yn ôl, a arweiniodd at sefydlu'r llwybrau hynny, ac Wythnos Gwin Cymru, fel y disgrifiwyd gennych yn eich cwestiwn. Roedd hynny dan arweiniad y diwydiant. Gofynnais i'r diwydiant pa fath o gefnogaeth oedd ei hangen, a beth yr oedd ei eisiau gan Lywodraeth Cymru. Roedd hynny o gymorth inni i lunio'r cynllun gweithredu hwnnw, ac rydym wedi cyflawni hynny.

16:45 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae tri Aelod arall wedi gofyn am y cyfle i gyflwyno cwestiynau—neu gwestiwn, rwy'n gobeithio. Rwy'n gofyn am gwestiwn cryno ac ateb yr un mor gryno, gan ein bod allan o amser yn barod ar y datganiad hwn.

Three other Members have asked for the opportunity to submit questions—or a question, I hope. I am asking for a brief question and answer, as we are out of time already on this statement.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:45 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will try to be brief. You mention in your statement that strong views were expressed, but when we look at the summary of the opinions expressed there was widespread opinion that there was an urgent need for food issues to occupy a more prominent place throughout the school curriculum, adding food growing, cooking and budgeting. So, while I support your campaign to improve the amount of food being sold outside Wales, and the quality and value of it, there are hugely urgent issues that we need to address in Wales. I was shocked to learn at the weekend that one school allows all its children to grow food, but does not allow any of them to eat it. In the context of the growing crisis over the food chain, that is pretty appalling. I was also appalled to read in the report of the Children, Young People and Education Committee's report on childhood obesity, that the quality of school food is going down in some places as a result of local authority reductions in funding—and that from a very low base, I fear. So, I really want to know whether there will be much more emphasis on what you call the health and social impacts in your food plan when you publish it in June, particularly around the horticultural issues that were highlighted only yesterday around the seven-a-day that we should be eating, including five vegetables.

Ceisïaf fod yn gryno. Soniwch yn eich datganiad fod safbwyntiau cryf wedi'u mynegi, ond pan edrychwn ar yr crynodeb o'r safbwyntiau a fynegwyd roedd barn gyffredinol fod angen rhoi lle mwy amlwg ar fyrder i faterion bwyd gymryd ar draws cwricwlwm yr ysgolion, gan ychwanegu tyfu bwyd, coginio a chyllidebu. Felly, er fy mod yn cefnogi eich ymgyrch i sicrhau bod mwy o fwyd yn cael ei werthu y tu allan i Gymru, a gwella ei ansawdd a'i werth, mae materion y mae angen inni roi sylw ar fyrder gwirioneddol iddynt yng Nghymru. Roeddwn yn synnu o glywed dros y penwythnos fod un ysgol yn caniatáu i'w phlant i gyd dyfu bwyd, ond nad yw'n caniatáu iddynt ei fwyta. Yng nghyd-destun yr argyfwng cynyddol dros y gadwyn fwyd, mae hynny'n eithaf arswydus. Cefais fraw hefyd o ddarllen yn adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ordewdra ymhlith plant fod ansawdd bwyd ysgolion yn dirywio mewn rhai mannau o ganlyniad i doriadau cyllid awdurdodau lleol, a hynny o sylfaen isel iawn, mae arnaf ofn. Felly, rwyf am gael gwybod mewn gwirionedd a fydd llawer mwy o bwyslais ar yr hyn yr ydych yn ei alw'n effeithiau iechyd a chymdeithasol yn eich cynllun bwyd pan fyddwch yn ei gyhoeddi ym mis Mehefin, yn enwedig o ran y materion garddwriaethol y tynnwyd sylw atynt ddoe ddiwethaf ynghylch y saith y dydd y dylem fod yn eu bwyta, gan gynnwys pum llysieuyn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:47 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We are all occasionally challenged by some of the advice that we receive, are we not? I was anxious that this food plan be more than simply an industrial plan. I felt that it had to have the social elements to it that you described, and that social elements were an inherent and central part of it. There is, of course, a great deal already going on in different schools across Wales. There are over 100 food co-operatives operating from schools at the moment in Wales, and we need to ensure that school pupils, wherever they happen to be in Wales, have a strong understanding not only of the food chain that was described by the leader of the Welsh Liberal Democrats, but also of diet issues and healthy eating, which you yourself have described. These matters are all for whole-Government, cross-cutting, cross-Governmental responsibilities, and I will certainly be working with my ministerial colleagues to ensure that all these issues form a central part of the food strategy and the food plan, when it is published.

Mae rhywfaint o'r cyngor yr ydym yn ei gael yn ein herio o bryd i'w gilydd, onid ydyw? Roeddwn yn awyddus i'r cynllun bwyd hwn fod yn fwy na dim ond cynllun diwydiannol. Roeddwn yn teimlo bod yn rhaid iddo gynnwys yr elfennau cymdeithasol a ddisgrifiwyd gennych, a bod elfennau cymdeithasol yn rhan hanfodol a chanolog ohono. Mae llawer yn digwydd eisoes, wrth gwrs, mewn gwahanol ysgolion ledled Cymru. Mae dros 100 o gydweithfeydd bwyd sy'n gweithredu mewn ysgolion ar hyn o bryd yng Nghymru, ac mae angen inni sicrhau bod gan ddisgyblion ysgolion, ble bynnag y maent yn digwydd bod yng Nghymru, ddealltwriaeth gref nid yn unig o'r gadwyn fwyd a ddisgrifiwyd gan arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, ond hefyd o faterion diet a bwya'n iach, yr ydych chi eich hun wedi eu disgrifio. Mae'r materion hyn i gyd yn ymwneud â chyfrifoldebau Llywodraeth gyfan, trawsbynciol, trawslywodraethol, a byddaf yn sicr yn gweithio gyda fy nghyd-Weinidogion i sicrhau bod yr holl faterion hyn yn rhan ganolog o'r strategaeth fwyd a'r cynllun bwyd, pan gaiff ei gyhoeddi.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

|   |  |  |  |  |
|---|--|--|--|--|
| 16:48   | <b>Mark Isherwood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  | Senedd.tv<br><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>   |  |  |
|   | <p>Just one question: given your reference to support for food festivals, how do you propose to ensure support for Welsh food and drink production in cross-border areas, where those festivals, as you know, sometimes rely on exhibitors from a couple of miles down the road in England, to ensure the sustainability of those Welsh-based festivals, and therefore the shop front for those Welsh products?</p>  | <p>Dim ond un cwestiwn: ac ystyried eich cyfeiriad at gefnogaeth i wyliau bwyd, sut ydych chi'n bwriadu sicrhau cefnogaeth i gynhyrchu bwyd a diod Cymru mewn ardaloedd trawsffiniol, lle mae'r gwyliau hynny, fel y gwyddoch, weithiau'n dibynnu ar arddangoswyr o gwpl o filltiroedd i lawr y ffordd yn Lloegr, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y gwyliau Cymreig hynny, ac felly'r ffenestr siop ar gyfer y cynhyrchion Cymreig hynny?</p>  |  |  |
| 16:49   | <b>Alun Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>   | Senedd.tv<br><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>   |  |  |
|   | <p>This is a matter that has been raised with me before. Sandy Mewies has raised the issue of the Mold food festival with me on many occasions. I will say that the purpose of our strategy is to promote food from Wales and not food from elsewhere. As such, I know that it is a question that has been raised with me on a number of different occasions, but I think that it is right and proper that the taxpayers' resources that we have at our disposal are used to support a food culture in Wales, and to support and promote food from Wales. I understand that, in border areas, that might create some difficulties, and I am very happy to talk to food festivals that sit along the border about how we may resolve that. However, I am clear in my own mind that this strategy and this plan are to support food from Wales, and not food from elsewhere.</p> | <p>Mae hwn yn fater sydd wedi'i godi gyda mi o'r blaen. Mae Sandy Mewies wedi codi gŵyl fwyd yr Wyddgrug gyda mi ar sawl achlysur. Dywedaf mai pwrpas ein strategaeth yw hyrwyddo bwyd o Gymru, ac nid bwyd o rywle arall. Felly, gwn ei fod yn gwestiwn sydd wedi'i godi â mi ar nifer o wahanol achlysuron, ond credaf ei bod yn iawn ac yn briodol bod adnoddau'r trethdalwyr sydd gennym at ein defnydd yn cael eu defnyddio i gefnogi diwylliant bwyd yng Nghymru, ac i gefnogi ac i hyrwyddo bwyd o Gymru. Rwyf yn deall y gallai hynny, mewn ardaloedd ar y ffin, greu rhai anawsterau, ac rwyf yn hapus iawn i siarad â gwyliau bwyd sydd ar hyd y ffin ynghylch sut y gallwn ddatrys hynny. Fodd bynnag, rwyf yn glir yn fy meddwl fy hun mai diben y strategaeth hon a'r cynllun hwn yw cefnogi bwyd o Gymru, ac nid bwyd o rywle arall.</p> |  |  |
| 16:50   | <b>Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  | Senedd.tv<br><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>   |  |  |
|   | <p>A yw'r Gweinidog yn cytuno â fi, fel un a oedd yn bresennol yn lansiad ei strategaeth, ei bod wedi cael ymateb rhagorol, ac mai hwn yw'r amser gorau erioed i fod yn cynhyrchu, yn gwerthu, yn bwyta ac, yn wir, yn Weinidog, bwyd, yng Nghymru?</p>  | <p>Does the Minister agree with me, as one who was present at the launch of his strategy, that it received an excellent response, and that this is the best time ever to be producing, selling, eating and, indeed, Minister for, food in Wales?</p>   |  |  |
| 16:50   | <b>Alun Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>   | Senedd.tv<br><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>   |  |  |
|   | <p>Ydw. [Chwerthin.]</p>   | <p>Yes. [Laughter.]</p>  |  |  |
| 16:50   | <b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  | Senedd.tv<br><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>   |  |  |
|   | <p>Diolch yn fawr iawn, Weinidog.</p>  | <p>Thank you very much, Minister.</p>  |  |  |
| <table border="0" style="width: 100%;"> <tr> <td style="width: 50%; vertical-align: top;"> <h2 style="margin: 0;">Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Pwyllgor ar Brisio Amaethyddol) 2014</h2> <p>Cynnig NDM5432 Alun Davies</p> <p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno, yn unol ag adran 9(6) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, a Rheol Sefydlog 30A.10, bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Pwyllgor ar Brisio Amaethyddol) 2014 yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2014.</p> </td> <td style="width: 50%; vertical-align: top;"> <h2 style="margin: 0;">The Public Bodies (Abolition of the Committee on Agricultural Valuation) Order 2014</h2> <p>Motion NDM5432 Alun Davies</p> <p>To propose that the National Assembly for Wales agrees, in accordance with section 9(6) of the Public Bodies Act 2011, and Standing Order 30A.10, that the Secretary of State makes the Public Bodies (Abolition of the Committee on Agricultural Valuation) Order 2014 in accordance with the draft laid in Table Office on 7 February 2014.</p> </td> </tr> </table> |  |  | <h2 style="margin: 0;">Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Pwyllgor ar Brisio Amaethyddol) 2014</h2> <p>Cynnig NDM5432 Alun Davies</p> <p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno, yn unol ag adran 9(6) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, a Rheol Sefydlog 30A.10, bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Pwyllgor ar Brisio Amaethyddol) 2014 yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2014.</p> | <h2 style="margin: 0;">The Public Bodies (Abolition of the Committee on Agricultural Valuation) Order 2014</h2> <p>Motion NDM5432 Alun Davies</p> <p>To propose that the National Assembly for Wales agrees, in accordance with section 9(6) of the Public Bodies Act 2011, and Standing Order 30A.10, that the Secretary of State makes the Public Bodies (Abolition of the Committee on Agricultural Valuation) Order 2014 in accordance with the draft laid in Table Office on 7 February 2014.</p> |
| <h2 style="margin: 0;">Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Pwyllgor ar Brisio Amaethyddol) 2014</h2> <p>Cynnig NDM5432 Alun Davies</p> <p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno, yn unol ag adran 9(6) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, a Rheol Sefydlog 30A.10, bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Pwyllgor ar Brisio Amaethyddol) 2014 yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2014.</p>  | <h2 style="margin: 0;">The Public Bodies (Abolition of the Committee on Agricultural Valuation) Order 2014</h2> <p>Motion NDM5432 Alun Davies</p> <p>To propose that the National Assembly for Wales agrees, in accordance with section 9(6) of the Public Bodies Act 2011, and Standing Order 30A.10, that the Secretary of State makes the Public Bodies (Abolition of the Committee on Agricultural Valuation) Order 2014 in accordance with the draft laid in Table Office on 7 February 2014.</p>   |  |  |  |
| 16:50   | <b>Alun Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>   | Senedd.tv<br><a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>   |  |  |
|   | <p><i>Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food</i></p> <p>I move the motion.</p>  | <p>Cynigiad y cynnig.</p>  |  |  |

I would like to start by expressing my thanks to the Constitutional and Legislative Affairs Committee for considering the statutory instrument consent memorandum on the abolition of the Committee on Agricultural Valuation and for its report, which states that the committee is content with the memorandum. If Members are content with the motion that the Government is placing on the agenda this afternoon, I would be content to move the motion.

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am ystyried y memorandwm cydsyniad offeryn statudol ar ddiidymu'r Pwyllgor Priso Amaethyddol ac am ei adroddiad, sy'n datgan bod y pwyllgor yn fodlon â'r memorandwm. Os yw'r Aelodau'n fodlon â'r cynnig y mae'r Llywodraeth yn ei roi ar yr agenda y prynhawn yma, byddwn yn fodlon cyflwyno'r cynnig.

16:51

**Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr iawn, Weinidog. Rwy'n tybio nad ydych yn dymuno ymateb i'ch sylwadau agoriadol, felly y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Nid oes gwrthwynebiad; felly, derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol a Rheol Sefydlog 12.36.*

## Cynnig i Gytuno ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Tai (Cymru)

*Detholwyd y gwelliant canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts.*

Cynnig NDM5479 Carl Sargeant

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Tai (Cymru).

Thank you very much, Minister. I assume that you do not wish to respond to your opening comments, so the question is that the motion be agreed to. Is there any objection? There is no objection; therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Motion to Agree the General Principles of the Housing (Wales) Bill

*The following amendment has been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts.*

Motion NDM5479 Carl Sargeant

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.11:

Agrees to the general principles of the Housing (Wales) Bill.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:52

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration*

I move the motion.

I am pleased to have the opportunity to open the debate on the general principles of the Housing (Wales) Bill, which I introduced to the Assembly last November. This is a significant piece of legislation, which, if passed by the Assembly, will become Wales's first ever housing Act. It will make a significant contribution to this Government's strategic housing priorities of more homes, better homes and better services.

As reflected in the report of the Communities, Equality and Local Government Committee, the Bill has received broad support in principle from a range of organisations and individuals. I will not set out again in detail what the various components of the Bill contain, but I will briefly remind Members of some of the important and main proposals.

Cynigiau y cynnig.

Rwyf yn falch o gael cyfle i agor y ddadl am egwyddorion cyffredinol Bil Tai (Cymru), a gyflwynais i'r Cynulliad fis Tachwedd diwethaf. Mae hwn yn ddarn arwyddocaol o ddeddfwriaeth, a bydd, os caiff ei basio gan y Cynulliad, yn cyflwyno Deddf tai gyntaf erioed Cymru. Bydd yn cyfrannu'n sylweddol at flaenoriaethau tai strategol y Llywodraeth hon o gael mwy o gartrefi, cartrefi gwell a gwasanaethau gwell.

Fel yr adlewyrchir yn adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, mae'r Bil wedi cael cefnogaeth eang mewn egwyddor gan amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion. Nid wyf am amlinellu'n fanwl unwaith eto beth yw cynnwys gwahanol gydrannau'r Bil, ond atgoffaf yr Aelodau o rai o'r prif gynigion pwysig.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Let me start with the private rented sector, which is playing an increasingly important role in meeting housing needs in Wales. In view of this, I am delighted that some key bodies, such as the Chartered Institute of Housing, Shelter Cymru, Welsh Tenants, the Tenant Participation Advisory Service, the National Union of Students Wales and Community Housing Cymru, have publicly declared their support for the proposals in the Bill to introduce a mandatory registration and licensing scheme for landlords and agents in the sector in Wales.

Similarly, I am pleased with the support expressed for the proposals to change existing legislation to place an increased emphasis on preventing homelessness. I agree with the assertion of the Welsh Local Government Association that the aim of the Bill for long-term prevention is a much more effective use of resources than crisis intervention.

The Bill places a duty on local authorities to provide sites for Gypsies and Travellers where an unmet need has been identified. Key among the supporters of these proposals is Save the Children, which believes that, among other things, the absence of a safe place to live and play has a negative effect on Gypsy and Traveller children.

I am also pleased with the broad support that has been given to the proposals to set standards for local housing authorities, with the proposed abolition of the housing revenue account subsidy system and the support for co-operative housing.

Finally, the Bill provides for local authorities to charge more than the standard rate of council tax on properties that have been empty for over 12 months. Among those supporting the proposals is Shelter Cymru, which considers that measures that can help to bring empty homes back into use at a time of housing need should be implemented.

The Bill has been scrutinised by members of the Communities, Equality and Local Government Committee, the Constitutional and Legislative Affairs Committee and the Finance Committee. I am grateful to all three Chairs—Christine Chapman, David Melding and Jocelyn Davies—as well as the Members for their careful and thoughtful scrutiny. I am also grateful for the evidence, largely supportive, but also containing useful challenges and suggestions, provided by stakeholders during the Stage 1 committee sessions, and welcome the general consensus in favour of the Bill.

I am also giving careful consideration to the recommendations made in the Committees' reports and aim to respond positively to many of these, either through Government amendments or by other means, such as incorporation within guidance. As indicated to the Communities, Equality and Local Government and Finance Committees, these might include fixed penalty notices to help meet local authorities' enforcement costs in respect of private rented sector registration and licensing proposals. I am also considering amendments that will provide greater assurance that our proposals will ensure that the needs of vulnerable people who are at risk of homelessness are met.

Gadewch imi ddechrau â'r sector rhentu preifat, sy'n dod yn fwyfwy pwysig o ran diwallu anghenion tai yng Nghymru. Ac ystyried hyn, rwyf wrth fy modd bod rhai cyrff allweddol, megis y Sefydliad Tai Siartredig, Shelter Cymru, Tenantiaid Cymru, y Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid, Undeb Cenedlaethol Myfywrwr Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru, wedi datgan yn gyhoeddus eu bod o blaid y cynigion yn y Bil i gyflwyno cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol ar gyfer landlordiaid ac asiantau yn y sector yng Nghymru.

Yn yr un modd, rwyf yn falch o'r gefnogaeth a leisiwyd i'r cynigion i newid y ddeddfwriaeth bresennol i roi mwy o bwyslais ar atal digartrefedd. Rwyf yn cytuno â safiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod nod y Bil o atal yn y tymor hir yn ffordd fwy effeithiol o lawer o ddefnyddio adnoddau nag ymyrryd mewn argyfwng.

Mae'r Bil yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr lle nodwyd angen sydd heb ei ddiwallu. Un o gefnogwyr allweddol y cynigion hyn yw Achub y Plant, sy'n credu bod diffyg lle diogel i fyw a chwarae, ymhlith pethau eraill, yn cael effaith negyddol ar blant Sipsiwn a Theithwyr.

Rwyf hefyd yn falch o'r gefnogaeth eang a roddwyd i'r cynigion i bennu safonau ar gyfer awdurdodau tai lleol, a'r cynnig i ddiddymu system cymhorthdal y cyfrif refeniw tai a'r gefnogaeth i dai cydweithredol.

Yn olaf, mae'r Bil yn caniatáu i awdurdodau lleol godi mwy na chyfradd safonol y dreth gyngor ar eiddo sy'n wag ers dros 12 mis. Mae Shelter Cymru ymhlith y rhai sydd o blaid y cynigion; mae'n ystyried y dylid rhoi ar waith fesurau a all helpu i aildechrau defnyddio cartrefi gwag ar adeg pan fo angen tai.

Mae aelodau o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Cyllid wedi craffu ar y Bil. Rwyf yn ddiolchgar i bob un o'r tri Chadeirydd—Christine Chapman, David Melding a Jocelyn Davies—yn ogystal â'r Aelodau am eu gwaith craffu gofalus a meddylgar. Rwyf hefyd yn ddiolchgar am y dystiolaeth, sy'n gefnogol i raddau helaeth, ond sydd hefyd yn cynnwys heriau ac awgrymiadau defnyddiol, a ddarparwyd gan randdeiliaid yn ystod y sesiynau pwyllgor Cyfnod 1, ac rwyf yn croesawu'r consensws cyffredinol o blaid y Bil.

Rwyf hefyd yn ystyried yn ofalus yr argymhellion a wnaethpwyd yn adroddiadau'r Pwyllgorau ac yn bwriadu ymateb yn gadarnhaol i lawer o'r rhain, naill ai drwy welliannau'r Llywodraeth neu drwy dduiliau eraill, megis ymgorffori mewn canllawiau. Fel y dywedwyd wrth y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol a'r Pwyllgor Cyllid, gallai'r rhain gynnwys hysbysiadau cosb benodedig i helpu i dalu costau gorfodi awdurdodau lleol o ran cynigion trwyddedu a chofrestru yn y sector rhentu preifat. Rwyf hefyd yn ystyried gwelliannau a fydd yn rhoi mwy o sicrwydd y bydd ein cynigion yn sicrhau bod anghenion pobl sy'n agored i niwed ac sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn cael eu diwallu.

I welcome the Communities, Equality and Local Government Committee's support for the general principles of the Bill. I also welcome its view that the Bill should not be considered in isolation, but as one of a number of legislative, policy and fiscal actions of the Welsh Government to meet our strategic priorities for housing.

With regard to the Constitutional and Legislative Affairs Committee, I felt that its scrutiny provided me with an excellent opportunity to set out what is included on the face of the Bill and what is covered in regulations. I welcome the Committee's view that, in the main, the Bill strikes the proper balance, with the policy objectives being set out clearly on its face.

In February I gave evidence to the Finance Committee. I hope that I was able to persuade the Committee that, in developing our spending plans, we recognise the importance of assessing the impact of our decisions on the legislative programme to ensure that new legislation is appropriately funded. As part of this, we will be making nearly £5 million more available for the homelessness provisions of the Bill in 2015-16. The committee's report, while appearing to support this, has sought further clarification on some aspects of the Bill's costs, which I will be providing to committee shortly.

In advance of Stage 2, Members would not expect me to set out in detail all the amendments that the Welsh Government may introduce. However, I can say that a number of these will be in response to the scrutiny by the three committees and the views of other key stakeholders. Where I may not be able to support the recommendations in full, this will largely be because what is proposed is already possible within existing legislation, or can be achieved through the implementation of guidance or code of practice enabling provisions within the Bill.

I am grateful for the support of Members and I look forward to the discussion that we will have in the Chamber today.

16:58 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Christine Chapman.

Rwyf yn croesawu cefnogaeth y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i egwyddorion cyffredinol y Bil. Rwyf hefyd yn croesawu ei safbwynt na ddylid ystyried y Bil ar wahân, ond fel un o nifer o gamau gweithredu Llywodraeth Cymru ym meysydd deddfwriaeth, polisi a chyllid i gyflawni ein blaenoriaethau strategol ar gyfer tai.

O ran y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, rwyf o'r farn bod ei waith craffu wedi bod yn gyfle gwych imi i nodi'r hyn sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y rheoliadau. Rwyf yn croesawu barn y Pwyllgor fod y Bil, ar y cyfan, yn taro'r cydbwysedd cywir, gyda'r amcanion polisi wedi'u nodi'n glir ar ei wyneb.

Ym mis Chwefror, rhoddais dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid. Rwyf yn gobeithio fy mod wedi gallu darbwyllo'r Pwyllgor ein bod, wrth ddatblygu ein cynlluniau gwario, yn cydnabod pwysigrwydd asesu effaith ein penderfyniadau ar y rhaglen deddfwriaethol i sicrhau y caiff deddfwriaeth newydd ei hariannu'n briodol. Yn rhan o hyn, byddwn yn darparu bron i £5 miliwn yn fwy ar gyfer darpariaethau digartrefedd y Bil yn 2015-16. Mae adroddiad y pwyllgor, er ei bod yn ymddangos ei fod yn cefnogi hyn, wedi gofyn am eglurhad pellach am rai agweddau ar gostau'r Bil; byddaf yn darparu hynny i'r pwyllgor cyn hir.

Ni fyddai Aelodau yn disgwyl imi nodi'n fanwl, cyn Cyfnod 2, yr holl welliannau y gallai Llywodraeth Cymru eu cyflwyno. Fodd bynnag, gallaf ddweud y bydd nifer o'r rhain yn ymateb i graffu gan y tri phwyllgor a barn rhanddeiliaid allweddol eraill. Lle na allaf gefnogi'r argymhellion yn llawn, bydd hyn yn bennaf oherwydd bod yr hyn a gynnigir eisoes yn bosibl o fewn deddfwriaeth bresennol, neu oherwydd y gellir ei gyflawni drwy ddefnyddio canllawiau neu god ymarfer sy'n galluogi darpariaethau yn y Bil.

Rwyf yn ddiolchgar am gefnogaeth yr Aelodau ac edrychaf ymlaen at y drafodaeth a gawn yn y Siambr heddiw.

16:58 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased to contribute to this debate as Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee, which is responsible for scrutinising the Bill. I would like to thank all those who gave evidence, as well as those representing Gypsy and Traveller communities and homeless people who took part in focus groups, all of which helped inform our work on the Bill.

I call on the Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee, Christine Chapman.

Rwyf yn falch o gyfrannu at y ddatl hon a minnau'n Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, sy'n gyfrifol am graffu ar y Bil. Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth, yn ogystal â'r rheini sy'n cynrychioli cymunedau Sipsiwn a Theithwyr a phobl ddigartref a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws; helpodd pob un ohonynt i lywio ein gwaith ar y Bil.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

On the general principles, the majority of those we heard from were in favour of the Bill and broadly welcomed its intentions. There was general consensus that the Bill has the potential to assist the Welsh Government in achieving its strategic priorities for housing. As such, we recommend that the Assembly supports the general principles of the Bill today. However, we have made 40 recommendations aimed at improving the legislation. In the time available, I will briefly cover some of our key recommendations.

There was widespread support for the introduction of a mandatory registration and licensing scheme for the private rented sector. Respondents generally agreed that the scheme would assist in improving standards within the sector. However, we recognise that successful implementation of the scheme will not be without challenge. Effective enforcement of the scheme by local authorities will be crucial to ensuring its success. We have made several recommendations aimed at improving the enforcement provisions and providing better safeguards for tenants. These include the replacement of rent stopping orders with rent repayment orders, and additional provision to prevent an unregistered landlord or agent from evicting a tenant

We understand that the primary aim of Part 1 is to improve management standards within the sector. While this could go some way towards tackling poor housing conditions, it was clear from the evidence received that more needs to be done to address physical standards. This is particularly important given that Part 2 of the Bill allows local authorities to house homeless applicants in the private sector.

Tenants should be entitled to a decent standard of accommodation, regardless of whether they reside in social housing or are renting from a private landlord. We believe that the Bill provides an opportunity to ensure that this is the case. Therefore, we have recommended that the Minister sets out, in the code of practice in section 28, the physical standards for private rented housing that the sector should aspire to.

On homelessness, we welcome the change from the current reactionary approach to homelessness to the one of prevention and alleviation that is provided in the Bill. Much of our consideration of Part 2 focused on the priority-need categories set out in section 55, and on how authorities would determine an applicant's vulnerability. We welcome the Minister's commitment to include in the Bill a reference to the Pereira test for vulnerability and an explicit reference to mental illness for the purpose of determining priority need.

O ran yr egwyddorion cyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r bobl a siaradodd â ni o blaid y Bil ac yn croesawu at ei gilydd ei fwriadau. Roedd consensws cyffredinol ei bod yn bosibl i'r Bil gynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyflawni ei blaenoriaethau strategol ar gyfer tai. Felly, rydym yn argymhell bod y Cynulliad yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil heddiw. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud 40 o argymhellion â'r nod o wella'r ddeddfwriaeth. Yn yr amser sydd ar gael, soniaf yn gryno am rai o'n hargymhellion allweddol.

Roedd cefnogaeth eang i gyflwyno cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol ar gyfer y sector rhentu preifat. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol y byddai'r cynllun yn helpu i wella safonau o fewn y sector. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod na allwn weithredu'r cynllun yn llwyddiant, bydd angen i awdurdodau lleol ei orfodi'n effeithiol. Rydym wedi gwneud sawl argymhelliad â'r nod o wella'r darpariaethau gorfodi a darparu gwell mesurau diogelu i denantiaid. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno gorchmynion ad-dalu rhent yn lle gorchmynion atal rhent, a darpariaeth ychwanegol i atal landlord neu asiant heb ei gofrestru rhag troi tenant allan.

Rydym yn deall mai prif nod Rhan 1 yw gwella safonau rheoli o fewn y sector. Er y gallai hyn fynd rywfaint o'r ffordd tuag at ymdrin â thai mewn cyflwr gwael, roedd yn amlwg o'r dystiolaeth a gafwyd bod angen gwneud mwy i ymdrin â safonau ffisegol. Mae hyn yn arbennig o bwysig ac ystyried bod Rhan 2 y Bil yn caniatáu i awdurdodau lleol gartrefu ymgeiswyr digartref yn y sector preifat.

Dylai fod gan denantiaid hawl i gael llety o safon foddhaol, p'un a ydynt yn byw mewn tai cymdeithasol neu'n rhentu gan landlord preifat. Rydym yn credu bod y Bil yn cynnig cyfle i sicrhau bod hyn yn digwydd. Felly, rydym wedi argymhell bod y Gweinidog yn amlinellu, yn y cod ymarfer yn adran 28, y safonau ffisegol ar gyfer tai rhentu preifat y dylai'r sector ymgysylltu atynt.

O ran digartrefedd, rydym yn croesawu'r newid o'r ymagwedd adweithiol bresennol at ddigartrefedd i ymagwedd sy'n ceisio atal a lliniaru, a ddarperir yn y Bil. Wrth ystyried Rhan 2, buom yn canolbwyntio'n bennaf ar y categorïau angen blaenoriaethol a nodir yn adran 55, ac ar sut y byddai awdurdodau'n pennu i ba raddau y mae ymgeisydd yn agored i niwed. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i gynnwys cyfeiriad yn y Bil at brawf Pereira i fesur a yw rhywun yn agored i niwed a chyfeiriad penodol at salwch meddwl er mwyn pennu angen blaenoriaethol.



In relation to former prisoners, the majority of committee members are concerned that the Minister has not yet established the case for changing their priority-need status. We believe that much work has yet to be done to meet to the accommodation and support needs of this group, and to address reoffending rates. I will say that four members of the committee support the change in priority-need status of former prisoners. Further to this, we recommend that the Minister amends the Bill to make provision for a 90-day homelessness prevention period for prisoners, in order to provide them with additional time to address their specific accommodation and support needs.

On the issue of intentionality, we welcome the replacement of the existing intentionality duty on authorities with a power that enables them to choose whether to disregard intentionality. We believe that authorities choosing not to disregard intentionality should be required to publish a notice of their decision, setting out reasons for it. We recommend that the Minister amends the Bill to give effect to this. While we understand the Minister's reasons for retaining the intentionality test, we recommend that he sets a date for its eventual removal and that he includes this on the face of the Bill. I should say here that two Members did not support this view.

On Part 3 on Gypsies and Travellers, we welcome Part 3 of the Bill and hope that it will ensure that the accommodation needs of Gypsies and Travellers are better met in the future. We recommend that the Bill is amended to require authorities to consult directly with Gypsy and Traveller communities when carrying out an assessment of accommodation needs.

On Part 4, standards for social housing, we support placing the Welsh housing quality standards on a statutory footing. We have recommended that the Bill be amended to ensure that standards set are specified in regulations and are subject to formal approval by the Assembly.

On Part 7, council tax for empty dwellings, with regard to additional council tax charges for empty properties we have recommended that the Minister adopts an incremental approach to additional council tax charges, starting with an additional 50% and increasing over time. We have also recommended that the Minister considers an additional charge in respect of second homes. I should say here that two Members did not support this view.

I have also seen the amendment, and although the committee did not make a recommendation about this, Members noted that the Bill does not address the current lack of supply of new homes, but acknowledged that that was not its purpose.

In conclusion, if the Assembly gives its agreement to the general principles of the Bill today, I hope that the Minister will accept the conclusions and recommendations contained in our report and will consider bringing forward appropriate amendments at Stage 2.

O ran cyn garcharorion, mae'r rhan fwyaf o aelodau'r pwyllgor yn pryderu nad yw'r Gweinidog eto wedi sefydlu'r achos dros newid eu statws angen blaenoriaethol. Credwn fod llawer o waith eto i'w wneud i ddiwallu anghenion llety a chymorth y grŵp hwn, ac i ymdrin â chyfraddau aildroeddu. Mae pedwar aelod o'r pwyllgor o blaid newid statws angen blaenoriaethol cyn garcharorion. Yn ogystal, rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn diwygio'r Bil i wneud darpariaeth ar gyfer cyfnod atal digartrefedd o 90 diwrnod i garcharorion, er mwyn rhoi rhagor o amser iddynt i ymdrin â'u hanghenion penodol o ran llety a chymorth.

O ran bwriad, rydym yn croesawu disodli'r ddyletswydd bresennol ar awdurdodau o ran bwriad â grym sy'n eu galluogi i ddewis a ydynt am ddiystyru bwriad. Credwn y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau sy'n dewis peidio â diystyru bwriad gyhoeddi hysbysiad o'u penderfyniad, gan nodi'r rhesymau drosto. Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn diwygio'r Bil i roi grym i hyn. Er ein bod yn deall rhesymau'r Gweinidog dros gadw'r prawf bwriad, rydym yn argymhell ei fod yn pennu dyddiad ar gyfer ei ddileu yn y pen draw a'i fod yn cynnwys hyn ar wyneb y Bil. Dylwn ddweud nad oedd dau Aelod yn cefnogi'r farn hon.

O ran Rhan 3 ynghylch Sipsiwn a Theithwyr, rydym yn croesawu Rhan 3 y Bil ac yn gobeithio y bydd yn sicrhau bod anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu diwallu'n well yn y dyfodol. Rydym yn argymhell bod y Bil yn cael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau ymgynghori'n uniongyrchol â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr wrth gynnal asesiad o anghenion llety.

O ran Rhan 4, safonau tai cymdeithasol, rydym o blaid rhoi sail statudol i safonau ansawdd tai Cymru. Rydym wedi argymhell y dylid diwygio'r Bil i sicrhau bod y safonau a bennir yn cael eu nodi mewn rheoliadau a'u bod yn destun cymeradwyaeth ffurfiol gan y Cynulliad.

O ran Rhan 7, y dreth gyngor ar gyfer anheddau gwag, o ran taliadau ychwanegol y dreth gyngor ar gyfer eiddo gwag, rydym wedi argymhell bod y Gweinidog yn mabwysiadu taliadau ychwanegol y dreth gyngor ar sail gynyddol, gan ddechrau â 50% yn ychwanegol a fydd yn cynyddu dros amser. Rydym hefyd wedi argymhell y dylai'r Gweinidog ystyried tâl ychwanegol ar gyfer ail gartrefi. Dylwn ddweud yma nad oedd dau Aelod yn cefnogi'r farn hon.

Rwyf hefyd wedi gweld y gwelliant, ac er na wnaeth y pwyllgor argymhelliad ynghylch hyn, nododd yr Aelodau nad yw'r Bil yn rhoi sylw i'r diffyg cyflenwad cartrefi newydd ar hyn o bryd, ond roeddent yn cydnabod nad dyna oedd ei bwrpas.

I gloi, os bydd y Cynulliad yn derbyn egwyddorion cyffredinol y Bil heddiw, rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn derbyn y casgliadau a'r argymhellion yn ein hadroddiad ac yn ystyried cyflwyno gwelliannau priodol yng Nghyfnod 2.

17:04

**Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Simon Thomas i siarad ar ran y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

I call on Simon Thomas to speak on behalf of the Constitutional and Legislative Affairs Committee.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:04

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n siarad yn absenoldeb y Cadeirydd heddiw. Adroddodd y pwyllgor ar y Bil hwn, yn unol â'i gylch gwaith, ar 20 Mawrth eleni, a gwnaethom chwe argymhelliad. Bwriadaf nodi rhai o'r materion allweddol a godwyd yn y broses graffu, a chyfeirio, yn benodol, at ddau o'r argymhellion hyn, sydd mwyaf pwysig.

I speak in the absence of the Chair today. The committee reported on this Bill, in line with its remit, on 20 March this year, and we made six recommendations. I intend to identify some of the key issues that emergent from the scrutiny process, and to refer, in particular, to two of these recommendations, which are the most important ones.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Yn gyffredinol, rydym yn croesawu'r dull a fabwysiadwyd gan y Gweinidog o ran drafftio'r Bil hwn. At ei gilydd, credwn fod y Bil yn cyflawni'r cydbwysedd iawn rhwng y manylion a'r amcanion polisi sydd wedi'u nodi ar ei wyneb, a'r hyn sydd wedi'i adael i is-ddeddfwriaeth. Fel y cyfryw, ystyriwn fod amcanion polisi'r Bil wedi'u gosod allan yn weddol eglur ar ei wyneb.

Generally, we welcome the approach adopted by the Minister in terms of the drafting of this Bill. We believe that, in the main, the Bill strikes the right balance between the details and policy objectives set out on its face, and what is left to be made through subordinate legislation. As such, we consider that the Bill's policy objectives are reasonably clearly set out on its face.

Mae'r Bil yn cynnwys 28 pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae hyn yn nifer sylweddol, ac er nad yw'n arfer gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol gymeradwyo hyn, am y tro hwn, o leiaf, ceir llawer mwy o eglurder nag a gafwyd mewn Biliau blaenorol ynglŷn â sut i ddefnyddio'r pwerau ac at ba ddiben, gan nodi cyfeiriad polisi eglur.

The Bill contains 28 powers to make subordinate legislation. This is a significant number, and although it is not usual for the Constitutional and Legislative Affairs Committee to approve this, in this case, at least, there is much greater clarity than in previous Bills about how these powers are to be used and for what purpose, identifying a clear policy direction.

Yn ein barn ni felly, mae'r dull cyffredinol yn y Bil hwn yn arwydd o welliant o ran y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn drafftio'i Biliau. Gobeithiwn yn fawr fod y dull hwn yn arwydd bod Llywodraeth Cymru yn symud yn fwiadol oddi wrth Filiau sgerbwdd neu fframwaith a ystyriwyd gan y Cynulliad yn y gorffennol yn ystod y pedwerydd Cynulliad, ac yr ydym wedi mynegi cymaint o bryder yn eu cylch fel pwyllgor.

In our view, therefore, the overall approach in this Bill marks an improvement in the way that the Welsh Government is drafting its Bills. We very much hope that this is an indication that the Welsh Government is moving away from the skeleton or framework Bills that have been considered by the Assembly so far during the fourth Assembly, and about which we have expressed so much concern as a committee.

Hoffwn yn awr dynnu sylw at ddau o'n chwe argymhelliad; mae'r gweddill yn yr adroddiad. Mae adran 28 o'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno cod ymarfer sy'n pennu safonau'n ymwneud â rheoli eiddo rhent. Cyn y gellir cyhoeddi'r cod, rhaid i'r Cynulliad basio cynnig yn cymeradwyo'r drafft. Ar y llaw arall, mae adran 94 o'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu safonau y mae'n rhaid i awdurdodau tai lleol eu bodloni mewn cysylltiad ag ansawdd y llety a ddarperir, a'r rhent a'r ffioedd gwasanaeth sy'n daladwy. Byddai Gweinidogion Cymru yn gorfodi'r safonau hynny drwy bwerau cyfarwyddo ac ymyrryd helaeth iawn, gan gynnwys pwerau mynediad ac archwilio. Fel y mae'r Bil wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, ni fyddai unrhyw weithdrefn Cynulliad yn berthnasol i'r safonau hyn.

I would now like to highlight two of our six recommendations; the remainder are in the report. Section 28 of the Bill empowers Welsh Ministers to issue a code of practice that sets standards relating to managing rental properties. Before the code can be issued, a draft must be approved by resolution of the Assembly. On the other hand, section 94 of the Bill permits Welsh Ministers to set standards to be met by local housing authorities in connection with the quality of accommodation provided, and the rent and service charges payable. These standards would be enforced by Welsh Ministers by very extensive powers of direction and intervention, including powers of entry and inspection. As the Bill is currently drafted, no Assembly procedure would apply to these standards.

Mae'r cyferbyniad rhwng y ddwy ffordd yn drawiadol, yn ein barn ni. Mae'r hyn sydd yn adran 28 yn dilyn yr hyn a geir yn adran 26 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n darparu ar gyfer pennu safonau drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Fel y cyfryw, ni allwn weld unrhyw reswm dros y gwahaniaeth rhwng y dull yn adran 28 a'r dull yn adran 94. Credwn fod pennu safonau yn fater polisi pwysig a ddylai fod yn ddarostyngedig i broses graffu drylwyr. Dyma'r rheswm rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i bennu safonau o dan adran 94 drwy is-ddeddfwriaeth y dylai'r weithdrefn gadarnhaol fod yn berthnasol iddi. Os yw'r pwerau yn cynnwys pwerau mynediad ac archwilio, rydym ni fel pwyllgor yn argymhell i'r Gweinidog a'r Cynulliad y dylai hyn ddod o fewn cwrpawd is-ddeddfwriaeth.

Yr ail argymhelliad yr hoffwn dynnu sylw'r Cynulliad ato y prynhawn yma yw'r un yn ymwneud ag adran 95 o'r Bil, sydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau. Fodd bynnag, ymddengys i ni bod adran 95(2) yn ddarpariaeth anarferol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddiystyru eu canllawiau eu hunain. Dengys tystiolaeth y Gweinidog i'r pwyllgor nad dyna oedd ei fwriad. Felly, oherwydd hynny, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i sicrhau bod y bwriad sy'n sail i adran 95(2) wedi'i ddatgan yn fwy eglur ar wyneb y Bil.

Dyna'r ddau argymhelliad yr oedd y pwyllgor am dynnu sylw'r Cynulliad atynt y prynhawn yma, ond rwy'n nodi bod gan y Bil hwn well cydbwysedd na sawl Bil arall yr ydym wedi eu gweld hyd yma.

The contrast between the two approaches is striking, in our view. Section 28 follows what we find in section 26 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011, which provides for standards to be specified by regulations subject to the affirmative procedure. As such, we can see no logical reason for the difference of approach between section 28 and that in section 94. We believe that the setting of standards represents a significant policy issue and should be subject to robust scrutiny. It is for this reason that we recommend that the Minister table an amendment to the Bill to set standards under section 94 by means of subordinate legislation to which the affirmative procedure should apply. If the powers are to include powers of entry and inspection, we as a committee recommend to the Minister and the Assembly that these should come within the remit of subordinate legislation.

The second recommendation to which I would like to draw the Assembly's attention this afternoon is the one relating to section 95 of the Bill, which enables Welsh Ministers to issue guidance. However, it appears to us that section 95(2) is an unusual provision that permits Welsh Ministers to disregard their own guidance. The Minister's evidence to the committee indicated that that was not his intention. Therefore, this being the case, we recommend that the Minister should table an amendment to ensure that the intention behind section 95(2) is more clearly stated on the face of the Bill.

Those are the two recommendations that the committee wished to draw to the attention of the Assembly this afternoon, but I note that this Bill has better balance than many others that we have seen in the past.

17:09

**Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Peter Black i gynnis gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnis:*

*Yn gresynu nad yw Bil Tai (Cymru) yn rhoi sylw i'r cyflenwad tai cymdeithasol.*

I call on Peter Black to move amendment 1, tabled in the name of Aled Roberts.

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Add as new point at end of motion:*

*Regrets that the Housing (Wales) Bill does not address the supply of social housing.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:09

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 1.

In moving the amendment, I am happy on behalf of the Liberal Democrats to endorse the 40 recommendations in the report in their entirety. I think that they are a very thorough examination of what is a reasonably good Bill, which, as has been pointed out by Simon Thomas, addresses a lot of issues in a very thorough way. We have also put forward proposals that, over the course of the scrutiny process, have allowed me to be convinced of some of the ones that I was initially sceptical of. I think that that is true of most committee members.

Cynigaf welliant 1.

Wrth gynnis y gwelliant, rwyf yn fodlon, ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol, cymeradwyo'r 40 o argymhellion yn yr adroddiad yn eu cyfanrwydd. Credaf eu bod yn archwiliad trylwyr iawn o Fil gweddol dda, sydd, fel y nododd Simon Thomas, yn rhoi sylw i lawer o faterion mewn ffordd drylwyr iawn. Rydym hefyd wedi cyflwyno cynigion sydd, yn ystod y broses graffu, wedi fy narbwylllo ynglŷn â rhai o'r rhai yr oeddwn yn amheus ohonynt i ddechrau. Credaf fod hynny'n wir am y rhan fwyaf o aelodau'r pwyllgor.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

On the amendment, as we all know, in the previous Assembly the Government had a target of 6,000 new affordable homes, and the present Government set a target of 7,500 new affordable homes at the beginning of its term. This has since been revised upwards to 10,000, which was universally welcomed by the sector and by Members in the Chamber. It is my view that it is good practice for Governments to set targets in this way, so that they can be scrutinised and examined as part of the process of ensuring that we have adequate housing supply. I also think that it is good practice to review that and to report on it annually. It seems to me that that is something that should be set in law as a compulsory duty for Ministers, so that this is something that the Government and the Assembly can take forward in the future. For that reason, I would hope that the Minister could consider the proposal in the amendment that this is added to the housing Bill as part of its final consideration when we come to the next stages on it.

In terms of the recommendations themselves, there were a lot of them, so I am just going to pick out one or two that I think are particularly important in terms of the various sections of the Bill. In terms of the private rented sector, I think that there is universal scepticism about the efficacy of rent stopping orders and a concern that they do have an impact on tenants. I am pleased that the Minister has indicated that he is looking at rent repayment orders as an alternative to those, and that is encompassed in the recommendation. I really think that if you have rent repayment orders and other measures to enforce it, rent stopping orders are not necessary in the Bill. I hope that the Minister will be prepared to remove those altogether as part of that.

The cost of enforcement action against landlords and agents who are unregistered or unlicensed, as was referred to in the Minister's opening speech, is something that he is going to provide more information on. However, I think that there is a concern that the legal position that local councils cannot use the proceeds of fees for licencing or registration to carry out that particular enforcement action poses a particular problem. Some provision is going to have to be made by the Welsh Government to ensure that this legislation is particularly effective.

O ran y gwelliant, fel y gwyddom oll, yn y Cynulliad blaenorol, roedd gan y Llywodraeth darged o 6,000 o gartrefi fforddiadwy newydd, a gosododd y Llywodraeth bresennol darged o 7,500 o gartrefi fforddiadwy newydd ar ddechrau ei thymor. Ers hynny, cafodd y targed ei godi i 10,000, a chroesawyd hyn yn gyffredinol gan y sector a chan Aelodau yn y Siambr. Yn fy marn i, mae'n arfer da i Lywodraethau bennu targedau yn y modd hwn, fel y gellir craffu arnynt a'u harchwilio fel rhan o'r broses o sicrhau bod gennym gyflenwad digonol o dai. Rwyf hefyd yn meddwl ei bod yn arfer da adolygu hynny ac adrodd arno bob blwyddyn. Mae'n ymddangos i mi fod hynny'n rhywbeth a ddylai fod yn ddyletswydd orfodol o dan y gyfraith ar Weinidogion, fel y bydd hyn yn rhywbeth y gall y Llywodraeth a'r Cynulliad fwrw ymlaen ag ef yn y dyfodol. Am y rheswm hwnnw, byddwn yn gobeithio y gallai'r Gweinidog ystyried y cynnig yn y gwelliant i ychwanegu hyn at y Bil tai fel rhan o'i ystyriaeth derfynol pan ddown at y cyfnodau nesaf.

O ran yr argymhellion eu hunain, roedd llawer ohonynt, felly rwyf am ddewis un neu ddau sydd yn fy marn i'n arbennig o bwysig o ran gwahanol adrannau'r Bil. O ran y sector rhentu preifat, credaf fod amheuaeth gyffredinol ynghylch effeithiolrwydd gorchmynion atal rhent a phryder eu bod yn effeithio ar denantiaid. Rwyf yn falch bod y Gweinidog wedi nodi ei fod yn edrych ar orchmynion addalu rhent yn lle hynny, ac mae'r argymhelliad yn cynnwys hynny. Yn fy marn i, os oes gennych orchmynion ad-dalu rhent a mesurau eraill i orfodi hynny, nid oes angen gorchmynion atal rhent yn y Bil. Rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn fodlon dileu'r rheini'n gyfan gwbl fel rhan o hynny.

Mae cost camau gorfodi yn erbyn landlordiaid ac asiantau sydd heb eu cofrestru neu heb eu trwyddedu, fel y dywedodd y Gweinidog yn ei araith agoriadol, yn rhywbeth y mae'n mynd i ddarparu rhagor o wybodaeth amdano. Fodd bynnag, credaf fod pryder bod y sefyllfa gyfreithiol lle na all cynghorau lleol ddefnyddio elw ffioedd trwyddedu neu gofrestru i gymryd y camau gorfodi dan sylw'n peri problem benodol. Bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud rhywfaint o ddarpariaeth i sicrhau bod y ddeddfwriaeth hon yn arbennig o effeithiol.

The issue about the code of practice under section 28 is one that I think exercised us quite significantly. I think that a number of us took the view that if you are going to introduce a registration and licensing scheme for privately rented property, the rhetoric around that that this Bill is going to drive up the standards of that property has to be evident in the code of practice. The code of practice seems to me and other Members to be the main way by which you can drive up that standard. So, I think it is very important that, when the code of practice is published, it is not just setting out the current standards as they are at the moment, but that there is some ambition in them. We would like to see it published in advance of the Bill becoming law. I think the code of practice needs to set out the physical standards for private rented housing. I would also advocate that it should include a requirement on landlords for periodic checks on electrical safety and the installation and maintenance of carbon dioxide detectors, as well as other issues around safety in those homes. I think that is the best way to drive up standards. I know that that may put an additional inspection burden on local authorities, but I think the mechanism that the Minister has already outlined to us, whereby local authorities respond to complaints rather than actively inspect, may well be one way of taking that forward. That is something that is absolutely crucial if we are to drive up standards in the private rented sector.

The issue of the removing the priority-needs status for prisoners is also one that I think is important. I have gone on at some length on that in this Chamber before, as well as in committee. I think it is significant that the Minister brought a report to the committee outlining alternatives by which we could rehabilitate prisoners. The majority of the committee were not convinced that those proposals were sufficiently robust to take the place of that priority need. I really think that the Minister needs to do a lot more work on that before he can convince the committee of that particular change to the priority-need order.

The final point that I wanted to mention was in relation to the additional council tax charges for empty homes. The Minister has indicated that he is agreeable to an incremental approach to that, so that those who leave their homes empty the longest are penalised the most. Again, I would endorse that. It is a proposal that I have been pushing for the best part of six or seven years and I really do think that it is something that is long overdue and will certainly prove to be an important tool in the armoury of local authorities to try to deal with empty home problems in their own areas.

17:14

## Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

The Welsh Government website states that this Bill will sit alongside a wide range of policy developments to increase housing supply and housing services, and we will support its general principles on that basis. We welcome the Bill's focus on preventing and alleviating homelessness, provided this does not again generate increased hidden homelessness or lead to households on the English border seeking to access prevention services in Wales.

Mae'r mater ynghylch y cod ymarfer o dan adran 28 yn un a greodd gryn dipyn o waith inni. Credaf fod nifer ohonom o'r farn, os ydych yn mynd i gyflwyno cynllun cofrestru a thrwyddedu ar gyfer eiddo rhentu preifat, fod yn rhaid i'r rhyngwylch hynny, sef bod y Bil hwn yn mynd i godi safonau'r eiddo, fod yn amlwg yn y cod ymarfer. Mae'n ymddangos i mi ac i Aelodau eraill mai'r cod ymarfer yw'r brif ffordd o godi'r safon honno. Felly, credaf ei bod yn bwysig iawn, pan gaiff y cod ymarfer ei gyhoeddi, ei fod yn gwneud mwy na nodi'r safonau presennol fel y maent ar hyn o bryd—dylai fod rhywfaint o uchelgais ynddynt. Hoffem ei weld yn cael ei gyhoeddi cyn i'r Bil ddod yn ddeddf. Rwyf yn meddwl bod angen i'r cod ymarfer nodi'r safonau ffisegol ar gyfer tai rhentu preifat. Byddwn hefyd yn argymhell y dylai gynnwys rheidrydd ar landlordiaid i gynnal archwiliadau achlysurol ar ddiogelwch trydanol a gosod synwryddion carbon deuocsid a'u cynnal a'u cadw, yn ogystal â materion eraill ynghylch diogelwch yn y cartrefi hynny. Rwyf yn meddwl mai dyna'r ffordd orau o wella safonau. Gwn y gall hynny roi baich arolygu ychwanegol ar awdurdodau lleol, ond credaf efallai fod y mecanwaith y mae'r Gweinidog eisoes wedi'i amlinellu inni, lle mae awdurdodau lleol yn ymateb i gwynion yn hytrach na mynd ati i arolygu, yn un ffordd o fwrw ymlaen â hynny. Mae hynny'n rhywbeth sy'n gwbl hanfodol os ydym am godi safonau yn y sector rhentu preifat.

Mae cael gwared ar statws angen blaenoriaethol carcharorion hefyd yn fater pwysig yn fy nhyb i. Rwyf wedi siarad yn helaeth am hynny yn y Siambr hon o'r blaen, yn ogystal ag yn y pwyllgor. Credaf ei bod yn arwyddocaol bod y Gweinidog wedi cyflwyno adroddiad i'r pwyllgor yn amlinellu dewisiadau eraill inni ar gyfer adsefydlu carcharorion. Nid oedd y rhan fwyaf o'r pwyllgor yn argyhoeddedig bod y cynigion hynny'n ddigon cadarn i gymryd lle'r angen blaenoriaethol hwnnw. Credaf fod angen i'r Gweinidog wneud mwy o waith o lawer ar hynny cyn y gall argyhoeddi'r pwyllgor am y newid penodol hwnnw i'r gorchymyn angen blaenoriaethol.

Roedd pwynt olaf yr oeddwn am ei grybwyll yn ymwneud â thaliadau ychwanegol y dreth gyngor ar gyfer cartrefi gwag. Mae'r Gweinidog wedi dweud ei fod yn cytuno ag ymagwedd fesul cam at hynny, fel mai'r rhai sy'n gadael eu cartrefi'n wag am y cyfnodau hiraf sy'n cael eu cosbi fwyaf. Unwaith eto, byddwn yn cymeradwyo hynny. Mae'n gynnig yr wyf wedi bod yn galw amdano ers chwech neu saith mlynedd ac rwyf yn meddwl ei fod yn rhywbeth y mae'n hen bryd inni ei gael ac y bydd yn sicr yn arf pwysig yn arfogaeth yr awdurdodau lleol i geisio ymdrin â phroblemau cartrefi gwag yn eu hardaloedd eu hunain.

Mae gwefan Llywodraeth Cymru'n datgan y bydd y Bil hwn yn eistedd ochr yn ochr ag amrywiaeth eang o ddatblygiadau polisi i gynyddu'r cyflenwad tai a gwasanaethau tai, a byddwn yn cefnogi ei egwyddorion cyffredinol ar y sail honno. Rydym yn croesawu pwyslais y Bil ar atal a lliniaru digartrefedd, ar yr amod nad yw hyn eto'n creu mwy o ddigartrefedd cudd neu'n peri i gartrefi ar y ffin â Lloegr geisio defnyddio gwasanaethau atal yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Reference to mental illness and learning difficulty should be in the Bill. The term 'learning difficulty' reflects the social model of disability adopted by the Welsh Government in 2002, recognising the need to remove the barriers with which society confronts people. We agree with the Minister that priority need should not be based on the fact that you have been incarcerated but on the fact that you are in a vulnerable situation. Recognising the essential link between rights and responsibilities, we believe that the Minister should not set a date for the removal of the homeless intentionality test.

Scrapping minimum six-month private landlord tenancies would prevent investment by private landlords and mortgage lenders in housing supply for vulnerable tenants. We must provide incentives for families to address the issues causing their homelessness while recognising the support of Welsh social landlords for the use and extension of introductory and starter tenancies identified in the recent Welsh Government's anti-social behaviour review. Concern about the effectiveness of local authority Gypsy and Traveller accommodation needs assessments must be addressed and Gypsy and Traveller communities consulted. The Bill should ensure that local authorities that disgracefully failed to reach the Welsh housing quality standard by the 2012 target recognise that the standard is about far more than just bricks and mortar.

Empty homes must be seen first as empty resources rather than revenue raisers, and second homeowners use local services less. Enabling local authorities to charge them additional council tax would risk unintended consequences. Mandatory registration and licensing of private sector landlords as opposed to agents, however, would be a hugely expensive record-keeping operation compared to the action needed to deal with bad landlords and increase housing supply. For three years, landlord representatives have been telling me that adjusting the supply of properties required a new way of working but that the Welsh Government was increasing regulation rather than building true partnership and trust with them.

Shelter Cymru research shows that only 4% of tenants have been threatened with eviction or evicted because they raised problems with their landlord. UK Government figures show that just 9% of private rented tenancies are ended by the landlord. The latest landlords panel study shows that 80% of tenants reported living in their current home for more than one year and 42% for more than four. However, 12% said that they had rented from someone they considered to be a rogue landlord, and this should be where our focus lies. This Bill ignores findings in the 2011 Communities and Culture Committee report on the private rented sector regarding social letting agencies linked to mandatory landlord accreditation providing accommodation for vulnerable people as a partnership of trust between local authorities, the third sector and landlords.

Dylai'r Bil gyfeirio at salwch meddwl ac anhawster dysgu. Mae'r term 'anhawster dysgu' yn adlewyrchu'r model cymdeithasol o anabledd a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2002, sy'n cydnabod bod angen cael gwared ar y rhwystrau y mae cymdeithas yn eu cyflwyno i bobl. Rydym yn cytuno â'r Gweinidog na ddylai angen blaenoriaethol fod yn seiliedig ar y ffaith eich bod wedi cael eich carcharu, ond ar y ffaith eich bod mewn sefyllfa fregus. A chydabod y cysylltiad hanfodol rhwng hawliau a chyfrifoldebau, credwn na ddylai'r Gweinidog bennu dyddiad ar gyfer cael gwared ar y prawf bwriad digartrefedd.

Byddai dileu'r isafswm o chwe mis ar gyfer tenantiaethau landlordiaid preifat yn atal buddsoddi gan landlordiaid preifat a benthycwyr morgesi yn y cyflenwad tai i denantiaid agored i niwed. Rhaid inni roi cymhellion i deuluoedd i ymdrin â'r materion sy'n achosi eu digartrefedd a chydabod ar yr un pryd gefnogaeth landlordiaid cymdeithasol Cymru i ddefnyddio ac estyn tenantiaethau rhagarweiniol a chychwynnol a nodwyd yn adolygiad diweddar Llywodraeth Cymru o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rhaid ymdrin â'r pryder ynghylch effeithiolrwydd llety awdurdodau lleol i Sipsiwn a Theithwyr a rhaid ymgynghori â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Dylai'r Bil sicrhau bod yr awdurdodau lleol a fethodd yn gywilyddus â chyrraedd safon ansawdd tai Cymru erbyn targed 2012 yn cydnabod bod y safon hon yn ymwneud â mwy o lawer na dim ond brics a morter.

Rhaid gweld tai gwag yn gyntaf fel adnoddau gweigion yn hytrach na ffyrdd o godi refeniw, ac mae perchnogion ail dai'n defnyddio llai ar wasanaethau lleol. Byddai galluogi awdurdodau lleol i godi treth gyngor ychwanegol arnynt yn peri risg o ganlyniadau anfwriadol. Byddai cofrestru a thrwyddedu gorfodol i landlordiaid y sector preifat yn hytrach nag asiantau, fodd bynnag, yn ffordd hynod o ddrud o gadw cofnodion o gymharu â'r camau sydd eu hangen i ymdrin â landlordiaid gwael a chynyddu'r cyflenwad tai. Ers tair blynedd, mae cynrychiolwyr landlordiaid yn dweud wrthyf fod angen ffordd newydd o weithio er mwyn addasu'r cyflenwad eiddo, ond bod Llywodraeth Cymru'n cynyddu'r rheoleiddio yn hytrach na ffurfio partneriaeth ac ymddiriedaeth wirioneddol â hwy.

Mae ymchwil Shelter Cymru'n dangos mai dim ond 4% o denantiaid y bygythiwyd eu troi allan, neu sydd wedi eu troi allan, oherwydd iddynt godi problemau â'u landlord. Mae ffigurau Llywodraeth y DU yn dangos mai dim ond 9% o denantiaethau rhentu preifat sy'n cael eu terfynu gan y landlord. Mae astudiaeth ddiweddaraf y panel landlordiaid yn dangos bod 80% o denantiaid yn dweud eu bod yn byw yn eu cartref presennol ers dros flwyddyn a 42% ers dros bedair blynedd. Fodd bynnag, dywedodd 12% eu bod wedi rhentu gan rywun yr oeddent yn ei ystyried yn landlord twyllodrus, a dyma lle y dylai ein pwyslais fod. Mae'r Bil hwn yn anwybyddu canfyddiadau adroddiad 2011 y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar y sector rhentu preifat ynglŷn ag asiantaethau gosod tai cymdeithasol â chysylltiad ag achredu landlordiaid yn orfodol sy'n darparu llety i bobl agored i niwed fel partneriaeth o ymddiriedaeth rhwng awdurdodau lleol, y trydydd sector a landlordiaid.

The differences the Minister highlights between the registration and licensing scheme in Scotland and the proposed scheme here are about processes, not outcomes, when criminal landlords in Scotland were falling through the net because resource was being used to regulate good landlords. For this reason, Scotland has reverted to existing selective licensing powers to control bad landlords. Although ignored in this Bill, the Labour-chaired House of Commons Communities and Local Government Committee has recommended a reformed approach to selective licensing, giving councils greater freedom and flexibility. Well done to it. After all, the real issue is not enforcement of registration but enforcement against bad landlords. However, although the Minister has said that the housing health and safety rating system will remain the enforcement standard, he has told me that he does not have figures for the number of enforcement actions against bad landlords. The Welsh Local Government Association told me that it seeks to achieve improvements through advice, support and encouragement rather than enforcement. Further, councils have been cutting back on environmental health officers who carry out the HHSRS assessments. As Professor Michael Ball's report—an independent report, I emphasise—on the private rented sector found, investment in housing need is likely to be held back by a failure to recognise the negative consequences of the way in which state regulation currently engages with the private rented sector, and penalties for those who fail to register are unlikely to impress the worst landlords.

Mae'r gwahaniaethau y mae'r Gweinidog yn tynnu sylw atynt rhwng y cynllun cofrestru a thrwyddedu yn yr Alban a'r cynllun arfaethedig hwn yn ymwneud â phrosesau, nid canlyniadau, pan oedd landlordiaid troseddol yn yr Alban yn syrthio drwy'r rhwyd oherwydd bod adnoddau'n cael eu defnyddio i reoleiddio landlordiaid da. Am y rheswm hwn, mae'r Alban wedi dychwelyd at y pwerau trwyddedu dethol sydd eisoes yn bodoli i reoli landlordiaid gwael. Er bod y Bil hwn yn anwybyddu'r mater, mae Pwyllgor Cymunedau a Llywodraeth Leol Tŷ'r Cyffredin, dan gadeiryddiaeth Llafur, wedi argymhell diwygio trwyddedu dethol, gan roi mwy o ryddid a hyblygrwydd i gynghorau. Da iawn nhw. Wedi'r cyfan, nid gorfodi cofrestru yw'r broblem go iawn, ond gorfodi yn erbyn landlordiaid gwael. Fodd bynnag, er bod y Gweinidog wedi dweud mai'r system mesur iechyd a diogelwch tai fydd y safon orfodi o hyd, mae wedi dweud wrthyf nad oes ganddo ffigurau ar gyfer nifer y camau gorfodi yn erbyn landlordiaid gwael. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthyf ei bod yn ceisio sicrhau gwelliannau drwy gynghori, cynorthwyo ac annog yn hytrach na gorfodi. Hefyd, mae cynghorau wedi bod yn cwtogi ar y swyddogion iechyd yr amgylchedd sy'n cynnal yr asesiadau HHSRS. Fel y canfu adroddiad yr Athro Michael Ball—adroddiad annibynnol, pwysleisiaf—ar y sector rhentu preifat, mae'n debygol y bydd buddsoddi yn yr angen am dai'n cael ei ddal yn ôl gan fethiant i gydnabod canlyniadau negyddol y ffordd y mae rheoliadau'r wladwriaeth yn ymgysylltu â'r sector rhentu preifat ar hyn o bryd, ac mae'n annhebygol y bydd cosbau i'r rhai sy'n methu â chofrestru'n gwneud argraff ar y landlordiaid gwaethaf.

17:19

## Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased to support the general principles of the Housing (Wales) Bill, and I hope that the legislation will bring about positive change for housing. However, I think that the Bill is marked by a lack of ambition and certainly does not reflect its White Paper. Although I continue to have some reservations about implementation, I think that registration and licensing could be a professionalisation force for the private rental sector. Members will know that I was initially unconvinced that registration was necessary for all private sector landlords, given the constantly changing nature of the sector, and I was concerned that registration might deter landlords from renting at all. However, during committee consideration, landlords' organisations told us that there is a huge amount of law relating to renting, requiring knowledge of over 100 pieces of legislation containing 400 specific items. Offering training will, I think, help landlords to keep track of their legal obligations. However, enforcement remains an issue yet to be solved by the Government, as does raising awareness, as I am sure the vast majority of those renting homes are likely to be blissfully unaware of this Bill at present.

I hope that the registration scheme proposed in the Bill will help to eradicate the rogue landlords that give the sector such a bad name. The fit-and-proper-person test is an important addition that will help to protect tenants. However, again, enforcement will be an issue, and there is no point in getting the already good landlords to register if no action is taken against those who do not.

Rwyf yn falch o gefnogi egwyddorion cyffredinol Bil Tai (Cymru), ac rwyf yn gobeithio y bydd y ddeddfwriaeth yn sicrhau newid cadarnhaol o ran tai. Fodd bynnag, credaf fod y Bil yn dangos diffyg uchelgais; yn sicr, nid yw'n adlewyrchu ei Bapur Gwyn. Er bod gennyf rai amheuan o hyd ynghylch gweithredu, rwyf yn meddwl y gallai cofrestru a thrwyddedu fod yn rym a allai broffesiynoli'r sector rhentu preifat. Bydd yr Aelodau'n gwybod nad oeddwn yn argyhoeddedig i ddechrau fod angen cofrestru holl landlordiaid y sector preifat, ac ystyried y ffordd y mae'r sector yn newid o hyd, ac roeddwn yn pryderu y gallai cofrestru anghymhell landlordiaid rhag rhentu o gwbl. Fodd bynnag, yn ystod ystyriaethau'r pwyllgor, dywedodd sefydliadau landlordiaid wrthym fod llawer iawn o gyfraith ynghylch rhentu, a bod angen gwybodaeth am dros 100 o ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n cynnwys 400 o eitemau penodol. Bydd cynnig hyfforddiant, yn fy marn i, yn helpu landlordiaid i gadw golwg ar eu hymrwymadau cyfreithiol. Fodd bynnag, mae gorfodi'n parhau i fod yn rhywbeth nad yw'r Llywodraeth wedi'i ddatrys, ynghyd â chodi ymwybyddiaeth; rwyf yn siŵr na fydd y mwyafrif helaeth o'r bobl sy'n rhentu tai'n gwybod dim am y Bil hwn ar hyn o bryd.

Rwyf yn gobeithio y bydd y cynllun cofrestru a gynigir yn y Bil yn helpu i gael gwared â'r landlordiaid gwael sy'n rhoi enw mor ddrwg i'r sector. Mae'r prawf person addas a phriodol yn ychwanegiad pwysig a fydd yn helpu i amddiffyn tenantiaid. Fodd bynnag, unwaith eto, bydd gorfodaeth yn broblem, ac nid oes diben gorfodi'r landlordiaid sydd eisoes yn dda i gofrestru oni chymerir camau yn erbyn y rhai nad ydynt yn cofrestru.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The Bill does not address the poor standards sometimes seen in the private rented sector, as it goes no further than reinforcing the current legal bare minimum, and I hope that the code of practice will be used to raise standards. I agree that visual electric inspections are needed as a legal requirement. We need to include, I think, the power to revoke a landlord's licence if the condition of their property falls below a decent standard, and I would like to see a legal requirement on all landlords to provide to tenants and prospective tenants any local authority inspection report that recommends improvements. We see tenants all the time who request repairs only to find that they are then asked to quit or that their tenancies are not renewed.

Switching focus onto the prevention of homelessness is, I think, a very welcome move. However, after the promise of the White Paper, I cannot help but be disappointed with the proposed legislation. I am pleased that the Bill put in place measures that will ensure that all housing authorities intervene at an early stage with those who face the threat of homelessness. However, I had hoped for more. The Bill largely describes current best practice rather than creating the statutory basis for a wholesale change, and, of course, intentionality remains. I am pleased to hear that the Minister has indicated that he wants to see an end to it, but when will that happen? I feel that this was a missed opportunity.

The reversal of the previous policy of assisting prison leavers in order to reduce reoffending is, I think, contrary to all available evidence, and I wonder whether the Minister is delighted to have the support of the Tory group in his policy change on this matter.

I also worry about local authorities' new power to house those facing homelessness in the private rented sector. With no way of telling who the best landlords are, there is a real danger that those facing homelessness will be housed in properties that are unsuitable and in poor condition. The short length of tenancy agreements in many cases can cause instability, and there is a serious risk of vulnerable people finding themselves homeless again, and we know that repeat homelessness damages children. So, we need a clear definition of what it means for local authorities to have a duty to help to secure accommodation for those facing homelessness.

Finally, I am pleased that the Government is going to tackle the problem of houses remaining empty and unused by giving councils the power to charge higher rates of council tax for those properties and, of course, the committee report is recommending the same measure for second homes. So, I welcome the Bill; it has some very good things in it, including the housing revenue account subsidy system change and, of course, the Gypsy and Traveller sites. For those hoping for more radical change, we may have to accept that this is a step in the right direction rather than a leap.

Nid yw'r Bil yn ymdrin â'r safonau gwael a welir weithiau yn y sector rhentu preifat, gan nad yw'n mynd ymhellach nag atgyfnerthu'r isafswm cyfreithiol presennol, ac rwyf yn gobeithio y caiff y cod ymarfer ei ddefnyddio i godi safonau. Rwyf yn cytuno bod angen archwiliadau trydan gweledol fel gofyniad cyfreithiol. Credaf fod angen inni gynnwys grym i ddirymu trwydded landlord os bydd cyflwr ei eiddo'n cwmpo'n is na safon foddhaol, a hoffwn weld gofyniad cyfreithiol ar bob landlord i ddarparu i denantiaid a darpar denantiaid unrhyw adroddiad arolygu awdurdod lleol sy'n argymhell gwelliannau. Rydym yn aml iawn yn gweld tenantiaid sy'n gofyn am atgyweiriadau, ond bydd y landlord yn ymateb drwy ofyn iddynt adael neu beidio ag adnewyddu eu tenantiaeth.

Mae newid y pwyslais tuag at atal digartrefedd, yn fy marn i, yn gam sydd i'w groesawu'n fawr. Fodd bynnag, ar ôl addewid y Papur Gwyn, ni allaf ond bod yn siomedig â'r ddeddfwriaeth arfaethedig. Rwyf yn falch bod y Bil wedi rhoi mesurau ar waith a fydd yn sicrhau bod yr holl awdurdodau tai'n ymyrryd yn gynnar ar ran pobl sy'n wynebu bygythiad o ddigartrefedd. Fodd bynnag, roeddwn wedi gobeithio am fwy. Mae'r Bil i raddau helaeth yn disgrifio'r arfer gorau ar hyn o bryd yn hytrach na chreu sylfaen statudol ar gyfer newid cyffredinol, ac, wrth gwrs, mae bwriad yn dal i fod yno. Rwyf yn falch o glywed bod y Gweinidog wedi nodi yr hoffai weld diwedd ar hynny, ond pryd y bydd hynny'n digwydd? Rwyf yn teimlo bod hwn yn gyfle a gollwyd.

Mae gwrthdroi'r polisi blaenorol o gynorthwyo pobl sy'n gadael y carchar er mwyn lleihau aildrosedd, yn fy marn i, yn groes i'r holl dystiolaeth sydd ar gael, a tybed a yw'r Gweinidog wrth ei fodd o gael cefnogaeth grŵp y Torïaid i'w newid polisi yn hyn o beth.

Rwyf hefyd yn poeni am rym newydd awdurdodau lleol i gartrefu pobl sy'n wynebu digartrefedd yn y sector rhentu preifat. Heb ffordd o ddweud pwy yw'r landlordiaid gorau, mae perygl gwirioneddol y caiff pobl sy'n wynebu digartrefedd eu cartrefu mewn eiddo sy'n anaddas ac mewn cyflwr gwael. Gall natur fer cytundebau tenantiaeth achosi ansefydlogrwydd mewn llawer o achosion, ac mae risg ddifrifol y bydd pobl agored i niwed yn eu cael eu hunain yn ddigartref eto, ac rydym yn gwybod bod digartrefedd mynych yn niweidio plant. Felly, mae arnom angen diffiniad clir o ystyr y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i helpu i sicrhau llety i bobl sy'n wynebu digartrefedd.

Yn olaf, rwyf yn falch bod y Llywodraeth yn mynd i ymdrin â phroblem tai sy'n aros yn wag a heb eu defnyddio drwy roi grym i gynghorau i godi cyfraddau treth gyngor uwch ar gyfer yr eiddo hynny ac, wrth gwrs, mae adroddiad y pwyllgor yn argymhell yr un mesur ar gyfer ail gartrefi. Felly, rwyf yn croesawu'r Bil; mae rhai pethau da iawn ynddo, gan gynnwys y newid i'r system cymhorthdal cyfrif refeniw tai ac, wrth gwrs, y safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. I'r rhai a oedd yn gobeithio am newid mwy radical, efallai y bydd yn rhaid inni dderbyn bod hwn yn gam i'r cyfeiriad cywir, yn hytrach nag yn naid.



I also support the general principles of the Housing (Wales) Bill. Poor housing leads to ill health, and means that patients have to stay in hospital longer and that children fail to fulfil their potential. In twenty-first century Wales, we have people like a constituent of mine, a single mother with a primary-school aged daughter, going to bed at 7 p.m. because the house is draughty and damp. More importantly, she cannot afford to heat it. The quality of some of the accommodation in the private rented sector is appalling. When there is a severe shortage of accommodation, substandard properties are often the only option. The legislation seeks to regulate the private rented sector in Wales. Every landlord or letting agent, if one is being used by the owner, will need to be licensed.

As most people are aware, there has been a substantial growth in private rented properties across Wales. As the number of council houses and flats are reduced, the private rented sector has filled some of the gap. There is currently a voluntary landlord accreditation scheme run by Cardiff Council on behalf of the 22 local authorities, and a key element of the new legislation is to establish a comprehensive online database of all private landlords and letting management agents in the private rented sector. After a private landlord or agent registers, they will then have to become accredited following attendance of an approved training scheme. Agents will have to join an approved body, and at least two thirds of their staff must be trained. We have some people who are bad landlords by default. They do not mean to be bad landlords; they just do not know enough to not be, and I think that this is an opportunity to solve that problem. It should improve standards in the private rented sector and provide more information on a landlord to local authorities.

In Swansea, many landlords live far away from Swansea and have bought houses as investments. I do not think that it is asking too much for houses to be checked for gas, carbon monoxide, fire and electrical safety prior to being rented out. We need to raise the awareness of landlords and tenants of their respective rights and responsibilities. The Bill also sets out to allow councils to charge a higher rate of council tax on empty properties and allows housing associations to give assured tenancies and deals with the abolition of the housing revenue account subsidy, so a portion of the rent paid by council tenants will no longer be returned to the Treasury. The Bill seeks to prevent people from becoming homeless and builds on the work currently being done by local authorities on homelessness prevention, where Merthyr Tydfil County Borough Council was identified as an example of best practice. The legislation aims to ensure greater emphasis on preventing homelessness, extending the help available and improving the services to those not considered to be in priority need, and to improve the ability of local authorities to offer secure accommodation via the private rented sector, which is becoming more and more important as the amount of council housing continues to reduce.

Rwyf hefyd yn cefnogi egwyddorion cyffredinol Bil Tai (Cymru). Mae tai gwael yn arwain at iechyd gwael, ac yn golygu bod yn rhaid i gleifion aros yn yr ysbyty'n hwy a bod plant yn methu â chyflawni eu potensial. Yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain, mae gennym bobl fel un o fy etholwyr i, mam sengl â merch oedran ysgol gynradd, sy'n mynd i'r gwely am 7 o'r gloch y nos oherwydd bod y tŷ'n ddrafftig ac yn llai. Yn bwysicach na hynny, ni all fforddio ei gynhesu. Mae ansawdd peth o'r llety yn y sector rhentu preifat yn warthus. Pan fydd prinder difrifol o ran llety, eiddo is na'r safon yw'r unig opsiwn yn aml. Mae'r ddeddfwriaeth yn ceisio rheoleiddio'r sector rhentu preifat yng Nghymru. Bydd angen trwydded ar bob landlord neu asiant gosod, os yw'r perchennog yn defnyddio un.

Fel y mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod, bu twf sylweddol yn nifer yr eiddo rhentu preifat ledled Cymru. Wrth i nifer y tai a'r fflatiau cyngor leihau, mae'r sector rhentu preifat wedi llenwi rhywfaint o'r bwch. Ar hyn o bryd, mae Cyngor Caerdydd yn cynnal cynllun gwirfoddol i achredu landlordiaid ar ran y 22 awdurdod lleol, ac un elfen allweddol o'r ddeddfwriaeth newydd yw sefydlu cronfa ddata gynhwysfawr ar-lein o'r holl landlordiaid preifat ac asiantau rheoli gosod yn y sector rhentu preifat. Ar ôl i landlordiaid preifat neu asiantau gofrestru, bydd yn rhaid iddynt gael eu hachredu ar ôl bod ar gynllun hyfforddi cymeradwy. Bydd yn rhaid i asiantau ymaelodi â chorff cymeradwy, a rhaid i o leiaf ddwy ran o dair o'u staff fod wedi'u hyfforddi. Mae gennym rai pobl sy'n landlordiaid gwael yn eu hanfod. Nid ydynt yn bwriadu bod yn landlordiaid gwael, ond nid ydynt yn gwybod digon i beidio â bod, ac rwyf yn meddwl bod hwn yn gyfle i ddatrys y broblem honno. Dylai wella safonau yn y sector rhentu preifat a darparu mwy o wybodaeth am landlord i awdurdodau lleol.

Yn Abertawe, mae llawer o landlordiaid yn byw'n bell i fwrdd o Abertawe ac wedi prynu tai er mwyn buddsoddi. Nid wyf yn credu ei bod yn ormod gofyn am gael archwilio tai o ran diogelwch nwy, carbon monocsid, tân a thrydan cyn eu rhentu allan. Mae angen inni godi ymwybyddiaeth landlordiaid a thenantiaid o'u priod hawliau a'u cyfrifoldebau. Mae'r Bil hefyd yn ceisio caniatáu i gynghorau godi cyfradd treth gyngor uwch ar eiddo gwag ac mae'n caniatáu i gymdeithasau tai roi tenantiaethau sicr ac yn ymdrin â diddymu'r cymhorthdal cyfrif referniw tai, fel na chaiff cyfran o'r rhent a delir gan denantiaid y cyngor ei dychwelyd i'r Trysorlys mwyach. Mae'r Bil yn ceisio atal pobl rhag bod yn ddigartref ac yn adeiladu ar y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol i atal digartrefedd; nodwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn enghraifft o arfer gorau. Mae'r ddeddfwriaeth yn ceisio sicrhau bod mwy o bwyslais ar atal digartrefedd, estyn y cymorth sydd ar gael a gwella'r gwasanaethau i bobl nad ystyrir eu bod mewn angen blaenoriaethol, a gwella gallu awdurdodau lleol i gynnig llety diogel drwy'r sector rhentu preifat, sy'n dod yn fwyfwy pwysig wrth i nifer y tai cyngor barhau i ostwng.

The two major changes are that, from 2019, a local authority will be expected to secure accommodation for households with children even if they have been found to be intentionally homeless, but only for the first time in the past five years.

In the committee, the most contentious part of the proposed legislation was the removal of the automatic right of all former prisoners to be given housing priority. If the legislation is successful, they will be assessed in the same way as all other applicants. This is a policy that I believe is fair and just. I do not believe that, just because someone is an ex-prisoner, they should have greater rights than anyone else. Everyone's housing requirements should be assessed on their needs equally, and not on anything else. I also correct the false rumours circulating that applicants who are subject to immigration control are not eligible for assistance under the Housing Act 1996.

Y ddau newid mawr yw y bydd disgwyl i awdurdod lleol, o 2019 ymlaen, sicrhau llety ar gyfer aelwydydd â phlant hyd yn oed os ceir eu bod yn ddigartref yn fwriadol, ond dim ond am y tro cyntaf yn y pum mlynedd diwethaf.

Yn y pwyllgor, rhan fwyaf dadleuol y ddeddfwriaeth arfaethedig oedd cael gwared ar hawl awtomatig pob cyn garcharor i gael blaenoriaeth o ran tai. Os bydd y ddeddfwriaeth yn llwyddiannus, cânt eu hasesu yn yr un modd â phob ymgeisydd arall. Credaf fod y polisi hwn yn deg a chyfiawn. Nid wyf yn credu y dylai rhywun gael mwy o hawliau na phawb arall, dim ond oherwydd ei fod yn gyn garcharor. Dylid asesu gofynion pawb o ran tai'n gyfartal yn seiliedig ar eu hanghenion, ac nid ar ddim byd arall. Rwyf hefyd am gywiro'r sibrydion ffug sydd ar led nad yw ymgeiswyr sy'n destun rheolaeth mewnfudo'n gymwys i gael cymorth dan Ddeddf Tai 1996.

17:27 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mike, would you give way?

Mike, a wnewch chi ildio?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

17:27 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Certainly.

Yn sicr.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

17:27 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Do you accept that there is actually a difference between rights and need, and do you not think that people cannot have equal needs, because people obviously have different needs?

A ydych yn derbyn bod gwahaniaeth mewn gwirionedd rhwng hawliau ac anghenion, ac onid ydych yn meddwl na all anghenion pobl fod yn gyfartal, gan fod gan bobl yn amlwg anghenion gwahanol?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

17:27 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Obviously, and that is where it comes in, where you deal with everyone equally, so you just adjudicate on their needs. I think that that is a key thing: on their needs, not on where they come from.

Wrth gwrs, a dyna pam y mae angen ichi ymdrin â phawb yn gyfartal, er mwyn ichi farnu yn ôl eu hanghenion yn unig. Rwyf yn meddwl bod hynny'n beth allweddol: yn ôl eu hanghenion, nid o ble y maent yn dod.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

The intended effect is that fewer households will suffer homelessness, that there will be better prevention work and increased help for those who currently receive limited assistance, and, more importantly, choices for those facing homelessness. Unless there is an increase in the quantity of rental accommodation, then all that is happening is a different way of sharing out rental accommodation. The third major part of the legislation proposes to place a new statutory duty on local authorities to provide new Gypsy and Traveller sites where need has been identified. As we know in Swansea, if official sites are not provided, unofficial sites will be created. The legislation aims to improve the standard of accommodation and to reduce illegal sites and unauthorised encampments.

Yr effaith a fwriedir yw y bydd llai o aelwydydd yn dioddef digartrefedd, y bydd gwell gwaith atal a mwy o gymorth i'r bobl hynny sydd ar hyn o bryd yn cael cymorth cyfyngedig, ac, yn bwysicach, dewisiadau i bobl sy'n wynebu digartrefedd. Oni cheir mwy o lety rhent, yr unig beth sy'n digwydd yw ffordd wahanol o rannu llety rhent. Mae trydedd ran fawr y ddeddfwriaeth yn cynnig rhoi dyletswydd statudol newydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd lle mae angen wedi ei nodi. Fel y gwyddom yn Abertawe, oni ddarperir safleoedd swyddogol, caiff safleoedd ansyddogol eu creu. Mae'r ddeddfwriaeth yn ceisio gwella safon y llety a lleihau nifer y safleoedd anghyfreithlon a'r gwersylloedd heb ganiatâd.

The fourth major part of the legislation sets standards for rent and service charges for local authority housing, ensuring that they are clearly and separately identified. The legislation intends to further facilitate the development of co-operative housing by allowing fully mutual housing co-operatives to grant assured tenancies, protecting the interests of lenders. Housing co-operatives, which, in some European countries, comprise up to 20% of all housing, provide around 1.1% in Britain. The housing co-operative model also provides a substantial amount of accommodation in north America. With a shortage of housing in Wales, I do not believe that we can allow this potential for providing accommodation not to be used. So, I hope that everybody will support this this afternoon.

Mae pedwaredd ran fawr y ddeddfwriaeth yn gosod safonau ar gyfer taliadau rhent a gwasanaeth am dai awdurdodau lleol, gan sicrhau eu bod wedi'u nodi'n glir ac ar wahân. Bwriad y ddeddfwriaeth yw hwyluso ymhellach datblygu tai cydweithredol drwy ganiatáu i fentrau cydweithredol perchnogaeth tai cwbl gydfuddiannol roi tenantiaethau sicr, gan ddiogelu buddiannau benthydwyr. Mae mentrau cydweithredol perchnogaeth tai, sydd, mewn rhai gwledydd yn Ewrop, yn cwmpasu hyd at 20% o'r holl dai, yn darparu tuag 1.1% ym Mhrydain. Mae model y mentrau cydweithredol perchnogaeth tai hefyd yn darparu cryn dipyn o lety yng ngogledd America. Gyda phrinder tai yng Nghymru, nid wyf yn credu y gallwn ganiatáu peidio â defnyddio'r potensial hwn i ddarparu llety. Felly, rwyf yn gobeithio y bydd pawb yn cefnogi hyn y prynhawn yma.

17:29

## Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I appreciate that this debate was tabled to examine the general principles of the Housing (Wales) Bill, but it seems in order to me, anyway, to raise the proposition that it is a general principle of all Bills that they be drafted in a way that is clear as to their intention and sufficiently detailed to empower those entitled under the Bill to carry out identifiable activity to implement that intention.

It is fair to say that the draft Bill, as it currently stands, has taken far fewer liberties with the concept of framework Bills than some of the other legislation that has come before us recently, and I think that that is worth acknowledging in the Chamber.

However, the Constitutional and Legislative Affairs Committee, as we heard from Simon Thomas earlier, has some residual concerns about the current draft Bill. I hope that the Minister sees my reinforcement of some of those concerns at this very early stage as a helpful reminder that Members are switched on to the quality of legislation as well as its policy content and that we will be watching the progress of the Bill from that perspective, too.

I do not propose to go through everything that Simon Thomas has already explained, but I would like to draw Members' attention to just two of the Constitutional and Legislative Affairs Committee's recommendations—recommendations 3 and 6—which make specific reference to a lack of detail on the face of the Bill. In the first instance, the recommendation is to improve the Bill by applying the affirmative procedure to regulations and the second is a recommendation that the Minister should table an amendment to the face of the Bill itself to ensure that the intention behind section 95(2) is more clearly identifiable. Recommendation 3 reflects anxiety that the Bill contains virtually no detail on its face in respect of fees, neither through section 31 nor the related regulation-making powers under section 7(1)(c) and 10(2)(c). As an important area of policy, information about the principles surrounding the use of fees needs to be more clearly expressed on the face of the Bill and the related regulations, therefore being open to more robust scrutiny.

Gwn fod y ddatl hon wedi'i chyflwyno i archwilio egwyddorion cyffredinol Bil Tai (Cymru), ond mae'n ymddangos yn briodol i mi, beth bynnag, codi'r cynnig y dylai fod yn egwyddor gyffredinol i bob Bil gael ei ddrafftio mewn ffordd sy'n glir ynghylch ei fwriad ac yn ddigon manwl i rymuso'r bobl hynny sydd â hawl dan y Bil i gynnal gweithgarwch adnabyddadwy i weithredu'r bwriad hwnnw.

Mae'n deg dweud bod y Bil drafft, fel y mae ar hyn o bryd, wedi bod yn llawer llai eofn â chysyniad Biliâu fframwaith na rhai o'r darnau eraill o ddeddfwriaeth sydd wedi dod ger ein bron yn ddiweddar, ac rwyf yn credu ei bod yn werth cydnabod hynny yn y Siambr.

Fodd bynnag, mae gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, fel y clywsom gan Simon Thomas yn gynharach, rai pryderon o hyd ynghylch y Bil drafft hwn. Rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn gweld y ffaith fy mod yn ategu rhai o'r pryderon hynny mor gynnar â hyn yn ddefnyddiol er mwyn ei atgoffa bod yr Aelodau'n poeni am ansawdd deddfwriaeth yn ogystal â'i chynnwys polisi, ac y byddwn yn cadw golwg ar hynt y Bil o'r safbwynt hwnnw hefyd.

Nid wyf yn bwriadu mynd drwy bopeth y mae Simon Thomas eisoes wedi'i egluro, ond hoffwn dynnu sylw'r Aelodau at ddau o argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol—argymhellion 3 a 6—sy'n cyfeirio'n benodol at ddiffyg manylder ar wyneb y Bil. Yn y lle cyntaf, yr argymhelliad yw y dylid gwella'r Bil drwy ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer rheoliadau a'r ail argymhelliad yw y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i wyneb y Bil ei hun er mwyn sicrhau ei bod yn haws adnabod y bwriad y tu ôl i adran 95(2). Mae argymhelliad 3 yn adlewyrchu'r pryder nad yw'r Bil yn cynnwys fawr ddim manylion ar ei wyneb ynglŷn â ffoedd; drwy adran 31 na'r pwerau cysylltiedig i wneud rheoliadau dan adran 7(1)(c) a 10(2)(c). Mae hwn yn faes polisi pwysig, ac mae angen i wybodaeth am yr egwyddorion sy'n gysylltiedig â defnyddio ffoedd fod wedi'i mynegi'n gliriach ar wyneb y Bil a'r rheoliadau cysylltiedig; byddai hynny'n eu gwneud yn agored i graffu mwy cadarn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Recommendation 6 observes that section 95(2) appears to permit Welsh Ministers to disregard their own guidance. Minister, I appreciate that you gave evidence to the Constitutional and Legislative Affairs Committee that this is not your intention. In which case, perhaps the section could be re-drafted so that there is no mistake about its intention and that there is absolute clarity about how that section will be used in practice. A revised explanatory memorandum would not cover that problem, as explanatory memoranda are not part of the Bill, but neither is evidence to the committee, so I hope that you will take that into account, Minister.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 17:32.*

### **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will also raise the entirely separate issue of cost. We are all circumspect about claims that this new legislation is cost-neutral. The Bill requires proactive searching on the part of local authorities to track down landlords who do not want to register. I do not think that it is just a matter of taking successful enforcement action against recalcitrant landlords. There is the question of unsuccessful action or limited cost recovery—or perhaps, more importantly, the cost of the initial detective work in identifying those who are determined to be hidden. I would be grateful, Minister, if you could look at this particular issue realistically, especially as local authorities have to make savings, so taking on new, obligatory expenditure is perhaps unlikely to prove easy.

Mae argymhelliad 6 yn nodi ei bod yn ymddangos bod adran 95(2) yn caniatáu i Weinidogion Cymru anwybyddu eu canllawiau eu hunain. Weinidog, gwn eich bod wedi rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol nad dyna yw eich bwriad. Os felly, efallai y gellid ailddrafftio'r adran fel nad oes modd camgymryd ei bwriad ac er mwyn sicrhau bod eglurder llwyr ynghylch sut y caiff yr adran honno ei defnyddio'n ymarferol. Ni fyddai memorandwm esboniadol diwygiedig yn datrys y broblem honno, gan nad yw memoranda esboniadol yn rhan o'r Bil, ond nid yw tystiolaeth i'r pwyllgor ychwaith, felly rwyf yn gobeithio y byddwch yn ystyried hynny, Weinidog.

*The Presiding Officer took the Chair at 17:32.*

Hefyd, codaf fater y gost, sy'n gwbl ar wahân. Rydym i gyd yn wyliadwrus am honiadau bod y ddeddfwriaeth newydd hon yn niwtral o ran cost. Mae'r Bil yn mynnu bod awdurdodau lleol yn mynd ati'n rhagweithiol i ddod o hyd i landlordiaid nad ydynt am gofrestru. Nid wyf yn credu mai dim ond mater o gymryd camau gorfodi llwyddiannus yn erbyn landlordiaid ystyfnig yw hyn. Mae angen ystyried gweithredu aflwyddiannus neu adennill costau cyfyngedig—neu efallai, yn bwysicach, cost y gwaith ditectif cychwynnol i adnabod y rhai sy'n benderfynol o aros ynghudd. Byddwn yn ddiolchgar, Weinidog, pe gallech edrych ar y mater penodol hwn yn realistig, yn enwedig gan fod yn rhaid i awdurdodau lleol wneud arbedion, sy'n ei gwneud yn annhebygol, efallai, y bydd yn hawdd iddynt ysgwyddo gwariant newydd, gorfodol.

17:33

### **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First of all, I will say that I am pleased to be able to take part in this debate on the general principles of the Housing (Wales) Bill. It seems to have come a long way, but I realise that there is another stage to the journey. I think that the Bill deals with many of the problems that we face here in Wales—from homelessness to the Welsh quality housing standard. Most importantly, it will help protect our most vulnerable citizens and improve their health and wellbeing. For example, the proposals mean that the Welsh quality housing standard, which has been much talked about for many years, will be statutory for local authorities, giving consistency among housing associations. The housing revenue account subsidy will be abolished, allowing local authorities to retain and use rental income. Again, this is something that has been debated in local authorities for a long time. Fully mutual co-operative housing associations can use the assured tenancy regime to provide more security for members and can enable more co-operative housing to be developed. This will help with the supply of affordable housing. Many people have mentioned the ability to charge up to 150% of the standard council tax on properties empty for more than 12 months. I agree that perhaps it should be looked at in an incremental way, but I note that this is an issue that is raised with me in my constituency on a regular basis and it should bring long-term empty homes back into use.

Yn gyntaf oll, rwyf am ddweud fy mod yn falch o allu cymryd rhan yn y ddadl hon am egwyddorion cyffredinol Bil Tai (Cymru). Mae'n ymddangos ei fod wedi dod yn bell, ond rwyf yn sylweddoli bod cam arall i'r daith. Credaf fod y Bil yn ymdrin â llawer o'r problemau sy'n ein hwynebu yma yng Nghymru—o ddigartrefedd i safon ansawdd tai Cymru. Yn bwysicaf oll, bydd yn helpu i amdiffyn ein dinasyddion mwyaf agored i niwed a gwella eu hiechyd a'u lles. Er enghraifft, mae'r cynigion yn golygu bod safon ansawdd tai Cymru, sydd wedi bod yn destun llawer o siarad ers blynyddoedd lawer, yn statudol i awdurdodau lleol, gan roi cysondeb ymhlith cymdeithasau tai. Caiff y cymhorthdal cyfrif refeniw tai ei ddiddymu, gan alluogi awdurdodau lleol i gadw incwm rhent a'i ddefnyddio. Unwaith eto, mae hyn yn rhywbeth sydd wedi bod yn destun dadlau mewn awdurdodau lleol ers amser maith. Gall cymdeithasau tai cydweithredol cwbl gydfuddiannol ddefnyddio'r gyfundrefn tenantiaethau sicr i roi mwy o sicrwydd i aelodau a gall hynny eu galluogi i ddatblygu mwy o dai cydweithredol. Bydd hyn yn helpu â chyflenwad tai fforddiadwy. Mae llawer o bobl wedi sôn am y gallu i godi hyd at 150% o'r dreth gyngor safonol ar eiddo sy'n wag ers dros 12 mis. Rwyf yn cytuno efallai y dylid edrych ar hynny mewn ffordd gynyddol, ond sylwaf ei fod yn fater sy'n cael ei godi â mi yn fy etholaeth yn rheolaidd a dylai olygu y gellir ailddechrau defnyddio cartrefi sy'n wag yn y tymor hir.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I would like to focus mainly on the private rented sector and the widespread support in the housing community for a mandatory licensing and registration scheme. The Chartered Institute of Housing Cymru, Shelter Cymru and the National Union of Students are among those giving support. The first two recently published an open letter in the media, registering their support for a registration scheme because it will help drive forward a sector providing homes for an increasing number in Wales, and give a clear signal that the Welsh Government is determined to improve standards, build capacity and tackle management issues. The private sector is vital in Wales. Children make up a significant number in households. One in six tenants are over 55, and more than half of them live alone. This is not the stereotypical view of tenants, who are sometimes thought of as being young and child-free.

Shelter Cymru's recent report, together with British Gas, 'Fit to Rent?', painted a shocking picture for renters, with nearly two thirds of tenants experiencing some kind of poor conditions in the last year, from damp and electrical hazards to gas leaks. One in 10 say that their health is affected due to repairs being ignored and poor conditions. This has to stop. Steps have to be taken to see this stop in the future. The report gives compelling evidence of why standards must be improved, and states that compulsory licences can help targets where they are most needed. The Chartered Institute of Housing Cymru is among those saying that the proposals are timely and right, and this principle should be supported. Citizens Advice Cymru urged that mandatory registration and licensing be supported.

On homelessness, there will be a much greater emphasis on prevention in the first place, and I think that Jocelyn Davies said the same thing: this is vital. It is something that, again, has been talked about here in the Chamber over the years, and it should long ago have been embedded into the housing system.

Finally, Minister, you will be aware that, in the last quarter, figures for those presenting to local authorities as homeless went up, but acceptances went down. Could you ensure that these figures are monitored so that no-one who is genuinely homeless is being rejected, but rather that the change in number reflects the preventative approach?

17:37

## **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very pleased to speak in this debate today on the principles of the Housing (Wales) Bill. I particularly welcome the proposal for a mandatory licensing scheme for private rented sector landlords, and I hope that this will result in improved standards. I also welcome the emphasis on the prevention of homelessness. One of the biggest traumas that anyone can go through is losing their home, and with the primary aim in the Bill of preventing children experiencing homelessness, I think that that is a very good part of the Bill.

Hoffwn ganolbwyntio'n bennaf ar y sector rhentu preifat a'r gefnogaeth eang yn y gymuned dai i gynllun trwyddedu a chofrestru gorfodol. Mae Sefydliad Tai Siartredig Cymru, Shelter Cymru ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr ymhlith y rhai sy'n cefnogi'r cynllun. Cyhoeddodd y ddau gyntaf lythyr agored yn y cyfryngau'n ddiweddar, i gofnodi eu cefnogaeth i gynllun cofrestru gan y bydd yn helpu i sbarduno sector sy'n darparu cartrefi i nifer cynyddol yng Nghymru, ac yn rhoi arwydd clir fod Llywodraeth Cymru'n benderfynol o wella safonau, meithrin gallu ac ymdrin â materion rheoli. Mae'r sector preifat yn hanfodol yng Nghymru. Mae plant yn niferoedd sylweddol mewn aelwydydd. Mae un o bob chwech o denantiaid dros 55 oed, ac mae dros eu hanner yn byw ar eu pen eu hunain. Nid dyma'r darlun ystrydebol o denantiaid, sydd weithiau'n cael eu hystyried yn bobl ifanc heb blant.

Roedd adroddiad diweddar Shelter Cymru, ynghyd â Nwy Prydain, 'Fit to Rent?', yn creu darlun brawychus i'r rhai sy'n rhentu; roedd bron i ddwy ran o dair o denantiaid wedi profi rhyw fath o amodau gwael yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o leithder a pheryglon trydanol i ollyngiadau nwy. Mae un o bob 10 yn dweud bod anwybyddu gwaith atgyweirio ac amodau gwael yn effeithio ar eu hiechyd. Mae'n rhaid i hyn ddod i ben. Mae'n rhaid cymryd camau i atal hyn yn y dyfodol. Mae'r adroddiad yn rhoi tystiolaeth gref ynghylch pam y mae'n rhaid gwella safonau, ac yn nodi y gall trwyddedau gorfodol helpu targedau lle mae eu hangen fwyaf. Mae Sefydliad Tai Siartredig Cymru ymhlith y rhai sy'n dweud bod y cynigion yn amserol ac yn iawn, a dylid cefnogi'r egwyddor hon. Mae Cyngor ar Bopeth Cymru wedi galw am gefnogaeth i gofrestru a thrwyddedu gorfodol.

O ran digartrefedd, bydd mwy o bwyslais o lawer ar atal yn y lle cyntaf, a chredaf fod Jocelyn Davies wedi dweud yr un peth: mae hyn yn hanfodol. Mae'n rhywbeth yr ydym, unwaith eto, wedi siarad amdano yma yn y Siambr dros y blynyddoedd, a dylai fod wedi'i ymgorffori yn y system dai amser maith yn ôl.

Yn olaf, Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod ffigurau nifer y bobl a ddywedodd wrth awdurdodau lleol eu bod yn ddigartref wedi codi yn y chwarter diwethaf, ond bod derbyniadau wedi mynd i lawr. A allech sicrhau bod y ffigurau hyn yn cael eu monitro fel nad oes neb sy'n wirioneddol ddigartref yn cael ei wrthod, ond yn hytrach bod y newid yn y niferoedd yn adlewyrchu'r ymagwedd ataliol?

Rwyf yn falch iawn o gael siarad yn y ddadl hon heddiw am egwyddorion Bil Tai (Cymru). Rwyf yn croesawu'n arbennig y cynnig ar gyfer cynllun trwyddedu gorfodol i landlordiaid yn y sector rhentu preifat, ac yn gobeithio y bydd hyn yn arwain at well safonau. Rwyf hefyd yn croesawu'r pwyslais ar atal digartrefedd. Mae colli cartref yn un o'r trawmâu mwyaf y gall rhywun fynd trwyddo, a chan mai nod y Bil yn anad dim yw atal plant rhag profi digartrefedd, rwyf yn credu bod honno'n rhan dda iawn o'r Bil.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I have got some concerns. I hope that the issue of intentionality can be looked at in greater depth as the Bill progresses. I am also concerned about the removal of priority need for prisoners. However, I am particularly pleased that the legislation includes a duty on local authorities to provide sites for Gypsies and Travellers.

Mae llawer o Sipsiwn a Theithwyr yn cael bywyd caled. I lawer, nid oes sicrwydd. Nid oes digon o safleoedd ar gyfer eu carafannau yng Nghymru, ac mae hyn yn broblem fawr i bawb.

Since the duty was removed from local authorities by the Conservative Government in the Criminal Justice and Public Order Act 1994, there have been very few sites at all built over the whole of the UK. One of the major reasons for this is the difficulty that local authorities find in getting acceptance for proposed sites by local settled communities. Even where the local authorities have recognised the need, they are not able to get those plans through, or feel they cannot carry on with them when there is consistent opposition. We have seen that in many local authorities in Wales recently, but this has been a major problem for many years, and I think that it is a really big step forward that a duty will now be imposed on local authorities to provide Gypsy and Traveller sites where the need exists.

We know that there has been an increase in the number of Gypsies and Travellers living in Wales, and we also know that the existing sites are very overcrowded, because most of the growth in the numbers of Gypsies and Travellers has been the growth of families on the existing sites. So, most of the sites that exist are very overcrowded. Twice a year there is a Gypsy and Traveller count, and when this count is made, it takes into account not only the local-authority-approved sites, but also caravans that are unlawfully or illegally parked. They are part of the count because they are classed as people's homes. However, the count does not take into account the number of Gypsies and Travellers who live in houses, and I wonder whether the Minister has any thoughts on how we could address that issue. Due to the struggle to continue their traditional way of life, many Gypsies and Travellers live in houses, and many suffer from depression because they cannot continue that way of life. Gypsies and Travellers often have a cultural aversion to living in bricks-and-mortar homes; they have told me that they feel trapped and confined in them, and I hope that there is some way of addressing that issue as well.

So, I think that it is very welcome that this particular bit of the legislation is going through, and I hope that it will give local authorities the impetus and strength to ensure that they make adequate provision in their areas. I think that it is a matter of great pride for the Welsh Government that it is putting this in the Bill, and I think that it is a sign of what you can do in a devolved progressive Assembly with a Government that wants to be humane and make sure that all of the citizens in our country are treated with equality and compassion.

Mae gennyf rai pryderon. Rwyf yn gobeithio y gellir edrych ar fwriad yn fwy manwl wrth i'r Bil fynd yn ei flaen. Rwyf hefyd yn bryderus am gael gwared ar angen blaenoriaethol ar gyfer carcharorion. Fodd bynnag, rwyf yn arbennig o falch bod y ddeddfwriaeth yn cynnwys dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

Many Gypsies and Travellers have difficult lives. For many, there is no security. There are not enough caravan sites in Wales, and this is a major problem for everyone.

Ers i'r ddyletswydd gael ei chymryd oddi ar awdurdodau lleol gan y Llywodraeth Geidwadol yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, ychydig iawn o safleoedd a adeiladwyd o gwbl ledled y DU. Un o'r prif resymau am hyn yw'r anhawster y mae awdurdodau lleol yn ei wynebu o ran perswadio cymunedau sefydlog lleol i dderbyn safleoedd arfaethedig. Hyd yn oed pan fo'r awdurdodau lleol wedi cydnabod yr angen, nid ydynt yn gallu bwrw ymlaen â'r cynlluniau hynny, neu maent yn teimlo na allant barhau â hwy yn wyneb gwrthwynebiad cyson. Rydym wedi gweld hynny mewn llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru'n ddiweddar, ond mae hyn wedi bod yn broblem fawr ers blynyddoedd lawer, ac rwyf yn meddwl ei fod yn gam mawr iawn ymlaen y bydd dyletswydd yn awr yn cael ei rhoi ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr lle bo angen.

Rydym yn gwybod y bu cynnydd yn nifer y Sipsiwn a'r Teithwyr sy'n byw yng Nghymru, ac rydym hefyd yn gwybod bod y safleoedd sydd gennym yn orlawn, gan fod y rhan fwyaf o'r twf yn nifer y Sipsiwn a'r Teithwyr wedi digwydd wrth i deuluoedd dyfu ar y safleoedd presennol. Felly, mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd sy'n bodoli'n orlawn. Ddwywaith y flwyddyn, caiff Sipsiwn a Theithwyr eu cyfrif, a phan wneir y cyfrif hwn, ystyrir carafannau sydd wedi'u parcio'n anghyfreithlon yn ogystal â'r safleoedd a gymeradwywyd gan awdurdodau lleol. Maent yn rhan o'r cyfrif gan eu bod yn cael eu hystyried yn gartrefi i bobl. Fodd bynnag, nid yw'r cyfrif yn ystyried nifer y Sipsiwn a'r Teithwyr sy'n byw mewn tai, a tybed a oes gan y Gweinidog syniadau am sut y gallem ymddrin â'r mater hwnnw. Oherwydd y frwydr i barhau â'u ffordd draddodiadol o fyw, mae llawer o Sipsiwn a Theithwyr yn byw mewn tai, ac mae llawer yn dioddef o iselder oherwydd na allant barhau â'r ffordd honno o fyw. Mae gan Sipsiwn a Theithwyr yn aml wrthwynebiad diwylliannol i fyw mewn cartrefi brics a mortar; maent wedi dweud wrthyf eu bod yn teimlo'n gaeth neu wedi'u carcharu ynddynt, ac rwyf yn gobeithio y bydd rhyw ffordd o ymddrin â hynny hefyd.

Felly, rwyf yn croesawu'n fawr y ffaith bod y darn penodol hwn o'r ddeddfwriaeth yn mynd trwodd, ac rwyf yn gobeithio y bydd yn rhoi hwb a chryfder i awdurdodau lleol i sicrhau bod ganddynt ddarpariaeth ddigonol yn eu hardaloedd. Credaf y dylai Llywodraeth Cymru fod yn falch iawn ei bod yn rhoi hyn yn y Bil, ac rwyf yn meddwl ei fod yn dangos yr hyn y gallwch ei wneud mewn Cynulliad datganoledig blaengar â Llywodraeth sydd am fod yn drugarog a gwneud yn siŵr bod holl ddinasyddion ein gwlad yn cael eu trin yn gyfartal a chydha thrugaredd.

Finally, I think that it is also important to make the point that Mike Hedges made, which is that if you do not get official sites there will be unofficial sites, and that that will lead to problems for the whole population. Also, transit sites are needed, and I certainly welcome the 100% provision for new sites and site refurbishment. I hope that the Minister will find that he has enough money to fulfil the need that we know is there.

Yn olaf, rwyf yn meddwl ei bod hefyd yn bwysig gwneud y pwynt a wnaeth Mike Hedges, sef os nad oes gennych safleoedd swyddogol, y bydd gennych safleoedd answyddogol, a bydd hynny'n arwain at broblemau i'r boblogaeth gyfan. Hefyd, mae angen safleoedd dros dro, ac rwyf yn sicr yn croesawu'r ddarpariaeth 100% ar gyfer safleoedd newydd ac ailwampio safleoedd. Rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn gweld bod ganddo ddigon o arian i ddiwallu'r angen yr ydym yn gwybod ei fod yn bodoli.

17:41

## Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n croesawu'r ddadl hon y prynhawn yma, hefyd. Beth sydd i'w groesawu'n arbennig yn y ddeddfwriaeth newydd hon yw ein bod yn cydnabod y gwahanol ffactorau sy'n creu lles a chymunedau ffyniannus ac yn defnyddio'r pwerau hyn o ran tai i ddangos nad yw hynny wedi'i gyfyngu i gael to uwch eich pen. Fel y dywedodd Mike Hedges yn gynharach, mae cael cartref diogel ac o safon yn cyfrannu at iechyd, addysg ac yn lleihau tlodi—dim ond fel cychwyn cyntaf.

Mae'r Bil yn ategu gweithred ac agenda Llywodraeth Lafur Cymru, ac mae wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion tai—mwy o dai, mwy o ddewis, tai o ansawdd gwell a gwell gwasanaethau tai cysylltiedig. Nid yw'r gweithredu'n gyfyngedig i'r Bil hwn—mae'n cynnwys y cynllun Troi Tai'n Gartrefi a thargedau cartrefi fforddiadwy gyda chefnogaeth buddsoddiad.

Mae'n Fil a groesewir yn gyffredinol ledled y sector. Mae Sefydliad Siartredig Tai Cymru yn cyfeirio at atebion amrywiol wedi'u creu yng Nghymru, fel y dywedodd Julie Morgan yn gynharach. Mae wyth Rhan y Bil i'w croesawu yn eu nod trosfwaol o sicrhau bod mwy o bobl ledled Cymru yn cael mynediad at gartrefi fforddiadwy o safon. Byddaf yn gwneud sylwadau ar rai o'r Rhannau hyn yn unig.

Yn gyntaf, o ran cofrestru landlordiaid, fe nodir hyn yn y memorandwm esboniadol:

'Mae sector rhentu preifat cryf yn rhan hanfodol o farchnad dai sy'n gweithio'n dda.'

Mae Cyngor ar Bopeth, yn ei gefnogaeth at gofrestr orfodol a'r system drwyddedu, yn adrodd ei fod yn dlywed gan nifer anghymesur o denantiaid preifat sy'n gofyn am gyngor a gwybodaeth.

Mae'r sector rhentu preifat wedi bodoli erioed, a bydd yn fwyfwy pwysig ar gyfer Llanelli. Mae ganddo swyddogaeth graidd yn darparu tai i'r rhai sydd ddim yn ceisio perchnogaeth ac i rai o'n trigolion mwyaf bregus, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd gyfredol. Gyda datblygiad y dinas-ranbarthau, rwy'n teimlo y bydd pwyslais mwy fyth ar dai yn Llanelli, o ran perchnogaeth a rhentu.

I also welcome this debate this afternoon. What is particularly welcome in this new legislation is that we recognise the various factors that generate wellbeing and prosperous communities. As Mike Hedges said earlier, having a safe home of quality contributes to health, education and reduces poverty—and that is just for starters.

The Bill complements the wider work and agenda of the Welsh Labour Government, and it has been designed to meet housing needs—more homes, more choice, better quality homes and better housing-related services. The implementation is not limited to this Bill—it includes the Houses into Homes initiative and affordable home targets, backed by investment.

It is a Bill that is generally welcomed throughout the sector. The Chartered Institute of Housing Cymru refer to diverse, Welsh-crafted solutions, as Julie Morgan said earlier. The eight Parts of the Bill are to be welcomed in their overarching aim to ensure that more people throughout Wales have access to a decent and affordable home. I will comment on a few of these Parts.

First, in terms of landlord registration, it is noted in the explanatory memorandum that

'A strong private rented sector is an essential part of a well functioning housing market.'

Citizens Advice, in its support for a mandatory register and licensing system, reports that it receives a disproportionate number of private tenants seeking advice and guidance.

The private rented sector has always been and will continue to be increasingly important for Llanelli. It has a core role in providing housing to those not entering into ownership and to some of our most vulnerable, especially in this current economic climate. With the development of city regions, I feel that there will be an even bigger focus on housing in Llanelli, in terms of ownership and renting.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Yn ôl y cyfrifiad diweddaraf, nifer yr aelwydydd rhent preifat, gan landlord neu asiantaeth, yn etholaeth Llanelli yw 4,000. Mae'r Bil yn sôn am drwyddedu dewisol o dan Ddeddf Tai 2004, sydd eisoes ar waith yn ward Tyisha yn Llanelli. Gyda dwbl cyfartaledd sir Gâr, mae gan Dyisha y nifer uchaf o dai rhent preifat. Mae'r cynllun yn caniatáu mwy o reolaeth i'r cyngor dros wella rheolaeth tai mewn ardaloedd sydd â lefelau uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Awgryma'r adborth lleol ar hyn ac ar y polisi o osod tai mewn modd sensitif ei bod yn gwneud cynnydd da wrth gyflawni ei nodau cyffredinol a bod trigolion lleol yn gefnogol.

Yn ail, o ran cartrefi gwag, fel y gwnaed yn glir, mae gan dai presennol rôl hanfodol i'w chwarae mewn darpariaeth tai. Eto, mae gan sir Gaerfyrddin tua 2,000 o gartrefi gwag. Fel y mae'r duedd ledled Cymru, gellir dwyn y rhan fwyaf ohonynt at safon foddhaol, ac mae'r cyngor lleol dan arweiniad Llafur wedi gweithredu i ddod â'r tai yn ôl i ddefnydd drwy gefnogaeth fuddsoddiad gan Lywodraeth Llafur Cymru o'r gronfa Troi Tai'n Gartrefi.

Mewn cwestiwn diweddar i'r Gweinidog tai, gofynnais yn benodol am unedau gwag uwchben siopau yng nghanol tref Llanelli. Yn ei ymateb, dywedodd bod Llanelli'n gymwys ar gyfer y rownd nesaf o arian Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Rwy'n edrych ymlaen at y broses nesaf sydd ar y gweill.

Gwyddom bod cartrefi gwag yn gallu denu fandaliaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn ogystal â pheidio ychwanegu dim i'r cymunedau. Rwy'n credu yn y cynnig i ganiatáu i awdurdodau lleol godi tâl o 50% ychwanegol o'r dreth gyngor ar dai sydd wedi bod yn wag am dros flwyddyn. Mae tai yn fy etholaeth sydd wedi bod yn wag am ymhell y tu hwnt i'r cyfnod o flwyddyn. Mewn gwirionedd, rwyf yn ymwybodol o un y credir iddo fod yn wag am bron 20 mlynedd. Rwyf yn gobeithio y bydd y tâl ychwanegol yn cael ei godi ar bobl sydd yn berchen ar dai tebyg.

Yn olaf, rwyf am droi at safonau. Mae sir Gâr yn un o'r 11 awdurdod lleol yng Nghymru i gadw ei stoc tai. Ymwelodd y Gweinidog â Chydweli yn fy etholaeth yn ddiweddar i agor y byngalos newydd yn Heol Losin Du. Maen nhw'n darparu tai fforddiadwy ac o ansawdd da. Roeddwn yn falch o sylwadau'r Gweinidog yn adleisio arloesedd a chreadigrwydd sir Gâr. Fe gyfeiriodd at y sir fel yr enghraifft orau o gyngor a oedd yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau. Mae'n werth ychwanegu bod y byngalos yn cael eu hadeiladu i fod yn effeithlon o ran ynni, ac, fel rhan o raglen safon tai sir Gaerfyrddin, maent wedi cyflogi adeiladwyr lleol a dros 200 o brentisiaid.

Rwyf yn credu bod y Bil hwn yn dod â sawl gweithred at ei gilydd i gyrraedd ein hamcanion o dai boddhaol a fforddiadwy. Rwyf yn falch o groesawu'r egwyddorion cyffredinol y prynhawn yma.

According to the latest census results, the number of private rented households, rented by landlords or letting agency, in the Llanelli constituency is 4,000. The Bill mentions selective licensing under the 2004 Act, which is already in place in the Tyshia ward of Llanelli. At double the Carmarthenshire average, Tyshia has the highest number of private rented properties. The scheme allows the council greater control over private rented landlords and improves the management of properties in areas with high levels of anti-social behaviour. Local feedback on this and on the local and sensitive let policy suggests that it is making good progress in achieving its general aims and that local residents are supportive.

Secondly, on empty homes, as has been made clear, existing properties have a vital role to play in housing provision. Again, Carmarthenshire has around 2,000 empty homes. As is the trend throughout Wales, most can be brought up to a decent standard, and the Labour-led council has been taking action to bring the properties back into use, through the support of Welsh Labour Government investment via the Houses into Homes fund.

In a recent question to the Minister for housing, I asked specifically about empty units above shops in Llanelli town centre. In his response, he said that Llanelli was eligible for the next round of Vibrant and Viable Places funding. I am looking forward to seeing the process that is currently in the pipeline.

We know that empty homes can attract vandalism and anti-social behaviour and that they do not add anything to communities. I support the proposal to allow local authorities to charge an additional 50% of council tax on properties that have been vacant for more than a year. There are properties in my constituency that have been vacant for far longer than a year. In fact, I am aware of one that is thought to have been vacant for almost 20 years. I would therefore hope that an additional charge will be levied on people who own these properties.

Finally, I want to turn to standards. Carmarthenshire is one of the 11 local authorities in Wales to retain its housing stock. The Minister visited Kidwelly in my constituency recently to open the new bungalows on Heol Losin Du. These bungalows provide affordable housing that is of good quality. I was pleased to hear the Minister's comments echoing the innovation and creativity of Carmarthenshire, citing it as the best example of a council making best use of its resources. It is worth adding that the bungalows are built to be energy efficient, and, as part of Carmarthenshire's home standards programme, the council has employed local builders and more than 200 apprentices.

I believe that this Bill will bring together a number of actions to achieve our desired aims of providing decent and affordable homes. I am pleased to welcome the general principles this afternoon.



I call on the Minister for Housing and Regeneration to reply to the debate—Carl Sargeant.

Galwaf ar y Gweinidog Tai ac Adfywio i ymateb i'r ddatl—  
Carl Sargeant.

17:47

## **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration*

Thank you, Presiding Officer. I thank Members for their very helpful contributions this afternoon in terms of shaping the way forward for the opportunity to put amendments by Government to the future Bill.

I would like to start with Christine Chapman's contribution from the committee's perspective. The scrutiny sessions were very helpful. I congratulate the committee because not only did it take evidence from professional organisations, but, importantly, it took evidence from service users and tenants, so as to evidence both sides of the issue around the very important parts of the Bill.

We have listened very carefully in terms of the evidence scope and, again, we presented the Bill at Stage 1 with the raft of evidence that we have taken, moving forward to draft the Bill following the White Paper.

Having listened carefully to the issues that the Member raised regarding the funding and registration of the licensing scheme, we hope that we are in a position to lay amendments in order to address those issues. We have had further conversations with the Welsh Local Government Association and leading authorities on how this will be implemented, and they are much more comfortable in the process of looking at how these proposals will be funded.

On the issue of homelessness, many Members raised this issue, and two areas in particular. One area was around prisoners and the other was vulnerability, which both merge. To pick up some of the actions, first of all around the changes to priority need, we have looked at this very hard and we recognise the committee's concerns and those of third sector stakeholders around the vulnerability tests applied to people going through the homelessness process. I have made a commitment to committee that I am prepared to insert on the face of the Bill the issue around the Pereira test and the description of physical and mental illness. I will be more than happy to lay an amendment at the appropriate time to deliver on that.

Diolch, Lywydd. Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau defnyddiol iawn y prynhawn yma sydd wedi llywio'r ffordd ymlaen o ran rhoi cyfle i'r Llywodraeth i wneud gwelliannau i'r Bil yn y dyfodol.

Hoffwn ddechrau â chyfraniad Christine Chapman o safbwynt y pwyllgor. Roedd y sesiynau craffu'n ddefnyddiol iawn. Rwyf yn llongyfarch y pwyllgor oherwydd, yn ogystal â chymryd tystiolaeth gan sefydliadau proffesiynol, yn bwysig iawn, bu'n cymryd tystiolaeth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a thenantiaid, er mwyn dangos dwy ochr y ddatl ynghylch rhannau pwysig iawn y Bil.

Rydym wedi gwrando'n ofalus iawn o ran cwmpas y dystiolaeth ac, unwaith eto, cyflwynwyd y Bil gennym yng Nghyfnod 1 gyda'r holl dystiolaeth yr ydym wedi'i chymryd, gan symud ymlaen i ddrafftio'r Bil yn dilyn y Papur Gwyn.

Ar ôl gwrando'n ofalus ar y materion a gododd yr Aelod ynglŷn ag ariannu a chofrestru'r cynllun trwyddedu, rydym yn gobeithio ein bod mewn sefyllfa i wneud gwelliannau i ymdrin â'r materion hynny. Rydym wedi cael sgysiau pellach â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau blaenllaw ynghylch sut i roi hyn ar waith, ac maent yn llawer mwy cyfforddus yn y broses o edrych ar sut y caiff y cynigion hyn eu hariannu.

O ran digartrefedd, cododd llawer o Aelodau'r mater hwn, a dau faes yn benodol. Un oedd carcharorion a'r llall oedd bregusrwydd, sydd ill dau'n gydgysylltiedig. A chodi rhai o'r camau gweithredu, yn gyntaf o ran y newidiadau i angen blaenoriaethol, rydym wedi edrych ar hyn yn ofalus iawn ac rydym yn cydnabod pryderon y pwyllgor a phryderon rhanddeiliaid yn y trydydd sector ynglŷn â'r profion bregusrwydd a gynhelir ar bobl sy'n mynd drwy'r broses ddigartrefedd. Rwyf wedi gwneud ymrwymiad i'r pwyllgor fy mod yn barod i roi ar wyneb y Bil y mater ynghylch y prawf Pereira a'r disgrifiad o salwch corfforol a meddyliol. Byddaf yn fwy na pharod i gyflwyno gwelliant ar yr adeg briodol i wneud hynny.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

As to the discussion around prisoners, Peter Black, Jocelyn Davies and many others raised this issue. I know that others have raised it too. I will be very clear to Members in the Chamber today. Many Members have assumed that the removal of priority-need status will automatically result in a former prisoner no longer being able to access accommodation. This, most certainly, is not the case. The proposals in the housing Bill will create a new framework for local authorities to work with other services to help prevent and relieve homelessness for everyone, including former prisoners. The research suggests that the overreliance on legislation has diluted the service provision, creating problems with unsuitable accommodation moving forward. Therefore, I recognise the issue that Members raised around the whole issue of reoffending et cetera, but the issue, for me, is about the housing need of an individual, whether that be a prisoner or not. The vulnerability aspect of this will be taken into consideration.

Before I take an intervention, let me give Members a flavour of the interventions that we are working on currently. I told the committee about my proposal to start a prisoner accommodation and resettlement working group. We started that and we are mapping the existing services to identify best practice, including opportunities for stakeholders to feed back their experiences. The group is made up of many third sector organisations and representatives from local government and the criminal justice sector.

We are looking at female-specific projects to help to identify and tackle systematic barriers to full engagement with the services that they currently deal with. Also, we are looking at co-ordinated pathways for all prisoners, in terms of a pilot scheme in Parc prison.

My intention is to develop a national standard for support to ensure that all prisoners with housing need and/or who are vulnerable are identified and receive a consistent pathway going through this process, to enable them to access suitable housing. I will take an intervention, if the Member still wishes me to do so.

O ran y drafodaeth am garcharorion, codwyd y mater hwn gan Peter Black, Jocelyn Davies a llawer o bobl eraill. Rwyf yn gwybod bod eraill wedi'i godi hefyd. Byddaf yn glir iawn wrth yr Aelodau yn y Siambr heddiw. Mae llawer o'r Aelodau wedi tybio y bydd cael gwared ar statws angen blaenoriaethol yn golygu'n awtomatig na fydd cyn garcharor bellach yn gallu cael llety. Nid yw hyn, yn sicr, yn wir. Bydd y cynigion yn y Bil tai'n creu fframwaith newydd i awdurdodau lleol i weithio gyda gwasanaethau eraill i helpu i atal a lleddfu digartrefedd i bawb, gan gynnwys cyn garcharorion. Mae'r ymchwil yn awgrymu bod yr orddibyniaeth ar ddeddfwriaeth wedi gwanhau'r gwasanaeth a ddarperir, gan greu problemau o ran llety anaddas wrth symud ymlaen. Felly, rwyf yn cydnabod y mater a gododd yr Aelodau ynglŷn ag aildroseddu ac ati, ond, i mi, mae hyn yn fater o angen unigolyn am dŷ, boed yn garcharor ai peidio. Caiff bregusrwydd ei ystyried yn hyn o beth.

Cyn imi dderbyn ymyriad, gadewch imi roi blas i'r Aelodau o'r ymyriadau yr ydym yn gweithio arnynt ar hyn o bryd. Dywedais wrth y pwyllgor am fy nghynnig i ddechrau gweithgor llety ac ailsefydlu carcharorion. Dechreuasom hynny ac rydym yn mapio'r gwasanaethau presennol er mwyn nodi arfer gorau, gan gynnwys cyfleoedd i randdeiliaid i roi adborth am eu profiadau. Mae'r grŵp yn cynnwys llawer o sefydliadau'r trydydd sector a chynrychiolwyr llywodraeth leol a'r sector cyfiawnder troseddol.

Rydym yn edrych ar brosiectau penodol i fenywod i helpu i nodi a mynd i'r afael â rhwystrau systematig i ymgysylltu'n llawn â'r gwasanaethau y maent yn ymdrin â hwy ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn edrych ar lwybrau cydlynol i bob carcharor, o ran cynllun peilot yng ngharchar y Parc.

Fy mwriad yw datblygu safon genedlaethol ar gyfer cymorth i sicrhau bod yr holl garcharorion ag anghenion tai a/neu sy'n agored i niwed yn cael eu hadnabod ac yn cael llwybr cyson i fynd drwy'r broses hon, er mwyn gofalu bod tai addas ar gael iddynt. Cymeraf ymyriad, os yw'r Aelod yn dal i ddymuno imi wneud hynny.

17:51

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Research that the Welsh Government commissioned in 2008 says that accommodation is critical to preventing reoffending, and while it says that accommodation should underpin prisoners once they have been released, it also says that further work needs to be done on prevention measures. You cannot abandon the accommodation and go ahead with the prevention measures; you need to have both together.

Diolch. Mae ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2008 yn dweud bod llety'n hanfodol i atal aildroseddu, ac er ei fod yn dweud y dylai llety fod ar gael i garcharorion ar ôl eu rhyddhau, mae hefyd yn dweud bod angen gwneud gwaith pellach ar fesurau atal. Ni allwch roi'r gorau i'r llety a bwrw ymlaen â'r mesurau atal; mae angen ichi gael y ddau gyda'i gilydd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:52

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Respectfully to the Member and his question, I have demonstrated the fact that we are not abandoning our process in terms of accommodation need. In fact, the whole process is that the current system that the Member alludes to is not actually working. There is a mixture of services. Some services do not even work in the current process, and that is why this working group is essential, in terms of mapping out what is working, what does not work and how we can make that better for all prisoners, regardless of their vulnerability, but remembering that prisoners who are incarcerated and looking towards release will be subject to vulnerability testing, as I have said will be included in elements of the Bill.

Â phob parch i'r Aelod a'i gwestiwn, rwyf wedi dangos nad ydym yn rhoi'r gorau i'n proses o ran yr angen am lety. Yn wir, yr holl broses yw nad yw'r system bresennol y mae'r Aelod yn cyfeirio ati'n gweithio mewn gwirionedd. Mae cymysgedd o wasanaethau. Nid yw rhai gwasanaethau hyd yn oed yn gweithio yn y broses bresennol, a dyna pam y mae'r gweithgor hwn yn hanfodol, o ran mapio'r hyn sy'n gweithio, yr hyn nad yw'n gweithio a sut y gallwn wella hynny i bob carcharor, waeth pa mor agored i niwed ydyw, ond gan gofio y bydd carcharorion sydd wedi'u carcharu ac yn gobeithio cael eu rhyddhau'n wynebu'r profion bregusrwydd y dywedais y byddant wedi'u cynnwys mewn elfennau o'r Bil.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:53

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In terms of vulnerability, it is quite clear from case law that vulnerability is measured against the cohorts. Whereas third sector groups estimate that 70% of prisoners may be vulnerable, the actual case law indicates that a much smaller number than that will be rehoused.

O ran bregusrwydd, mae'n amlwg iawn o gyfraith achosion fod bregusrwydd yn cael ei fesur yn erbyn y carfannau. Er bod grwpiau'r trydydd sector yn amcangyfrif y gallai 70% o garcharorion fod yn agored i niwed, mae'r gyfraith achosion mewn gwirionedd yn dangos y bydd y nifer a gaiff eu hailgartrefu'n llawer llai na hynny.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:53

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The fact of the matter is that the system is broken, Peter, and it does not work. I hope that the Member will be able to agree with me that the fact that we are addressing this issue through a working group will give confidence to people that they will be recognised, and that they will be given a home not because they are a prison leaver, but, if they are vulnerable, they will be considered through the Pereira test and the appropriate provision to enable them to have housing. The prisoner will be given the appropriate services to enable them to go through a housing provision process, but they will not be given more provision than anybody else in the outside world just because they are a former prisoner.

Y ffaith amdani yw bod y system wedi torri, Peter, ac nad yw'n gweithio. Rwyf yn gobeithio y gall yr Aelod gytuno â mi y bydd y ffaith ein bod yn ymdrin â'r mater hwn drwy weithgor yn rhoi hyder i bobl y cânt eu cydnabod, ac y cânt gartref nid oherwydd eu bod yn gadael y carchar, ond, os ydynt yn agored i niwed, y cânt eu hystyried drwy'r prawf Pereira a'r ddarpariaeth briodol i'w galluogi i gael tai. Bydd carcharorion yn cael y gwasanaethau priodol i'w galluogi i fynd drwy broses darparu tai, ond ni chânt fwy o ddarpariaeth nag eraill yn y byd y tu allan dim ond oherwydd eu bod yn gyn garcharorion.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I will pick up on some of the issues around the standards of empty second homes. Again, the Bill is scoped around the provision of a service provision for housing associations and local authorities, but I particularly picked up on the point around standards in the private rented sector. I share Jocelyn Davies's concern around the discharge of duty for homelessness into the private rented sector and how we are able to give assurance that discharge of duty is not into poor accommodation for an individual who has found themselves in homeless provision, and I will look at that through the process of amendments moving forward.

Soniaf am rai o'r materion sy'n ymwneud â safonau ail gartrefi gwag. Unwaith eto, mae'r Bil yn cwmpasu darparu gwasanaeth i gymdeithasau tai ac awdurdodau lleol, ond sylwais yn arbennig ar y pwynt ynglŷn â safonau yn y sector rhentu preifat. Rwyf yn rhannu pryder Jocelyn Davies am gynnal y ddyletswydd o ran digartrefedd yn y sector rhentu preifat a sut y gallwn roi sicrwydd na chaiff unigolyn sydd wedi ei gael ei hun mewn darpariaeth ddigartref ei roi mewn llety gwael, a byddaf yn edrych ar hynny drwy'r broses o welliannau wrth symud ymlaen.

I am grateful to Simon Thomas for bringing forward the CLAC report, and I welcome the proposals by the committee to suggest that we are improving in our drafting, and the policy objectives are much greater in clarity. I will bear in mind the points that the Member raised and will respond to the committee accordingly.

Rwyf yn ddiolchgar i Simon Thomas am gyflwyno'r adroddiad CLAC, ac rwyf yn croesawu'r cynigion gan y pwyllgor sy'n awgrymu bod ein drafftio'n gwella, a bod yr amcanion polisi'n gliriach o lawer. Byddaf yn ystyried y pwyntiau a gododd yr Aelod ac yn ymateb i'r pwyllgor yn unol â hynny.

May I pick up on the amendment laid by the Liberal Democrats? I ask Members to resist that amendment today. I believe the issue around the number of affordable homes—and again, the Member recognises that we have increased our number from 7,500 to an increased target of 10,000 affordable homes—is not just derived from the Welsh Government saying that we want 10,000 more properties. Actually, what this has been about is working with partners to deliver that, and I do not believe that, by having that in the legislation—what the numbers should be—we are helping the situation, given that we rely so heavily on a third party to deliver the appropriate amount of affordable housing moving forward. So, I will not be seeking to support the amendment, nor to introduce an amendment at a further stage.

I have a few more points from other Members, Presiding Officer, if I have the time. On the issue around enforcement, we are addressing that through further amendments, and we will be introducing new amendments to that. I picked up on the point that Peter mentioned around rent-stopping orders, and he was seeking its removal that. It is not my intention to do that, and I am not intending to do that, on the basis that we are looking for a suite of tools to deliver on effective enforcement. I believe that the rent-stopping order could be used effectively, particularly around non-UK-domiciled landlords, in terms of the opportunity to deal with that appropriately.

Finally, Mark Isherwood has raised at every opportunity the issue that the Conservative group does not support the proposals on the private rented sector. That is unfortunate. I recognise that, through my deliberations and conversations with housing and landlord associations, I have always asked the question of how they would therefore deal with bad landlords if they do not know who they are. They cannot answer that question. In fact, the Michael Ball reports that you referred to, of 2011 and 2013, were both prepared by the landlords association, so there is no surprise in the findings. May I make one point? My visit to the Leeds housing association, which was also led by the landlords association, was very positive in terms of our legislation, and it was welcomed.

I seem to have run out of time, Presiding Officer, but, again, I thank Sandy Mewies, Suzy Davies and Julie, who all raised very local points about the way that this Bill will make a change to the way that we operate the housing sector in Wales.

A gaf i sôn am y gwelliant a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol? Gofynnaf i'r Aelodau wrthod y gwelliant hwnnw heddiw. Nid wyf yn credu bod y mater ynghylch nifer y cartrefi fforddiadwy—ac eto, mae'r Aelod yn cydnabod ein bod wedi cynyddu ein nifer o 7,500 i darged uwch o 10,000 o gartrefi fforddiadwy—yn deillio'n unig o'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi dweud yr hoffem gael 10,000 yn rhagor o eiddo. A dweud y gwir, mae hyn wedi bod yn fater o weithio gyda phartneriaid i gyflawni hynny, ac nid wyf yn credu, drwy gael hynny yn y ddeddfwriaeth—yr hyn y dylai'r rhifau fod—ein bod yn helpu'r sefyllfa, o gofio ein bod yn dibynnu cymaint ar drydydd parti i ddarparu'r nifer priodol o dai fforddiadwy wrth symud ymlaen. Felly, ni fyddaf yn cefnogi'r gwelliant, nac yn cyflwyno gwelliant yn ddiweddarach.

Mae gennyf rai pwyntiau gan Aelodau eraill, Lywydd, os oes gennyf amser. O ran gorfodi, rydym yn ymdrin â hynny drwy welliannau pellach, a byddwn yn cyflwyno gwelliannau newydd i hynny. Sylwais ar y pwynt a grybwyllodd Peter am orchmynion atal rhent, ac yr oedd yn gofyn am gael gwared arnynt. Nid dyna yw fy mwriad, ac nid wyf yn bwriadu gwneud hynny, ar y sail ein bod yn chwilio am gyfres o d dulliau o sicrhau gorfodi effeithiol. Rwyf yn credu y gellid defnyddio'r gorchymyn atal rhent yn effeithiol, yn enwedig ymysg landlordiaid sy'n byw y tu allan i'r DU, o ran cael cyfle i ymdrin â hynny'n briodol.

Yn olaf, mae Mark Isherwood wedi cymryd pob cyfle i godi'r ffaith nad yw'r grŵp Ceidwadol o blaid y cynigion ar y sector rhentu preifat. Mae hynny'n anffodus. Rwyf yn cydnabod, drwy fy nhrafodaethau a'm sgysiau â chymdeithasau tai a landlordiaid, fy mod bob amser wedi gofyn sut y byddent felly'n ymdrin â landlordiaid gwael os nad ydynt yn gwybod pwy ydynt. Ni allant ateb y cwestiwn hwnnw. Yn wir, paratowyd adroddiadau Michael Ball y cyfeiriasoch atynt, yn 2011 a 2013, gan gymdeithas y landlordiaid, felly nid yw'r canfyddiadau'n syndod. A gaf i wneud un pwynt? Roedd fy ymweliad â chymdeithas dai Leeds, a oedd hefyd wedi'i harwain gan gymdeithas y landlordiaid, yn gadarnhaol iawn o ran ein deddfwriaeth, ac fe'i croesawyd.

Mae'n ymddangos bod fy amser ar ben, Lywydd, ond, unwaith eto, rwyf am ddiolch i Sandy Mewies, Suzy Davies a Julie; maent i gyd wedi codi pwyntiau lleol iawn am y ffordd y bydd y Bil hwn yn newid y ffordd yr ydym yn gweithredu'r sector tai yng Nghymru.

17:57

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There is objection, therefore I move all voting on this item to voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

## Cynnig i Gytuno ar y Penderfyniad Ariannol mewn perthynas â'r Bil Tai (Cymru)

Cynnig NDM5480 Lesley Griffiths

Y cynnig yw cytuno ar welliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon i'r cyfnod pleidleisio.

*Voting deferred until voting time.*

## Motion to Agree the Financial Resolution in respect of the Housing (Wales) Bill

Motion NDM5480 Lesley Griffiths

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o Fil Tai (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

To propose that the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the Housing (Wales) Bill, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order 26.69, arising in consequence of the Bill.

17:58

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration*

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

17:58

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have no other speakers. You do not wish to reply to the debate, Minister, obviously. I will have to move voting on this item until voting time. The Business Committee agreed that voting would be at the end of business. We are now at that point, and therefore we move straight to the votes.

Nid oes gennyf ddim siaradwyr eraill. Nid ydych yn dymuno ymateb i'r ddadl, Weinidog, yn amlwg. Bydd yn rhaid imi symud pleidleisio ar yr eitem hon i'r cyfnod pleidleisio. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r pleidleisio ar ddiwedd y busnes. Rydym yn awr wedi cyrraedd yr adeg honno, ac felly symudwn yn syth at y pleidleisiau.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Cyfnod Pleidleisio

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5479](#)

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 15, Yn erbyn 24, Ymatal 9.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5479](#)

*Derbyniwyd y cynnis: O blaid 48, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5480](#)

*Derbyniwyd y cynnis: O blaid 48, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

## Voting Time

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5479](#)

*Amendment not agreed: For 15, Against 24, Abstain 9.*

[Result of the vote motion NDM5479](#)

*Motion agreed: For 48, Against 0, Abstain 0.*

[Result of the vote motion NDM5480](#)

*Motion agreed: For 48, Against 0, Abstain 0.*

17:59

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That brings today's business to a close.

Daw hynny â busnes heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:59.*

*The meeting ended at 17:59.*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)